Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>19 CHWEFROR 2018<br>1.00 o'r gloch yp** | **MONDAY<br>19 FEBRUARY 2018<br>1.00 pm** |
| **SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI** | **COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI** |

| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

John Griffith, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim materion brys ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 29 Ionawr, 2018.

**4** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 9 - 20)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**5** **CYNLLUN RHANBARTHOL – ASESIAD POBLOGAETH GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 21 - 154)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

**6** **TAI GOFAL YCHWANEGOL, SEIRIOL** (Tudalennau 155 - 190)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

**7** **ADRODDIAD CYNNYDD – GWASANAETH PLANT A THEULUOEDD** (Tudalennau 191 - 316)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Plant.

**8** **POLISI IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL DIWYGIEDIG** (Tudalennau 317 - 332)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr, 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd) *(o eitem 7 ymlaen)*<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, John Griffith, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, R G Parry, OBE, FRAgS, Dafydd Rhys Thomas |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion)<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Alun Mummery |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd R.Llewelyn Jones |

---

### 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO.

Dim.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr, 2017 i'w cadarnhau.

**Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr, 2017 fel rhai cywir.**

DRAFT

## 4. COFNODION Y PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr, 2017 i'w mabwysiadu.

**Penderfynwyd mabwysiadu cofnodion drafft cyfarfod y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr, 2017.**

## 5. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Chwefror, 2018 hyd at fis Medi, 2018.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar newidiadau a wnaed i'r Flaenraglen Waith ers y cyfnod adrodd blaenorol fel a ganlyn -

- **Eitemau sy'n newydd i'r Flaenraglen Waith**

    - Eitem 1 - Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, dirprwyir y penderfyniad i'r Aelod Portffolio perthnasol.
    - Eitem 2 - Strategaeth Iechyd Meddwl: Bwrdd Iechyd, dirprwyir y penderfyniad i'r Aelod Portffolio perthnasol.
    - Eitem 14 - Rhenti 2018/19 – ystyrir gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror, 2018.
    - Eitem 20 - Y Cynllun Iechyd a Diogelwch – ystyrir gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror, 2018.
    - Eitem 21 - Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2016/17, dirprwyir y penderfyniad i'r Aelod Portffolio perthnasol.
    - Eitem 26 - Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn: Datganiad Cyfrifon 2016/17 – ystyrir gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod 26 Mawrth, 2018.
    - Eitem 33- Cynllun Adfywio Gogledd Cymru a Chyllid TRIP – ystyrir gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 26 Mawrth, 2018.
    - Eitem 38 - Arolygiad AGGCC o'r Gwasanaethau Plant yn Ynys Môn: Cynllun Gwella Adroddiad Cynnydd Chwarterol – ystyrir gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ym Mai, 2018.
    - Eitem 43 - Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter 1 2018/19 – ystyrir gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ym mis Medi, 2018
    - Eitem 44 - Adroddiad Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf Chwarter 1 2018/19 – ystyrir gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ym mis Medi, 2018
    - Eitem 45 - Arolygiad AGGCC o'r Gwasanaethau Plant yn Ynys Môn: Cynllun Gwella Adroddiad Cynnydd Chwarterol – ystyrir gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ym mis Medi, 2018.

- **Eitemau a ohiriwyd i ddyddiad diweddarach ar y Rhaglen Waith**

DRAFT

- Eitem 19 - Moderneiddio Ysgolion: Adroddiad Cynnydd (i gynnwys ysgolion gyda llai na 120 o ddisgyblion) – eitem wedi'i haildrefnu i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith ar 19 Chwefror, 2018 yn hytrach na 29 Ionawr, 2018.
- Eitem 29 - Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl - eitem wedi'i haildrefnu i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith ar 26 Mawrth, 2018 yn hytrach na 19 Chwefror, 2018.
- Eitem 30 - Cynllun Busnes 30 Blynedd y Cyfrif Refeniw Tai a rhaglen gyfalaf 2018/19 - wedi'u haildrefnu i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith ar 26 Mawrth, 2018 yn hytrach na 19 Chwefror, 2018.
- Eitem 31 Moderneiddio Ysgolion yn Ardal Llangefni: Bydd yr adroddiad yn dilyn yr ail ymgynghoriad yn cael sylw gan y Pwyllgor Gwaith ar 26 Mawrth, 2018 yn hytrach na 29 Ionawr, 2018.

Dywedodd y Swyddog hefyd fod dwy eitem arall wedi eu haildrefnu ers cyhoeddi'r Rhaglen Waith, sef Eitem 18 – y Strategaeth Taclo Tlodi (cymeradwyo strategaeth ddrafft ar gyfer ymgynghori) a gyflwynir yn awr i'r Pwyllgor Gwaith ar 30 Ebrill, 2018 yn lle 19 Chwefror, 2018, ac eitem 39 – y Strategaeth Taclo Tlodi (cymeradwyo'r ddogfen yn dilyn yr ymgynghoriad) a gyflwynir i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf, 2018 yn lle Mai, 2018.

Eglurodd y Cadeirydd, er gwybodaeth y rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y mater, y bydd Eitem 31 ar y rhaglen waith mewn perthynas â moderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni yn delio â dalgylchoedd Y Graig a Thalwrn.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn deall fod y Pennaeth Dysgu yn bwriadu adolygu pennawd yr adroddiad dan eitem 19 ar y rhaglen waith (Moderneiddio Ysgolion: Adroddiad Cynnydd i gynnwys ysgolion gyda llai na 120 o ddisgyblion) i adlewyrchu pwrpas yr adroddiad a gyflwynir i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Chwefror, 2018.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Chwefror i Fedi, 2018 yn amodol ar y newidiadau ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 6. YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH YNYS MÔN - CYFRIFON A DIWEDDARIAD

Cyflwynwyd i'w ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 a oedd yn ymgorffori Adroddiad a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gyfer 2014/15 a 2015/16.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod yr adroddiad a gyflwynwyd yn rhoi trosolwg ar gefndir Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn, gan gynnwys gwybodaeth am statws cyfreithiol yr Ymddiriedolaeth a'r gwahanol elfennau ynddi. Mae hefyd yn rhoi crynodeb o berfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth yn 2014/15 a 2015/16. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys tair cronfa – Cronfa David Hughes (sy'n cynnwys nifer o blotiau o dir mân-ddaliadau a bythynnod, ynghyd â buddsoddiadau eraill) a Chronfa

DRAFT

Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 a Chronfa Ymddiriedolaeth Addysg Ynys Môn 2/3 - y ddwy ohonynt yn gronfeydd cyfyngedig sy’n darparu budd addysgol penodol. Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid y gellir gweld manylion y cronfeydd unigol o fewn yr Ymddiriedolaeth yn adran 2.1 yr adroddiad; cadarnhaodd na roddwyd unrhyw grantiau o'r ddwy gronfa gyfyngedig yn 2014/15 nac yn 2015/16 oherwydd cynlluniau'r Ymddiriedolaeth i adnewyddu'r mân-ddaliadau yr oedd gwir angen eu hatgyweirio a'u gwella. Cymeradwyodd yr adroddiad i'r Pwyllgor.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 fod Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Terfynol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2016/17 yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd ac y cyflwynir nhw i'r Pwyllgor Gwaith i'w cymeradwyo gyda hyn.

**Penderfynwyd cymeradwyo’r Adroddiad Blynyddol a’r Cyfrifon ar gyfer Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn am 2014/15 a 2015/16.**

## 7. STEM GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd i sylw’r Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn ymgorffori gwybodaeth a phapurau ategol mewn perthynas â phrosiect STEM Gogledd Cymru a'i bwrpas .’Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ar gyfer cyfranogiad Ynys Môn yn y prosiect a’i gyfraniad iddo.

Dywedodd y Cadeirydd mai cwricwlwm yw STEM sy’n seiliedig ar y syniad o addysgu myfyrwyr mewn pedair disgyblaeth benodol, sef Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg. Mae STEM Gogledd Cymru yn brosiect 4 blynedd sydd yn werth £2,000,000 ac sy'n gwneud cais am gymorth ariannol o Gronfa Gymdeithasol Ewrop, sef Blaenoriaeth Echel 3: Cyrhaeddiad a Chyflogaeth Ieuenctid, a hynny er mwyn cynyddu nifer y plant rhwng 11 a 19 sy’n dilyn pynciau STEM ac i wella eu canlyniadau ynddynt. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar Ogledd-Orllewin Cymru, Ynys Môn, Conwy a Gwynedd trwy ystod o ymyriadau a fydd yn ategu gwasanaethau. Bydd STEM Gogledd yn cael ei arwain gan Gyngor Gwynedd a'i gyd-fuddiolwyr, sef Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r adroddiad yn crynhoi trefniadau llywodraethu arfaethedig y prosiect ac yn cysylltu'r prosiect â’r cyd-destun Ynys Ynni. Ceir manylion pellach yn Atodiad C i'r adroddiad. Mae’r Cynllun Busnes STEM yn amlinellu amcanion y prosiect o ran rheoli a chyflawni, tra bod Atodiad B yn rhoi trosolwg ar allbynnau arfaethedig y prosiect.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd fod buddsoddi yn y prosiect STEM Gogledd yn hynod o bwysig yng nghyd-destun y datblygiadau Ynys Ynni arfaethedig; efallai y bydd y prosiect yn helpu i ymgysylltu â'r plant a'r bobl ifanc hynny na fyddai fel arall yn cael eu denu i’r pynciau STEM ac mae hynny’n cyd-fynd ag amcanion addysg yr Awdurdod ei hun. Disgwylir i’r datblygiadau Ynys Ynni ddod â llu o gyfleoedd dros y blynyddoedd nesaf, sef rhai y bydd angen ystod eang o sgiliau a galluoedd i fanteisio arnynt. Yn y cyd-destun hwn, mae’r prosiect STEM Gogledd yn hollbwysig felly. Yn ogystal, mae’r sector preifat wedi dangos

DRAFT

diddordeb yn y prosiect a, phe bai'r diddordeb hwnnw'n troi'n gymorth ariannol, gallai leihau lefel yr arian cyfatebol y byddai angen i'r Cyngor ei gyfrannu.

Dywedodd yr Is-Gadeirydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau y dylid pwysleisio bod angen ymgorffori'r amcanion a'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiect STEM Gogledd o fewn y system addysg prif ffrwd i fod yn rhan annatod o'r broses fel bod cyfranogiad disgyblion mewn pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg) yn cael ei annog yn hytrach na chael ei weld fel rhywbeth y mae angen buddsoddiad ychwanegol ar ei gyfer. Bu ymdrechion yn y gorffennol i geisio annog mwy o ddisgyblion i ddilyn pynciau sy'n gysylltiedig â gwyddoniaeth a thechnoleg; dylai fod yn nod y tro hwn i sicrhau bod y syniadau a amlygir gan y prosiect STEM yn gwreiddio mewn arferion addysg prif ffrwd.

**Penderfynwyd -**

- **Cefnogi a chymeradwyo partneriaeth Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) ym mhrosiect STEM Gogledd Cymru a ariennir drwy'r UE (gyda'r pwrpas o gynyddu cyrhaeddiad pobl ifanc 11-16 oed mewn pynciau STEM).**
- **Bod £150,000 yn cael ei glustnodi fel cyfraniad CSYM (£37,500 y/f dros 4 blynedd o 2018 i 2022).**
- **Mai'r Gwasanaeth Addysg fydd yn gyfrifol am y cyllid, dylanwadu ar gyflawniad, allbynnau a gwaith monitro.**
- **Bod y Gwasanaeth Addysg yn adrodd yn ôl ar y cynnydd bob tri mis i Ddeilyddion Portffolio Addysg a Rheoleiddio a Datblygu Economaidd; bob chwe mis i'r Bwrdd Trawsnewid Addysg ac yn flynyddol i Sgriwtini.**

## 8. YR A545 O BORTHAETHWY I FIWMARES

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo darparu cyllid i benodi peirianwyr ymgynghorol i ddylunio gwelliannau i gryfhau ffordd yr A545.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod hanes o dirlithriadau ar hyd yr A545 rhwng Glyn Garth a Biwmares, a bod y diwethaf ohonynt wedi digwydd ar 22 Tachwedd, 2017 ac wedi arwain at flocio ceuffos a difrod gan ddŵr i wal gynnal a gardd. Dechreuodd gwaith adfer ar unwaith fel y gallai'r ffordd ailagor cyn gynted ag y bo modd a disgwylir y bydd y gwaith angenrheidiol arall wedi ei gwblhau erbyn yn gynnar ym mis Chwefror. Rhaid canmol y Gwasanaeth Priffyrdd am ei ymateb prydlon. Erys yr angen i wneud gwaith adfer i sefydlogi'r llethr mewn cysylltiad â thirlithriad Mynwent Biwmares a ddigwyddodd yn 2015. Amcangyfrifir y bydd y gwaith hwn yn costio £180k. Mae'r trafodaethau cychwynnol a gafwyd gyda'r Gweinidog ar gyfer yr Economi ac Isadeiledd yn Llywodraeth Cymru, ynghyd â Swyddogion Llywodraeth Cymru, yn nodi y byddai cyllid ar gael dros y blynyddoedd nesaf i wneud cyfuniad o waith sefydlogi llethrau a lledu'r ffordd i gryfhau a gwella rhannau o'r A545 o Glyn Garth i Fiwmares. Mae'r tirfeddiannwr sydd biau'r tir uwchlaw ac islaw'r A545 wedi nodi ei fod yn gefnogol i welliannau o'r fath a'i fod yn barod i ryddhau'r tir angenrheidiol.

DRAFT

Disgwylir y bydd y gwaith dylunio a'r cyfraniad tuag at y gwaith ym mynwent Biwmares yn costio oddeutu £95k. Y dewis arall yn lle gwella a chryfhau'r A545 yw adeiladu ffordd newydd ar gost o tua £30m.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) mai'r nod yw bwrw ymlaen â gwaith i sefydlogi'r llethrau ym Mynwent Biwmares ym mis Chwefror, 2018 yn amodol ar gael cyllid gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Tref Biwmares a Chyngor Sir Ynys Môn.

Mynegodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd ac Aelod Lleol ar gyfer yr ardal eu diolchiadau i'r Gwasanaeth Priffyrdd am ei ymdrechion ar ôl y tirlithriad ym mis Tachwedd. Dywedodd fod angen dod o hyd i ateb hirdymor i'r problemau ar yr A545 i wneud y ffordd yn ddiogel i'r dyfodol a hefyd i sicrhau bod tref hanesyddol Biwmares - yr effeithiwyd yn arbennig ar ei thrigolion gan y tirlithriadau diweddar - yn parhau i fod yn hygyrch. Mae'r ffordd yn ffordd strategol bwysig ac mae'n rhan o'r profiad o ymweld â Biwmares. Fodd bynnag, mae'r gymuned ar adegau yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn teimlo bod yr ardal wedi cael ei hynysu oherwydd tirlithriadau rheolaidd ar yr A545. Y teimlad yn lleol yw y dylid ymgymryd â gwaith ar Fynwent Biwmares fel blaenoriaeth. Gofynnodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd am eglurhad mewn perthynas â'r materion canlynol -

- Yr amserlen ar gyfer comisiynu ymgynghorwyr dylunio i ymgymryd â'r gwaith gwella;
- Y rhagolygon realistig o gael ffordd newydd;
- Dichonoldeb adeiladu ffordd arall ar stiltiau o safbwynt dylunio a pheirianneg

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) ei fod o'r farn ei bod yn annhebygol y byddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi ffordd newydd am gost amcangyfrifedig o £30m. Byddai'n rhaid cynnal yr A545 beth bynnag, a hynny er mwyn y tai a'r traffig yn yr ardal honno. Byddai cost adeiladu ffordd ar stiltiau hefyd yn debygol o fod yn llawer rhy ddrud i'w wneud. O ran yr amserlen, os bydd cyllid yn caniatáu, y bwriad yw dechrau'r gwaith ar y Fynwent y mis nesaf a bwrw ymlaen wedyn ar y sail bod cynlluniau yn barod i fynd pan fydd unrhyw danwariant ar gael, a hynny fel y gellir gweithredu'r cynlluniau hynny pan fydd arian ar gael. Bydd yr holl opsiynau'n cael eu hystyried ar gyfer gwella'r A545 bresennol a dyna pam y comisiynwyd yr ymgynghorwyr dylunio.

**Penderfynwyd bod y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo yn derbyn cyllid o £95k i benodi peirianwyr ymgynghorol i ddylunio gwelliannau i gryfhau'r A545 rhwng Glyn Garth a Biwmares, a hefyd i gyfrannu tuag at y gost o gryfhau'r llethr islaw Mynwent Biwmares ar y cyd â Llywodraeth Cymru a Chyngor Tref Biwmares.**

DRAFT

## 9. ROVACABIN

Cyflwynwyd i sylw’r Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) yn gofyn i’r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo cyllid fel y gellir symud y Rovacabin oddi yno.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod staff o'r Rovacabin wedi symud i brif swyddfeydd y Cyngor fel rhan o broses Drawsnewid y Cyngor, gan arwain at arbedion o tua £17k y flwyddyn ar gostau cyfleustodau ac o gwmpas £9k ar gost cynnal a chadw ar gyfer adeilad sy'n dirywio. Hysbysebwyd bod adeilad y Rovacabin ar werth ond ychydig iawn o ddiddordeb a ddangoswyd ynddo. Gwerthwyd y rhan fwy newydd am £5k a'i symud oddi yno. O ystyried y diffyg diddordeb yn y rhan hŷn ac o gofio cyflwr yr adeilad, bydd angen cael gwared arno a byddai hynny’n costio £28k, sef y swm y gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo. Mae'r arian ar gael o'r arbedion a grëwyd gan y Cynllun Gweithio’n Gallach dan y broses Drawsnewid.

Tynnodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo sylw at y ffaith bod newid wedi ei wneud i’r argymhelliad gwreiddiol yn yr adroddiad ysgrifenedig a oedd yn argymell cael gwared ar y Rovacabin ac ailwynebu'r ardal i ddarparu lle parcio ychwanegol. Nid argymhellir darparu lle parcio bellach, dim ond cael gwared ar y Rovacabin, Dyna’r rheswm am y swm is o £28k y gofynnir i’r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo (yn hytrach na'r £48k a ddyfynnwyd yn yr adroddiad). Bydd y mater lle parcio ychwanegol yn cael sylw eto rhyw dro.

**Penderfynwyd bod £28k yn cael ei ddarparu i gael gwared ar y Rovacabin. Dylai'r cyllid fod ar gael o'r arbediad sydd wedi ei greu gan y Broses Drawsnewid, yn benodol Gweithio’n Gallach.**

## 10. DIWYGIO CYFANSODDIAD Y CYNGOR – DIRPRWYO I'R PENNAETH GWASANAETH (TAI)

Cyflwynwyd i’w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro yn nodi'r diwygiadau y bwriedir eu gwneud i Gyfansoddiad y Cyngor er mwyn hwyluso menter tai newydd.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol fod y Pwyllgor Gwaith, yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr, 2017, wedi cytuno y dylai'r Cyngor gaffael tai cymdeithasol ychwanegol trwy becynnau dylunio ac adeiladu gyda datblygwyr. Ar hyn o bryd, mae caffael a chael gwared ar dir / eiddo wedi ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) o dan y Cynllun Dirprwyo a'r Cynllun Rheoli Asedau. Nid yw'r pwerau hyn yn ymestyn i dai cymdeithasol a'r Cyfrif Refeniw Tai sy’n golygu bod angen dirprwyo awdurdod yn yr un modd i'r Pennaeth Gwasanaeth (Tai) er mwyn hwyluso'r fenter a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 18 Rhagfyr, 2017. Mae Atodiad B i'r adroddiad yn cynnwys y Cynllun Dirprwyo cyfredol i'r Pennaeth Gwasanaeth (Tai) ac mae’r diwygiadau a gynigir wedi eu hamlygu ynddo, Mae’r newid i'r geiriad yn rhoi pwerau ychwanegol i'r Pennaeth Gwasanaeth (Tai) ac yn egluro y

DRAFT

defnyddir y pwerau hyn yn unol â chynlluniau, polisïau a rheolau cyllideb a chaffael y Cyngor, gan gynnwys ymgynghori. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried y newidiadau hyn a'u cymeradwyo i'r Cyngor Llawn.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig a nodir yn Atodiad B yr adroddiad a chymeradwyo'r fath newidiadau i'r Cyngor Llawn.**

## 11. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Ystyriwyd a phenderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 i gau y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y byddai'n golygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A i'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.

## 12. TREFNIADAU DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID (DOLS)

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion) yn nodi'r trefniadau arfaethedig i alluogi'r Cyngor i gwrdd â gofynion DoLS.

**Penderfynwyd cymeradwyo argymhellion yr adroddiad.**

## 13. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Ystyriwyd a phenderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 i gau y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y byddai'n golygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A i'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.

## 14. UNEDAU DIWYDIANNOL

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith , adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn nodi'r trefniadau cyllido arfaethedig ar gyfer adeiladu unedau diwydiannol newydd ym Mhenrhos, Caergybi.

**Penderfynwyd cymeradwyo argymhellion yr adroddiad.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi Huws**
**Cadeirydd**

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **19 Chwefror 2018** |
| **Pwnc:** | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaenraglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaenraglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Mawrth – Hydref 2018;**

Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;

Nodi bod blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| - |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

<table>
<tr><th colspan="2">E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?</th><th>Beth oedd eu sylwadau?</th></tr>
<tr><td>1</td><td>Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)<br>(mandadol)</td><td rowspan="6">Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i chylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru.</td></tr>
<tr><td>2</td><td>Cyllid / Adran 151<br>(mandadol)</td></tr>
<tr><td>3</td><td>Cyfreithiol / Swyddog Monitro<br>(mandadol)</td></tr>
<tr><td>5</td><td>Adnoddau Dynol (AD)</td></tr>
<tr><td>6</td><td>Eiddo</td></tr>
<tr><td>7</td><td>Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)</td></tr>
<tr><td>8</td><td>Sgriwtini</td><td>Bydd Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn llywio rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini.</td></tr>
<tr><td>9</td><td>Aelodau Lleol</td><td>Amherthnasol.</td></tr>
<tr><td>10</td><td>Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill</td><td>Amherthnasol.</td></tr>
</table>

**  Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **FF - Atodiadau:** |
|---|
| Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith: Mawrth – Hydref 2018. |

| **G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

**BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Mawrth – Hydref 2018

Diweddarwyd 8 Chwefror 2018

Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaenraglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaenraglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Mawrth – Hydref 2018** ar y tudalennau dilynol.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2018

Diweddarwyd 8 Chwefror 2018

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mawrth 2018** | | | | | | | |
| 1 | **Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2016/17**<br><br>Cymeradwyo'r adroddiad. | Deilydd Portffolio Gwasnaethau Cymdeithasol | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Mawrth 2018 | |
| | | | | | | | |
| 2 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |
| 3 | **Cynllun Llesiant - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** | | Prif Weithredwr | Dr Gwynne Jones<br>Prif Weithredwr<br><br>Cyng Llinos Medi | 8 Mawrth 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | I'w gadarnhau |
| 4 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2017/18 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | 12 Mawrth 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH
Cyfnod: Mawrth – Hydref 2018

Diweddarwyd 8 Chwefror 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Polisi Dewisol Taliadau Tai 2018/19**<br><br>Adrodd ar weinyddiaeth y polisi ac unrhyw newidiadau yr argymhellir – pennu polisi. | | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |
| 6 | **Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn – Datganiad Cyfrifon 2016/17** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |
| 7 | **Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid 2018 – 2021** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |
| 8 | **Storfa Cynnal a Chadw Tai**<br><br>Derbyn cymeradwyaeth i symud ymlaen i arwyddo cytundeb gyda darparwr | Penderfyniad ynghlwm a Chynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai | Gwasanaethau Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018<br>(I'w gadarnhau) | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH
Cyfnod: Mawrth – Hydref 2018

Diweddarwyd 8 Chwefror 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Cynllun Comisiynu Rhaglen Cefnogi Pobl**<br><br>Cymeradwyaeth cyn ei gyrru ymalen i'r Pwyllgor Rhanbarthol | Cynllun Cefnogi Pobl yn fater statudol | Gwasanaethau Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |
| 10 | **Cynllun Busnes 30 mlynedd Cyfrif Refeniw Tai a rhaglen gyfalaf 2018-2019**<br><br>Cymeradwyaeth cyn ei gyrru ymlaen gyda chais am grant Lwfans Atgyweiriadau Mawr i Lywodraeth Cymru | Cyfrif Refeniw Tai yn fater statudol | Gwasanaethau Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |
| 11 | **Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni – Sylwadau yn dilyn yr ail ymgynghoriad (Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn)** | | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | 12 Mawrth 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |

Tudalen 15

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2018

Diweddarwyd 8 Chwefror 2018

Tudalen 16

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | **Moderneiddio Ysgolion – Ardal Seiriol** | | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | 12 Mawrth 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018<br>(I'w gadarnhau) | |
| 13 | **Asesiad Digonolrwydd Chwarae** | | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | 12 Mawrth 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |
| 14 | **Cynllun Adfywio Gogledd Cymru a Chyllid TRIP**<br><br>Cefnogi cynigion gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Cefnogaeth y Pwyllgor Gwaith ei angen | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dewi Lloyd (Rheolwr Adfywio)<br><br>Cyng. Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Mawrth 2018 | |
| **Ebrill 2018** | | | | | | | |
| 15 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Ebrill 2018 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2018

Diweddarwyd 8 Chwefror 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 16 | **Strategaeth Taclo Tlodi**<br><br>Cymeradwyo strategaeth ddrafft ar gyfer mynd allan i ymgynghori. | | Gwasanaethau Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Ebrill 2018 | |
| 17 | **Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni – Adroddiad yn dilyn yr ymgynghoriad statudol (Ysgolion Corn Hir, Bodffordd a Henblas)** | | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | 23 Ebrill 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Ebrill 2018 | |
| | **Mai 2018** | | | | | | |
| 18 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | Mehefin 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2018 | |
| 19 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2017/18 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Mehefin 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2018

Diweddarwyd 8 Chwefror 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 20 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2017/18 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2018 | |
| 21 | **Arolwg AGGCC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2018 | |
| **Mehefin 2018** | | | | | | | |
| 22 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>.. Mehefin 2018 | |
| **Gorffennaf 2018** | | | | | | | |
| 23 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>.. Gorffennaf 2018 | |

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

**BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Mawrth – Hydref 2018

Diweddarwyd 8 Chwefror 2018



| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 24 | **Strategaeth Taclo Tlodi**<br><br>Cymeradwyaeth ar y ddogfen yn dilyn cyfnod o ymgynghori | O fewn rhaglen weithredu Cynllun Corfforaethol y Cyngor | Gwasanaethau Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Gorffennaf 2018 (I'w gadarnhau) | |
| | | | | **Medi 2018** | | | |
| 25 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>.. Medi 2018 | |
| 26 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2018/19 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | 3 Medi 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2018 | |
| 27 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2018/19 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng John Griffith | 3 Medi 2018 | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2018

Diweddarwyd 8 Chwefror 2018

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 28 | **Arolwg AGGCC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2018 | |
| **Hydref 2018** | | | | | | | |
| 29 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Hydref 2018 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **19/02/2018** |
| **Pwnc:** | **Cynllun Rhanbarthol Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Llinos Medi Huws** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Alwyn Rhys Jones – Pennaeth Gwasanaethau Oedolion**<br>**Fôn Roberts – Pennaeth Gwasanethau Plant** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Dafydd Bulman – Rheolwr Busnes a Thrawsnewid Strategol**<br>**01248 752013 Dafyddbulman@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Holl Aelodau** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno Cynllun Rhanbarthol Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru. Y cynllun yw'r cynllun ardal ar y cyd sy'n ofynnol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gofal a Chymorth a'r Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017.

**2 Argymhelliad / camau sydd eu hangen gan y Pwyllgor Gwaith**

2.1 Cymeradwyo Cynllun Rhanbarthol Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru

**3 Gwybodaeth gefndirol / rhesymau am yr argymhellion**

3.1 Rhaid i awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd yn ardal Gogledd Cymru gynhyrchu cynllun ardal ar y cyd mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth erbyn 1 Ebrill 2018. Fe ddylai fod yn gynllun pum mlynedd. Yng Ngogledd Cymru, rydym wedi cytuno i alw'r cynllun yn 'Cynllun Rhanbarthol Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru' er mwyn osgoi dryswch rhwng hwn a'r tri bwrdd iechyd yn yr ardal.

3.2 Mae’r arweiniad statudol yn nodi:

“Pan fo adroddiad cyfun ar asesiad o’r boblogaeth wedi’i gynhyrchu, dylai’r awdurdodau lleol a’r byrddau iechyd lunio cynllun ardal ar y cyd. Rhaid i’r cynlluniau ardal ar y cyd hyn roi disgrifiad o ystod a lefel y gwasanaethau a fydd yn cael eu darparu neu eu trefnu i ymateb i’r anghenion am ofal a chymorth, gan gynnwys anghenion gofalwyr am gymorth, fel a nodwyd yn yr adroddiad cyfun ar yr asesiad o’r boblogaeth.

Rhaid i gynlluniau ar y cyd ar gyfer ardal ganolbwyntio ar y gwasanaethau integredig a gynlluniwyd mewn ymateb i bob un o’r themâu craidd a nodwyd yn yr asesiad o’r boblogaeth. Fel rhan o hyn, mae’n rhaid i gynlluniau ar y cyd gynnwys:

•y camau y bydd y partneriaid yn eu cymryd ynglŷn â phrif flaenoriaethau’r byrddau partneriaeth rhanbarthol o ran integreiddio;

•manylion y cronfeydd cyfun sydd i’w sefydlu mewn ymateb i’r asesiad o’r boblogaeth;

•y modd y bydd gwasanaethau yn cael eu caffael neu eu trefnu, gan gynnwys drwy fodelau darpariaeth amgen;

•manylion y gwasanaethau atal a fydd yn cael eu darparu neu eu trefnu;

•y camau sy’n cael eu cymryd ynglŷn â darparu gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau cymorth;

•y camau y mae angen eu cymryd i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.”

3.3 Cynhyrchodd Gofal Cymdeithasol Cymru a Llywodraeth Cymru dempled ar gyfer y cynllun, templed yr ydym ni wedi’i ddefnyddio fel sail ar gyfer cynllun rhanbarthol drafft Gogledd Cymru. Roedd drafft cyntaf y cynllun yn seiliedig ar ganlyniadau’r asesiad poblogaeth a'r hyn sy’n rhaid i ni ei wneud yn gyfreithiol ac fe’i cymeradwywyd gan y Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol ar 30 Mehefin 2017 a’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar 21 Gorffennaf 2017.

3.4 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y cynllun drafft rhwng 11 Awst a 17 Tachwedd. Y rheswm dros ymgynghori ar fersiwn gynnar o'r cynllun drafft oedd er mwyn cynnwys cynifer o bobl â phosibl yn y gwaith o ysgrifennu a llunio’r cynllun yn fuan yn ystod y broses o’i gynhyrchu. Mae canlyniadau’r ymgynghoriad wedi eu cael eu hymgyrffori mewn drafft diwygiedig o’r cynllun ac mae adroddiad llawn ar yr ymgynghoriad wedi cael ei gynhyrchu.

**4 Cymeradwyaeth / Craffu**

4.1 Y llwybr arfaethedig ar gyfer yr adroddiad yw:

- Briffio Aelodau ar 1 Chwefror.
- Cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Gwaith ar 19 Chwefror 2018.

**5 Goblygiadau o ran Adnoddau**

5.1 Mae Cyd Gronfa Gwella Gwasanaethau Llesiant a Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru yn ariannu Rheolwr Prosiect Rhanbarthol i gefnogi'r prosiect a'r costau cysylltiedig gan gynnwys cyfieithu ac ymgysylltiad arbenigol.

5.2 Mae cost i'r awdurdodau lleol, BIPBC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran amser staff i gefnogi'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys staff i wneud gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, staff ac aelodau etholedig a staff i gefnogi'r gwaith o ysgrifennu'r asesiad poblogaeth a'r cynllun rhanbarthol.

5.3 Bydd goblygiadau o ran adnoddau er mwyn gallu darparu'r blaenoriaethau hyn yn y cynllun rhanbarthol. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn y cynllun ac mewn cynlluniau cwmpasu a darparu manwl sydd wedi cael eu paratoi ar gyfer pob blaenoriaeth.

**6 Risgiau**

6.1 Y risg na fydd y cynllun yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Fel mesur lliniaru, mae'r adroddiad yn seiliedig ar y templed a gynhyrchir gan Ofal Cymdeithasol Cymru ac rydym yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru drwy'r grŵp arweinwyr rhanbarthol.

6.2 Y risg na fydd y cynllun yn bodloni anghenion y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gofalwyr a phobl sydd angen gofal a chymorth. Fel mesur lliniaru, rydym wedi ymgynghori ac ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid.

6.3 Y risg na fydd unrhyw gapasiti yn yr ardal i ddarparu unrhyw flaenoriaethau ychwanegol neu ehangach yn ogystal â blaenoriaethau presennol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

| | |
|---|---|
| **7** | **Gyrwyr a Goblygiadau** |
| 7.1 | Mae Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ac adroddiad ymgynghori wedi eu cwblhau ar gyfer y cynllun rhanbarthol. Bydd angen cynnal Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb pellach wrth i gynlluniau manwl gael eu datblygu yn unol â phob un o'r blaenoriaethau strategol. |
| 7.2 | Bydd y cynllun yn cael effaith ar strategaethau gwrthdlodi drwy geisio gwella'r ffordd y bydd gofynion iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu bodloni. Mae cysylltiadau cryf rhwng tlodi ac anghydraddoldebau iechyd a bydd y gwaith hwn o gymorth i'w ddatrys. Mae cysylltiadau â throsedd ac anrhefn drwy'r bennod ar drais yn erbyn merched, cam-driniaeth ddomestig a thrais rhywiol. |
| 7.3 | Bydd yr adroddiad hefyd yn ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys cynaliadwyedd. Rydym wedi cynnal asesiad effaith ar lesiant mewn perthynas â'r y cynllun hwn. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Rhaid i Bwyllgor Gwaith pob awdurdod lleol gymeradwyo'r Cynllun Rhanbarthol Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cyflwynwyd i'r UDA ar 22/1/18 |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Cyflwynwyd i'r UDA ar 22/1/18 |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Cyflwynwyd i'r UDA ar 22/1/18 |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amh |
| **5** | **Eiddo** | Amh |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Amh |
| **7** | **Caffael** | Amh |
| **8** | **Sgriwtini** | Amh |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Amh |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Amh |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Amh |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Amh |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Amh |
| **4** | **Amgylcheddol** | Amh |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Asesiad Effaith Llesiant Cynllun Rhanbarthol Gogledd Cymru (yn cynnwys yr asesiad effaith ar gydraddoldeb) |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1 - Cynllun Rhanbarthol Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru 2018 – 2023<br>Atodiad 2 – Adroddiad Ymgynghori<br>Atodiad 3 – Adroddiad ar yr Asesiad o'r Effaith ar Lesiant |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Dim papurau pellach |

CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

# Cynllun Rhanbarthol Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru 2018 i 2023

**Fersiwn Ddrafft 0.11**

Draft

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Y ddogfen hon yw'r cynllun ardal ar y cyd sy'n ofynnol gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015 a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) Cymru 2017.

**Nodiadau ar y cynllun rhanbarthol drafft**

Dyma'r drafft terfynol a luniwyd i'w thrafod a'i chymeradwyo gan y chwe chyngor yng ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae rhannau mewn glas i'w gweld trwy gydol y ddogfen ac mae hyn i nodi lle bydd angen ychwanegu dolenni ac atodiadau cyn cyhoeddi'r ddogfen.

Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg ar 1 Ebrill 2018 yn www.cydweithredfagogleddcymru.cymru

Drafft

## Cysylltu â ni

Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru

Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN

E-bost: sarah.bartlett@denbighshire.gov.uk

Ffôn: 01824 712432

www.cydweithredfagogleddcymru.cymru

# Cynnwys


Cyflwyniad .... 4
Rhan A: Blaenoriaethau Rhanbarthol .... 13
Rhan B: Ymateb i benodau a themâu craidd yr asesiad poblogaeth .... 19
Plant a phobl ifanc .... 20
Pobl hŷn .... 25
Iechyd, anabledd corfforol a nam ar y synhwyrau .... 29
Anableddau dysgu .... 32
Iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau .... 34
Gofalwyr .... 38
Trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol .... 40
Sefydliadau diogel .... 42
Cyn-filwyr .... 45
Tai a digartrefedd .... 47
Anhwylder y Sbectrwm Awtistig (ASD) .... 49
Rhan C: Canfyddiadau cyffredinol .... 51
Rhan D: I gael rhagor o wybodaeth .... 57


Draft

# Cyflwyniad

Mae’r cynllun hwn yn nodi sut bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) yn ymateb i ganfyddiadau asesiad poblogaeth gogledd Cymru a gyhoeddwyd ar 1 Ebrill 2017.

Mae’r asesiad poblogaeth yn dod â gwybodaeth ynghyd am anghenion gofal a chefnogi pobl, ac anghenion cefnogi gofalwyr yng ngogledd Cymru. Ei nod yw dangos pa mor dda y mae anghenion pobl yn cael eu diwallu a'r gwasanaethau y bydd eu hangen arnom er mwyn eu diwallu yn y dyfodol. Fe wnaeth awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru gydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), a gefnogir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i lunio’r asesiad, sy'n un o ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Fe wnaethom ddefnyddio pob math o dystiolaeth i adnabod beth sydd ei angen ac wedi gofyn i bobl beth maent yn ei feddwl sy’n bwysig, gan gynnwys pobl sy’n defnyddio gwasanaethau gofal a chefnogi ar hyn o bryd, panel dinasyddion gogledd Cymru, a staff sy'n cyflwyno gwasanaethau yn yr awdurdodau lleol, sectorau iechyd, preifat a gwirfoddol.

Roedd yr asesiad yn amlygu angen cynyddol am ofal a chefnogaeth, yn enwedig i gefnogi anghenion cymhleth ac i wneud yn siŵr bod gwasanaethau ar gael yn Gymraeg. Dangosodd fod angen i wasanaethau cyhoeddus gydweithio, gan gynnwys grwpiau cymunedol lleol a gwirfoddol i gynnig cymorth i bobl yn gynt ac atal anghenion rhag cynyddu lle bo’n bosibl.

Mae’r asesiad llawn ar gael ar-lein: www.cydweithredfagogleddcymru.cymru

Prif bwyslais y cynllun yw blaenoriaethau’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer gweithio mewn ffordd integredig rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar sail ranbarthol. Mae partneriaid yn rhoi sylw i lawer o ganfyddiadau’r asesiad poblogaeth fel rhan o'u busnes craidd neu drwy bartneriaethau sydd eisoes yn bodoli rhwng asiantaethau ar draws amryw o ffiniau daearyddol. Mae’r cynllun yn disgrifio’n fras lle mae hyn yn digwydd ac yn rhoi dolenni er mwyn cael rhagor o wybodaeth. Gellir defnyddio’r asesiad poblogaeth a’r cynllun i gefnogi gwaith cynllunio lleol a rhanbarthol arall. Wrth gynllunio gwasanaethau rydym yn argymell bwrw golwg ar bennod berthnasol yr asesiad poblogaeth ac adroddiadau ymgynghori i gael manylion llawn am y math o ofal a chymorth sydd ei angen.

I gael gwybodaeth am wasanaethau yn eich ardal chi ewch i Rhan D: I gael rhagor o wybodaeth

## Beth y mae’r cynllun rhanbarthol yn ei wneud?

- Mae’r cynllun yn nodi egwyddorion, canlyniadau a blaenoriaethau ar gyfer gwaith rhanbarthol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru

Draft

- Mae'n fan cychwyn ar gyfer gwaith rhanbarthol ffurfiol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac mae'n nodi fframwaith i bartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol weithio gyda'i gilydd dan raglen gyffredin.
- Mae'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau sydd wedi eu hamlygu gan ddinasyddion

## Beth nad yw'r cynllun rhanbarthol yn ei wneud?

- Nid yw'n cynnwys yr holl flaenoriaethau iechyd a gofal cymdeithasol oherwydd y byddai hynny'n gwneud y cynllun yn rhy fawr, yn hytrach mae'n canolbwyntio ar feysydd gwaith sy'n gofyn am weithio mewn partneriaeth
- Nid yw'n gasgliad mawr o gamau gweithredu manwl a gymerwyd o gynlluniau gwaith partneriaid oherwydd y byddai hynny'n dyblygu, yn hytrach mae'n 'cyfeirio' at gynlluniau eraill

## Adolygu'r asesiad poblogaeth

Roedd paratoi un asesiad poblogaeth hygyrch ar draws chwe sir ac un bwrdd iechyd am y tro cyntaf yn broses heriol. Rydym wedi dysgu llawer iawn o'r broses, ac mae llawer iawn o waith i'w wneud o hyd. Rydym wedi llunio adroddiad adborth cynhwysfawr sydd yn rhestru'r ardaloedd lle mae angen rhagor o wybodaeth (ar gael os gwneir cais amdano). Cafodd yr ardaloedd hyn eu hystyried wrth ddatblygu'r cynllun a byddwn hefyd yn edrych arnynt pan fyddwn yn cynnal yr adolygiad dros dro o'r asesiad poblogaeth yn ystod 2018-19.

Yn ogystal rydym wedi cynhyrchu newyddlenni misol am yr asesiad poblogaeth. Mae pob newyddlen yn cynnwys crynodeb o un o'r penodau ynghyd â'r newyddion diweddaraf am y prosiect ac unrhyw ddatblygiadau neu fentrau sy'n gysylltiedig â'r bennod. Mae'r newyddlenni ar gael yma:
http://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/?s=population+assessment+update

## Sut gwnaethom ni ddatblygu'r cynllun

Datblygwyd y cynllun gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a oedd yn cynnwys yr aelodau canlynol:

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Llinos Medi Huws | Aelod Arweiniol, Cyngor Sir Ynys Môn |
| Morwena Edwards | Cyfarwyddwr, Cyngor Gwynedd |
| Y Cynghorydd Bobby Feeley | Aelod Arweiniol, Cyngor Sir Ddinbych |
| Caroline Turner | Cyfarwyddwr , Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cynghorydd Christine Jones | Aelod Arweiniol, Cyngor Sir y Fflint |
| Clare Field | Cyfarwyddwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cynghorydd Liz Roberts | Aelod Arweiniol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| David Worrall | Cynrychiolydd y Trydydd Sector |



Draft

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Debbie Shaffer | Cynrychiolydd Defnyddiwr Gwasanaeth |
| Jenny Williams | Cyfarwyddwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cynghorydd Joan Lowe | Aelod Arweiniol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Lynda Colwell | Cynrychiolydd y Trydydd Sector |
| Margaret Hanson | BIPBC |
| Mary Wimbury | Cynrychiolydd Darparwyr |
| Morag Olsen | Prif Swyddog Gweithredol, BIPBC |
| Neil Ayling | Cyfarwyddwr, Cyngor Sir y Fflint |
| Nicola Stubbins | Cyfarwyddwr, Cyngor Sir Ddinbych |
| Richard Weigh | Prif Swyddog Cyllid (Adran 151) (Cyf-etholwyd) |
| Vin West | Cynrychiolydd Gofalwyr |
| Wendy Jones | Cynrychiolydd y Trydydd Sector |
| Y Cynghorydd William Gareth Roberts (Cadeirydd) | Aelod Arweiniol, Cyngor Gwynedd |
| Prif Gwnstabl Cynorthwyol Richard Debicki | Heddlu Gogledd Cymru (Cyf-etholwyd) |
| Richard Fairhead | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (Cyf-etholwyd) |
| Andy Long | Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru (Cyf-etholwyd) |
| Teresa Owen | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus, BIPBC (Cyf-etholwyd) |
| Bethan Jones Edwards | Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol – Cymorth Rheoli Busnes |

Mae’r cynllun yn seiliedig ar y gwaith ymgysylltu ac ymgynghori a wnaed fel rhan o’r asesiad poblogaeth. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn atodiad 1 yr asesiad poblogaeth. Bydd ymgynghori ac ymgysylltu hefyd yn rhan o’r cynlluniau sgopio a chyflenwi a gaiff eu paratoi ar gyfer pob un o’r blaenoriaethau rhanbarthol.

Fe wnaethom gyhoeddi fersiwn ddrafft a fersiwn gryno o’r cynllun rhanbarthol ar ein gwefan ar gyfer ymgynghoriad rhwng 11 Awst a 17 Tachwedd 2017. Fe wnaethom hyrwyddo’r ddolen trwy rwydweithiau rhanbarthol, cynghorau’r sector gwirfoddol, awdurdodau lleol ac iechyd yn ogystal â’n newyddlenni misol. Bu’r grŵp ymgysylltu yn monitro ymatebion ac yn cwrdd â grwpiau sydd wedi’u tangynrychioli. Fe wnaethom drefnu gweithdai gyda grwpiau sydd wedi’u tangynrychioli lle bo’n bosibl. Fe wnaethom gynhyrchu copïau papur o’r adroddiad ac roedd holiadur ar gael ar gais.

Pwrpas ymgynghori ar fersiwn gynnar o'r cynllun drafft oedd cynnwys cymaint o bobl â phosibl wrth ysgrifennu a ffurfio’r cynllun yn fuan yn y prosiect. Fe wnaethom dderbyn 135 o ymatebion i’r ymgynghoriad a chafodd gwefan y cynllun rhanbarthol

ei ddarllen 1,800 gwaith. Fe wnaethom hefyd dderbyn adborth gan grwpiau rhanbarthol megis Partneriaeth Anableddau Dysgu a Fforwm Lluoedd Arfog Gogledd Cymru.

Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach yn ystod y broses gymeradwyo hefyd. Mae'r adroddiad wedi cael ei adolygu gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, cyfarfodydd gweithgor uwch priodol, cyfarfodydd archwilio a/neu cabinet ym mhob awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch yr adroddiad ymgynghori [add link].

## Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 ddyletswydd sector cyhoeddus newydd sy'n gofyn i bob corff cyhoeddus, gan gynnwys y cynghorau, drechu rhagfarn, symud cyfleoedd cydraddoldeb yn ei flaen a hyrwyddo perthnasau da. Ymgymerwyd ag asesiad o effaith ar gydraddoldeb i nodi potensial anghydraddoldebau sy'n codi o ddatblygiad a chyflwyniad y cynllun hwn. Fe wnaethom ymgynghori gyda phobl sydd â nodweddion a ddiogelir am y cynllun a'r asesiad poblogaeth sy'n ei lywio. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn atodiad 1 o'r asesiad poblogaeth ac yn yr adroddiad ymgynghori [add link] a luniwyd a gyfer y cynllun hwn.

Wrth ddatblygu gwasanaethau i ymateb i'r cynllun rhanbarthol mae'n **rhaid** cynnal asesiadau ychwanegol o effaith ar gydraddoldeb. Mae pob pennod yn yr asesiad poblogaeth yn cynnwys gwybodaeth am y materion a allai effeithio ar bobl sydd â nodweddion a ddiogelir ac mae crynodeb wedi'i gynnwys yn y cynllun hwn. Mae'r crynodeb o faterion hyd yn hyn ymhell o fod yn gynhwysfawr ac mae yno i weithredu fel anogaeth i ystyried yr ystod lawn o faterion. Mae gwybodaeth ychwanegol i lywio'r asesiadau hyn ar gael yn yr adroddiadau ymgynghori a llyfrgell dogfen asesiad poblogaeth.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi ymrwymo i gynhyrchu gwasanaethau ar y cyd gyda phobl sy'n eu defnyddio a'u gofalwyr. Mae'r bwrdd yn cydnabod bod gofalwyr yn bartneriaid allweddol wrth ddarparu gofal trwy gydol y cynllun hwn.

Mae'n rhaid i bob partner sector cyhoeddus ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gyhoeddi cynlluniau cydraddoldeb strategol sydd yn nodi eu hamcanion cydraddoldeb a chynlluniau gweithredu. Mae'r cynllun rhanbarthol yn cefnogi'r amcanion a nodwyd yn y cynlluniau hyn a bydd llawer o'r gweithredoedd yn cyfrannu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn iechyd a lles.

Fe wnaed pob ymdrech i ddefnyddio iaith briodol i ddisgrifio pobl gydag anghenion gwahanol a nodweddion a ddiogelir o fewn y cynllun. Rydym yn cydnabod bod termau a ffafrir yn newid dros amser a bod gan bobl farn wahanol am yr iaith y maent yn ei ffafrio i ddisgrifio'u hunain. Fe groesawir y drafodaeth a gobeithio y bydd yn ein helpu i gyrraedd dealltwriaeth gyffredin am ddefnydd iaith.

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn nodi'r hawliau sylfaenol sydd gennym am ein bod yn fodau dynol. Maent yn helpu i amddiffyn pobl trwy roi dyletswydd gyfreithiol ar wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, i drin pobl gyda thegwch, cydraddoldeb, urddas, parch ac ymreolaeth. Mae'n rhaid i wasanaethau sy'n cael eu datblygu i ymateb i'r cynllun hwn fod yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn (ECUPH).

## Yr hyn sy'n gweithio: defnyddio tystiolaeth ymchwil

Rydym eisiau i wasanaethau fod yn seiliedig yr hyn sy'n gweithio lle bo hynny'n bosibl. Fel rhan o'r asesiad, cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru adolygiad o'r dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar, sydd ar gael yma: www.publichealthwalesobservatory.wales.nhs.uk

Mae mwy o wybodaeth am y sail dystiolaeth ar gyfer gwasanaethau ar gael o ganolfannau What Works y DU ar bolisi cymdeithasol. Mae dolenni i'r canolfannau ac arweiniad ar sut i ddefnyddio tystiolaeth ymchwil yn ymarferol ar gael yma: www.alliance4usefulevidence.org

## Sut byddwn ni'n gwybod ein bod wedi gwneud gwahaniaeth?

Byddwn yn monitro ac yn gwerthuso cynnydd yn erbyn y cynllun hwn gan ddefnyddio adroddiad blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae rhagor o wybodaeth am sut y byddwn yn monitro cynnydd pob blaenoriaeth integredig ar gael yn y cynlluniau sgopio a chyflenwi.

Mae pob un o'r blaenoriaethau rhanbarthol a nodwyd yn y cynllun hwn yn cyfrannu at y canlyniadau a nodwyd yn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer pobl sydd arnynt angen gofal a chymorth, y byddwn yn ei ddefnyddio fel fframwaith ar gyfer mesur canlyniadau.

## Llywodraethu

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi cytuno ar y Strwythur Cyflenwi Trawsnewid Rhanbarthol a ddangosir yn ffigur 1 isod.

**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol**

Sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y Gogledd i fodloni Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gweler rhestr yr aelodau uchod.



Draft

Egwyddorion arweiniol[1] y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw ein bod yn ymroddedig i gyflawni gwasanaethau iechyd a llesiant cynaliadwy gwell i bawb yng ngogledd Cymru. Golyga hyn:

1. Newid y system gyfan ac ail-fuddsoddi adnoddau i fodel ataliol sy'n hyrwyddo iechyd a lles da, ac sy'n defnyddio tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio orau yn effeithiol
2. Mae gofal yn cael ei gyflawni mewn dulliau cydlynol o amgylch anghenion, dewisiadau, ac asedau cymdeithasol pobl (defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a chymunedau)
3. Mae pobl yn cael eu galluogi i ddefnyddio eu hyder a'u sgiliau i fyw'n annibynnol, gan dderbyn cefnogaeth gan ystod o ddewisiadau o ansawdd uchel yn y gymuned
4. Ymgorffori cyd-gynhyrchu yn y broses o wneud penderfyniadau er mwyn i ddinasyddion a'u cymunedau lunio'r gwasanaethau
5. Rydym yn cydnabod yr ystod eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a lles a phwysigrwydd cysylltiadau â'r meysydd hyn (gan gynnwys addysg, tai, lles, lleihau digartrefedd, twf economaidd, adfywio, hamdden a'r amgylchedd)

Mae blaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn seiliedig ar egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

- Mae'r ddeddf yn cefnogi pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth i gyflawni lles.
- Mae pobl wrth wraidd y system newydd trwy roi cyfle iddynt leisio barn ynglŷn â'r gefnogaeth maent yn ei dderbyn
- Mae partneriaeth a chydweithio'n gyrru darparu gwasanaethau
- Bydd Gwasanaethau yn hyrwyddo'r gwaith i atal anghenion rhag gwaethygu a bod y cymorth cywir ar gael ar yr adeg briodol

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i gryfhau'r gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg a darparu cynnig gweithredol drwy'r fframwaith Mwy Na Geiriau.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeddf ar gael ar Hyb Gwybodaeth a Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru ac mae rhagor o wybodaeth am y bwrdd ar gael ar ein gwefan.

**Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru**

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn adrodd i'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol sy'n cynnwys:

- Arweinwyr Cynghorau a Phrif Weithredwyr y chwe awdurdod lleol

[1] Datblygwyd egwyddorion yng ngweithdy'r bwrdd ar 10 Tachwedd 2016

- Cadeirydd a Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
- Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru
- Cadeirydd a Phrif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Nod y Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol yw darparu arweinyddiaeth strategol drwy gryfhau'r berthynas rhwng gwasanaethau cyhoeddus yng ngogledd Cymru.

### Rhoi sylw i ganfyddiadau eraill yr adroddiad

Caiff y cynllun ei lywodraethu gan strwythurau pob sefydliad a Partneriaeth Dydd Gwener, cyfres o gyfarfodydd rhanbarthol sy'n cael eu cynnal unwaith y mis, gan gynnwys:

- Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru (Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol)
- Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol (Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwyr Ardal BIPBC)
- Penaethiaid Gwasanaethau Plant Gogledd Cymru (PGPGC)
- Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion Gogledd Cymru (PGOGC)

Yn ychwanegol, mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru (BDGC) gan gynnwys Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (BDPGC) a Byrddau Diogelu Oedolion Gogledd Cymru (BDOGC) yn llywodraethu rhai elfennau o'r cynllun.

## Cysylltiadau â strwythurau llywodraethu rhanbarthol eraill

### Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Chynlluniau Llesiant

Sefydlwyd pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yng ngogledd Cymru gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nod y BGC yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd drwy gryfhau dulliau o weithio ar y cyd ar draws pob gwasanaeth cyhoeddus yng ngogledd Cymru. Paratôdd pob BGC asesiad llesiant ochr yn ochr â'r asesiad poblogaeth ac maent yn paratoi cynllun llesiant ochr yn ochr â'r cynllun ardal rhanbarthol hwn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefannau BGC.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Crymu) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried effaith hirdymor ein penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'n gilydd ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a'r newid yn yr hinsawdd. Rydym wedi cynnal asesiad o'r effaith ar lesiant [add link] ar gyfer y cynllun hwn fel rhan o'r ddyletswydd hon.

Mae'n rhaid i'r strwythur llywodraethu ystyried gorgyffyrddiadau gyda blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a sut y bydd y rhain yn cael eu rheoli. Pan fo modd datrys pethau'n lleol gan bartneriaid, bydd hynny'n cael ei wneud gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a bydd materion iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gofyn am ddatrysiad rhanbarthol yn cael eu dwyn i sylw'r Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol.

# Adnoddau

Bydd y cynllun yn cael ei gyflawni gan ddefnyddio adnoddau gan bob partner gan gynnwys cyllidebau craidd o BIPBC ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol a chyllid grant ychwanegol ar gyfer prosiectau penodol. Mae rhagor o wybodaeth am yr adnoddau sydd eu hangen wedi'u cynnwys yng nghynlluniau sgopio a chyflenwi ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau rhanbarthol.

Er mwyn cyflawni  nodau eang y cynllun bydd angen i ni wneud y gorau o'r adnoddau sydd gennym – nid yn unig cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol ond busnesau lleol, elusennau, sefydliadau cymunedol, teuluoedd a ffrindiau.

## Cronfa Gofal Integredig (CGI)

Mae'n rhaid i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ddefnyddio'r Gronfa Gofal Integredig i gefnogi cynlluniau a gweithgareddau sydd yn darparu dull effeithiol, integredig a chydweithrediadol mewn perthynas â blaenoriaethau canlynol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer integreiddio:

- Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau tymor hir, yn cynnwys dementia a'u gofalwyr.
- Pobl gydag anableddau dysgu
- Plant gydag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu afiechyd
- Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc


Cyllideb y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer gogledd Cymru yw £11,500,000 ar gyfer 2017-18 ar gyfer refeniw a chyfalaf £2,200,000. Mae rhan o gyllid CGI wedi'i glustnodi ar gyfer y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a System Wybodaeth Gofal Cymunedol.

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiectau penodol sydd wedi'i ariannu gan y grant, ewch i'r wefan [add link].



Draft

# Ffigur 1: Cyflawni Strwythur Rhanbarthol Trawsnewid



# Rhan A: Blaenoriaethau Rhanbarthol

Y blaenoriaethau y mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi'u dewis i gyflenwi mewn partneriaeth ydi integreiddio gwasanaethau mewn perthynas â:

- Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau tymor hir, yn cynnwys dementia
- Pobl gydag anableddau dysgu
- Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc
- Plant a phobl ifanc
- Gwasanaethau Cefnogaeth Integredig i Deuluoedd
- Iechyd meddwl

Dewiswyd y pum blaenoriaeth gyntaf fel blaenoriaethau ar gyfer integreiddio i ddiwallu'r dyletswyddau statudol ar gyfer integreiddio gwasanaethau yn Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ogystal, mae'r bwrdd wedi dewis iechyd meddwl fel blaenoriaeth. Y ddyletswydd statudol ar gyfer plant a phobl ifanc yw integreiddio gwasanaethau i blant sydd ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu afiechyd. Mae'r bwrdd wedi cytuno i ymestyn hyn i gynnwys blaenoriaethu ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc. Cytunodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i fabwysiadau'r blaenoriaethau hyn ym mis Tachwedd 2016 yn seiliedig ar anghenion lleol a chapasiti presennol. Wrth i bob prosiect gael ei gwblhau bydd y bwrdd yn adolygu'r gwersi a ddysgwyd a'r asesiad poblogaeth er mwyn dewis y maes blaenoriaeth nesaf.

Ar y cyfan roedd 88% o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cytuno â'r blaenoriaethau hyn. Dywedodd nifer o bobl y dylai'r flaenoriaeth 'pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau tymor hir, yn cynnwys dementia' gael ei ymestyn i gynnwys pob oedolyn. Blaenoriaethu gwasanaethau integredig i bobl hŷn ydi'r hyn y mae'n rhaid i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei wneud yn gyfreithiol, fodd bynnag mae rhagor o wybodaeth yn rhan B y cynllun ynghylch y gefnogaeth sydd ar gael i oedolion ag anghenion gofal a chymorth, gan gynnwys pobl iau sydd â dementia. Mae rhagor o wybodaeth am ganfyddiadau'r ymgynghoriad a'n ymateb ar gael yn yr adroddiad ymgynghori [add link].

Mae'r tabl isod yn rhoi gwybodaeth ynghylch cynlluniau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer gwaith integredig yn eu meysydd blaenoriaeth. Bydd cynnydd yn erbyn y cynlluniau hyn wedi'u cynnwys yn adroddiad blynyddol y bwrdd sydd ar gael yn: https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/bwrdd-partneriaeth-rhanbarthol-gogledd-cymru/

Draft

Mae rhagor o wybodaeth am weithgareddau eraill sy'n cael eu cynnal yn rhanbarthol ac yn lleol ar gael yn rhan B sydd yn crynhoi'r ymateb ehangach i'r materion a nodwyd ym mhob pennod asesiad poblogaeth.

Drafft

# Cynllun gweithredu y bwrdd partneriaeth rhanbarthol: Integreiddio gwasanaethau

| Blaenoriaeth Ranbarthol | Gweithredu/sut byddwn yn cyflawni hyn | Asiantaethau partner a phartner arweiniol | Amserlenni / cerrig milltir | Adnoddau (gan gynnwys prosiectau ICF) | Gwybodaeth | Ataliol | Modelau eraill |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Plant a phobl ifanc** Gweler hefyd *y bennod ar blant a phobl ifanc*. | | | | | | | |
| Plant a phobl ifanc<br>• Plant ag anghenion cymhleth<br>• Atal a lliniaru Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod – cyflenwi gwasanaethau trawma gwybodus<br>• Gwella canlyniadau yn 1,000 diwrnod cyntaf bywyd<br>• Gwella iechyd emosiynol, lles meddyliol a gwydnwch plant a theuluoedd<br>• Hyrwyddo pwysau iach ac atal gordewdra ymhlith plant<br>• Adolygu ymyrraeth argyfwng ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag argyfwng iechyd meddwl | Cytunwyd ar feysydd blaenoriaeth gan y Grŵp Trawsnewid Plant yn ystod gweithdy ar 7 Mehefin 2017. Fe ddewiswyd timau ac arweinwyr prosiectau ar gyfer pob blaenoriaeth ynghyd â chylch gorchwyl yn cynnwys sgôp, canlyniadau, partneriaid allweddol a'r berthynas rhwng y blaenoriaethau. | *Arweinydd/Noddwr BPRh:* Bethan Jones a Clare Field<br>Mae'r Grŵp Trawsnewid Plant yn arwain ar y flaenoriaeth hon. Mae'n gyfarfod amlasiantaeth gydag aelodaeth yn cynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg, CAMHS, Cyfiawnder Ieuenctid, Gwasanaethau Paediatreg/Plant Cymunedol, Paediatreg Aciwt, Sector Gwirfoddol, Iechyd Meddwl Oedolion a'r Heddlu. Y Cyfarwyddwr Rhanbarth (Canolog) BCU ydi'r Cadeirydd presennol. | Cynhyrchu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu erbyn 2018.<br>Cynhyrchu Cynllun Plant a Phobl Ifanc 3 blynedd ar gyfer Gogledd Cymru 2018-2021 yn cynnwys gweithgareddau prosiectau, amserlenni a cherrig milltir bob chwarter. | | | | |
| Gwasanaethau Cefnogaeth Integredig i Deuluoedd | Mae gwasanaethau eisoes wedi'u trefnu'n isranbarthol ar draws gogledd Cymru.<br>Rhaglen integreiddio i'w diffinio a'i chytuno gan | *Arweinydd/Noddwr BPRh:*<br>Clare Field CBSW<br><br>*Partneriaid:* Y chwe awdurdod lleol. | Adroddiad blynyddol i'r BPRh. | Gwasanaeth wedi'i brif-ffrydio. Ystyriaeth i'w rhoi i gyfuno cyllidebau lle nad yw hyn yn digwydd ar hyn o | | ✓ | |

Draft

Tudalen 41

Draft

| Blaenoriaeth Ranbarthol | Gweithredu/sut byddwn yn cyflawni hyn | Asiantaethau partner a phartner arweiniol | Amserlenni / cerrig milltir | Adnoddau (gan gynnwys prosiectau ICF) | Gwybodaeth | Ataliol | Modelau eraill |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | arweinwyr erbyn Ebrill 2017 (cwmpas a chynllun cyflenwi) | | | bryd gan fod cyllideb gyfunol wedi ei nodi yn y ddeddf. | | | |
| Gofalwyr ifanc (gweler yr adran gofalwyr) | | | | | | | |
| **Pobl hŷn** *Gweler hefyd y bennod ar bobl hŷn* | | | | | | | |
| Integreiddio gwasanaethau i bobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau tymor hir, yn cynnwys dementia. | Rhaglen integreiddio i'w diffinio yn y cynllun sgopio a chyflenwi | Rob Smith a Morwena Edwards | Gweithdy 28 Tachwedd 2017 | | | | |
| Cynnal marchnad ddarparwyr gynaliadwy ar draws gogledd Cymru | Deall y materion y mae'r sector darparwyr yn eu hwynebu yng Ngogledd Cymru a'r effaith ar gynaliadwyedd eu busnes gan gynnwys cyllid, prosesau a llif, gweithlu, ansawdd gofal ac ati<br>Mae hyn hefyd yn cysylltu â rhaglenni gwaith y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol a'r Byrddau Gweithlu Rhanbarthol.<br>Gweithdy partneriaeth 5 diwrnod i gytuno ar feysydd gwaith i'w datblygu'n rhanbarthol. Rhannu canfyddiadau | *Arweinydd/Noddwr BPRh:* Cadeirydd y grŵp arweinyddiaeth<br><br>*Partneriaid:* Y chwe awdurdod lleol ac iechyd | Dadansoddiad o farchnad cartref gofal wedi'i gwblhau.<br>Datganiad Safle'r Farchnad/ Datganiad Llunio Marchnad Cartrefi Gofal Cwblhau yn ystod 2017.<br>Ymarfer tendro gofal cartref rhanbarthol yn ystod 2017-2018.<br>Prosiectau peilot (cyllidebau cyfun). Adrodd i'r BPRh Ebrill 2018<br>• Gwasanaethau Cymunedol – Ffordd Gwynedd (Tywyn, Gwynedd). Adrodd i'r BPRh Ebrill 2018. | | | | |

| Blaenoriaeth Ranbarthol | Gweithredu/sut byddwn yn cyflawni hyn | Asiantaethau partner a phartner arweiniol | Amserlenni / cerrig milltir | Adnoddau (gan gynnwys prosiectau ICF) | Gwybodaeth | Ataliol | Modelau eraill |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | mewn datganiad sefyllfa rhanbarthol. | | • Capasiti cartrefi gofal Sir y Fflint (de Sir y Fflint). Adrodd i'r BPRh Ebrill 2018<br>• Adran 117 Conwy, lleoliadau cartrefi gofal. | | | | |
| **Anableddau dysgu** *Gweler hefyd* *y bennod ar anableddau dysgu* | | | | | | | |
| Integreiddio gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.<br>*Gweler y cwmpas a'r cynllun cyflenwi am fanylion* | Deall y dull gweithio mewn partneriaeth sydd ei angen i ddatblygu gwasanaeth integredig; ymchwilio i wahanol fodelau ac arfer da. | *Arweinydd/Noddwr BPRh:* Andy Roach BIPBC / Neil Ayling Cyngor Sir y Fflint<br><br>*Partneriaid:* Y chwe awdurdod lleol a BIPBC drwy'r Grŵp Partneriaeth Anabledd Dysgu | Adrodd i'r BPRh Chwefror 2018 | Bydd yn edrych ar adnoddau fel o'r gofynion sgopio cychwynnol. | | | |
| | Cynllunio a gweithio tuag at ddatblygu gwasanaethau integredig fesul cam. Ystyried cyllidebau cyfuno a'u datblygu lle bo'n briodol. | *Arweinydd/Noddwr BPRh:* Andy Roach BIPBC / Neil Ayling Cyngor Sir y Fflint<br><br>*Partneriaid:* Y chwe awdurdod lleol a Grŵp Partneriaeth Anabledd Dysgu BIPBC | I'w gytuno | | | | |
| **Iechyd meddwl** *Gweler hefyd* *y bennod ar iechyd meddwl* | | | | | | | |
| Datblygu strategaeth integredig iechyd meddwl | Gweithio ar y cyd i ddatblygu Strategaeth integredig iechyd meddwl ar gyfer Gogledd Cymru. | *Partner Arweiniol:* BIPBC<br>*Arweinydd/Noddwr BPRh:* Andy Roach BIPBC / Jenny Williams Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Strategaeth wedi'i gwblhau a'i gymeradwyo.<br>Cyflenwi – adroddiad blynyddol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | | | | |

Draft

| Blaenoriaeth Ranbarthol | Gweithredu/sut byddwn yn cyflawni hyn | Asiantaethau partner a phartner arweiniol | Amserlenni / cerrig milltir | Adnoddau (gan gynnwys prosiectau ICF) | Gwybodaeth | Ataliol | Modelau eraill |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mae bwrdd partneriaeth Law yn Llaw wedi ailymgynnull ac yn bwrw ymlaen â chyflawni'r flaenoriaeth hon. | *Partneriaid:* Y chwe Awdurdod Lleol, BIPBC, a'r trydydd sector. | | | | | |
| **Gofalwyr** *Gweler hefyd* *y bennod ar ofalwyr* | | | | | | | |
| Integreiddio gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc<br>*Gweler y cwmpas a'r cynllun cyflenwi am fanylion* | Mapio'r ddarpariaeth bresennol a'i hasesu yn erbyn gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.<br><br>Archwilio a datblygu dulliau o gyflenwi gwasanaethau integredig i Ofalwyr ac ystyried a ellir creu cyllideb gyfunol i gefnogi'r gwasanaethau hyn. | *Arweinydd/Noddwr BPRh:* Bethan Jones Edwards / Morwena Edwards GC / Ffion Johnstone BIPBC<br>*Partneriaid:* Y chwe awdurdod lleol, BIPBC, darparwyr. | Gwaith straeon gofalwyr wedi'i gwblhau.<br>Mapio adnoddau Rhagfyr/Ionawr 2018<br>Gweithdai Tachwedd/Rhagfyr 2017<br>Adroddiad Mawrth 2018 | Rheolwr Busnes Gofalwyr Rhanbarthol tan ddiwedd Mawrth 2018.<br>Cyllid grant trawsnewidiol gofalwyr | | | |

Draft

# Rhan B: Ymateb i benodau a themâu craidd yr asesiad poblogaeth

Cafodd yr asesiad poblogaeth ei drefnu yn benodau yn seiliedig ar y themâu craidd a restrir yng Nghod Ymarfer Rhan 2. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod. Er bod y cynllun wedi'i rannu mewn i benodau mae yna lawer o orgyffwrdd rhyngddynt ac unigolion sydd â nifer o anghenion gofal a chymorth.

Cliciwch ar y dolenni i fynd i'r bennod berthnasol yn y cynllun.

- plant a phobl ifanc
- pobl hŷn
- anableddau iechyd/corfforol
- anabledd dysgu / awtistiaeth
- iechyd meddwl
- nam ar y synhwyrau
- gofalwyr sydd arnynt angen cymorth; a
- thrais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Hefyd fe wnaethom gynnwys penodau ychwanegol ar:

- Sefydliadau diogel
- Cyn-filwyr
- Tai a digartrefedd

Roedd Rhan A y cynllun hwn yn rhestru'r gwaith integredig mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi ei gynllunio mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth. Mae Rhan B ac C yn rhestru'r gweithgareddau eraill a gynlluniwyd mewn ymateb i ganfyddiadau'r asesiad poblogaeth ym mhob pennod.

Er mwyn arbed lle ac osgoi dyblygu rydym wedi cynnwys dolenni i gael rhagor o wybodaeth lle bo'n bosibl. Wrth gynllunio gwasanaethau rydym yn argymell bwrw golwg ar bennod perthnasol yr asesiad poblogaeth ac adroddiadau ymgynghori i gael manylion llawn am y math o ofal a chymorth sydd ei angen. Cysylltwch â ni os hoffech chi gael manylion am yr adborth a dderbyniwyd ar ôl cyhoeddi'r asesiad poblogaeth.

Draft

# Plant a phobl ifanc

## Asesiad poblogaeth: yr hyn wnaethom ni ei ddarganfod

- Mae 140,000 o blant a phobl ifanc 0-17 oed yng Ngogledd Cymru. Ychydig iawn o newid sydd wedi bod yn nifer y plant yng ngogledd Cymru dros y pum mlynedd diwethaf ac fe allai'r tueddiad tuag at gyfraddau genedigaeth is olygu bod y rhif yn parhau'n debyg neu'n lleihau rhywfaint dros y 25 mlynedd nesaf.
- Mae gostyngiad wedi bod mewn atgyfeiriadau at y gwasanaethau plant, ond fe all hyn newid wrth i gymhwysedd newid. Mae'r mwyafrif o'r atgyfeiriadau gan yr heddlu neu'r cyngor, ac mae hanner ohonynt oherwydd camdriniaeth neu esgeulustod.
- Yn y pum mlynedd diwethaf, bu cynnydd o 9% yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant.
- Mae 1,000 o blant yn derbyn gofal gan gynghorau yng Ngogledd Cymru ac mae'r nifer yn cynyddu. Mae'n rhaid i Gynghorau geisio gosod plant gyda theuluoedd neu ffrindiau cyn chwilio am leoliadau eraill ac mae hyn yn newid y galw am wasanaethau maethu.
- Mae mwy o blant anabl a phlant gydag anghenion cymhleth iawn.
- Mae'r mwyafrif o blant yn iach, ond mae angen i ni ddal ati i hyrwyddo ffordd iach o fyw, atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a gwella iechyd yn ystod 1,000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn.
- Mae secstio a bwlio ar-lein yn broblem gynyddol.
- Mae nifer y troseddwyr ifanc yn gostwng, ond mae mwy o bobl ifanc yn rhoi gwybod eu bod yn ddioddefwyr o drosedd.
- Mae llawer o bobl yn poeni am iechyd meddwl plant, yn cynnwys cynnydd mewn hunan-niweidio ac anhwylderau bwyta.
- Mae'n rhaid i wasanaethau i blant a phobl ifanc ddilyn ymagwedd sydd yn canolbwyntio ar blant a theuluoedd sydd yn ystyried anghenion gwahanol pobl sydd â nodweddion a ddiogelir.

# Sut rhoddir sylw i ganfyddiadau'r adroddiad

| Mater | Sefydliad arweiniol | Yr hyn sy'n cael ei wneud | Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|---|
| Plant a phobl ifanc<br>• Plant ag anghenion cymhleth<br>• Atal a lliniaru Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) – cyflenwi gwasanaethau trawma gwybodus<br>• Gwella canlyniadau yn 1,000 diwrnod cyntaf bywyd<br>• Gwella iechyd emosiynol, lles meddyliol a gwydnwch plant a theuluoedd<br>• Hyrwyddo pwysau iach ac atal gordewdra ymhlith plant<br>• Adolygu ymyrraeth argyfwng ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag argyfwng iechyd meddwl | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol drwy'r Grŵp Trawsnewid Plant | Blaenoriaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol<br>Cynhyrchu Cynllun Plant a Phobl Ifanc ar gyfer Gogledd Cymru 2018-21<br>Bwrdd Strategaeth Iechyd Meddwl | BPRh i arwain ar y flaenoriaeth |
| Gwasanaethau Cefnogaeth Integredig i Deuluoedd | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Blaenoriaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | BPRh i arwain ar y flaenoriaeth |
| Gofalwyr ifanc (gweler yr adran gofalwyr) | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Blaenoriaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | BPRh i arwain ar y flaenoriaeth |
| Ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol gan gynnwys Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) a chymorth rhianta | BIPBC a<br>Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'u cefnogi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Heddlu Gogledd Cymru<br>Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (NWSCB)<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol | Strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach BIPBC: gwella iechyd, lleihau anghydraddoldebau iechyd<br>Teuluoedd yn Gyntaf<br>Dechrau'n Deg<br>Datblygu ffurflen atgyfeirio Gogledd Cymru sydd yn cynnwys gwybodaeth am ACEs i'w lansio ym mis Ionawr 2017 | Cysylltiadau â blaenoriaeth plant a phobl ifanc y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol: 1,000 diwrnod cyntaf. |

| Mater | Sefydliad arweiniol | Yr hyn sy'n cael ei wneud | Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|---|
| Hyrwyddo ffordd mwy iach o fyw a lleihau anghydraddoldebau iechyd | BIPBC a<br>Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'u cefnogi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol. | Rhaglen Cael Gogledd Cymru i Symud<br>Strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach BIPBC: gwella iechyd, lleihau anghydraddoldebau iechyd | Cysylltiadau â blaenoriaeth plant a phobl ifanc y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol: pwysau iach mewn plentyndod. |
| Gwreiddio dyletswyddau newydd y ddeddf gan gynnwys asesiadau, Gwybodaeth, cyngor a chymorth a dyletswydd i roi gwybod am blant sydd mewn perygl, Pan Fydda i'n Barod, ehangu meini prawf cymhwysedd ar gyfer asesiadau | Awdurdodau lleol | Polisi rhanbarthol 'Pan Fydda i'n Barod' yn ei le.<br>Gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu asesiadau. | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd.<br>Prosiectau rhanbarthol yn cael eu monitro gan PGPGC. |
| Ymateb i'r cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a'r galw sy'n newid am wasanaethau maethu, gwella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. | Awdurdodau lleol<br>Penaethiaid Gwasanaethau Plant Gogledd Cymru (PGPGC) | Datblygu Strategaeth Maethu Gogledd Cymru<br>Fframwaith Maethu Cenedlaethol<br>Rheolwyr tîm maethu yn cyfarfod yn chwarterol i rannu arfer da.<br>Cymryd rhan fel rhanbarth yn fframwaith Consortiwm Comisiynu Plant Cymru (4C) ar gyfer gwasanaeth gofal maethu.<br>Cynllunio i dendro yn rhanbarthol ar gyfer gofal preswyl a lleoliadau addysg erbyn diwedd 2017. | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd.<br>Prosiectau rhanbarthol yn cael eu monitro gan PGPGC. |
| Darparu cymorth i bobl sy'n gadael gofal | Awdurdodau lleol<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol<br>Cymdeithasau Tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Prosiectau i gefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETS). | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd. |
| Ymateb i'r galw cynyddol ac ychwanegol gan blant | Awdurdodau lleol gan gynnwys adrannau tai | Adolygu data yn yr asesiad poblogaeth | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei |

Draft

| Mater | Sefydliad arweiniol | Yr hyn sy'n cael ei wneud | Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|---|
| sy'n derbyn gofal o'r tu hwnt i'r rhanbarth sy'n cael eu lleoli yng Ngogledd Cymru | System Cyfiawnder Ieuenctid | | ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd. |
| Darparu gwasanaethau mabwysiadu effeithlon ac effeithiol | Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru | Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd.<br>Cael ei fonitro gan PGPGC. |
| Ymateb i'r cynnydd yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant | Awdurdod lleol<br>Llywodraethu rhanbarthol wedi'i ddarparu gan Benaethiaid Gwasanaethau Plant Gogledd Cymru.<br>Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru | Rhannu'r canfyddiadau ag awdurdodau lleol.<br>BDPGC yn monitro nifer y plant ar y gofrestr. Cyflwyno adroddiad sicrhau ansawdd bob chwe mis. Archwilio rhesymau pam fod plant yn parhau ar y gofrestr. | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd.<br>Cael ei fonitro gan BDPGC. |
| Mynd i'r afael â secstio a phryderon am fwlio ar-lein | Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru<br>Addysg | Blaenoriaethau strategol BDPGC<br>BDPGC i gefnogi sefydlu pecyn gwaith 'Stop IT' gan yr NSPCC | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd.<br>Y gwaith o gyflawni'n cael ei fonitro gan BDPGC. |
| Ymateb i'r cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n adrodd eu bod wedi dioddef oherwydd troseddu | Heddlu Gogledd Cymru | Rhannu canfyddiadau'r adroddiad | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd. |
| Gwella gwasanaethau adsefydlu i droseddwyr ifanc | Cydlynu Prosiect Brocer Adsefydlu Gogledd Cymru | Cydlynu Prosiect Brocer Adsefydlu Gogledd Cymru | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd. |
| Mynd i'r afael ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu | Awdurdodau lleol, BIPBC | Casglwyd gwybodaeth ychwanegol i'w chynnwys yn yr adolygiad | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner |

Draft

| Mater | Sefydliad arweiniol | Yr hyn sy'n cael ei wneud | Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|---|
| | Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol | Wedi rhannu canfyddiadau gyda'r Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg (cymorth i rieni) | yn rhan o'u busnes craidd. |
| Darparu gofal plant digonol | Awdurdodau lleol<br>Darparwyr gofal plant | Asesiadau o ddigonolrwydd gofal plant | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd. |
| Hyrwyddo cyfleoedd chwarae a hawl plentyn i chwarae | Awdurdodau lleol<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol. | Asesiadau digonolrwydd cyfleoedd chwarae | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd. |
| Hyrwyddo Hawliau Plant a'r CCUHP | Pob partner | Prosiectau lleol | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd. Dylai prosiectau'r BPRh hyrwyddo hawliau plant a'r CCUHP |
| Cefnogi plant a phobl ifanc ag ASD | Gwasanaeth awtistiaeth cenedlaethol<br>Arweinwyr ASD yr awdurdodau lleol, BIPBC<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol. | Cyflwyniad y Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol | Mae'r BPRh yn gyfrifol am gyflwyno IAS yng ngogledd Cymru ac yn derbyn y newyddion diweddaraf yn rheolaidd am gynnydd. |
| Cefnogi ffoaduriaid a phlant sy'n ceisio lloches | Awdurdodau lleol<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol | Prosiectau lleol | Cytuno blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd. |
| Cefnogi pobl ifanc gydag anghenion gofal a chymorth wrth symud i wasanaethau oedolion | Awdurdodau lleol<br>BIPBC | Prosiectau lleol | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd. |

Draft

# Pobl hŷn

## Asesiad poblogaeth: yr hyn wnaethom ni ei ddarganfod

- Mae 150,000 o bobl 65 oed a throsodd yng Ngogledd Cymru. Rydym yn disgwyl y bydd 210,000 erbyn 2039, sef 30% o'r boblogaeth gyfan.
- Y siroedd sy'n debygol o gael y gyfran fwyaf o bobl 65 oed a throsodd yw Conwy, Ynys Môn a Sir Ddinbych.
- Mae tua 82,000 o bobl yn 85 oed a throsodd yng Ngogledd Cymru ac rydym yn disgwyl y bydd mwy na dwbl hynny erbyn 2039 ac mae hyn yn debygol o arwain at fwy o alw am ofal a chymorth.
- Lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd yw un o'r prif heriau a nodwyd yn ein hymgynghoriad ac ymgysylltiad.
- Mae parhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain yn flaenoriaeth i lawer o bobl hŷn. Mae'r galw am gymorth i fyw yn eu cartrefi yn debygol o gynyddu wrth i nifer y bobl hŷn gynyddu. Mae ar fwy o bobl angen cymorth mwy cymhleth a mwy o oriau o ofal bob wythnos.
- Mae tua 11,000 o bobl yn byw gyda dementia yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn debygol o gynyddu ond nid i'r graddau y tybiwyd yn wreiddiol oherwydd gwelliannau ym maes iechyd.
- Mae'n debygol y bydd arnom angen mwy o leoedd mewn cartrefi nyrsio, yn enwedig i roi cymorth i bobl â chyflyrau iechyd a dementia.
- Mae ymchwil yn awgrymu bod byw gyda chyflwr tymor hir yn rhagfynegydd cryfach o'r angen am ofal a chymorth nag oedran.
- Rhaid i unrhyw wasanaethau sy'n cael eu datblygu ystyried anghenion gwahanol pobl â nodweddion a ddiogelir. Mae'r materion a nodwyd yn cynnwys risg uwch o unigedd i ddynion a phobl anabl; canfyddiadau o Brosiect Eiriolaeth Pobl Hŷn o Leiafrifoedd Ethnig; seibr-drosedd, diogelwch personol a throsedd casineb; ac ymwybyddiaeth o ddementia gyda ffocws benodol ar bobl trawsrywiol hŷn a chefnogaeth i bobl LGBT hŷn.
- Rhaid i wasanaethau ystyried Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru Llywodraeth Cymru.

# Sut rhoddir sylw i ganfyddiadau'r adroddiad

| Mater | Sefydliad arweiniol | Yr hyn sy'n cael ei wneud | Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|---|
| Integreiddio gwasanaethau i bobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau tymor hir, yn cynnwys dementia. | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Blaenoriaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Arwain ar y flaenoriaeth |
| Cynnal marchnad ddarparwyr gynaliadwy ar draws gogledd Cymru | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Blaenoriaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Arwain ar y flaenoriaeth |
| Cefnogi pobl sy'n dioddef o dementia<br>• Rhoi mwy o wybodaeth a chefnogaeth ar ôl derbyn diagnosis<br>• Hyfforddiant ychwanegol i weithwyr gofal i weithio gyda phobl sydd â dementia<br>• Datblygu gwasanaethau ychwanegol sy'n diwallu anghenion unigol, yn enwedig i bobl iau sydd â dementia a thrwy gyfrwng y Gymraeg<br>• Sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer nyrsio iechyd meddwl a gofal preswyl i bobl hŷn<br>• Gwella cydweithio rhwng gwasanaethau | Awdurdodau lleol<br>BIPBC<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol<br>Cymdeithasau Tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Cynlluniau Heneiddio'n Dda<br>Blaenoriaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol<br>Dementia RED: prosiect rhanbarthol i ddarparu Canolbwyntiau Gwybodaeth Gofalu mewn meddygfeydd<br>Strategaeth Ddementia BIPBC | Blaenoriaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| Lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd yn ein cymunedau | Awdurdodau lleol<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol<br>Cymdeithasau Tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Cynlluniau Heneiddio'n Dda<br>Cynlluniau Llesiant<br>Dolenni i ragnodi cymdeithasol | Y BPRh yn hyrwyddo Dewis Cymru ac yn monitro ansawdd gweithredu asesiad 'yr hyn sy'n bwysig'<br>Bydd hefyd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd. |

Draft

| Mater | Sefydliad arweiniol | Yr hyn sy'n cael ei wneud | Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|---|
| Hyrwyddo byw'n iach; dewis a rheolaeth pobl dros eu bywydau eu hunain | Awdurdodau lleol<br>BIPBC<br>Gwasanaethau eirioli | | Monitro ansawdd gweithredu asesiad 'yr hyn sy'n bwysig' |
| Persbectif ac anghenion pobl hŷn yn ymwneud â chyflwyno iechyd, gwasanaethau gofal iechyd a lles | BIPBC | Darparu fframwaith pobl hŷn – ymagwedd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau wrth ddarparu iechyd, gwasanaethau gofal iechyd a lles | Cytuno blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd. |
| Hyrwyddo ffordd mwy iach o fyw a lleihau anghydraddoldebau iechyd | Bwrdd Iechyd<br>Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus<br>(y ddau wedi'u cefnogi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru)<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol | Rhaglen Cael Gogledd Cymru i Symud<br>Strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach BIPBC: gwella iechyd, lleihau anghydraddoldebau iechyd<br>Cynlluniau Llesiant BGC | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd. |
| Gofal a chymorth yn y cartref (gofal cartref) | Awdurdodau lleol<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol<br>Cymdeithasau Tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Proses gomisiynu cydweithredol gogledd Cymru: Cytundeb a Fframwaith Rheoli Gofal Cartref Gogledd Cymru (gwaith yn dechrau mis Medi 2017, fframwaith yn ei le o Ebrill 2018 tan Mawrth 2025).<br>Gofal Cymdeithasol Cymru - Gofal a chymorth yn y cartref yng Nghymru: Cynllun strategol pum mlynedd 2017-2022 | Y BPRh yn arwain y gwaith o ddylunio a darparu gofal a chymorth yn y cartref trwy waith y bwrdd comisiynu. |
| Angen am leoedd mewn cartrefi nyrsio a chartrefi gofal (Comisiynu cartrefi gofal yn strategol) | Bwrdd Comisiynu Gogledd Cymru<br>Bwrdd gweithlu rhanbarthol | Datblygu datganiad o sefyllfa'r farchnad.<br>Bwrdd gweithlu i fonitro tueddiadau gweithlu mewn cartrefi gofal.<br>Tracio a gwerthuso cartrefi o fewn y broses pryderon cynyddol<br>Mae pecyn monitro archwilio ar y cyd rhwng BIPBC a swyddogion contract yn cael ei lansio yn ymwneud â sicrhau | Y BPRh yn derbyn adroddiadau gan y bwrdd comisiynu. |



Draft

| Mater | Sefydliad arweiniol | Yr hyn sy'n cael ei wneud | Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|---|
| | | ansawdd mewn cartref gofal. | |
| Datblygu gwell cymorth ar gyfer gofal diwedd oes | BIPBC<br>Hosbisau | Strategaeth Pobl Hŷn BIPBC a grŵp Gofal yn Nes at y Cartref | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd. |

Draft

# Iechyd, anabledd corfforol a nam ar y synhwyrau

## Asesiad poblogaeth: yr hyn wnaethom ni ei ddarganfod

- Mae tua 80% o bobl yng Ngogledd Cymru yn dweud eu bod mewn iechyd da. Mae hyn yn well na'r cyfartaledd yng Nghymru er ei fod yn amrywio o le i le.
- Mae pobl sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Gogledd Cymru yn tueddu i fod yn llai iach na phobl sy'n byw mewn ardaloedd llai difreintiedig.
- Mae tua un rhan o dair o bobl yng Ngogledd Cymru yn byw gyda chyflwr cronig, fel pwysedd gwaed uchel, asthma neu ddiabetes.
- Disgwylir i nifer y bobl sydd â nam ar y golwg neu ar y clyw gynyddu wrth i bobl fyw'n hirach.
- Rhagwelir y bydd cynnydd o tua 20% yn nifer y bobl sy'n byw â salwch cyfyngus hirdymor erbyn 2035 gan fod pobl yn byw'n hirach.
- Mae materion yn ymwneud â ffordd o fyw sy'n effeithio ar iechyd yn cynnwys ysmygu, gordewdra, gweithgarwch corfforol ac alcohol.
- Dywedodd pobl anabl wrthym fod angen i'w cymunedau, gwasanaethau a chludiant cyhoeddus fod yn fwy hygyrch. Mae angen i wasanaethau cyhoeddus wrando mwy a'u cynnwys yn y broses o ddatblygu gwasanaethau.
- Gall pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig brofi rhwystrau ychwanegol i ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Tua 1 mewn 4 o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sydd yn cael eu cyflogi yng ngogledd Cymru ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

## Sut rhoddir sylw i ganfyddiadau'r adroddiad

| Mater | Sefydliad Arweiniol | Yr hyn sy'n cael ei wneud | Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|---|
| Adolygu gwasanaethau arbenigol a darparu gofal yn nes at y cartref | BIPBC | Strategaeth Pobl Hŷn BIPBC a grŵp Gofal yn Nes at y Cartref | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd. |

| Mater | Sefydliad Arweiniol | Yr hyn sy’n cael ei wneud | Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|---|
| Datblygu adnoddau gofal sylfaenol a chymunedol i ddarparu mynediad cyflymach a gwasanaethau mwy holistaidd | Rhaglen Gofal yn Nes at y Cartref BIPBC<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol | Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol BIPBC, Bwrdd Trawsnewid Gofal Sylfaenol, grŵp Gofal yn Nes at y Cartref | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o’u busnes craidd. |
| Hyrwyddo ffordd mwy iach o fyw a lleihau anghydraddoldebau iechyd | BIPBC a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (wedi’u cefnogi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru) | Rhaglen Cael Gogledd Cymru i Symud<br>Strategaeth Byw’n Iach, Aros yn Iach BIPBC: gwella iechyd, lleihau anghydraddoldebau iechyd | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o’u busnes craidd.<br>BPRh yn derbyn y newyddion diweddaraf gan y bwrdd iechyd pan fo’n briodol. |
| Datblygu rhagnodi cymunedol - cryfhau cysylltiadau rhwng darparwyr gofal iechyd a gwasanaethau cymunedol, gwirfoddol ac awdurdod lleol | BIPBC a sefydliadau partner gan gynnwys sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol | Rhaglenni Gwella Iechyd, Anghydraddoldebau Iechyd a Gofal yn Nes at y Cartref BIPBC.<br>Cynhadledd Gogledd Cymru a gynhaliwyd 25 Tachwedd 2017.<br>Datblygu rolau llywio ar gyfer rhagnodi cymdeithasol. | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o’u busnes craidd. |
| Darparu cymorth i bobl gydag anableddau corfforol a nam ar y synhwyrau. Adeiladu ar fodel cymdeithasol anabledd – datblygu gwasanaethau sy’n hwyluso cyfranogiad, yn parchu anghenion unigol a chynhwysiant. | Awdurdodau lleol<br>BIPBC<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol | Hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant<br>Datblygu gwasanaethau hygyrch.<br>Gweler adroddiad ymgynghori am ymatebion am wasanaethau sydd ar gael. | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o’u busnes craidd. |

Draft

| Mater | Sefydliad Arweiniol | Yr hyn sy'n cael ei wneud | Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|---|
| Darparu cefnogaeth i bobl sydd â chyflyrau cronig. | Awdurdodau lleol<br>BIPBC<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol | Bydd cefnogaeth i bobl sydd â chyflyrau hir dymor yn elfen sylweddol o raglen Gofal yn Nes at y Cartref BIPBC a datblygu'r gefnogaeth trwy dimau clwstwr lleol.<br>Gweler adroddiad ymgynghori am ymatebion ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael. | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd.<br>Yn gysylltiedig i ffrwd gwaith pobl hŷn |

Draft

# Anableddau dysgu

## Asesiad poblogaeth: yr hyn wnaethom ni ei ddarganfod

- Mae tua 2,700 o bobl ag anableddau dysgu ar gofrestri cynghorau lleol Gogledd Cymru. Mae'n bosibl bod union nifer y bobl sydd ag anableddau dysgu yn fwy na hyn.
- Mae nifer y bobl ag anableddau dysgu sydd arnynt angen gofal yn cynyddu ac mae pobl ag anableddau dysgu yn byw yn hirach. Mae'r tueddiadau hyn yn debygol o barhau.
- Mae iechyd pobl ag anableddau dysgu yn tueddu i fod yn wael, hefyd mae arnynt angen mwy o ofal iechyd ac maent yn fwy tebygol o farw'n gynnar o'u cymharu â gweddill y boblogaeth.
- Mae'n debygol bod mwy o bobl ifanc ag anghenion cymhleth sydd arnynt angen cymorth.
- Mae'n bosibl fod gan bobl sydd ag anableddau dysgu nodweddion eraill a ddiogelir ac efallai eu bod dan anfantais oherwydd y rhain. Er enghraifft, pobl hŷn gydag anableddau dysgu a phobl gydag anableddau dwys a lluosog a'r defnydd o'r Gymraeg.

## Sut rhoddir sylw i ganfyddiadau'r adroddiad

| Mater | Sefydliad Arweiniol | Yr hyn sy'n cael ei wneud | Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|---|
| Integreiddio gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Blaenoriaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Arwain ar y flaenoriaeth |
| Rhoi cymorth i ofalwyr hŷn a phobl hŷn ag anableddau dysgu | Awdurdodau lleol<br>BIPBC<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol<br>Cymdeithasau Tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Rhan o Ffrwd Gwaith Anableddau Dysgu BPRh yn cael ei gyflawni gan Bartneriaeth Anableddau Dysgu | Y BPRh yn arwain ar y flaenoriaeth hon trwy waith Partneriaeth Anableddau Dysgu |
| Hyrwyddo iechyd da ymhlith pobl hŷn ag anableddau dysgu, gan | BIPBC<br>Awdurdodau lleol | Rhan o Ffrwd Gwaith Anableddau Dysgu BPRh yn cael ei gyflenwi gan | Y BPRh yn arwain ar y flaenoriaeth hon trwy waith Partneriaeth Anableddau Dysgu |

| Mater | Sefydliad Arweiniol | Yr hyn sy’n cael ei wneud | Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|---|
| gynnwys pobl â dementia | Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol | Bartneriaeth Anableddau Dysgu | |
| Datblygu mwy o fynediad yn y gymuned i gefnogi pobl ag anabledd dysgu, gan gynnwys gwaith a chyfeillgarwch. | Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol | Rhan o Ffrwd Gwaith Anableddau Dysgu BPRh yn cael ei gyflenwi gan Bartneriaeth Anableddau Dysgu | Y BPRh yn arwain ar y flaenoriaeth hon trwy waith Partneriaeth Anableddau Dysgu |
| Diogelu oedolion ag anableddau dysgu, gan gynnwys ym maes technoleg a phan fyddant allan. | Awdurdodau lleol<br>BDOGC<br>Heddlu Gogledd Cymru<br>Grŵp hyfforddiant diogelu a gweithlu, hyfforddiant awdurdod lleol<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol<br>Cymdeithasau Tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Rhan o Ffrwd Gwaith Anableddau Dysgu BPRh yn cael ei gyflawni gan Bartneriaeth Anableddau Dysgu BDOGC i godi ymwybyddiaeth am y risg o gam-drin ariannol, sgamiau ac ati.<br>Sicrhau bod y gweithlu sydd yn cefnogi oedolion gydag anableddau dysgu yn ymwybodol o’r risg o gam-drin ariannol | Y BPRh yn arwain ar y flaenoriaeth hon trwy waith Partneriaeth Anableddau Dysgu |
| Cefnogaeth i bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed sydd yn symud rhwng gwasanaethau plant ac oedolion, gan gynnwys pobl ifanc gydag anghenion cymhleth iawn | Awdurdodau lleol<br>BIPBC<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol | Rhan o Ffrwd Gwaith Anableddau Dysgu BPRh yn cael ei gyflawni gan Bartneriaeth Anableddau Dysgu | Y BPRh yn arwain ar y flaenoriaeth hon trwy waith Partneriaeth Anableddau Dysgu |
| Gweler y bennod ASD i gael rhagor o wybodaeth am y bwlch mewn cefnogaeth i oedolion ar y sbectrwm awtistig. | | | |

Draft

# Iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau

## Asesiad poblogaeth: yr hyn wnaethom ni ei ddarganfod

- Amcangyfrifir bod 92,000 o oedolion yng Ngogledd Cymru yn cael eu heffeithio gan broblemau iechyd meddwl, sef 16% o'r boblogaeth.
- Mae pobl yng Ngogledd Cymru ychydig yn fwy tebygol i adrodd am eu problemau iechyd meddwl nag yng Nghymru yn gyffredinol.
- Mae nifer y bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn debygol o gynyddu.
- Y mathau mwyaf cyffredin o salwch meddwl yr adroddir amdanynt yw gorbryder ac iselder.
- Mae ymchwil yn awgrymu nad yw llawer o bobl â phroblemau iechyd yn chwilio am gymorth.
- Mae yna broblem gyda'r nifer o bobl sy'n cael eu hanfon i gyfleusterau iechyd meddwl y tu allan i'r rhanbarth, ac mae'r mater hwn yn cael sylw yn rhan o'r strategaeth iechyd meddwl.
- Mae nifer y bobl ag anghenion mwy cymhleth yn cynyddu.
- Mae pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn fwy tebygol o fod yn wael yn gorfforol.
- Fe nododd yr ymgynghoriad bod grwpiau o bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn wynebu lefelau cynyddol o aflonyddu ac mae'r rhai sydd yn byw y tu allan i ardaloedd y mae lleiafrifoedd yn clystyru yn fwy tebygol o brofi aflonyddu. Mae aflonyddu yn niweidio iechyd meddwl hyd yn oed y rhai nad ydynt yn ei brofi'n uniongyrchol.
- Mae ffactorau risg ar gyfer anghenion iechyd meddwl yn effeithio'n anghyfartal ar bobl o grwpiau ar y cyrion. Er enghraifft, grwpiau BAME, pobl LGBTQ, pobl gydag anabledd corfforol, nam ar y synhwyrau neu gyflyrau iechyd hir dymor; ffoaduriaid a cheiswyr lloches.
- Mae'r asesiad poblogaeth yn gysylltiedig â gwaith y Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau.

# Sut rhoddir sylw i ganfyddiadau'r adroddiad


| Mater | Sefydliad arweiniol | Yr hyn sy'n cael ei wneud | Rôl y Bwrdd Partneriaeth Lleol |
|---|---|---|---|
| Datblygu strategaeth iechyd meddwl integredig | Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol | Blaenoriaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Arwain ar y flaenoriaeth |
| Gwella gwasanaethau iechyd meddwl gan gynnwys:<br>• Hyrwyddo iechyd a lles i bawb, canolbwyntio ar atal salwch meddwl, ac ymyrraeth gynnar pan fo angen;<br>• Trin cyflyrau iechyd meddwl cyffredin yn y gymuned mor fuan â phosibl;<br>• Eu bod yn seiliedig yn y gymuned lle bynnag y bo'n bosibl, gan leihau ein dibyniaeth ar ofal mewnol<br>• Adnabod a thrin salwch meddwl difrifol mor fuan â phosibl;<br>• Rheoli pyliau aciwt a difrifol o salwch meddwl yn ddiogel, yn dosturiol, ac yn effeithiol;<br>• Cefnogi pobl i wella, i ailennill a dysgu'r sgiliau y maent eu hangen ar ôl salwch meddwl<br>• Asesu a thrin yr ystod lawn o broblemau iechyd meddwl, gweithio ar y cyd â gwasanaethau i bobl gydag anghenion iechyd corfforol. | BIPBC<br>Awdurdodau lleol<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol | Strategaeth Iechyd Meddwl BIPBC<br>Bwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Gogledd Cymru wedi ailymgynnull ym mis Gorffennaf | Mae'r gwaith yn cael ei arwain gan Fwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl sydd yn adrodd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. |
| Hyrwyddo lles meddwl, gan gynnwys darparu cyfleoedd cyfeillio i gael mynediad at weithgareddau cymdeithasol presennol a chyfleoedd gwaith.<br>Adnabod anghenion iechyd meddwl ac ymyrraeth gynnar yn well | BIPBC, awdurdodau lleol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, wedi'u cefnogi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol | Strategaeth Iechyd Meddwl BIPBC<br>Asesiadau a chynlluniau llesiant | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd.<br>Bwrdd Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn adrodd i'r BPRh. |

Draft

| Mater | Sefydliad arweiniol | Yr hyn sy'n cael ei wneud | Rôl y Bwrdd Partneriaeth Lleol |
|---|---|---|---|
| Lleihau achosion o hunanladdiad a hunan-niweidio yn y boblogaeth. | Grŵp Atal Hunan-laddiad a Hunan-Niweidio Gogledd Cymru a Thimau Gweithredu Lleol ym mhob ardal cyngor. | Cynllun strategol atal Hunanladdiad a Hunan-Niweidio Gogledd Cymru 2018-21 [add link] | Mae Grŵp Hunanladdiad a Hunan-niweidio Gogledd Cymru yn adrodd i Fwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl sydd yn adrodd i'r BPRh. |
| Camddefnyddio sylweddau | Bwrdd Cynllunio Ardal camddefnyddio sylweddau | Gwella canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth; defnyddwyr gwasanaeth yn cymryd rhan; ac ymgysylltu â rhaglenni gwella<br>Grŵp lleihau niwed yn monitro cynnydd posibl mewn marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau ar draws Cymru.<br>Safonau craidd i gael eu hadolygu'n genedlaethol. | Adroddiad blynyddol gan y bwrdd cynllunio ardal i'r BPRh. |
| Gweler y bennod ASD i gael rhagor o wybodaeth am y bwlch mewn cefnogaeth i oedolion ar y sbectrwm awtistig. | | | |

Bydd llawer o ganfyddiadau'r adroddiad yn cael sylw yn strwythur gweithredu Law yn Llaw at Iechyd Meddwl isod.

Draft


Iechyd Meddwl – Strwythur Gweithredu
GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board
Adrodd lluosog
Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl
Prif Swyddogion, ALl, yr Heddlu, Iechyd, Iechyd y Cyhoedd, Sector Gwirfoddol, Profiad Byw
Pennu cyfeiriad, dal y system i gyfrif
Adrodd lluosog
Grŵp Cyflawni
Law yn Llaw at Iechyd Meddwl
Concordat Argyfwng
Cynllunio Lleol
Beth am Siarad â Fi?
Grwpiau ansawdd a gweithlu rhanbarthol
Cyfnod Pontio CAMHS
Fforensig
Pobl Hŷn
Gofal Aciwt
Timau Iechyd Meddwl Cymunedol
Achosion Cymhleth ac Adferiad
Grŵp Gofal Cychwynnol a Lles
Grwpiau Cynghori Rhanbarthol
Grŵp Comisiynu Iechyd Meddwl
Datblygiad y Trydydd Sector
Rhanbarthol
Is-Ranbarthol
Lleol
TGLlau y Gorllewin
Yr Heddlu, Iechyd, Awdurdod Lleol, 3ydd Sector, Profiad Byw WAS
Ynys Môn
Gwynedd
TGLlau y Canol
Yr Heddlu, Iechyd, Awdurdod Lleol, 3ydd Sector, Profiad Byw WAS
Conwy
Sir Ddinbych
TGLlau y Dwyrain
Yr Heddlu, Iechyd, Awdurdod Lleol, 3ydd Sector, Profiad Byw WAS
Sir y Fflint
Wrecsam

Dra

# Gofalwyr

## Asesiad poblogaeth: yr hyn wnaethom ni ei ddarganfod

- Mae gofalwyr yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu gofal a chymorth, gan ddarparu rhwng 70% a 95% o ofal, ac arbed £7.72 biliwn y flwyddyn yng Nghymru. Mae yna achos felly dros ddatblygu a pharatoi gwasanaethau ar gyfer gofalwyr yn gyntaf.
- Mae nifer y gofalwyr yng Ngogledd Cymru yn cynyddu, yn enwedig yng ngogledd-orllewin Cymru.
- Pobl rhwng 50 a 64 oed sy'n fwyaf tebygol o ddarparu gofal di-dâl.
- Mae hanner yr holl ofalwyr yng Ngogledd Cymru yn gweithio: mae cefnogaeth eu cyflogwyr a chydweithwyr yn hanfodol i ofalwyr sy'n gweithio er mwyn eu helpu i barhau yn eu rôl fel gofalwyr.
- Mae'r cynnydd yn y galw am ofal cymdeithasol a nodwyd ym mhenodau eraill adroddiad yr asesiad poblogaeth yn debygol o arwain at fwy o bobl yn darparu gofal di-dâl a darparu gofal am gyfnodau hirach.
- Mae dros 1,000 o ofalwyr ifanc wedi eu nodi ar draws Gogledd Cymru, ac mae'r nifer hwn wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf.
- Fe all pobl â nodweddion a ddiogelir brofi nifer o anfanteision oherwydd eu rôl gofalu a rhwystrau ychwanegol i gael cefnogaeth.

## Mapio gwasanaeth a chasglu straeon gofalwyr: yr hyn y gwnaethom ei ddysgu

- Mae adnabod gofalwyr yn fuan yn allweddol i sicrhau eu bod yn cael eu hystyried ar yr un sail â'r unigolion y maent yn gofalu amdanynt.
- Gan fod sefyllfa pob gofalwr yn unigryw, maent angen pecynnau cymorth wedi'u teilwra, gan ystyried eu hamgylchiadau personol ac effaith emosiynol eu rôl gofalu.

# Sut rhoddir sylw i ganfyddiadau'r adroddiad

| Mater | Sefydliad arweiniol | Yr hyn sy'n cael ei wneud | Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|---|
| Integreiddio gwasanaethau ar gyfer gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | [Blaenoriaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol] | Arwain ar y flaenoriaeth |
| Datblygu asesiadau gofalwyr ac asesiadau ar y cyd sy'n diwallu gofynion y ddeddf ac sy'n helpu i sicrhau canlyniadau da i ofalwyr | Awdurdodau lleol<br>Grŵp Strategaeth Gofalwyr Gogledd Cymru | Gweithredu asesiadau 'Yr hyn sy'n bwysig'<br>Grŵp Strategaeth Gofalwyr yn ystyried defnydd o iaith (gofalwyr ddim yn ystyried eu hunain yn ofalwyr) a gwella cysondeb ar draws gogledd Cymru | [Blaenoriaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol]<br>Monitro'r gwaith o weithredu'r ddeddf a nifer o asesiadau a gwblhawyd. |
| Adnabod gofalwyr yn fuan a darparu cymorth iddynt | BIPBC gan gynnwys meddygon teulu | Peilot offeryn asesu Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu | [Blaenoriaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol]<br>Grŵp Strategol Gofalwyr yn adrodd i Grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru<br>Bydd hefyd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd. |
| Darparu cyfleoedd seibiant hyblyg digonol i ofalwyr | Awdurdodau lleol<br>Grŵp Strategaeth Gofalwyr Gogledd Cymru<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol | Prosiectau rhanbarthol gofalwyr<br>Rhagnodi Cymdeithasol<br>Llywyr cymunedol | |
| Cefnogi gofalwyr yn eu gwaith | Cyflogwyr ar draws gogledd Cymru<br>Cysylltu i waith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol | Prosiectau rhanbarthol gofalwyr | |
| Cefnogi gofalwyr trwy ddiwallu anghenion y person dan ofal yn well | Awdurdodau lleol<br>BIPBC<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol | Gweler penodau eraill. | |
| Gofalwyr ifanc | Awdurdodau lleol, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol ac ysgolion<br>BIPBC<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol | Gwasanaeth gofalwyr ifanc yn ei le ar draws y rhanbarth. Wedi'i gomisiynu'n is-ranbarthol.<br>Is-grŵp gofalwyr ifanc. | |

Draft

# Trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol

## Asesiad poblogaeth: yr hyn wnaethom ni ei ddarganfod

- Nid yw'r heddlu yn cael gwybod am bob achos o drais a cham-drin domestig a rhywiol ond mae nifer yr adroddiadau yn cynyddu.
- Cofnodwyd tua 11,000 o achosion domestig gan yr heddlu a thua 1,400 achos o droseddau rhyw yng Ngogledd Cymru yn ystod 2015-16.
- Mae trais a cham-drin domestig a rhywiol yn effeithio ar ferched a dynion ond mae merched yn fwy tebygol o ddioddef. Dylai gwasanaethau ystyried anghenion gwahanol merched a dynion ac anghenion pobl mewn perthynas o'r un rhyw.
- Mae achosion o reolaeth drwy orfodaeth bellach yn cael eu cofnodi yng Ngogledd Cymru ers i hyn ddod yn drosedd ym mis Rhagfyr 2015.
- Mae cam-drin domestig yn costio tua £66 miliwn i'r gwasanaethau cyhoeddus yng Ngogledd Cymru o ran gofal iechyd, cyfiawnder troseddol, gwasanaethau cyhoeddus, tai a llochesau, costau cyfreithiol ac allbwn economaidd a gollwyd.

Ymhlith y blaenoriaethau a awgrymwyd ar gyfer gwaith yn y dyfodol, mae:

- Datblygu cysylltiadau cryfach o ran strategaeth ac arferion rhwng gwasanaethau cam-drin domestig a diogelu oedolion. Codi ymwybyddiaeth ymhlith staff am effaith cam-drin domestig ar y bobl maent yn gweithio â nhw.
- Yr angen am gymorth i blant a phobl ifanc sy'n dyst i drais a cham-drin domestig.
- Sicrhau bod digon o ddewisiadau ar gael i gartrefu dioddefwyr trais a cham-drin domestig sydd ag anghenion gofal a chymorth ychwanegol sy'n gofyn bod staff ar gael ddydd a nos.
- Darganfod mwy ynglŷn â'r angen am gymorth arbenigol, fel cymorth yn ôl yr angen, ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yng Ngogledd Cymru.

## Sut rhoddir sylw i ganfyddiadau'r adroddiad

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol baratoi strategaethau erbyn mis Mai 2018 o dan Ddeddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae strategaeth Gogledd Cymru yn cael ei llunio er mwyn adeiladu ar ganfyddiadau'r asesiad poblogaeth ac adborth ychwanegol a dderbyniwyd ers ei gyhoeddi. Mae'r strategaeth ar gael yn: [add link once available]

Mae cam-drin domestig yn flaenoriaeth ar gyfer Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion Gogledd Cymru. Byddant yn parhau i fonitro tueddiadau cam-drin domestig trwy Fframwaith Sicrhau Ansawdd Gogledd Cymru. Bydd Gweithlu Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ac is-grŵp Hyfforddiant yn monitro materion yn ymwneud â chydymffurfio â hyfforddiant fel y bydd swyddogion hyfforddi mewn awdurdodau lleol.

Drafft

# Sefydliadau diogel

## Asesiad poblogaeth: yr hyn wnaethom ni ei ddarganfod

- Mae nifer y carcharorion o Ogledd Cymru rhwng 760 ac 850 fel arfer, ac mae 40-50 o’r rhain yn ferched, mae 60-70 yn droseddwyr ifanc a 50-60 mewn unedau tra diogel.
- Mae nifer y bobl sy’n cael eu cadw yn y carchar ar gynnydd.
- Mae achosion o salwch meddwl, camddefnyddio sylweddau ac anableddau dysgu yn fwy cyffredin ymhlith oedolion sydd yn y carchar nag ymhlith y boblogaeth yn gyffredinol.
- Mae canran y troseddwyr 50 oed a throsodd sydd yn y carchar wedi cynyddu yn ôl cyfran yn fwy nag unrhyw grŵp oedran arall, ac mae gan hyn oblygiadau o ran gofal cymdeithasol.
- Mae gan lai nag un y cant o’r bobl sydd yn y carchar un neu fwy o anghenion gofal personol. Mae’r gyfran yn cynyddu gydag oedran ac mae gan 13% o bobl 65-74 oed a 23% o bobl dros 75 oed anghenion gofal personol.
- Mae plant sydd â rhiant yn y carchar ddwywaith yn fwy tebygol na phlant eraill o gael problemau ymddygiad ac iechyd meddwl a deirgwaith yn fwy tebygol o droseddu eu hunain.
- Cynhaliwyd Asesiad Anghenion Iechyd Carchardai Gogledd Cymru a Strategaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion mewn Carchardai wrth ddatblygu CEM y Berwyn.

# Sut rhoddir sylw i ganfyddiadau'r adroddiad

| Mater | Sefydliad Arweiniol | Yr hyn sy'n cael ei wneud | Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|---|
| Rhoi cymorth i oedolion ag anghenion gofal a chymorth yn y sefydliad diogel o fewn ffiniau eu sir | Awdurdodau lleol mewn partneriaeth gyda Charchar Ei Mawrhydi, y Gwasanaeth Prawf a BIPBC<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn arwain yn achos CEM y Berwyn<br>Bwrdd Partneriaeth Iechyd, Lles a Gofal Cymdeithasol mewn Carchardai | Strategaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion mewn Carchardai (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)<br>Llwybr Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gofal a chymorth i bobl mewn sefydliadau diogel. | Cytuno blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd. |
| Darparu dilyniant o ran gofal ar gyfer troseddwyr sy'n dod i'w hardal ar ôl cael eu rhyddhau | Awdurdodau lleol<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol<br>Cymdeithasau Tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Llwybr Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gofal a chymorth i bobl mewn sefydliadau diogel. | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd. |
| Rhoi cymorth i blant sydd ag anghenion gofal a chymorth yn y sefydliadau diogel | Awdurdodau lleol | | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd. |
| Gwella canlyniadau adsefydlu i bobl ifanc | Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid<br>Awdurdodau lleol<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol<br>Cymdeithasau Tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Cydlynu Prosiect Brocer Adsefydlu Gogledd Cymru Adroddiad Llamau<br>Grŵp panel adsefydlu yn ei le ar gyfer CEM y Berwyn – gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol. | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd. |
| Troseddwyr sy'n cael eu cadw y tu hwnt i'r rhanbarth: yn enwedig merched, troseddwyr ifanc a dynion o gategorïau eraill (mae CEM y Berwyn yn gategori C) | Llywodraeth y DU | Llywodraeth y DU sydd yn penderfynu ar safleoedd carchardai a rhannau eraill o sefydliadau diogel. Byddwn yn parhau i dynnu sylw at anghenion troseddwyr sy'n cael eu cadw y tu allan i'r rhanbarth. | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd. |

Draft

| Mater | Sefydliad Arweiniol | Yr hyn sy'n cael ei wneud | Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|---|
| Rhoi cymorth i blant a theuluoedd troseddwyr | Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru<br>Awdurdodau lleol<br>BIPBC<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol | Ariannu dwy swydd ranbarthol i ddatblygu'r rhaglen ar gyfer gogledd Cymru i blant a theuluoedd sy'n cael eu heffeithio pan fydd aelod o'r teulu yn y carchar<br>Mae Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn cynnwys cynrychiolaeth o CEM y Berwyn | Yn cysylltu i brosiect 1,000 diwrnod cyntaf a rhaglen Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod<br>Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd. |

Draft

# Cyn-filwyr

## Asesiad poblogaeth: yr hyn wnaethom ni ei ddarganfod

- Diffinnir cyn-filwr fel rhywun sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog Ei Mawrhydi am ddiwrnod o leiaf. Mae hyn yn cynnwys pobl sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd wrth Gefn/Cynorthwyol.
- Amcangyfrifir bod tua 51,000 o gyn-filwyr yn byw yng Ngogledd Cymru, sef tua 9% o'r boblogaeth dros 16 oed.
- Mae disgwyl i nifer y cyn-filwyr ostwng yn y dyfodol i tua 22,000 erbyn 2030.
- Mae mwyafrif y cyn-filwyr yn 65 oed a throsodd felly yn y dyfodol bydd cyfran fwy o gyn-filwyr yn bobl iau o gefndir mwy amrywiol.
- Mae gan tua un mewn pump o gyn-filwyr salwch tymor hir sy'n gysylltiedig â gwasanaeth milwrol, fel problemau cyhyrysgerbydol, problemau clyw a salwch meddwl.
- Mae pob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru wedi llofnodi Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog, gan addo i gefnogi cyn-weithwyr y lluoedd a chyn-filwyr mewn perthynas ag addysg, sgiliau a chyflogaeth; tai; iechyd a llesiant.

# Sut rhoddir sylw i ganfyddiadau'r adroddiad

| Mater | Sefydliad arweiniol | Yr hyn sy'n cael ei wneud | Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|---|
| Anghenion cyn-filwyr o ran gofal cymdeithasol; iechyd a lles; tai; addysg, sgiliau a chyflogaeth | Awdurdodau lleol<br>BIPBC<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol<br>Cymdeithasau Tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Asesiad o anghenion manwl wedi ei gwblhau i lywio'r asesiad poblogaeth.<br>Cynllun gweithredu wedi'i lunio gan Fforwm Lluoedd Arfog Gogledd Cymru<br>Sefydlwyd Is-grŵp Bwrdd Iechyd y Lluoedd Arfog | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan Fforwm Lluoedd Arfog Gogledd Cymru ac asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd. |
| Gwella'r cymorth i gyn-filwyr, milwyr sy'n gwasanaethu a'u teuluoedd yng ngogledd Cymru. | Fforwm Lluoedd Arfog Gogledd Cymru<br>Partneriaid: BIPBC, Iechyd Cyhoeddus Cymru, awdurdodau lleol, y Lluoedd Arfog, Heddlu Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru, y trydydd sector | | |

Drafft

# Tai a digartrefedd

## Asesiad poblogaeth: yr hyn wnaethom ni ei ddarganfod

- Mae tai o ansawdd yn bwysig i iechyd pobl, eu haddysg a chyflogaeth ac er mwyn creu cymunedau cryf.
- Mae'r rhan fwyaf o bobl eisiau aros yn eu cartrefi eu hunain mor hir â phosibl. Gall cynllunio cynhwysol ac addasiadau helpu i wneud hyn yn bosibl.
- Mae anghenion heb eu diwallu mewn perthynas â thai arbenigol gan gynnwys tai gofal ychwanegol, tai â chymorth ar gyfer pobl ag anghenion dysgu, llety 'symud ymlaen' ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl, llety ar gyfer unigolion a llety yn ystod y nos mewn argyfwng. Mae angen rhoi cefnogaeth i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig gyda phroblemau tai.

## Sut rhoddir sylw i ganfyddiadau'r adroddiad

| Mater | Sefydliad arweiniol | Yr hyn sy'n cael ei wneud | Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|---|
| Cymorth tai i bobl sy'n gadael y sefydliad diogel | Awdurdodau lleol<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol<br>Cymdeithasau Tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Llwybr Cenedlaethol Llywodraeth Cymru<br>Strategaethau tai lleol | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd.<br>Gweithio gyda Phwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl |
| Angen am dai arbenigol | Awdurdodau lleol<br>Cymdeithasau Tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Strategaethau tai lleol<br>Ymchwilio i Wasanaethau Cymorth ar gyfer Pobl sy'n Gadael y Carchar yng Ngogledd Cymru | |
| Atal digartrefedd | Awdurdodau lleol<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol<br>Cymdeithasau Tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | | |

Draft

| Mater | Sefydliad arweiniol | Yr hyn sy’n cael ei wneud | Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|---|
| Cydweithio rhwng gwasanaethau tai ac iechyd meddwl | BIPBC ac awdurdodau lleol | Grŵp adsefydlu Iechyd Meddwl a Llety. Lluniwyd datganiad comisiynu<br>Penodwyd swyddog datblygu tai â chymorth | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o’u busnes craidd. |

Drafft

# Anhwylder y Sbectrwm Awtistig (ASD)

## Asesiad poblogaeth: yr hyn wnaethom ni ei ddarganfod

- Amcangyfrifr bod gan 1% o boblogaeth y DU Anhwylder y Sbectrwm Awtistig (ASD) a bod dynion bedair gwaith yn fwy tebygol o gael ASD na merched.
- Mae nifer y bobl ag ASD wedi cynyddu a disgwylir y bydd yn parhau i gynyddu. Gall hyn fod oherwydd gwell ymwybyddiaeth o'r cyflwr a'r ffaith bod y cysyniad o ASD yn ehangu.
- Erbyn 2035 disgwylir y bydd tua 1,600 o blant ag ASD yng Ngogledd Cymru a rhagwelir y bydd nifer yr oedolion 18 oed a throsodd ag ASD yn codi o 5,500 i 6,000.
- Mae'n debygol na fydd oedolion ag ASD yn cael diagnosis gan mai dim ond ar ddechrau'r 1990au y daeth yr asesiad ar gael ac mae wedi canolbwyntio'n bennaf ar blant.
- Mae gwasanaethau anabledd dysgu ac iechyd meddwl yn darparu rhywfaint o gymorth ar hyn o bryd i unigolion ag ASD yng Ngogledd Cymru. Fe wnaethom nodi bwlch yn y cymorth i bobl sydd ag ASD ond nad ydynt yn gymwys i dderbyn y gwasanaethau hynny.

## Sut rhoddir sylw i ganfyddiadau'r adroddiad

| Mater | Sefydliad arweiniol | Yr hyn sy'n cael ei wneud | Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|---|
| Datblygu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig i bobl nad ydynt yn gymwys am wasanaethau anableddau dysgu neu iechyd meddwl | Grŵp Strategaeth Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru | Datblygu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig i Ogledd Cymru. | Mae'r BPRh yn gyfrifol am gyflwyno IAS yng Ngogledd Cymru. |
| Datblygu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth am ASD | Grŵp Strategaeth Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru | Cynlluniau yn cael eu llunio | Cefnogi'r ymagwedd ranbarthol trwy Grŵp Strategaeth IAS |

| Mater | Sefydliad arweiniol | Yr hyn sy'n cael ei wneud | Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|---|
| Mynd i'r afael â'r gyfradd uchel o hunanladdiad ymhlith pobl ag ASD | Grŵp Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Gogledd Cymru: Bwrdd Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, awdurdodau lleol, yr Heddlu, National Rail, y trydydd sector, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol | Datblygu cynllun strategol Atal Hunanladdiad a Hunan-Niweidio Gogledd Cymru | Grŵp Hunan-laddiad a Hunan-niweidio Gogledd Cymru yn adrodd i Fwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl sydd yn adrodd i'r BPRh. |

Draft

# Rhan C: Canfyddiadau cyffredinol

## Asesiad poblogaeth: yr hyn wnaethom ni ei ddarganfod

Roedd pob un o'r penodau yn nodi anghenion mewn perthynas â'r themâu trawsbynciol:

- Gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar
- Gwybodaeth, cyngor a chymorth
- Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Eiriolaeth
- Trafnidiaeth a mynediad at wasanaethau
- Argaeledd gwasanaethau yn y Gymraeg
- Hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mudiadau cydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad defnyddwyr a'r trydydd sector
- Annog cymorth anffurfiol gan deuluoedd, ffrindiau a rhwydweithiau cymunedol a gofalwyr cefnogi.
- Darparu gwasanaethau yn seiliedig ar 'beth sy'n bwysig' i unigolion
- Llais i ddinasyddion
- Diogelu
- Tlodi ac anghyfartaledd
- Ansawdd data poblogaeth a pherfformiad
- Heriau o gyflwyno gwasanaethau yn yr hinsawdd ariannol presennol

## Sut rhoddir sylw i ganfyddiadau'r adroddiad

Mae'r partneriaid yn rhoi sylw i'r holl themâu trawsbynciol fel rhan o'u gwaith craidd. Bydd y gwaith hwn yn cefnogi gweithredu a gwreiddio gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n rhaid ystyried yr holl faterion trawsbynciol hyn wrth ddatblygu blaenoriaethau rhanbarthol a gwasanaethau cwbl integredig.

Mae rhagor o wybodaeth yng nghynlluniau ac adroddiadau pob partner gan gynnwys cynlluniau corfforaethol, cynlluniau cydraddoldeb strategol a chynlluniau datblygu lleol isod.

| Sefydliad | Strategaethau a chynlluniau | Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol: |
|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/tudalen/88114<br>Cynllun Cydraddoldeb Strategol | |
| Cyngor Sir Ynys Môn | http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/governance-and-performance-/corporate-plan-and-performance/<br>Cynllun cydraddoldeb strategol | http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/strategaethau-a-pholisiau-y-cyngor/-gofal-lles-a-tai/adroddiad-blynyddol-gyfarwyddwr-gwasanaethau-cymdeithasol/114411.article?redirect=false |
| Cyngor Gwynedd | https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%c3%afau/Cynlluniau-corfforaethol-a-strategaethau/Cynlluniau-corfforaethol-a-strategaethau.aspx<br>Cynllun cydraddoldeb strategol | https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad-a-gwariant/Archwiliadau,-arolygon-ac-asesiadau/Adroddiad-Blynyddol-Gwasanaethau-Cymdeithasol.aspx |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | http://www.conwy.gov.uk/cy/Council/Strategies-Plans-and-Policies/Strategies-Plans-and-Policies.aspx<br>Cynllun cydraddoldeb strategol | www.adroddiadblynyddolgwasanaethaucymdeithasolconwy.org.uk |
| Cyngor Sir Ddinbych | https://www.denbighshire.gov.uk/cy/eich-cyngor/strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau.aspx<br>Cynllun cydraddoldeb strategol | https://www.denbighshire.gov.uk/cy/eich-cyngor/strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/gofal-cymdeithasol/adroddiad-blynyddol-y-gwasanaethau-cymdeithasol.aspx |
| Cyngor Sir y Fflint | http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Council-and-Democracy/Improvement-Plan.aspx<br>Cynllun cydraddoldeb strategol | http://www.siryfflint.gov.uk/cy/PDFFiles/Social-Services/Social-Services-Annual-Report-2016-17-Welsh.pdf |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | http://www.wrexham.gov.uk/welsh/council_w/documents/index.htm<br>Cynllun cydraddoldeb strategol | http://www.wrexham.gov.uk/welsh/council_w/social_services/annual_report.htm |

Hefyd, mae nifer o fentrau rhanbarthol lleol dan arweiniad awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd yn rhoi sylw i'r blaenoriaethau hyn, fel y dengys y tabl isod.

Draft

| Mater | Sefydliad arweiniol | Yr hyn sy'n cael ei wneud | Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|---|
| Gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar | BIPBC<br><br>Awdurdodau lleol (gan gynnwys rhaglenni Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf)<br><br>Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol<br><br>Cymdeithasau Tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Llif gwaith gwella iechyd a lleihau anghydraddoldeb (yn cynnwys Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod)<br><br>Rhannwyd canfyddiadau'r asesiad poblogaeth â chomisiynwyr fel sail ar gyfer y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Set dysgu comisiynu rhanbarthol yn goruchwylio comisiynu Teuluoedd yn Gyntaf.<br><br>Cronfa Gofal Integredig (ICF)<br><br>Amrywiaeth eang o brosiectau'n cael eu cyflwyno gan bartneriaid – gweler Dewis i gael enghreifftiau | Arwain ar gyfer Cronfa Gofal Integredig: Diweddaru'r bwrdd bob chwe mis. Adroddiadau eithrio fel y bo angen. Partneriaeth i oruchwylio rheolaeth weithredol o'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) |
| Gwybodaeth, cyngor a chymorth | Dewis Cymru<br><br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol<br><br>Cymdeithasau Tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Sefydlwyd Rhwydwaith Gwybodaeth Gogledd Cymru, yn cyfarfod bob dau fis. Cadeirydd Bethan Jones-Edwards, Tîm Cydweithio Rhanbarthol<br><br>Hyrwyddwyd Dewis Cymru fel rhan o'r asesiad poblogaeth. | Y BPRh yn derbyn adroddiadau diweddaru gan y rhwydwaith. |
| | Un Pwynt Mynediad<br><br>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd | Yn eu lle ym mhob awdurdod lleol, llawer ohonynt yn dimau amlddisgyblaethol, cydlynu gofal. | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd. |

Draft

| Mater | Sefydliad arweiniol | Yr hyn sy'n cael ei wneud | Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|---|
| Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Pob sefydliad a phartner sector cyhoeddus. | Bydd rhaid cynnal Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob gwasanaeth a ddatblygir i ymateb i'r cynllun.<br>Mae materion i'w hystyried a dolenni i dystiolaeth ymchwil ac ymgynghoriad wedi'u cynnwys yn yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ac adroddiad ymgynghori ar gyfer y cynllun hwn. | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau bod Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gwblhau pan fo'n briodol ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau integredig a ddatblygwyd dan y cynllun hwn. |
| Eirioli | Awdurdodau lleol<br>BIPBC<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol<br>Cymdeithasau Tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd (Age Cymru)<br>Eiriolaeth plant, contract rhanbarthol – Tros Gynnal | Cytuno blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd.<br>PGOGC a PGPGC i arwain prosiectau eirioli rhanbarthol. |
| Mynediad at Wasanaethau a Chludiant | Awdurdodau lleol<br>BIPBC<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol | BIPBC i dreialu mentrau gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a Chymdeithas Cludiant Cymunedol | Angen trafod a chytuno gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus lle mae angen gosod y flaenoriaeth. |
| Y Gymraeg | Fforwm Mwy Na Geiriau a'r Bwrdd Gweithlu ynghyd â chynlluniau lleol (Morwena Edwards)<br>Cyfarfod rhanbarthol gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, Cadeirydd Meilyr Emrys BIPBC | Rhannwyd canfyddiadau'r asesiad poblogaeth â'r asiantaethau arweiniol. Mae'r rhain wedi'u hadlewyrchu yn strategaeth y gweithlu. | Derbyn adroddiadau drwy ffrwd gwaith y gweithlu. |

Draft

| **Mater** | **Sefydliad arweiniol** | **Yr hyn sy'n cael ei wneud** | **Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** |
|---|---|---|---|
| Hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mudiadau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector | Tîm cydweithio rhanbarthol (fforwm gwerth cymdeithasol)<br>Mentrau cymdeithasol, trydydd sector, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol | Hyrwyddo gwerth cymdeithasol mewn gwasanaethau a chomisiynu gofal cymdeithasol<br>Sefydlu fforwm gwerth cymdeithasol ym mhob awdurdod lleol. | Y BPRh yn derbyn adroddiadau bob chwe mis gan y fforwm gwerth cymdeithasol |
| Llais y Dinesydd | CGGC o dan gontract i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. | Panel Dinasyddion Gogledd Cymru | Derbyn yr adroddiad blynyddol |
| Tlodi ac anghyfartaledd Effaith diwygio'r gyfundrefn les gan gynnwys digartrefedd (yn enwedig ar gyfer pobl ifanc) ac iechyd meddwl | Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus<br>Awdurdod lleol – strategaeth dai<br>Sefydliadau trydydd sector, gwirfoddol a chymunedol (hawliau lles)<br>Cymdeithasau Tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Cynlluniau Llesiant BGC<br>Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, Llywodraeth Cymru | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd. |
| Diogelu | Uned Fusnes Diogelu, Tîm Cydweithio Rhanbarthol<br>Pob partner | Cynllun busnes oedolion a phlant.<br>Byrddau Diogelu Oedolion a Phlant Gogledd Cymru | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd.<br>Y gwaith cyflenwi i gael ei fonitro gan y bwrdd diogelu statudol. |
| Gwella ansawdd data poblogaeth a pherfformiad | Llywodraeth Cymru<br>Llywodraeth Leol<br>BIPBC<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru | Rhannwyd materion a nodwyd yn yr asesiad poblogaeth gydag Uned Data Lywodraeth Leol.<br>Cyflwynwyd fframwaith rheoli perfformiad newydd gan Lywodraeth Cymru | Cytuno â blaenoriaethau'r BPRh a bydd yn cael ei ddatblygu gan asiantaethau partner yn rhan o'u busnes craidd. |

Draft

| Mater | Sefydliad arweiniol | Yr hyn sy'n cael ei wneud | Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
|---|---|---|---|
| Heriau o gyflwyno gwasanaethau yn yr hinsawdd ariannol bresennol | Pob partner | Ymrwymiad i gynnal Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb ar newidiadau i wasanaethau a lliniaru unrhyw effeithiau anghymesur.<br>Cefnogi'r trydydd sector a'r sector gwirfoddoli trwy wella ymarfer comisiynu. | Y BPRh yn cydnabod y pwysau ychwanegol mae pob gwasanaeth yn ei wynebu. |

Drafft

# Rhan D: I gael rhagor o wybodaeth

Sut i gael gafael ar y gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi pobl gydag anghenion gofalu a chymorth a'u gofalwyr yng ngogledd Cymru.

## Plant a phobl ifanc

### Gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gyfer plant a theuluoedd

I gael mathau eraill o gefnogaeth i deuluoedd gan gynnwys gofal plant, cysylltwch â Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd.

Cyngor Sir Ynys Môn: http://www.ynysmon.gov.uk/cymuned/plant-a-theuluoedd/gwasanaeth-gwybodaeth-i-deuluoedd

Cyngor Gwynedd: www.gwynedd-ni.org.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy: www.conwy.gov.uk/plant

Cyngor Sir Ddinbych: https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswyliwr/cymunedau-a-byw/gofal-plant-a-rhianta/gofal-plant-a-rhianta.aspx

Cyngor Sir y Fflint: http://www.fisflintshire.co.uk/#

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam:
http://www.wrexham.gov.uk/welsh/community_w/fis/index.htm

### Pryderu am blentyn?

Os ydych yn gwybod am blentyn sydd mewn perygl o gam-drin neu yn cael ei gam-drin, mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi gwybod i'r cyngor neu'r heddlu.

Os yw'r unigolyn mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch yr Heddlu ar unwaith ar 999. Os nad ydyw, ffoniwch y Gwasanaethau Cymdeithasol mor fuan â phosibl i rannu eich pryderon.

Mae rhifau ffôn ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yng ngogledd Cymru ar gael yma: www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru

## Oedolion

### Gwybodaeth, cyngor a chymorth i oedolion a gofalwyr

I gael gwybodaeth am wasanaethau yn eich ardal ewch i wefan Dewis Cymru www.dewis.cymru

Neu cysylltwch ag Un Pwynt Mynediad yn eich cyngor lleol i gael gwybodaeth am wasanaethau sydd ar gael i gefnogi iechyd a lles pobl.



Draft

Cyngor Sir Ynys Môn: www.ynysmon.gov.uk/iechyd-a-gofal/gwasanaethau-oedolion

Cyngor Gwynedd: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Iechyd-a-gofal-cymdeithasol/Oedolion-a-phobl-hŷn/Oedolion-a-phobl-hŷn.aspx

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy: http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Contact-us/Single-Point-of-Access-SPOA/Conwy-Access-Team.aspx

Cyngor Sir Ddinbych: https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswyliwr/iechyd-a-gofal-cymdeithasol/oedolion-a-phobl-hyn/un-pwynt-mynediad.aspx

Cyngor Sir y Fflint: http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Social-Services/Social-Services-Welsh.aspx

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam:
http://www.wrexham.gov.uk/welsh/council_w/social_services/SocialServicesW.htm

## Pryderu am oedolyn?

Os ydych yn gwybod am oedolyn sydd mewn perygl o gam-drin neu yn cael ei gam-drin, mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi gwybod i’r cyngor neu’r heddlu.

Os yw’r unigolyn mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch yr Heddlu ar unwaith ar 999. Os nad ydyw, ffoniwch y Gwasanaethau Cymdeithasol mor fuan â phosibl i rannu eich pryderon.

Mae rhifau ffôn ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yng ngogledd Cymru ar gael yma: http://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru

Draft

CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

# Cynllun rhanbarthol asesiad poblogaeth Gogledd Cymru 2018 i 2023

# Adroddiad ar yr ymgynghoriad

# 1 Ebrill 2018

Draft

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council · Cyngor Gwynedd Council · Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council · Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council · Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council · Wrexham County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Drafft

## Cysylltwch â ni

Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru

Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN

E-bost: sarah.bartlett@sirddinbych.gov.uk

Ffôn: 01824 712432

www.cydweithredfagogleddcymru.cymru

# Cynnwys


Cyflwyniad ........ 4
Cefndir ........ 4
  Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus ........ 4
  Egwyddorion ymgynghori ........ 5
Ymgynghori ac ymgysylltu ........ 6
  Y broses ymgynghori ........ 6
    Cwestiynau'r ymgynghoriad ........ 7
  Dulliau ymgynghori ........ 7
  Cynllun hyrwyddo ........ 8
  Adolygiad o'r ymgynghori ac ymgysylltu ........ 7
  Sefydliadau a oedd wedi'u cynrychioli yn yr ymgynghoriad ........ 14
    Awdurdodau lleol ac iechyd ........ 14
    Grwpiau a sefydliadau defnyddwyr gwasanaethau ........ 14
Canfyddiadau'r ymgynghoriad ........ 17
  Awgrymiadau am flaenoriaethau ........ 17
  Sylwadau am y cynllun ........ 20
Cyfeiriadau ........ 42
Atodiad 1: Hyrwyddo'r arolwg ........ 47
    Hyrwyddo mewn awdurdodau lleol ac yn y bwrdd iechyd ........ 43
    Hyrwyddo ymysg y Panel Dinasyddion ........ 45
    Mathau eraill o hyrwyddo ........ 45
    Sefydliadau ar y map rhanddeiliaid ........ 46
    Sefydliadau a ymatebodd i arolwg yr asesiad poblogaeth ........ 49


Drafft

# Cyflwyniad

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i ganfod a oedd anghydraddoldeb a allai godi o ganlyniad i ddatblygu a chyflawni cynllun rhanbarthol yr asesiad poblogaeth. Defnyddiwyd y wybodaeth a gafwyd drwy'r broses hon i ddatblygu cynllun rhanbarthol asesiad poblogaeth Gogledd Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu manylion am yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac mae'n darparu tystiolaeth am y ffordd yr ydym yn cyflawni gofynion dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae dogfen ar-lein yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gael ar ein gwefan.

# Cefndir

Mae'r cynllun rhanbarthol yn egluro sut y bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) yn ymateb i ganfyddiadau asesiad poblogaeth Gogledd Cymru a gyhoeddwyd ar 1 Ebrill 2017.

Mae'r asesiad poblogaeth yn cyfuno gwybodaeth am anghenion pobl am ofal a chymorth ac am anghenion cymorth gofalwyr yng Ngogledd Cymru. Mae'n ceisio dangos pa mor dda y mae anghenion pobl yn cael eu diwallu a'r gwasanaethau y bydd eu hangen arnom i'w diwallu yn y dyfodol. Mae awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru wedi cydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) gyda chymorth Iechyd Cyhoeddus Cymru i lunio'r asesiad, sy'n ofyniad o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Y cynllun rhanbarthol yw'r cynllun ardal ar y cyd y mae'n ofynnol ei lunio o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017.

Mae'r cynllun rhanbarthol yn ddogfen strategol. Bydd angen cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yng nghyswllt camau gweithredu a chynlluniau a ddatblygir mewn ymateb iddo gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru a BIPBC.

## Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi cyflwyno dyletswydd newydd i'r sector cyhoeddus sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus fynd i'r afael â gwahaniaethu, i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i hybu cysylltiadau da. Mae dyletswyddau cyrff cyhoeddus wedi'u hamlinellu yn y tabl isod.

| Rhaid i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol: | Mae rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu: |
|---|---|



Drafft

| | |
|---|---|
| Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd o dan y Ddeddf. | Dileu neu leihau gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth y mae pobl yn eu profi oherwydd eu nodwedd warchodedig. |
| Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu. | Cymryd camau i gwrdd ag anghenion pobl mewn grwpiau gwarchodedig lle mae'r rheini'n wahanol i anghenion pobl eraill. |
| Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu. | Cymryd camau i adeiladu cymunedau lle mae pobl yn teimlo'n hyderus eu bod yn perthyn ac yn gyfforddus wrth gymysgu a rhyngweithio ag eraill. |

Mae dyletswyddau cyfreithiol penodol hefyd gan gynghorau yng Nghymru sydd wedi'u hamlinellu yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011 sy'n cynnwys asesu'r effaith o bolisïau a chynlluniau perthnasol – yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Er mwyn gosod sylfaen gadarn ar gyfer cynllun rhanbarthol yr asesiad poblogaeth rydym wedi:

- adolygu data'r mesurau perfformiad a dangosyddion poblogaeth sydd wedi'u hargymell yn y catalog data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â data perthnasol eraill ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol;
- ymgynghori mor eang â phosibl ar draws rhanbarth Gogledd Cymru gan gynnwys y cyhoedd, cydweithwyr a phobl â nodweddion gwarchodedig;
- adolygu llenyddiaeth ymchwil ac ymgynghori berthnasol yn cynnwys deddfwriaeth, strategaethau, cynlluniau comisiynu, asesiadau o anghenion ac adroddiadau ar ymgynghoriadau.

Mae manylion y data lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, yr adolygiad o lenyddiaeth a chrynodeb o ganfyddiadau'r ymgynghoriad wedi'u darparu yn adroddiad yr asesiad poblogaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r ymgynghori ychwanegol a gynhaliwyd ar gyfer y cynllun rhanbarthol yn cynnwys:

- y rhai yr ydym wedi ymgynghori â nhw;
- sut rydym wedi ymgynghori;
- yr adborth i'r ymgynghoriad.

## Egwyddorion ymgynghori

Un rhan allweddol o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yw ymgynghori â phobl y gall cynllun rhanbarthol yr asesiad poblogaeth gael effaith arnynt ac yn enwedig pobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Y nodweddion gwarchodedig yw:

- Oed

- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd a chredo
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Y Gymraeg

Mae cyfraith achosion wedi darparu set o egwyddorion ymgynghori sy'n disgrifio'r disgwyliad cyfreithiol sydd ar gyrff cyhoeddus wrth iddynt ddatblygu strategaethau, cynlluniau a gwasanaethau. Yr enw ar y rhain yw Egwyddorion Gunning:

1. Rhaid ymgynghori tra bo'r cynnig ar gam ffurfiannol.
2. Rhaid cyflwyno rhesymau digonol dros y cynnig i ddarparu ar gyfer ystyriaeth ac ymateb deallus.
3. Rhaid rhoi digon o amser ar gyfer ystyriaeth ac ymateb.
4. Rhaid rhoi ystyriaeth gydwybodol i gynnyrch yr ymgynghoriad.

Mae cynghorau lleol yng Ngogledd Cymru wedi mabwysiadu polisi rhanbarthol ar ymgysylltu â dinasyddion (Cyngor Sir Ynys Môn et al., 2016). Mae hwn wedi'i seilio ar yr egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru ac egwyddorion cydgynhyrchu a oedd yn sail i'n cynllun ymgynghori.

# Ymgynghori ac ymgysylltu

Nod yr ymgynghoriad oedd cynnwys cynifer o bobl â phosibl wrth ysgrifennu'r cynllun. Roeddem am sicrhau bod y cynllun yn gweithio i bobl sydd ag angen gofal a chymorth a'n bod yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd gennym - nid yn unig cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol ond busnesau lleol, elusennau, sefydliadau cymunedol, teuluoedd a ffrindiau.

## Y broses ymgynghori

Cynhaliwyd proses sgrinio gychwynnol yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan grŵp llywio cynllun rhanbarthol yr asesiad poblogaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r chwe awdurdod lleol, BIPBC a Byrddau Iechyd Cyhoeddus yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf 2017. Trefnwyd i gynnal gweithdy ar 10 Hydref i gynnal asesiad manylach o'r effeithiau gan gynnwys agweddau ehangach ar lesiant mewn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Adolygwyd yr asesiad effaith hwn gan grŵp sicrhau ansawdd Cyngor Sir Ddinbych ar 31 Hydref. Cafodd ei adolygu eto yng nghyfarfod y grŵp llywio ar 1 Rhagfyr 2017.



Drafft

Cytunodd y grŵp llywio fod angen ymgynghori'n eang wrth lunio'r cynllun rhanbarthol gan gynnwys pobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Roedd hyn yn cynnwys ailymgynghori â phobl a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad cychwynnol ar gyfer yr asesiad poblogaeth.

Roeddem wedi llunio drafft ar sail canfyddiadau'r asesiad poblogaeth a'r gofynion cyfreithiol y mae'n rhaid i ni eu cyflawni. Roeddem wedi gofyn y cwestiynau canlynol.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

1. Ydych chi'n credu mai'r rhain yw'r blaenoriaethau cywir?
2. Beth arall rydych chi'n credu bod angen ei gynnwys neu ei newid yn y cynllun?

   Meddyliwch am y canlynol:

   - beth sy'n digwydd eisoes i helpu pobl yng Ngogledd Cymru i ddelio â'r materion a nodwyd;
   - beth arall sydd angen digwydd;
   - sut y bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gallu gwneud y gwahaniaeth mwyaf;
   - unrhyw beth arall y byddech chi'n hoffi ei ddweud am y cynllun

Roeddem hefyd wedi cynhyrchu fersiwn gryno o'r adroddiad a luniwyd gan Youth Friendly i fod yn haws ei ddarllen na'r adroddiad llawn.

Ailsefydlwyd y grŵp ymgysylltu a oedd wedi cydlynu'r ymgynghori a'r ymgysylltu ar gyfer yr asesiad poblogaeth er mwyn cydlynu'r ymgysylltu ar y cynllun rhanbarthol. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r awdurdodau lleol a BIPBC.

Roedd yr amserlen ar gyfer datblygu'r cynllun rhanbarthol fel a ganlyn.

| Mis | Camau Gweithredu |
|---|---|
| Rhwng Ebrill a Gorffennaf 2017 | Cynllunio'r prosiect a chytuno ar broses sgrinio gychwynnol yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb<br>Ysgrifennu drafft o'r cynllun rhanbarthol ar sail yr asesiad poblogaeth a gofynion statudol<br>Llunio fersiwn gryno o ddrafft y cynllun rhanbarthol<br>Datblygu cynllun ymgynghori a chytuno ar gwestiynau'r ymgynghoriad |
| Rhwng Awst a Hydref 2017 | Ymgynghori ac ymgysylltu yn cynnwys holiadur ar-lein, grwpiau trafod o ddefnyddwyr gwasanaethau a chyflwyniadau i staff awdurdodau lleol a sefydliadau partneriaid. |
| Rhwng Tachwedd a Rhagfyr 2017 | Adolygu'r cynllun rhanbarthol mewn ymateb i adborth o'r ymgynghori ac ymgysylltu. |
| Rhwng Ionawr a Mawrth 2018 | Proses cymeradwyo. Rhaid i'r adroddiad fynd gerbron y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, pob un o'r chwe awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd. |



Draft

Estynnwyd cyfnod yr ymgynghoriad i 17 Tachwedd yn dilyn cais gan grŵp cymunedol am fwy o amser i gwblhau ymateb.

## Dulliau ymgynghori

Y dulliau ymgynghori a ddefnyddiwyd oedd:

- Holiadur ar-lein a gylchredwyd yn eang i staff, sefydliadau partneriaid, y panel dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau ac aelodau eraill o'r cyhoedd.
- Grwpiau trafod â defnyddwyr gwasanaethau. Roeddem wedi ceisio mynd yn ôl at y grwpiau yr ymgynghorwyd â nhw ar gyfer yr asesiad poblogaeth i gadarnhau'r canfyddiadau a chynlluniau gyda nhw.
- Cyflwyno'r adroddiad mewn cyfarfodydd lleol a rhanbarthol er mwyn ymgysylltu â staff awdurdodau lleol a sefydliadau partneriaid.

## Cynllun hyrwyddo

Trefnwyd i'r drafft o'r cynllun rhanbarthol a'r holiadur ar-lein fod ar gael ar ein gwefan www.northwalescollaborative.wales/. Roeddem wedi hysbysebu'r ddolen drwy rwydweithiau rhanbarthol, cynghorau'r sector gwirfoddol, awdurdodau lleol ac iechyd. Anfonwyd y negeseuon e-bost cyntaf ar 11 Awst 2017 a nodyn atgoffa ar 19 Medi. Roedd y grŵp ymgysylltu wedi cysylltu â grwpiau penodol. Roeddem wedi trefnu i gopïau papur o'r adroddiad a'r holiadur fod ar gael ar gais. Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith hyrwyddo yn atodiad 1.

Ymgynghorwyd ymhellach hefyd yn ystod y broses cymeradwyo. Mae'r adroddiad wedi cael ei adolygu gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, mewn cyfarfodydd o uwch weithredwyr priodol, yng nghyfarfodydd y pwyllgorau craffu a/neu'r cabinet ym mhob awdurdod lleol a chan y bwrdd iechyd.

Mae'r map rhanddeiliaid a manylion yr ymgysylltu a gafwyd wedi'u cynnwys yn atodiad 1. Tua hanner y ffordd drwy'r cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd cyfarfod o'r grŵp ymgysylltu i adolygu'r gwaith ymgysylltu a gafwyd hyd hynny ar sail y map rhanddeiliaid ac i wneud trefniadau i lenwi unrhyw fylchau a nodwyd. Yn dilyn y cyfarfod hwn trefnwyd gweithdai ychwanegol gyda phlant a phobl ifanc gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal.

## Adolygiad o'r ymgynghori ac ymgysylltu

Cafwyd cyfanswm o 135 o ymatebion i'r ymgynghoriad a 1,800 o ymweliadau â thudalen y cynllun rhanbarthol ar y wefan. Er mwyn cymell pobl i ymateb, roedd yr arolwg yn un byr a syml ac roeddem wedi llunio fersiwn gryno o'r cynllun ar gyfer yr ymgynghoriad. Er hynny, roedd angen cymryd cryn amser i ddarllen a gwneud sylwadau am y cynllun er mwyn cwblhau'r arolwg ac mae'n bosibl mai hwn yw'r prif reswm am y gwahaniaeth rhwng y niferoedd a edrychodd ar y cynllun a'r niferoedd a ymatebodd i'r arolwg.

Mae tabl 1 isod yn dangos nifer yr aelodau o’r cyhoedd a nifer cynrychiolwyr y sefydliadau a ymatebodd a thabl 2 yn dangos nifer y bobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig a lenwodd yr holiadur ar-lein.

Mae tabl 2 yn dangos ein bod wedi gallu cyrraedd pobl ym mhob grŵp oedran, pobl sydd ag anabledd neu salwch/anhwylder iechyd hirsefydlog a gofalwyr, a siaradwyr Cymraeg a Saesneg. Cawsom ymatebion gan fenywod a dynion er na chafwyd cynifer o ymatebion gan ddynion. Roeddem hefyd wedi cael ymatebion gan bobl â gwahanol statws priodasol, hunaniaethau ethnig a rhywioldeb. Ni chawsom nifer mawr o ymatebion gan bobl sydd â nodweddion gwarchodedig am hunaniaeth genedlaethol, crefydd neu hunaniaeth rhywedd. Roeddem wedi sicrhau bod yr arolwg a’r nodyn atgoffa wedi’u hanfon at grwpiau a rhwydweithiau o bobl sydd â’r nodweddion gwarchodedig hyn ac wedi cynnal gweithdai gyda rhwydweithiau cyfranogi yn Sir y Fflint a Chonwy.

Sylwer bod y tablau isod yn dangos nifer yr ymatebion unigol i’r ymgynghoriad ar-lein yn unig. Roedd rhai ymatebion wedi’u gwneud ar ran grwpiau mwy, fel y rheini gan gynghorau ieuenctid a rhwydweithiau cyfranogi ac roedd tua 40% o ymatebwyr wedi dewis peidio â llenwi’r holiadur cydraddoldeb. Er mwyn cael darlun cyflawn o’r ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchodedig, dylid ystyried y ffigurau hyn ochr yn ochr â’r rhestr o sefydliadau a ymatebodd i’r ymgynghoriad ar y cynllun rhanbarthol a’r sefydliadau a grwpiau defnyddwyr gwasanaethau a ymatebodd i’r ymgysylltu manylach a gynhaliwyd ar gyfer yr asesiad poblogaeth i gyfrannu i’r cynllun rhanbarthol.

Roeddem wedi defnyddio’r data hyn i fonitro’r ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori ac wedi annog grwpiau sy’n cynrychioli grwpiau a dangynrychiolwyd i rannu’r arolwg a chymryd rhan. Roedd aelodau’r grŵp ymgysylltu wedi cynnig cynnal gweithdai i grwpiau fel dewis yn lle’r arolwg ar-lein a dosbarthwyd copïau papur i grwpiau eraill a oedd heb fynediad i’r rhyngrwyd.

Nodwyd mewn adborth o’r gweithdai fod y ffaith ei fod yn gynllun strategol rhanbarthol yn golygu ei bod yn fwy anodd i bobl ei drafod a deall yr effaith debygol ar eu bywydau nag yn achos yr asesiad poblogaeth. Roeddem wedi comisiynu fersiwn haws ei darllen o’r cynllun gan Youth Friendly i’n helpu yn hyn o beth. Mae anawsterau’n bod o hyd sy’n hawdd eu deall gan nad yw effaith ymarferol y cynllun yn amlwg eto ar y cyfan felly bydd angen cynnal asesiadau effaith, ymgynghori ac ymgysylltu ychwanegol ar gynlluniau penodol sy’n codi o’r cynllun rhanbarthol wrth eu datblygu.

**Tabl 1: Nifer yr ymatebion gan aelodau o'r cyhoedd a sefydliadau**

| Math o ymateb | Nifer | % o'r ymatebion |
|---|---|---|
| Aelod o'r cyhoedd | 56 | 41% |
| Cynrychiolydd sefydliad | 79 | 59% |
| Cyfanswm | 135 | 100% |

**Tabl 2.1: Oed**

| Oed | Nifer |
|---|---|
| 0-15 | 1 |
| 16-24 | 1 |
| 25-34 | 7 |
| 35-44 | 17 |
| 45-54 | 28 |
| 55-64 | 20 |
| 65-74 | 5 |
| 75 a hŷn | 2 |
| Dewis peidio â dweud | 54 |
| Cyfanswm | 135 |

**Nodiadau**

Roedd nifer mwy o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad nag sydd wedi'i ddangos yn y tabl uchod. Roeddem wedi cynnal pum gweithdy gyda grwpiau o blant a phobl ifanc, yn cynnwys grwpiau o blant ag anableddau a phlant sy'n derbyn gofal. Roedd pob grŵp wedi cyflwyno un ymateb ar ran y grŵp.

**Tabl 2.2: Rhyw**

| Rhyw | Nifer |
|---|---|
| Benywaidd | 66 |
| Gwrywaidd | 16 |
| Dewis peidio â dweud | 53 |
| Cyfanswm | 135 |

Draft

**Tabl 2.3: Hunaniaeth genedlaethol**

| Hunaniaeth genedlaethol | Nifer |
|---|---|
| Cymreig | 39 |
| Prydeinig | 25 |
| Seisnig | 13 |
| Albanaidd | 1 |
| Ewropeaidd arall | 1 |
| Dewis peidio â dweud | 56 |
| Cyfanswm | 135 |

**Tabl 2.4: Hunaniaeth ethnig**

| Hunaniaeth ethnig | Nifer |
|---|---|
| Gwyn | 69 |
| Treftadaeth gymysg | 2 |
| Du | 1 |
| Dewis peidio â dweud | 63 |
| Cyfanswm | 135 |

**Tabl 2.5: Dewis iaith**

| Dewis iaith | Nifer | |
|---|---|---|
| Saesneg llafar | 64 | |
| Cymraeg llafar | 17 | |
| Dewis peidio â dweud | 54 | |
| Cyfanswm | | 135 |
| | | |
| Saesneg ysgrifenedig | 66 | |
| Cymraeg ysgrifenedig | 14 | |
| Dewis peidio â dweud | 55 | |
| Cyfanswm | | 135 |

Draft

**Tabl 2.6: Anabledd**

| Anabledd | Nifer |
|---|---|
| Salwch/anhwylder iechyd hirsefydlog | 15 |
| Nam corfforol | 8 |
| Anhwylder iechyd meddwl | 8 |
| Nam ar y synhwyrau | 3 |
| Anabledd / anhawster dysgu | 1 |
| Cyfanswm y bobl | 24 |

**Nodiadau**

Nid yw'r cyfanswm uchod yn gyson â'r niferoedd gan fod mwy nag un anabledd gan rai pobl.

**Tabl 2.7: Crefydd**

| Crefydd | Nifer |
|---|---|
| Cristnogol | 51 |
| Dim | 24 |
| Arall (Agnostig) | 1 |
| Dewis peidio â dweud | 59 |
| Cyfanswm | 135 |

**Tabl 2.8: Rhywioldeb**

| Rhywioldeb | Nifer |
|---|---|
| Heterorywiol | 75 |
| Deurywiol | 2 |
| Menyw hoyw / lesbiad | 1 |
| Dewis peidio â dweud | 57 |
| Cyfanswm | 135 |

Draft

**Tabl 2.9: Gofalwyr**

| Gofalwyr | | Nifer |
|---|---|---|
| Ateb cadarnhaol | | 27 |
| 1-19 awr | 15 | |
| 20-49 awr | 8 | |
| 50 awr neu fwy | 3 | |
| Ateb negyddol | | 51 |
| Dewis peidio â dweud | | 57 |
| Cyfanswm | | 135 |

**Tabl 2.8: Statws priodasol**

| Statws priodasol | Nifer |
|---|---|
| Priod | 51 |
| Sengl | 16 |
| Wedi ysgaru | 4 |
| Gweddw | 2 |
| Mewn partneriaeth sifil o’r un rhyw | 1 |
| Wedi gwahanu’n gyfreithiol | 1 |
| Dewis peidio â dweud | 60 |
| Cyfanswm | 135 |

Draft

# Sefydliadau a oedd wedi'u cynrychioli yn yr ymgynghoriad

## Awdurdodau lleol ac iechyd

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Roedd ymatebion gan staff iechyd yn cynnwys rhai gan gynrychiolwyr Cyfarwyddiaeth Iechyd y Cyhoedd; iechyd meddwl oedolion; gwasanaethau pobl hŷn; yr adran gynllunio; cydraddoldebau a hawliau dynol; a therapyddion galwedigaethol.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan staff awdurdodau lleol yn rhai gan staff mewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol, mewn gwasanaethau i blant ac oedolion a hefyd mewn un gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd, ac mewn gwasanaethau diogelu'r amgylchedd ac atal digartrefedd. Yn ogystal â hyn, cawsom ymateb gan un Aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol.

## Grwpiau a sefydliadau defnyddwyr gwasanaethau

Mae'r rhain wedi'u dosbarthu ar sail y penodau yn y cynllun ac mae rhai sefydliadau'n ymddangos ddwywaith.

### Plant a phobl ifanc

- Fforwm Gadael Gofal Conwy: pobl ifanc sydd wedi gadael gofal, trafodaeth grŵp
- Cyngor Ieuenctid Conwy
- Grŵp Cyfranogi Plant sy'n Derbyn Gofal Sir y Fflint
- Cyngor Gofal Pobl Ifanc Wrecsam
- Ysgol y Gogarth: Ysgol Arbennig i ddisgyblion dydd a phreswyl (Llandudno), ymateb gan grŵp o athrawon a grŵp o ddisgyblion
- GISDA: Mae'n gweithio gyda phobl ifanc 16 i 26 oed sy'n ddigartref/agored i niwed
- Y Ganolfan Ddysgu – Sir y Fflint: Darpariaeth addysgol i ddisgyblion nad ydynt mewn addysg prif ffrwd

### Pobl hŷn

- Age Well Hwyliog Môn: Clwb ieuenctid i rai dros 50 oed
- Clwb yr Eifl: Clwb i rai dros 50 oed. Rydym yn cwrdd unwaith y mis gyda siaradwyr ac yn mynd ar dripiau



Draft

- Y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol: Elusen i bobl hŷn
- Fforwm Pobl Hŷn De Meirionnydd
- Cartref Gofal Wimsly: Gofal preswyl i oedolion hŷn

**Iechyd, anabledd corfforol a nam ar y synhwyrau**

- Gofal Arthritis Cymru
- Comisiwn Bevan: Mae'n darparu cyngor a chyfarwyddyd annibynnol, awdurdodol ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal iechyd
- Epilepsy Action Cymru: Elusen iechyd sy'n cynnig cymorth i unrhyw un y mae epilepsi yn effeithio arno
- MS Cymru: Cymorth i bobl sydd â Sglerosis Ymledol a'u teuluoedd ledled Cymru
- Grŵp Poen Cronig Gogledd Cymru
- Y Gymdeithas Strôc
- Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru: llais y claf yn y GIG
- Cyngor Cymru i'r Deillion

**Anableddau dysgu**

- Prospects for People with Learning Disabilities: Cymorth mewn cartrefi preswyl, yn y cartref ac yn ystod y dydd gyda phob agwedd ar fyw o ddydd i ddydd
- Seren Ffestiniog Cyf: Elusen anabledd dysgu yn y trydydd sector
- NEWSA: Hunaneirioli ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu sy'n byw yn Sir Ddinbych
- Partneriaeth Anabledd Dysgu

**Iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau**

- Cynlluniau Iechyd Meddwl Tai Gogledd Cymru: Mae'n darparu cymorth i bobl sydd ag anawsterau iechyd meddwl, a sgitsoffrenia yn bennaf
- Cyfarfod swyddogion arweiniol yr awdurdodau lleol ar iechyd meddwl

**Gofalwyr**

- Gwasanaethau Cynnal Gofalwyr
- Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru: Elusen genedlaethol sy'n gweithio i hyrwyddo a gwella cymorth, gwasanaethau a chydnabyddiaeth i ofalwyr di-dâl

**Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol**

- Uned Diogelwch Cam-drin Domestig: Mae'n darparu gwasanaeth cam-drin domestig
- FNF Both Parents Matter Cymru
- BAWSO: Sefydliad gwirfoddol sy'n darparu cymorth i fenywod, dynion a phlant sy'n ffoi rhag cam-drin domestig



Draft

**Yr ystad ddiogel**

- Plant a Theuluoedd sy'n Profi Effaith Carcharu Aelod o'r Teulu: Rhaglen Gogledd Cymru

**Cyn-filwyr**

- Fforwm Lluoedd Arfog Gogledd Cymru

**Tai a digartrefedd**

- Cynlluniau Iechyd Meddwl Tai Gogledd Cymru: Mae'n darparu cymorth i bobl sydd ag anawsterau iechyd meddwl, a sgitsoffrenia yn bennaf

*Cafwyd chwe ymateb hefyd gan bobl a oedd yn gweithio i wasanaethau cymorth tenantiaeth neu atal digartrefedd awdurdodau lleol.*

**Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth**

- NAS Cymru: Elusen Awtistiaeth

**Grwpiau eraill**

- Aura: uned datblygu chwaraeon ym maes hamdden, llyfrgelloedd a diwylliant
- Cymdeithas Cludiant Cymunedol
- Rhwydwaith Cyfranogi Conwy
- Prosiect Cyfranogi Sir y Fflint 'speaking out': grŵp adborth cleientiaid
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREN)
- Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru
- Ymddiriedolaeth Chardon (Amgueddfa Llandudno)
- Unsain: undeb llafur

Draft

# Canfyddiadau'r ymgynghoriad

Yn gyffredinol roedd 88% o ymatebwyr yn cytuno ar y blaenoriaethau a ddewiswyd ac roedd cyfeiriad mewn nifer o'r sylwadau at y pwysigrwydd o roi blaenoriaeth i iechyd meddwl. Roedd y sylwadau a gafwyd yn amrywiol iawn ac yn ymwneud â phob un o benodau'r cynllun. Y materion a godwyd amlaf oedd:

- Y pwysigrwydd o weithio integredig rhwng gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector. Soniodd nifer mawr o bobl am bwysigrwydd y trydydd sector wrth gyflawni'r cynllun ac roedd rhai wedi mynegi pryderon ynghylch capasiti'r sector.
- Roedd nifer o bobl wahanol wedi cyfeirio at yr angen am systemau TG integredig i gynnal cydweithio rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Yr angen i hybu ymwybyddiaeth o faterion sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun a'r wybodaeth, cyngor a chymorth sydd ar gael i gefnogi pobl.
- Y cysylltiadau rhwng y penodau a chymorth i bobl ag anghenion lluosog.

Mae'r holl sylwadau wedi cael eu hystyried gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac wedi'u dosbarthu fel a ganlyn:

- Diwygio: diwygiwyd y cynllun mewn ymateb i'r sylw.
- Rhannu: mae sylwadau nad yw'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gallu delio â nhw'n uniongyrchol wedi'u rhannu â'r sefydliad mwyaf priodol.
- Nodi: mae sylwadau sy'n cefnogi'r cynllun neu'n darparu mwy o fanylion nag y gellir eu cynnwys yn y cynllun wedi cael eu nodi gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

## Awgrymiadau am flaenoriaethau

Mae blaenoriaethau ychwanegol a awgrymwyd wedi'u rhestru isod ynghyd â'r ymateb. Maent wedi'u rhestru mewn trefn a'r rhai a gynigiwyd amlaf yn gyntaf.

| Awgrymiadau am flaenoriaethau | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| Pobl ifanc 16-18 oed – pontio rhwng gwasanaethau i blant a gwasanaethau i oedolion | Mae pontio wedi'i gynnwys yn Rhan B o'r cynllun rhanbarthol. Mae'r blaenoriaethau i blant a phobl ifanc yn Rhan A o'r cynllun wedi'u diweddaru gan y Grŵp Trawsnewid Plant yn dilyn gweithdy ar 7 Mehefin. Rhennir y sylw hwn â'r grŵp. | Rhannu |

| Awgrymiadau am flaenoriaethau | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| Iechyd meddwl plant a phobl ifanc (yn cynnwys y grŵp oedran 16 i 25). Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys hyrwyddo mewn ysgolion, deall y rhesymau am anghenion iechyd meddwl pobl ifanc a helpu pobl ifanc i gael gwybod ble mae cymorth ar gael, cysylltiadau heblaw rhieni. | Mae iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth i'r BPRh sy'n cael ei chyflawni gan y Grŵp Trawsnewid Plant . | Nodi |
| Yr holl oedolion sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, yn cynnwys dementia. Ystyried y diffiniad o 'bobl hŷn' | Mae'r flaenoriaeth hon 'pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, yn cynnwys dementia' wedi'i chodi o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac mae'n flaenoriaeth statudol ar gyfer gwasanaethau integredig. Mae'r cymorth sydd ar gael i oedolion eraill ag anghenion cymhleth wedi'i gynnwys yn Rhan B o'r cynllun rhanbarthol.<br>Wedi cynnwys nodyn yn y cyflwyniad i'r cynllun rhanbarthol i egluro ble mae gwybodaeth ar gael am oedolion eraill ag anghenion cymhleth. | Diwygio |
| Tai – yn gysylltiedig â'r holl anghenion eraill o ran iechyd a gofal cymdeithasol. Hefyd mae angen i adrannau cynllunio/Llywodraeth Cymru ystyried yr effaith ar wasanaethau o ganlyniad i adeiladu rhagor o dai gofal ychwanegol | Nid yw tai'n flaenoriaeth i'r BPRh ar hyn o bryd er bod y BPRh yn cydnabod bod tai da yn elfen hanfodol mewn darpariaeth gofal cymdeithasol a llesiant. Mae rhagor o wybodaeth am waith arall sy'n digwydd wedi'i chynnwys yn y bennod ar dai yn y cynllun rhanbarthol. | Nodi |
| Plant a phobl ifanc – blaenoriaethau ychwanegol: ADHD, addysgu rhieni i blant sydd mewn angen/perygl, mwy o gymorth a mynediad cyflymach at wasanaethau | Mae ymyrraeth gynnar, atal a chymorth rhianta yn flaenoriaethau yn Rhan B o'r cynllun rhanbarthol yn y bennod ar blant a phobl ifanc. | Nodi |
| Hybu ffyrdd iachach o fyw | Mae hybu ffyrdd iachach o fyw yn flaenoriaeth yn Rhan B o'r cynllun rhanbarthol yn y bennod ar blant a phobl ifanc ac yn y bennod ar iechyd. | Nodi |
| Cymorth i bobl hŷn eiddil sy'n agored i niwed | Mae cymorth i bobl hŷn ag anghenion cymhleth yn flaenoriaeth i'r BPRh. | Nodi |
| Teuluoedd ifanc oherwydd lefelau uchel o ddyledion, tai anfforddiadwy, dyled myfyrwyr, darpariaeth waeth o bensiynau nag ar gyfer cenedlaethau blaenorol. | Mae tlodi ac anghydraddoldeb wedi'u cynnwys yn flaenoriaeth yn Rhan C o'r cynllun rhanbarthol. | Nodi |

Draft

| Awgrymiadau am flaenoriaethau | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| Gwasanaethau i bobl ag anableddau corfforol | Mae'n bwysig bod ein holl wasanaethau'n ymatebol i anghenion pobl ag anabledd corfforol. Mae pwysigrwydd gwasanaethau hygyrch wedi'i gydnabod ac mae gwaith yn mynd ymlaen mewn sefydliadau unigol.<br>Darperir gwasanaethau cymorth arbenigol gan bartneriaid yn rhan o'u busnes craidd.<br>Bydd strategaethau comisiynu yn ystyried darparu cymorth mwy arbenigol i bobl ag anghenion corfforol. | Diwygio |
| Oedi wrth drosglwyddo gofal rhwng yr ysbyty a gofal cymdeithasol/nyrsio mewn cymunedau. | Nod y cynllun rhanbarthol yw gwella'r cymorth a gofal sydd ar gael i bobl yng Ngogledd Cymru. Dylai hyn helpu i leihau oedi wrth drosglwyddo gofal.<br>Mae bwrdd cenedlaethol ar gyfer gofal heb ei drefnu. Mae gwaith y bwrdd comisiynu a strategaeth y gweithlu yn helpu i ddelio â'r mater hwn hefyd. | Nodi |
| Gofal am gyn-filwyr ac aelodau o wasanaethau cyhoeddus sy'n wynebu adfyd (yr heddlu, y gwasanaeth tân, staff gofal iechyd etc). | Mae rhagor o wybodaeth yn y bennod ar gyn-filwyr yn y cynllun rhanbarthol.<br>Mae gwasanaethau i'r boblogaeth gyfan wedi'u cynnwys yn Rhan B o'r cynllun rhanbarthol, yn cynnwys gweithwyr rheng flaen. Mae holl sefydliadau'r sector cyhoeddus yn darparu mentrau a chymorth ar gyfer llesiant eu staff. Mae rhagor o wybodaeth am yr heriau y mae staff rheng flaen yn eu hwynebu yn y Cynllun Gweithredu ar Hunanladdiad. | Nodi |
| Anhwylderau iechyd hirdymor cronig | Bydd cymorth i bobl ag anhwylderau hirdymor yn elfen bwysig yn rhaglen Gofal yn Nes at y Cartref BIPBC ac mewn datblygu cymorth drwy dimau clwstwr lleol.<br>Dolen i Bobl Hŷn ag anghenion cymhleth | Nodi |
| Cymorth i oroeswyr strôc | Mae cymorth gofal iechyd i oroeswyr strôc a'u gofalwyr yn cael ei ystyried drwy'r gwaith o adolygu gwasanaethau gofal strôc yn BIPBC. Bydd yr anghenion parhaus am gymorth cymdeithasol a gwelliant parhaus o ran annibyniaeth yn cael eu hystyried yn rhan o'r gwaith ehangach o ddatblygu gwasanaethau cymorth o fewn adnoddau cymunedol. | Nodi |

Draft

| Awgrymiadau am flaenoriaethau | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| Pobl sydd â mwy nag un math o angen, yn enwedig gorgyffwrdd rhwng iechyd corfforol/anabledd ac iechyd meddwl. Enghreifftiau eraill a roddwyd oedd pobl ifanc anabl sydd hefyd yn ofalwyr, pobl ag anableddau dysgu ac anghenion iechyd meddwl, gwasanaethau iechyd meddwl a thai â chymorth ar gyfer pobl sydd wedi'u rhyddhau o'r carchar neu wedi'u hadsefydlu ar ôl camddefnyddio cyffuriau. | Ychwanegwyd nodyn yn y cyflwyniad i Ran B am y gorgyffwrdd rhwng y penodau ac unigolion sydd ag anghenion lluosog am ofal a chymorth. | Diwygio |

## Sylwadau am y cynllun

Mae'r sylwadau hyn wedi'u crynhoi a'u rhannu ar sail penodau a statws.

| Crynodeb o'r adborth a gafwyd | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| **Plant a phobl ifanc** | | |
| Rhoi cymorth i bersonél ysgolion i sylwi ar arwyddion o Gamfanteisio Rhywiol ar Blant. | Mae Camfanteisio Rhywiol ar Blant yn flaenoriaeth i Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru. Mae briffiad 7 munud i staff ar gael yma: http://www.northwalessafeguardingboard.wales/resources/<br><br>Mae rhagor o wybodaeth am waith Byrddau Diogelu Gogledd Cymru (BDGC) wedi'i chynnwys yn y cynllun. | Diwygio |
| Cynorthwyo plant i fod yn gydnerth. | Mae hyn yn flaenoriaeth i'r BPRh sy'n cael ei chyflawni drwy'r Grŵp Trawsnewid Plant. Mae'r flaenoriaeth ar iechyd meddyliol ac emosiynol wedi'i heangu i gynnwys 'gwella iechyd emosiynol, llesiant meddyliol a chydnerthedd mewn plant a theuluoedd'. | Diwygio |
| Camgymeriad yn y cynllun cryno: dylai ddweud 124,000 o blant, nid 24,000. | Mae hyn wedi'i gywiro. | Diwygio |
| Cynnwys anghenion rhai 16-18 mlwydd oed. | Roedd y crynodeb o'r asesiad poblogaeth ar ddechrau'r bennod yn y cynllun rhanbarthol yn cynnwys nifer y plant 0-15 oed. Roedd hyn yn peri dryswch gan ei fod yn debyg i'r diffiniad o blant a phobl ifanc a ddefnyddiwyd yn y cynllun rhanbarthol. Mae wedi'i ddiwygio i ddefnyddio'r ffigurau ar gyfer rhai 0-17 flwydd oed. Mae'r asesiad poblogaeth yn cynnwys diffiniad llawnach a gwybodaeth am anghenion pobl ifanc 18-25 oed. | Diwygio |



Draft

| Crynodeb o'r adborth a gafwyd | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| Ystyried anghenion plant yng nghyd-destun eu teulu. Mae angen cryfhau'r cysylltiad rhwng materion sy'n gallu effeithio ar yr un cartref, er enghraifft trais domestig, camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl. | Wedi ychwanegu pwynt bwled i'r adran 'yr hyn wnaethom ni ei ddarganfod' yn y cynllun rhanbarthol am yr angen am ddull sy'n canolbwyntio ar y teulu yn yr adran ar blant. Wedi ychwanegu nodyn yn y cyflwyniad i Ran B am y gorgyffwrdd rhwng penodau. | Diwygio |
| Diogelu<br>• Datblygu ffurflen atgyfeirio i Ogledd Cymru yn cynnwys gwybodaeth am ACEs i'w lansio yn Ionawr 2017.<br>• Nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant sy'n cael eu monitro gan Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru – cyflwyno adroddiad Sicrhau Ansawdd i'r bwrdd bob chwe mis a chynnal archwiliad o'r rhesymau y mae plant yn aros ar y gofrestr.<br>• Rhai sy'n gadael gofal – edrych ar y data am NEETS 16-24 oed, problem ledled Gogledd Cymru (cymorth i rai sy'n gadael gofal). Mae angen cynghorwyr personol cefnogol i rai sy'n gadael gofal. | Wedi'u hychwanegu at y cynllun. | Diwygio |
| Mwy o gymorth i bobl ifanc dduon a lleiafrifol ethnig. | Wedi cryfhau'r adrannau ar gydraddoldeb yn y cynllun. Gellir ystyried hyn yn fwy manwl yn yr adolygiad o'r asesiad poblogaeth – mae angen rhagor o fanylion am anghenion penodol. | Diwygio |
| Bwlio ar-lein a secstio: mae angen cyngor gan bobl ddibynadwy fel gweithwyr CAMHS a gwersi ABRh yn yr ysgol (angen mwy o gysondeb). Dywedodd un grŵp o bobl ifanc fod ysgolion yn delio'n dda â'r mater hwn. Sylw arall oedd bod angen addysgu rhieni/gofalwyr i bobl ifanc ag anableddau dysgu am beryglon ar-lein. Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru – i helpu i weithredu pecyn Stop IT yr NSPCC yng Ngogledd Cymru. | Ei rannu â Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Gogledd Cymru a Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru.<br>Ychwanegwyd gwybodaeth am waith Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru i helpu i weithredu pecyn Stop IT yr NSPCC at y cynllun rhanbarthol. | Diwygio / Rhannu |

Draft

| Crynodeb o'r adborth a gafwyd | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| Rhianta<br>• Monitro hawliau plant i gadw mewn cysylltiad â'r ddau riant ac i'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros fagu eu plant.<br>• Mwy o gymorth i famau yn eu harddegau.<br>• Ystyried sut i helpu rhieni nad ydynt am gael cymorth neu sy'n 'cymryd arnynt'. | Wedi cryfhau'r adran ar gydraddoldebau. Mae nifer o wahanol ymyriadau cynnar ar gael yng Ngogledd Cymru i helpu teuluoedd, yn cynnwys canolfannau plant, Tîm o Amgylch y Teulu a Dechrau'n Deg. | Nodi |
| Mae angen mwy o help a gwybodaeth ar gyfer plant hoyw a thrawsryweddol mewn ysgolion. | Mae mentrau wedi dechrau gyda chymorth gan ysgolion a CAHMS. Mae'r BPRh yn cefnogi'r mentrau hyn. | Nodi |
| Mwy o gymorth i blant ar ôl profedigaeth. | Nodwyd bod angen am hyn yn y bennod ar blant a phobl ifanc yn yr asesiad poblogaeth. Mae ymyrraeth gynnar yn flaenoriaeth yn Rhan B. | Nodi |
| Diwygio addysg. | Mae newidiadau mewn polisi addysg yn gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru. | Nodi |
| Mae angen rhagor o wasanaethau mewn perthynas â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. | Mae hyn yn flaenoriaeth yn y cynllun. | Nodi |
| Iechyd rhywiol – addysg. | Mae rhagor o wybodaeth am wasanaethau iechyd rhywiol sydd ar gael yng Ngogledd Cymru yma: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/51457<br>Mae Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau ar addysg rhyw a pherthnasoedd mewn ysgolion yng Nghymru: http://learning.gov.wales/resources/browse-all/sex-and-relationships-education-in-schools/?lang=cy | Nodi |
| Cynnwys rhagor o wybodaeth am hawl plant i chwarae a gwell diffiniad o chwarae (nid meysydd chwarae yn unig). Mae angen cyfleoedd i chwarae i rai yn eu harddegau hwyr. Mannau chwarae mwy hygyrch i blant ag anabledd. | Mae hyrwyddo cyfleoedd i chwarae a hawl plant i chwarae wedi'u cynnwys yn y cynllun. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae pob un o'r awdurdodau lleol ac mae'r rhain yn cynnwys diffiniadau o chwarae. | Nodi |

Draft

| Crynodeb o'r adborth a gafwyd | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| Darparu mynediad cyflymach at wasanaethau neu ddarparu gwell cymorth wrth aros am wasanaeth. | Mae ymyrraeth gynnar ac atal a gwella gwasanaethau gofal a chymorth yn flaenoriaethau yn y cynllun. | Nodi |
| Gofal plant – y cynnig o 30 awr o ofal plant i'w gyflwyno yn 2020 ac anawsterau o ran ei gyflwyno. | Nid yw gofal plant yn gyfrifoldeb penodol i'r BPRh ond mae gofal plant da yn cyfrannu at gyflawni nodau'r cynllun. Wedi cynnwys dolen i asesiadau digonolrwydd gofal plant yr awdurdodau lleol. | Nodi |
| Defnyddio mapio Cordis Bright ar gyfer teuluoedd agored i niwed. | Defnyddiwyd hyn wrth lunio'r asesiad poblogaeth sy'n sail i'r cynllun rhanbarthol. | Nodi |
| Barn pobl ifanc am arolygiadau gwasanaethau cymdeithasol: dylent fod yn ddirybudd a chynnwys siarad â phobl ifanc. | Rhannu'r canfyddiadau ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). | Rhannu |
| Lleihau nifer y gwaharddiadau o'r ysgol. | Mae angen gwaith aml-asiantaeth i roi sylw i hyn ac mae'n effeithio ar faterion eraill sy'n ymwneud â llesiant. Nid yw'n flaenoriaeth ar gyfer gweithio rhanbarthol ar hyn o bryd ond byddwn yn rhannu gwybodaeth am yr angen ag awdurdodau a phartneriaethau lleol. | Rhannu |
| Gwell mynediad i gyfleusterau hamdden a mwy o anogaeth i'w defnyddio. Mwy o bethau i'w gwneud gan bobl ifanc ac oedolion.<br><br>Ailsefydlu / darparu gwell clybiau ieuenctid: rhai o'r awgrymiadau a gafwyd oedd clybiau bocsio, gwasanaeth mentora a mwy o waith i bontio rhwng y cenedlaethau.<br><br>Cysylltiad rhwng gweithgareddau i bobl ifanc a lleihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. | Mae gweithgareddau o ansawdd da i bobl ifanc yn gallu gwella eu llesiant ond nid yw eu darparu o fewn cwmpas gwaith y BPRh. Byddwn yn trosglwyddo gwybodaeth am yr angen i awdurdodau lleol. | Rhannu |

Draft

| Crynodeb o’r adborth a gafwyd | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| Plant sy’n derbyn gofal<br>• Cael mwy o lais mewn penderfynu ble y byddant yn byw, er enghraifft, drwy gael dewis o ofalwyr maeth.<br>• Ei bod yn bwysig eu bod yn byw yn agos i’w hysgol.<br>• Gwell cymorth i weld ffrindiau a chymorth i gael cludiant.<br>• Parhau â chysylltiad â’r teulu biolegol yn y ffordd sydd o’r cymorth mwyaf i’r plentyn.<br>• Eglurder a chysondeb ynghylch cysgu dros nos yng nghartrefi ffrindiau ac a oes angen i’r heddlu arolygu hyn (barnwyd mai’r gofalwr maeth a ddylai fod yn gyfrifol am benderfynu a yw’n addas).<br>• Helpu plant i ddechrau byw’n annibynnol.<br>• Cadw’r un eiriolwr.<br>• Rhoi o leiaf 12 mis i blant sy’n derbyn gofal i gynllunio ar gyfer gadael gofal ac ystyried opsiynau tai. Creu llwybr effeithiol ar gyfer symud ymlaen. | Mae plant sy’n derbyn gofal a chymorth i rai sy’n gadael gofal yn flaenoriaethau yn y cynllun. Rhennir y wybodaeth hon i gyfrannu at ddatblygu Strategaeth Maethu Gogledd Cymru. | Rhannu |
| Maethu: Gwella’r ddarpariaeth o leoliadau maethu arbenigol, lleoliadau i rai yn eu harddegau, lleoliadau i oedolion ledled Gogledd Cymru, lleoliadau mewn llety diogel. | Mae ymateb i newid yn y galw am wasanaethau maethu yn flaenoriaeth yn y cynllun. Rhennir y wybodaeth hon i gyfrannu at ddatblygu Strategaeth Maethu Gogledd Cymru. | Rhannu |
| Diogelwch cymunedol: mae’n bosibl bod canfyddiad gan yr heddlu fod plant a phobl ifanc yn broblem yn hytrach na ffynhonnell ddibynadwy yn effeithio ar blant sy’n rhoi gwybod eu bod wedi dioddef o ganlyniad i drosedd. Mae angen delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mwy o addysg am fod yn ymwybodol o bedoffiliaid. | Rhannu’r wybodaeth â Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru. | Rhannu |

Draft

| Crynodeb o'r adborth a gafwyd | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| Plant ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol.<br>• Mwy o adnoddau iaith a lleferydd yn cynnwys apwyntiadau rheolaidd<br>• Sicrhau bod disgyblion â dyslecsia yn cael eu hadnabod a'u cynorthwyo mewn ysgolion<br>• Cymorth gan y Gymdeithas Strôc i blant sydd ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch sydd â blaenoriaeth, cynnwys therapi iaith a lleferydd a chymorth i ofalwyr. Argymell bod anghenion goroeswyr strôc ifanc yn cael eu hystyried yn y cynlluniau hyn e.e. sicrhau bod ysgolion yn gallu cwrdd ag anghenion plant sydd ag affasia o ganlyniad i strôc. | Mae iaith a lleferydd yn flaenoriaeth yn y cynllun. Rhennir y canfyddiadau am yr angen am gymorth mewn ysgolion. | Rhannu |
| Gwneud rhagor i hybu ffyrdd iach o fyw mewn ysgolion – mae angen i hyn fod yn hwyl a chael ei ategu gan opsiynau bwyd iach mewn ysgolion. Mae angen deall y rhesymau am ffyrdd afiach o fyw, er enghraifft, pobl sy'n ordew oherwydd eu hiechyd meddwl neu am eu bod wedi byw drwy gyfnod trawmatig. Roedd cyngor ieuenctid wedi nodi bod y defnydd o e-sigarennau'n broblem gynyddol sy'n galw am sylw. | Mae hybu ffyrdd iachach o fyw a lleihau anghydraddoldebau iechyd yn flaenoriaeth yn y cynllun. Rhennir y canfyddiadau â BIPBC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. | Rhannu |
| Iechyd meddwl<br>• Cymorth i rieni sy'n cynorthwyo plant sydd ag anghenion iechyd meddwl<br>• Hybu llesiant meddyliol rhai dan 5 oed<br>• Cymorth o ran ymddygiad i rai dan 10 oed<br>• Bod yn rhagweithiol – mae cynnal iechyd meddwl plant yn hanfodol i osgoi problemau yn y dyfodol. | Mae iechyd meddwl plant yn flaenoriaeth i'r BPRh. Rhennir y wybodaeth hon â Bwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl sy'n arwain ar iechyd meddwl a Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Gogledd Cymru. | Rhannu |

Draft

| Crynodeb o'r adborth a gafwyd | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| **Pobl hŷn** | | |
| Gwella'r cymorth yn y cartref a chydweithio rhwng awdurdodau lleol ac iechyd. Cryfhau'r ddarpariaeth o ofal a chomisiynu gofal yn fwy hyblyg. | Rydym wedi ychwanegu'r wybodaeth ganlynol am waith sydd mewn llaw i wella gofal yn y cartref at y cynllun.<br>Proses comisiynu cydweithredol Gogledd Cymru: Cytundeb a Fframwaith Rheoli Gofal Cartref Gogledd Cymru (gwaith yn dechrau ym Medi 2017, y fframwaith yn weithredol rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2025). | Diwygio |
| Gofal diwedd oes. | Mae hyn wedi'i gynnwys yn flaenoriaeth yn y bennod ar bobl hŷn a nodwyd y bydd angen rhagor o wybodaeth am hyn yn yr adolygiad o'r asesiad poblogaeth. | Diwygio |
| Newid cyfeiriadau at raglenni BIPBC i'w hadlewyrchu'n well. | Newidiadau wedi'u gwneud. | Diwygio |
| Diogelu<br>• Sicrhau bod tueddiadau yn y gweithlu mewn cartrefi gofal yn cael eu monitro – Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol.<br>• Tracio a gwerthuso cartrefi o fewn y broses uwchgyfeirio pryderon – y tîm datblygu ymarfer ym maes iechyd yn adrodd yn fisol – cafwyd cynnydd yn nifer y pryderon yn ddiweddar.<br>• Mae offeryn monitro ar gyfer archwilio ar y cyd rhwng BIPBC a swyddogion contractau yn cael ei lansio mewn perthynas â sicrhau ansawdd mewn cartrefi gofal. | Newidiadau wedi'u gwneud. | Diwygio |
| Pobl hŷn yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau os byddant yn mynd allan, yn enwedig gyda'r hwyr. | Mae lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd yn ein cymunedau yn flaenoriaeth yn y cynllun. | Nodi |
| Gwasanaeth cynnal a chadw i bobl hŷn i'w helpu i aros yn annibynnol. | Hybu byw'n annibynnol; mae dewis i bobl a rheolaeth dros eu bywyd eu hunain yn flaenoriaeth yn y cynllun. | Nodi |
| Awgrymiadau ar gyfer cefnogi pobl sydd â dementia:<br>• Defnyddio cerddoriaeth a chanu<br>• Gwella gwasanaethau dementia yn y gymuned drwy 'gyfeillio' a chymorth gan wirfoddolwyr yn y gymuned | Mae cefnogi pobl y mae dementia yn effeithio arnynt yn flaenoriaeth yn y cynllun. | Nodi |

Draft

| **Crynodeb o’r adborth a gafwyd** | **Ymateb** | **Statws** |
|---|---|---|
| Llesiant: Cymorth i bobl hŷn i fwynhau eu henaint; rhaglenni ymarfer i helpu i ddelio ag arwahanrwydd a ffitrwydd, adnabod y rheini sydd mewn mwy o berygl – pobl hŷn heb deulu. | Mae hybu ffyrdd iachach o fyw a gwella llesiant yn flaenoriaethau yn y cynllun. | Nodi |
| Cynnwys rhai 50 i 65 mlwydd oed. | Mae’r crynodeb o’r asesiad poblogaeth ar ddechrau’r bennod ar bobl hŷn yn y cynllun rhanbarthol yn cynnwys nifer y bobl 65 oed ac yn hŷn a’r nifer 85 oed ac yn hŷn.<br><br>Mae diffiniad ehangach o bobl hŷn yn yr asesiad poblogaeth sy’n cynnwys rhai 50 i 65 mlwydd oed. Dewiswyd y ffigurau sydd yn y crynodeb am mai’r rhain sydd â’r goblygiadau mwyaf i anghenion am ofal cymdeithasol dros gyfnod y cynllun. | Nodi |
| Sylwadau’r Gymdeithas Strôc<br>• Oed yw’r ffactor risg mwyaf ar gyfer strôc.<br>• Darparodd ddata am y niferoedd y mae’n effeithio arnynt a modelu ar gyfer y dyfodol.<br>• Gwybodaeth am y cynllun peilot Bywyd ar ôl Strôc yng Nghaerdydd a’r Fro<br>• Dylai’r BPRh ystyried goroeswyr strôc mewn lleoliadau acíwt a’u rôl ar ôl gadael y lleoliadau hynny a meddwl am ffyrdd i ddarparu cymorth i nifer cynyddol o oroeswyr strôc yn y dyfodol. | Byddwn yn rhannu’r cyfan o ymateb y Gymdeithas Strôc â’r bwrdd iechyd. | Rhannu |
| **Iechyd, anableddau corfforol a nam ar y synhwyrau** | | |
| Newid y crynodeb i ddweud bod y Strategaeth Byw’n Iach, Aros yn Iach yn strategaeth yn hytrach na rhaglen. | Y newid wedi’i wneud | Diwygio |
| Cynnwys chwaraeon a gweithgarwch corfforol – un ai darpariaeth prif ffrwd gynhwysol neu un benodol ar gyfer anableddau. | Mae hybu ffyrdd iachach o fyw a lleihau anghydraddoldebau iechyd yn flaenoriaeth yn y cynllun.<br><br>Wedi cynnwys rhagor o wybodaeth am y rhaglen Cael Gogledd Cymru i Symud.<br><br>Mae presgripsiynu cymdeithasol a hybu gweithgarwch corfforol yn feysydd lle rhoddir blaenoriaeth i weithredu. | Diwygio |

Draft

| Crynodeb o'r adborth a gafwyd | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| Cynnwys hunanofal / hunanreoli â chymorth. Mae'r swyddfa hunanofal (BCU) yn darparu amrywiaeth o wasanaethau ledled Gogledd Cymru i gynorthwyo unigolion sydd ag anhwylderau tymor hir a gofalwyr ac i hybu iechyd meddwl. | Roedd cyfeiriad yn yr asesiad poblogaeth at yr angen i gefnogi hunanofal a hyrwyddo annibyniaeth. Mae cymorth ar gyfer hunanofal a hunanreoli yn elfennau pwysig yn rhaglen Gofal yn Nes at y Cartref BIPBC gyda sefydliadau sy'n bartneriaid. | Nodi |
| Rhestrau aros hir yn cynnwys rhai ar gyfer rheoli poen cronig, cwnsela a gosod cymalau newydd. Awgrymir defnyddio hunanreoli a grwpiau cymorth yn y cyfamser. | Mae'r angen i leihau amseroedd aros am rai gwasanaethau a'r effaith o arosiadau hir wedi'u cydnabod yn strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach BIPBC. | Nodi |
| Cymorth i bobl sydd â ffibromyalgia | Mae cymorth i bobl sydd ag anhwylderau tymor hir yn elfen bwysig yn rhaglen Gofal yn Nes at y Cartref BIPBC. Yn yr un modd ag anhwylderau penodol eraill, mae'r angen i hyrwyddo llesiant yn ogystal â thrin symptomau penodol wedi'i gydnabod. | Nodi |
| Mae Epilepsy Action Cymru wedi penodi gweithiwr datblygu dwyieithog i ddarparu cymorth i bobl sy'n profi effaith epilepsi yng Ngogledd Cymru. Mae'n argymell hyrwyddo hyn drwy'r bwrdd iechyd. | Mae'n ddiddorol clywed am y datblygiad hwn. Byddai'r Bwrdd Iechyd yn falch o gael gwybod am y manylion. | Nodi |
| Gwneud yr amgylchedd ffisegol yn fwy hygyrch i bobl sydd ag anableddau corfforol, yn cynnwys defnyddwyr cadeiriau olwyn. | Wedi'i gynnwys fel angen. | Nodi |
| Dylai pob defnyddiwr gwasanaethau fod â'r hawl i weld ei holl gofnodion iechyd. | Mae hawl gan ddefnyddwyr gwasanaethau i weld eu holl gofnodion iechyd. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r bwrdd iechyd. http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/45101 | Nodi |
| Y gallu i gael apwyntiad gyda meddyg teulu. Mae angen rhoi mwy o amser i feddygon teulu i drin pobl. | Y gallu i dderbyn gofal sylfaenol yw un o'r prif elfennau yn rhaglen Gofal yn Nes at y Cartref BIPBC | Nodi |
| Cydweithio'n agosach â Bwrdd Iechyd Hywel Dda i gynorthwyo pobl sy'n byw yn Ne Gwynedd. | Mae'r perthnasoedd gweithio wedi gwella drwy waith Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd Canolbarth Cymru. Mae datblygiadau penodol yn cael eu hystyried a'u hyrwyddo drwy gydweithio rhwng timau BIPBC a Bwrdd Iechyd Hywel Dda ac rydym wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth i gynorthwyo ardal De Gwynedd. | Nodi |



Draft

| **Crynodeb o'r adborth a gafwyd** | **Ymateb** | **Statws** |
|---|---|---|
| Diffyg gofal deintyddol yn Nhywyn. | Mae'r mater hwn wedi'i godi gyda'r tîm deintyddol yn BIPBC. | Rhannu |
| Ar 22 Rhagfyr 2017 anfonodd Cyngor Cymru i'r Deillion lythyr at y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn nodi argymhellion ar gyfer diwallu anghenion pobl gyda nam ar y golwg. Roeddent yn cynnwys:<br>• Cwrdd â'r Canllaw Meincnodi Arferion Da o ran adsefydlu pobl â nam ar y golwg<br>• Cysylltu ag oedolion sydd newydd eu cofrestru gyda nam ar y golwg o fewn 14 diwrnod<br>• Mabwysiadu'r Llwybr Colli Golwg ar gyfer Oedolion<br>• Parhau â Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru a chysylltu â Swyddogion Adsefydlu<br>• Defnyddio Llwybr Integredig Cymru Gyfan ar gyfer Plant a Phobl Ifanc gyda Nam ar y Golwg a'u Teuluoedd fel 'sylfaen' i ddatblygu llwybrau eraill<br>• Cynnwys cefnogaeth sydd ar gael gan y trydydd sector yn y cynllun ardal | Mae cefnogi pobl gyda nam ar y synhwyrau yn flaenoriaeth yn y cynllun. Mae sefydliadau trydydd sector wedi eu cynnwys fel partneriaid allweddol i ddarparu'r flaenoriaeth ac mae dolenni i'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt ar gael yn Rhan D.<br><br>Cafodd y llythyr a dderbyniwyd gan Gyngor Cymru i'r Deillion (22/12/17) ei rannu gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.<br><br>Ceir rhagor o wybodaeth am anghenion pobl gyda nam ar y synhwyrau yn llyfrgell ddogfennau'r asesiad poblogaeth (sydd ar gael ar gais), gan gynnwys y llythyr a dderbyniwyd; Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth:<br>• Adsefydlu a Sefydlu Dinasyddion Cymru gyda Nam ar y Golwg;<br>• Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth: Nam ar y Synhwyrau – Yr hyn sydd ar bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol angen ei wybod;<br>• Astudiaeth achos o'r ddarpariaeth sefydlu ar gyfer plant a phobl ifanc gyda nam ar y golwg yng Nghymru; ac,<br>• adroddiad ymgyrch sefydlu Blind Children UK Cymru. | Rhannu |

Draft

| Crynodeb o'r adborth a gafwyd | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| Roedd y Gymdeithas Strôc wedi darparu ymateb manwl a oedd yn cynnwys:<br>• Anghenion goroeswyr strôc, teuluoedd a gofalwyr i fod yn flaenoriaeth i'w dilyn gan wasanaethau integredig.<br>• Mae goroeswyr strôc yn dweud eu bod yn aml yn teimlo eu bod wedi'u hanghofio ar ôl gadael yr ysbyty.<br>• Mae'r gwasanaeth yng Ngogledd Cymru yn cynnwys cydlynwyr mewn unedau acíwt strôc – mae angen cyflwyno'r Gwasanaethau Ymadfer Strôc, cynnal asesiad cyfannol o anghenion wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty, cymorth a chyngor ar wasanaethau lleol, grwpiau cymorth cymheiriaid, prosiectau a gweithgareddau.<br>• Strôc yw un o brif achosion anabledd a'r problemau y gall pobl eu profi a all alw am gymorth gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal ag effeithiau ar ofalwyr a'r teulu.<br>• Ystadegau am nifer y cleifion strôc sy'n gadael yr ysbyty â chynllun iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd (Ysbyty Gwynedd 100%, Ysbyty Wrecsam Maelor 98%, Ysbyty Glan Clwyd 95%).<br>• Gwell dealltwriaeth o anghenion goroeswyr strôc a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol, yn cynnwys cyfathrebu, affasia (nam cyfathrebu).<br>• Sicrhau bod ansawdd gofal yn fwy cyson.<br>• Mae'n argymell sefydlu Unedau Strôc Acíwt Iawn.<br>• Cynyddu'r defnydd o drefniadau rhyddhau'n gynnar â chymorth o'r ysbyty i ofal yn y gymuned/cartref. | Mae BIPBC yn falch o gael yr ymateb gan y Gymdeithas Strôc ac wedi trosglwyddo'r sylwadau i'r adolygiad o wasanaethau gofal strôc. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod yr anghenion parhaus am gymorth cymdeithasol ac annibyniaeth yn cael eu cydnabod mewn cynlluniau partneriaeth. | Rhannu |
| **Anableddau dysgu** | | |
| Cymorth i oedolion ifanc rhwng 16 a 25 oed. Ar y cyfan, mae'n lleihau pan fyddant yn gadael yr ysgol pan fydd arnynt yr angen mwyaf am gymorth i gael gwaith. Mae angen mwy o gyfleoedd cymdeithasol, cymorth iechyd meddwl a chyfleoedd i fod yn rhan o'r gymuned. | Mae'n flaenoriaeth yn y cynllun. Mae wedi cael ei haileirio i'w gwneud yn gliriach. | Diwygio |

Draft

| Crynodeb o'r adborth a gafwyd | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| Diogelu<br>• Diogelu oedolion ag anableddau dysgu gan gynnwys dulliau technolegol a phan fyddant yn mynd o le i le. Mae angen i Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru hybu ymwybyddiaeth o'r perygl o gamfanteisio ariannol, twyll etc.<br>• Sicrhau bod y gweithlu sy'n cynorthwyo oedolion ag anableddau dysgu yn ymwybodol o'r peryglon o gamfanteisio ariannol – Grŵp Hyfforddiant a Gweithlu Diogelu / hyfforddiant mewn awdurdodau lleol. | Mae newidiadau wedi'u gwneud. | Diwygio |
| Defnyddio modelau seicogymdeithasol yn hytrach na modelau meddygol i ddeall anghenion pobl. | Mae'r BPRh o blaid defnyddio model cymdeithasol o anabledd ac ydym yn ymdrechu i gyflawni hyn. | Nodi |
| Cymorth i deuluoedd lle mae pobl ag anableddau dysgu yn byw gyda rhieni / gofalwyr hŷn. Beth fyddwch yn ei wneud i ddatrys y broblem? | Mae hyn yn flaenoriaeth yn y cynllun. Nid oes ateb hawdd ond rydym yn cydweithio ledled y rhanbarth yn y Bartneriaeth Anabledd Dysgu i rannu syniadau. | Nodi |
| Cynorthwyo disgyblion ag anghenion ychwanegol i gadw eu lle mewn addysg prif ffrwd os yw'n bosibl, er enghraifft, gyda chymorth cynorthwywyr athrawon. | Rhennir hyn â gwasanaethau addysg. | Rhannu |
| Mwy o gymorth iechyd i bobl sydd ag anabledd dysgu a llenyddiaeth haws ei darllen a dewisiadau eraill mewn meddygfeydd, fel fersiynau hawdd eu darllen. | Mae hyn yn flaenoriaeth yn y cynllun. Byddwn yn rhannu'r sylw am lenyddiaeth hawdd ei darllen â'r Bartneriaeth Anabledd Dysgu. | Rhannu |
| **Iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau** | | |
| Risg o hunanladdiad ymysg dynion. | Mae'r materion a godwyd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Strategol Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Gogledd Cymru 2018-21. Ychwanegwyd cyfeiriad at y cynllun at y cynllun rhanbarthol. | Diwygio |
| Mae'r flaenoriaeth ar iechyd meddwl oedolion yn rhy eang. | Mae rhagor o wybodaeth wedi'i gynnwys am flaenoriaethau'r strategaeth iechyd meddwl. | Diwygio |

Draft

| Crynodeb o'r adborth a gafwyd | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| Cymorth i bobl yn eu 20au a'u 30au sydd ag anghenion cymhleth ac anghenion iechyd meddwl. Mewn sylwadau eraill nodwyd bod angen gwneud rhagor ar gyfer rhai 18-25 mlwydd oed sydd wedi cael cymorth da hyd at 18 oed. | Mae gwella gwasanaethau iechyd meddwl yn flaenoriaeth. Rhennir hyn â BIPBC / arweinwyr mewn awdurdodau lleol.<br>Mae blaenoriaeth ynghylch pontio wedi'i hychwanegu yn y bennod ar blant a phobl ifanc | Diwygio |
| Cymorth i bobl ag anghenion iechyd meddwl i ddod o hyd i gyflogaeth sy'n cwrdd â'u hanghenion. | Mae cyflogaeth wedi'i hychwanegu yn yr adran ar lesiant meddyliol. | Diwygio |
| Lleihau'r stigma ynghylch iechyd meddwl a'i hybu mewn ffordd fwy cadarnhaol. Mae angen darparu cymorth yn ddi-dor mewn ffordd nad yw'n gwahaniaethu. | Mae hybu llesiant meddyliol yn flaenoriaeth yn y cynllun ac mae wedi'i gynnwys yn strategaeth iechyd meddwl y bwrdd iechyd. Rhagor o wybodaeth wedi'i gynnwys. | Diwygio |
| Mae angen gwybodaeth am y pwerau sydd gan y BPRh i sicrhau bod strategaeth iechyd meddwl y bwrdd iechyd yn ddigon cadarn ac yn cael ei chyflawni gan y bwrdd iechyd. | Sefydlwyd Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl ac mae partneriaid yn cydweithio i gyflawni'r strategaeth. Gall y BPRh wneud argymhellion ond nid yw'n grŵp penderfynu (gweler Rhan 9 o'r canllawiau statudol, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014). Y chwe awdurdod lleol a BIPBC sydd â'r awdurdod i wneud penderfyniadau. | Nodi |
| Mwy o gymorth i bobl sydd â diagnosis deuol, yn cynnwys pobl ag anghenion anabledd dysgu ac iechyd meddwl. | Mae gwella gwasanaethau iechyd meddwl yn flaenoriaeth. Mae diagnosis deuol wedi'i gynnwys yn y strategaeth iechyd meddwl. | Nodi |
| Mae angen cynllunio i adnabod salwch meddwl lle na roddwyd diagnosis. Mae cymorth i bobl sydd heb gael diagnosis yn bwysig iawn. Mae angen hybu ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael er mwyn atal gwaethygiad. Mewn sylw arall nodwyd bod gormod o bwyslais ar ddiagnosis ac y dylid rhoi pwyslais ar gyswllt personol, cymorth effeithiol ac ymyrraeth gan wasanaethau cydgysylltiedig. | Mae adnabod anghenion iechyd meddwl yn well ac ymyrraeth gynnar yn flaenoriaeth yn y cynllun. Mae'r bwrdd iechyd a phartneriaid eraill wedi rhoi cynlluniau ar waith i helpu i roi sylw i'r anghenion hyn. | Nodi |
| Y Gweithlu: Annog mwy o bobl i weithio ym maes iechyd meddwl. Paratoi cynlluniau wrth gefn i reoli salwch ymysg staff er mwyn lleihau'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae angen lleihau'r defnydd o staff asiantaeth. | Mae gwella gwasanaethau iechyd meddwl yn flaenoriaeth. Mae adran ar y gweithlu yn y strategaeth iechyd meddwl. | Nodi |

Draft

| Crynodeb o'r adborth a gafwyd | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| Hybu ymwybyddiaeth o'r risgiau i iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â rhai mathau o feddyginiaeth. | Mae gwella gwasanaethau iechyd meddwl yn flaenoriaeth. Rhennir hyn â BIPBC / arweinwyr mewn awdurdodau lleol. | Rhannu |
| Lleihau nifer y lleoliadau y tu allan i'r ardal a gwella gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig. | Mae gwella gwasanaethau iechyd meddwl yn flaenoriaeth. Rhennir hyn â BIPBC / arweinwyr mewn awdurdodau lleol. | Rhannu |
| Cwblhau asesiadau iechyd meddwl yn gyflymach a lleihau rhestrau aros am wasanaethau. | Mae gwella gwasanaethau iechyd meddwl yn flaenoriaeth. Rhennir hyn â BIPBC / arweinwyr mewn awdurdodau lleol. | Rhannu |
| Gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau dadwenwyno i bobl sydd â phroblemau cyffuriau ac alcohol. Darparu mwy o welyau yn Hafan Wen (uned dadwenwyno, Wrecsam). | Mae gwella gwasanaethau iechyd meddwl yn flaenoriaeth. Rhennir hyn â BIPBC a'r bwrdd cynllunio ardal. | Rhannu |
| Ymateb y Gymdeithas Strôc:<br>• Dywedodd dwy ran o dair o'r goroeswyr strôc a holwyd mewn arolwg nad oedd eu hanghenion emosiynol yn cael cystal sylw â'u hanghenion corfforol.<br>• Gwybodaeth am yr effaith seicolegol ar ofalwyr.<br>• Y pwysigrwydd o ddarparu gwybodaeth gywir, amserol a hawdd ei deall i'w helpu i ddygymod â'r effaith emosiynol.<br>• Dylai goroeswyr strôc gael cymorth seicolegol priodol, cymorth gan gymheiriaid, y gallu i gael gwasanaethau adsefydlu a therapi iaith a lleferydd.<br>• Darparu adolygiadau chwe mis o anghenion cleifion a gwasanaeth integredig i gwrdd â'r anghenion a nodwyd. | Mae llesiant meddyliol a gofalwyr yn flaenoriaethau yn y cynllun. Rhennir hyn â BIPBC ac arweinwyr mewn awdurdodau lleol. | Rhannu |
| **Gofalwyr** | | |
| Dylai gofalwyr gael eu cydnabod yn bartneriaid allweddol mewn gofal ym mhob rhan o'r cynllun. | Ychwanegwyd yn yr adran ar gydraddoldeb fod gofalwyr yn bartneriaid allweddol wrth ddarparu gofal ym mhob rhan o'r cynllun. | Diwygio |
| Anawsterau wrth weithio'n amser llawn gan gyflawni rôl gofalu. Diffyg dealltwriaeth yn y gweithle o'r straen y mae bod yn ofalwr yn gallu ei achosi. | Mae cefnogi gofalwyr mewn cyflogaeth yn flaenoriaeth yn y cynllun. | Nodi |

Draft

| Crynodeb o'r adborth a gafwyd | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| Yr angen am gymorth i ofalwyr ifanc gan gynnwys gweithgareddau ar eu cyfer. | Mae cefnogi gofalwyr ifanc yn flaenoriaeth yn y cynllun. | Nodi |
| Yr heriau i ofalwyr sy'n cynorthwyo rhieni oedrannus ac yn darparu gofal plant ar gyfer wyrion a wyresau. | Mae cefnogi gofalwyr yn flaenoriaeth yn y cynllun. | Nodi |
| Ymateb y Gymdeithas Strôc:<br>• yn cytuno ar y flaenoriaeth i ofalwyr;<br>• mae adsefydlu effeithiol yn bwysig;<br>• dylai gofalwyr gael asesiadau – dylai hyn fod yn flaenoriaeth yn y cynllun;<br>• gwasanaethau sy'n darparu'r rhaglen addysg 'Caring and You'. | Mae datblygu asesiadau i ofalwyr yn flaenoriaeth yn y cynllun. Rhennir y manylion ag arweinwyr y ffrwd gwaith gofalwyr. | Nodi |
| Mae angen rhagor o ganolfannau gofal seibiant, dydd a phreswyl i'r rheini sy'n derbyn gofal. Mae angen rhagor o ofal seibiant i rieni i blant sydd ag ymddygiad heriol iawn, anableddau dysgu neu ASD. | Mae darparu ar gyfer seibiant digonol a hyblyg i ofalwyr yn flaenoriaeth yn y cynllun. Rhennir y manylion ag arweinwyr y ffrwd gwaith gofalwyr. | Rhannu |
| **Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol** | | |
| Mae cam-drin domestig yn effeithio ar nifer o feysydd eraill. Mae angen hybu ymwybyddiaeth o hyn ymysg staff.<br>Mae cam-drin domestig yn flaenoriaeth i Fyrddau Diogelu Gogledd Cymru. Bydd y byrddau oedolion a phlant yn parhau i fonitro tueddiadau mewn cam-drin domestig, Fframwaith Sicrhau Ansawdd Gogledd Cymru.<br>Bydd is-grŵp Gweithlu a Hyfforddiant Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn monitro materion sy'n ymwneud â chydymffurfio â gofynion hyfforddi, fel y bydd swyddogion hyfforddi yn yr awdurdodau lleol. | Wedi'i ychwanegu at y cynllun. | Diwygio |
| Sicrhau bod gwasanaethau ar wahân ar gael sy'n diwallu anghenion dynion (yn cynnwys pwysau i beidio â chodi llais) ac anghenion pobl mewn partneriaethau rhwng dau o'r un rhyw. | Mae'r cynllun yn tynnu sylw at yr angen am wasanaethau sy'n diwallu gwahanol anghenion menywod a dynion. Darparwyd manylion cyswllt y grŵp sy'n datblygu'r strategaeth ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol pan ofynnwyd amdanynt. Trosglwyddwyd sylwadau manwl i'r grŵp. Ychwanegwyd adran am anghenion pobl mewn partneriaethau rhwng dau o'r un rhyw. | Diwygio/ rhannu |

Draft

| Crynodeb o'r adborth a gafwyd | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| Gofynnwyd beth sy'n cael ei wneud ynghylch masnachu mewn pobl. | Blaenoriaeth i Heddlu Gogledd Cymru – Ymgyrch Scorpion https://www.north-wales.police.uk/advice-and-support/stay-safe/modern-slavery | Nodi |
| Helpu pobl i godi llais am eu profiadau, er enghraifft drwy ddarparu cynghorwyr cyfrinachol mewn ysgolion. Hysbysebu'r gwasanaethau sydd ar gael fel y bydd pobl yn gwybod ble mae cymorth ar gael. | Rhannwyd hyn â'r grŵp sy'n datblygu'r strategaeth ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. | Rhannu |
| **Yr ystad ddiogel** | | |
| Addysg a chyflogaeth i gyn-droseddwyr. Addysgu cyflogwyr ynghylch stigmateiddio'r rheini sy'n gadael carchar. | Mae gwella canlyniadau ailsefydlu i bobl ifanc yn flaenoriaeth yn y cynllun rhanbarthol. Mae wedi'i ddiwygio i gynnwys oedolion. | Diwygio |
| Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru. Mae cynrychiolaeth o Garchar Berwyn ar y byrddau i blant ac oedolion erbyn hyn. | Wedi'i ychwanegu at y cynllun. | Diwygio |
| Adborth cadarnhaol am Garchar Berwyn. | Rhannwyd hyn â Charchar Berwyn. | Rhannu |
| **Cyn-filwyr** | | |
| Gwybodaeth i helpu pobl sy'n gadael y lluoedd arfog. Dylai'r lluoedd arfog gymryd cyfrifoldeb dros y bobl sy'n eu gadael, sicrhau bod ganddynt rywle i fynd iddo a'u bod yn cael cymorth i ymsefydlu, cael gwaith a chofrestru gyda gwasanaethau fel deintyddion a meddygon. | Mae gwella'r cymorth i gyn-filwyr yn flaenoriaeth yn y cynllun. | Nodi |
| Dylai Hyrwyddwyr dros y Lluoedd Arfog fod yn rhai sydd â chefndir yn y lluoedd arfog. | Cytunwyd y dylai hyrwyddwyr fod â dealltwriaeth dda o anghenion cyn-filwyr a phobl sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog. | Nodi |
| **Tai a digartrefedd** | | |
| Hysbysebu'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl sy'n wynebu digartrefedd, yr angen am lety argyfwng i bobl ifanc ddigartref, byw â chymorth a chymorth cyflogaeth. Dylid rhoi blaenoriaeth i bobl ifanc ar incwm isel wrth ddarparu tai cymdeithasol.<br>Nid yw'r crynodeb yn cyfeirio at ddigartrefedd fel blaenoriaeth na chymorth i bobl ifanc 18-25 oed. | Mae blaenoriaeth i atal digartrefedd wedi'i hychwanegu. | Diwygio |



Drafft

| Crynodeb o'r adborth a gafwyd | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| Anghenion tai pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. | Wedi'i ychwanegu at y cynllun. | Diwygio |
| Mae'r cynnydd mewn digartrefedd wedi'i achosi gan doriadau i fudd-daliadau. Mae'n anodd i bobl dan 21 oed gael fflat. Nid yw rhai 18 a 19 blwydd oed yn gallu hawlio budd-dal tai. | Mae tynnu sylw at risgiau o ganlyniad i ddiwygio lles yn flaenoriaeth yn y cynllun. | Nodi |
| **Awtistiaeth** | | |
| Aileirio'r frawddeg 'They have a new National Autism Service' i ddweud 'There is a new National Autism Service'. Egluro mai cyfrifoldeb y BPRh yw datblygu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol.<br>Ychwanegu rhagor o fanylion a dolen i Strategaeth Awtistiaeth Llywodraeth Cymru. | Y newid wedi'i wneud. Ychwanegwyd rhagor o wybodaeth am ddatblygu'r gwasanaeth awtistiaeth integredig. | Diwygio |
| Trafodaeth ynghylch a ddylid defnyddio'r term 'pobl awtistig' neu 'bobl ag awtistiaeth'. | Rydym yn cydnabod bod gwahaniaeth barn am y termau i'w defnyddio. Rydym wedi dilyn canllawiau Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth (Kenny et al., 2015) o ran yr iaith a ddefnyddir ac wedi cynnwys adran yn y cyflwyniad am y termau a ffefrir. | Diwygio |
| Mae angen rhagor o dimau diagnosis ASD i blant a gwasanaethau arbenigol ar ôl rhoi diagnosis. Gellid defnyddio meddygon teulu neu weithwyr iechyd proffesiynol eraill sydd wedi ymddeol. | Mae BIPBC yn gweithredu cynlluniau i ailddatblygu gwasanaethau a lleihau rhestrau aros. Mae rhagor o wybodaeth yn yr asesiad poblogaeth. | Nodi |
| Mae'n bwysig bod y bennod ar awtistiaeth ar wahân i'r bennod ar anableddau dysgu. | Mae anabledd dysgu / awtistiaeth yn un o'r themâu yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar asesiadau poblogaeth ond roeddem wedi cytuno yng Ngogledd Cymru i'w trafod mewn dwy bennod ar wahân gan fod yr anghenion a'r gwasanaethau sydd eu hangen yn wahanol. | Nodi |
| Cymorth i oedolion ag ASD. Pontio o wasanaethau plant a helpu pobl ifanc ag ASD i fyw'n annibynnol (18-25 mlwydd oed). Cymorth i ymdopi â rhyngweithio cymdeithasol yn y gymuned, i gael gwaith a'i gadw. | Rhennir y sylwadau â'r tîm sy'n datblygu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. | Rhannu |
| **Canfyddiadau cyffredinol** | | |

| Crynodeb o'r adborth a gafwyd | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| Mae angen rhagor o gyllid i gwrdd â'r anghenion a nodwyd yn yr asesiad poblogaeth ac i gyflawni'r cynllun.<br>Pryderon ynghylch capasiti yn sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu cymorth, yn cynnwys dibyniaeth ar wirfoddolwyr hŷn. Pryder y bydd gostyngiad mewn cyllid yn arwain at ddarparu llai o gyllid i grwpiau gwirfoddol sy'n helpu lleiafrifoedd i gael gafael ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill. Hefyd y capasiti sydd gan grwpiau cymunedol i helpu pobl ag anghenion cymhleth neu'r nifer cynyddol o bobl sy'n cael eu hatgyfeirio oherwydd anghenion cymhleth. | Mae'r heriau a wynebir wrth ddarparu gwasanaethau yn yr hinsawdd ariannol bresennol wedi'u cynnwys fel blaenoriaeth/canfyddiad cyffredinol. Ychwanegwyd rhagor o wybodaeth am gamau gweithredu. | Diwygio |
| Mwy o ymgysylltu â'r trydydd sector. Gofynnwyd am restr o sefydliadau'r trydydd sector yr ymgysylltwyd â nhw. | Mae rhestr o sefydliadau'r trydydd sector yr ymgysylltwyd â nhw wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn ar yr ymgynghoriad. | Diwygio |

Draft

| Crynodeb o'r adborth a gafwyd | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| Mae angen rhagor o wybodaeth am y trydydd sector, sefydliadau gwirfoddol a phartneriaid eraill sy'n gallu helpu i gyflawni'r cynllun. Mae angen cryfhau'r berthynas rhwng sefydliadau'r trydydd sector a rhai statudol. Dylid cydnabod y cyfraniad posibl gan y trydydd sector. Gwneud mwy o ddefnydd o'r grwpiau cymunedol, anffurfiol presennol – sicrhau eu bod yn gynhwysol e.e. yn gyfeillgar i ddementia. Gofynnwyd am gynnwys gwybodaeth ynghylch:<br>• beth sy'n ddi-dâl a beth ellir codi tâl amdano;<br>• sefydliadau sy'n gallu darparu grantiau;<br>• pwyntiau cyswllt ar gyfer cymorth lleol mewn cymunedau.<br>Sefydliadau penodol a grybwyllwyd oedd:<br>• Cymdeithasau Tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig;<br>• My MS, My Rights, My Choices sy'n cynnig gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth i bobl sydd â Sglerosis Ymledol;<br>• Amgueddfeydd, yn cynnwys awgrymiadau am wella mynediad iddynt;<br>• Cais;<br>• Canolfannau Cyngor ar Bopeth;<br>• Barnardos;<br>• Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru;<br>• Yr heddlu;<br>• Sefydliadau sy'n cynorthwyo gofalwyr | Mae'r BPRh yn cydnabod y rôl sydd gan y trydydd sector ac asiantaethau eraill mewn gwella iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant a chyflawni'r cynllun rhanbarthol.<br>Oherwydd graddfa'r cynllun, nid yw'n bosibl rhestru'r holl sefydliadau yng Ngogledd Cymru sy'n gallu cyfrannu at ei gyflawni, yn enwedig yn y crynodeb o'r cynllun. Hefyd byddai cynhyrchu'r wybodaeth yn y fformat hwn yn golygu y byddai wedi dyddio'n syth ar ôl ei chyhoeddi yn ôl pob tebyg. Rydym wedi nodi rhai sefydliadau lle maent yn darparu rhaglenni rhanbarthol sy'n cyfrannu at gyflawni nodau'r cynllun, fel Rhaglen Eiriolaeth Edau Aur Age Cymru. Rydym wedi ychwanegu'r sector gwirfoddol/ trydydd sector, cymdeithasau tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fel partner cyflawni ym mhob rhan o'r cynllun.<br>Mae'r BPRh yn hyrwyddo Dewis Cymru fel adnodd sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd sy'n darparu gwybodaeth am yr holl gymorth sydd ar gael i bobl yng Ngogledd Cymru. Anogir sefydliadau i sicrhau bod manylion am eu gwasanaethau ar gael ar y wefan. Ychwanegwyd dolenni i fanylion cyswllt y pwyntiau mynediad sengl a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd. | Diwygio |
| Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn well.<br>Ystyried sefydlu gweithdrefn cwynion integredig ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae rheolau gwahanol am gyfnodau ac ymatebion ar hyn o bryd.<br>Rhannu'r arferion gorau.<br>Drwy gydgysylltu'n well, byddai'n bosibl osgoi dyblygu, cystadlu am yr un set o bobl a gwneud mwy o ddefnydd o'r adnoddau sydd ar gael.<br>Systemau TG mwy integredig. | Mae darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi'u hintegreiddio'n well yn un o brif nodau'r cynllun.<br>Ychwanegwyd gwybodaeth am System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. | Diwygio |



Draft

| Crynodeb o'r adborth a gafwyd | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| Atal ac ymyrraeth gynnar:<br>• Mae'r amcan ar gyfer atal ac ymyrraeth gynnar yn Rhan C yn rhy eang – mae angen ei dargedu'n fwy manwl er mwyn rheoli disgwyliadau.<br>• Mae ymyrraeth gynnar ac atal yn bwysig iawn i leihau'r galw ar wasanaethau statudol.<br>• Hyfforddiant a hybu ymwybyddiaeth i adnabod pobl sydd mewn perygl a'u cynorthwyo, yn cynnwys cymorth mewn addysg, anghenion pobl ag awtistiaeth.<br>• Gwybodaeth a chyngor i'r cyhoedd am wella eu hiechyd a llesiant. Cynnwys rhagor o hysbysrwydd am wybodaeth a chyngor i blant.<br>• Darparu gwybodaeth leol, fel gwybodaeth i Feirionnydd yn hytrach na Gwynedd.<br>• Cymorth i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant a gwirfoddoli. | Diwygiwyd gwybodaeth am y sefydliadau arweiniol i gynnwys ystod ehangach o bartneriaid a dolenni i wasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar sy'n cael eu darparu gan yr holl bartneriaid hynny. Ni ellir cynnwys yr holl fanylion mewn cynllun ar y raddfa hon.<br>Ychwanegwyd dolenni i wybodaeth, cyngor a chymorth i blant ac oedolion. | Diwygio |
| Nid yw'n ymarferol disgwyl i'r BPRh allu cyflawni'r holl flaenoriaethau. Mae angen helpu partneriaethau lleol i gyflawni nodau a chanlyniadau lleol. Mae angen defnyddio gwybodaeth leol yn ogystal â'r asesiad poblogaeth rhanbarthol. | Ychwanegwyd gwybodaeth yn y cyflwyniad (i'r prif gynllun a'r crynodeb) am yr ystod eang o bartneriaid sy'n cyfrannu at lesiant pobl – ystod ehangach o lawer na gwasanaethau cymdeithasol yn unig.<br>Cytunwyd bod angen cynnwys gwybodaeth a phartneriaid lleol yn ogystal â'r wybodaeth ranbarthol sydd ar gael yn yr asesiad poblogaeth a'r cynllun rhanbarthol. | Diwygio |
| Mae angen cynnal gwiriadau annibynnol mewn ysbytai a chartrefi. | Ychwanegwyd gwybodaeth a gafwyd gan Fyrddau Diogelu Gogledd Cymru. Mae timau monitro mewnol a rheoleiddwyr annibynnol ar gyfer pob awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd. | Diwygio |

Draft

| Crynodeb o'r adborth a gafwyd | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| Diwygio lles, budd-daliadau a chyngor ar ddyled. Mae angen i gymorth fod ar gael fel gwasanaeth ataliol. Rhai o'r materion penodol a godwyd oedd:<br>• Nid yw budd-dal tai yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r landlord bellach ac mae hynny'n arwain at y perygl o ddigartrefedd i bobl ifanc ac oedolion agored i niwed.<br>• Cymorth i ofalwyr sy'n derbyn pensiwn gan nad ydynt yn gymwys bellach i dderbyn lwfans gofalwr.<br>• Cyflwyno Credyd Cynhwysol.<br>• Y cap ar fudd-daliadau.<br>• Gostyngiadau o ran staff ac oriau cymorth i helpu pobl i drin arian a chyllidebu er mwyn cadw tenantiaethau<br>• Effaith troi pobl allan, prinder bwyd a phresenoldeb gwael yn yr ysgol.<br>• Codi oed pensiwn y wladwriaeth a'r effaith o'r ffordd o gysoni oed pensiwn y wladwriaeth rhwng dynion a menywod.<br>Cynorthwyo pobl drwy wasanaethau yn hytrach na thaliadau i unigolion drwy'r system budd-daliadau fel y Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) neu Lwfansau Gweini.<br>"Mae cyllidebu, hyrwyddo swyddi ac addysg yn flaenoriaeth fawr o hyd". | Mae hyn yn ganlyniad i bolisi Llywodraeth y DU felly nid yw'r BPRh yn gallu ei newid. Nodwyd ei fod yn peri risg mewn nifer o benodau yn yr asesiad poblogaeth. Rydym wedi cyfuno hyn i greu blaenoriaeth/canfyddiad yn Rhan C ynghylch tlodi ac anghydraddoldeb ac effeithiau diwygio lles. Mae effaith diwygio lles wedi'i nodi hefyd yn y strategaeth iechyd meddwl.<br>Mae'r gyfran berthnasol o gyllid sy'n cael ei wario ar wasanaethau a thrwy'r system budd-daliadau yn seiliedig ar bolisi Llywodraeth y DU.<br>Ychwanegwyd rhagor o wybodaeth yn y cyflwyniad am yr ystod eang o bartneriaid sy'n cyfrannu at lesiant pobl – ystod ehangach o lawer na gwasanaethau cymdeithasol yn unig. | Diwygio |
| Mwy o bwyslais ar weithio drwy gydgynhyrchu â'r unigolion a grwpiau hyn. Mae angen i bawb gydweithio. Mwy o ystyriaeth ac ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau a'u heiriolwyr, yn cynnwys aelodau o'r teulu a gofalwyr. Mae angen i wasanaethau wrando ar rieni a gofalwyr a'u helpu i fynegi barn heb ofni colli'r gwasanaethau sydd ganddynt. Awgrymwyd sefydlu fforwm i rieni a gofalwyr. Sicrhau bod grwpiau'n rhoi sylw i broblemau ac nad pobl sy'n credu bod pethau'n gweithio'n iawn yw'r unig aelodau. | Ychwanegwyd ymrwymiad i gydgynhyrchu. | Diwygio |

Draft

| Crynodeb o'r adborth a gafwyd | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| Cymorth gan ffrindiau, y teulu a'r gymuned. Mae angen cymorth i bobl sydd heb deulu neu ffrindiau i'w cynorthwyo. Sicrhau bod lleoedd i bobl ddod at ei gilydd yn y gymuned. | Ychwanegwyd rhagor o wybodaeth yn y cyflwyniad am yr ystod eang o bartneriaid sy'n cyfrannu at lesiant pobl – ystod ehangach o lawer na gwasanaethau cymdeithasol yn unig. | Diwygio |
| Cynhwysiant digidol: mae angen gwasanaethau i bobl nad ydynt yn gallu cael mynediad at y rhyngrwyd. | Mae'r rhyngrwyd yn fwyfwy pwysig fel ffordd o gael gafael ar wybodaeth am wasanaethau ac mae'n cynnig cyfleoedd i wella ein ffordd o ddarparu gwasanaethau. Ychwanegwyd adran yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb am y canlyniadau negyddol anfwriadol i fynediad ar-lein at wasanaethau.<br><br>Drwy gynhyrchu'r cynllun rhanbarthol ar-lein, gallwn symleiddio'r cynllun drwy ddarparu dolenni i wybodaeth ychwanegol. Mae hyn yn lleihau dyblygu ac yn golygu bod modd i ni ddarparu dolenni i wybodaeth sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd. Byddwn yn trefnu i gopïau papur fod ar gael ar gais.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae'r BPRh yn cefnogi mentrau i wella cynhwysiant digidol. Gall hyn fod yn flaenoriaeth hefyd i'r Byrddau Gwasanaethau Lleol. | Diwygio |

Draft

| Crynodeb o'r adborth a gafwyd | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| Adborth am ddull y cynllun rhanbarthol:<br>• Darparu rhagor o wybodaeth am yr hyn sydd wedi newid.<br>• Darparu rhagor o wybodaeth am y sefyllfa bresennol yn hytrach na gwasanaethau yn y dyfodol.<br>• Ychwanegu dolenni i wefannau.<br>• Ychwanegu gwybodaeth am gamau i'w cymryd os bydd rhywun yn teimlo nad yw'r blaenoriaethau'n cael eu dilyn. | Mae rhagor o wybodaeth yn yr asesiad poblogaeth am y ffordd y mae gwasanaethau wedi newid dros amser ac am y sefyllfa bresennol. Mae'r cynllun rhanbarthol yn canolbwyntio ar yr hyn a fydd yn newid a chynlluniau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Dyma'r tro cyntaf i ni gynhyrchu'r adroddiadau hyn felly bydd rhagor o wybodaeth am newidiadau a wnaed yn cael ei gynnwys wrth eu hailgynhyrchu ymhen pum mlynedd. Bydd diweddariadau blynyddol ar gael yn adroddiad y BPRh.<br><br>Bydd mwy o ddolenni'n cael eu cynnwys yn y cynllun rhanbarthol ac ar y wefan.<br><br>Mae'n well gwneud sylwadau a chwynion am wasanaethau drwy gysylltu â'r asiantaeth sy'n gyfrifol.<br><br>Mae'r BPRh yn cynnwys cynrychiolwyr o blith defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, y trydydd sector a darparwyr. Mae rhestr o'r aelodau a chofnodion y cyfarfodydd ar gael ar y wefan. Bydd yr adolygiad o'r asesiad poblogaeth yn rhoi cyfle i wneud sylwadau am y cynnydd a gafwyd.<br><br>https://www.northwalescollaborative.wales/regional-partnership-board/ | Diwygio |

Draft

| | | |
|---|---|---|
| Cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'n cynnwys:<br>• Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r dull o weithredu.<br>• Rhestr o nodweddion gwarchodedig a thystiolaeth o ymgysylltu.<br>• Anghenion Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a hiliaeth, rhwystrau rhag derbyn gwasanaethau, iaith, unigrwydd ac arwahanrwydd.<br>• Proffil amrywiaeth y grwpiau poblogaeth e.e. gofalwyr – grwpiau oedran, ethnigrwydd, crefydd, rhyw, i helpu i bennu'r camau gweithredu penodol i'w cymryd.<br>• Dylai gwasanaethau fod yn hygyrch i oroeswyr strôc a dylid hyfforddi staff i ddeall problemau ac anghenion.<br>Ystyried yr heriau yn:<br>• Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, A yw Cymru'n Decach?<br>• Amcanion Strategol Llywodraeth Cymru ar Gydraddoldeb a'r dull o weithredu seiliedig ar hawliau dynol;<br>• Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol;<br>• Ymgyngoriadau â grwpiau lleiafrifol a gynhaliwyd gan BIPBC<br>Ystyried y materion a nodwyd gan Rwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru:<br>• 27% o'r boblogaeth o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sydd mewn cyflogaeth yng Ngogledd Cymru yn gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.<br>• Bylchau mewn ymchwil am anghenion pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Ngogledd Cymru oherwydd maint y boblogaeth – ystyried ariannu ymchwil ar lefel ranbarthol/Cymru gyfan.<br>• Adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn<br>• Ymdeimlad cynyddol o anniogelwch ymysg lleiafrifoedd – gelyniaeth tuag at ymfudwyr, ffoaduriaid a dinasyddion y gellir gweld eu bod o gefndir 'lleiafrifol', cynnydd mewn ymosodiadau wedi'u hysgogi gan hiliaeth, gelyniaeth y wasg | Cytunwyd bod angen gwneud yr ymrwymiad i gydraddoldeb a hawliau dynol yn y cynllun yn gliriach. Mae'r cynllun yn ddogfen gryno, strategol felly ni ellir cynnwys yr holl fanylion a ddarparwyd ond gallwn wneud yr ymrwymiad i gydraddoldeb a hawliau dynol yn gliriach, pennu'r cyfeiriad a darparu dolenni i ragor o wybodaeth er mwyn datblygu cynlluniau mwy manwl mewn ymateb i'r cynllun rhanbarthol.<br>Newidiadau a wnaed:<br>• Ychwanegwyd adran sy'n cyfeirio at Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Hawliau Dynol 1998, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn.<br>• Ychwanegwyd dolen i'r holl gynlluniau cydraddoldeb strategol<br>• Ychwanegwyd crynodeb o'r adrannau ar gydraddoldeb a hawliau dynol o'r asesiad poblogaeth at y crynodeb 'yr hyn wnaethom ni ei ddarganfod' ar ddechrau pob adran ac rydym wedi cynnwys rhywfaint o'r data ychwanegol a anfonwyd atom.<br>• Mae unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd heb ei defnyddio yn y cynllun wedi cael ei hychwanegu at lyfrgell yr asesiad poblogaeth fel y gellir ei chynnwys pan gaiff yr asesiad poblogaeth ei adolygu ac ar gais. | Diwygio |

Draft

| Crynodeb o’r adborth a gafwyd | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| boblogaidd a heriau gan Lywodraeth y DU i hawl pobl i fod yn y DU.<br>• Mae lleiafrifoedd ethnig sy’n byw y tu allan i ardaloedd lle mae clwstwr o leiafrifoedd yn *fwy* tebygol o brofi aflonyddu. Mae aflonyddu’n gwneud niwed i iechyd meddwl hyd yn oed ymysg y rheini nad ydynt yn ei brofi’n uniongyrchol. | | |
| Darparu rhagor o fanylion am y blaenoriaethau, camau gweithredu penodol ac awgrymiadau ar gyfer newid yr iaith a ddefnyddiwyd i’w gwneud yn fwy penodol. Roedd yn anodd gwneud sylwadau am y cynllun am fod y blaenoriaethau’n annelwig. Sylwadau am ddiffiniadau o dermau – iechyd meddwl, cadw pobl yn ddiogel. Roedd un sylw yn ffafrio lefel y manylion yn adroddiad yr ymgynghoriad a chylchlythyr misol yr asesiad poblogaeth. | Roedd yn her cynhyrchu cynllun sy’n rhoi crynodeb byr, strategol o’r dull o gwrdd ag anghenion gofal a chymorth pobl Gogledd Cymru ac anghenion gofalwyr am gymorth. Mae’r cynllun yn amlinellu prif flaenoriaethau’r BPRh ac mae rhagor o wybodaeth yn y cynlluniau cwmpasu a chyflawni. Mae hefyd yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau ychwanegol o’r asesiad poblogaeth a dolenni i ragor o wybodaeth am y ffyrdd o ymateb i’r rhain.<br><br>Bydd yr adroddiad hwn ar yr ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â’r cynllun rhanbarthol er mwyn darparu gwybodaeth ychwanegol. Mae diffiniadau manwl o’r termau a ddefnyddiwyd wedi’u cynnwys yn yr asesiad poblogaeth.<br><br>Byddwn yn parhau i ddarparu diweddariadau rheolaidd ar ein gwefan yn ogystal â’r cynllun rhanbarthol a gyhoeddir. | Nodi |
| Rôl y BPRh<br><br>Dylai’r bwrdd hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth a helpu i sicrhau na fydd dyblygu rhwng gwaith y grwpiau yn y sector cyhoeddus, y sector annibynnol a’r sector gwirfoddol. Mae angen cynllunio ar gyfer y dyfodol er mwyn cadw’n wastad â’r cynnydd mewn galwadau a ragwelir. Dylid canolbwyntio ar yr hyn a fydd yn cael ei wneud. Gwell cyfathrebu gan y bwrdd partneriaeth i wneud y cynllun yn fwy effeithiol. | I’w nodi gan y BPRh. | Nodi |
| Mae angen ehangu gwasanaethau yn y gymuned a darparu gwasanaethau iechyd ar lefel fwy lleol. Awgrymwyd sefydlu ysbytai cymunedol neu westai i gleifion ar sail y model a geir yng ngwledydd Llychlyn. | Wedi’i gynnwys fel argymhelliad yn y bennod ar iechyd | Nodi |

Draft

| Crynodeb o’r adborth a gafwyd | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| Y Gymraeg: yn cytuno ar yr anghenion am wasanaethau yn Gymraeg. Dylai anghenion iaith pobl fod yn rhan o’r arlwy craidd. | Mae hon yn flaenoriaeth. | Nodi |
| Effaith tai gwael neu ansicr eu tenantiaeth ar iechyd meddwl, yn enwedig teuluoedd â phlant. | Mae tai a digartrefedd yn flaenoriaethau yn y cynllun. | Nodi |
| Trafnidiaeth: mae angen trafnidiaeth hygyrch a chynhwysol ar gyfer pob grŵp i’w galluogi i gael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, ac atal unigrwydd ac arwahanrwydd. Gall y Gymdeithas Cludiant Cymunedol helpu i gydgysylltu atebion trafnidiaeth ond nid oes ganddi ddigon o gapasiti i gyflawni’r gwaith ar ei phen ei hun. Hyrwyddo cerdded a beicio, gwella diogelwch ffyrdd. | Mae trafnidiaeth a mynediad i wasanaethau wedi’u nodi yn y cynllun.<br>Rhannwyd y sylwadau â’r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. | Rhannu |
| Mae diffyg toiledau hygyrch a digonol i bobl pan fyddant oddi cartref yn gallu eu hatal rhag mynd o le i le, a hynny’n arwain at unigrwydd ac arwahanrwydd. | Rhannwyd y sylwadau â’r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. | Rhannu |
| Gweithlu: recriwtio a chadw gweithwyr gofal. Prinder Therapyddion Galwedigaethol cymwysedig (yn enwedig siaradwyr Cymraeg) ar ôl tynnu’r hyfforddiant yn ôl ym Mangor. Gwella argaeledd hyfforddiant i feddygon a nyrsys yng Ngogledd Cymru. Lleihau’r ddibyniaeth ar feddygon locwm a staff asiantaeth. Creu arbenigedd yn y Gogledd fel y bydd llai o bobl yn gorfod teithio i Loegr i gael triniaeth. Mae 1 o bob 4 o’r gymuned o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig mewn cyflogaeth yng Ngogledd Cymru yn gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. | Rhannwyd y sylwadau â’r bwrdd gweithlu. | Rhannu |

Drafft

| Crynodeb o’r adborth a gafwyd | Ymateb | Statws |
|---|---|---|
| Mae ar Dewis Cymru angen mwy o gymorth a chyfraniad gan staff, mae angen hybu ymwybyddiaeth a darparu dewisiadau yn lle mynediad ar-lein. Rhai o’r awgrymiadau a gafwyd oedd anfon gwybodaeth gan ysgolion at deuluoedd a gofalwyr; busnesau lleol yn dangos posteri a thaflenni am y gwasanaethau sydd ar gael; defnyddio cyfryngau cymdeithasol; gwell cyfathrebu rhwng partneriaid am fentrau a ffyrdd o gyfleu negeseuon i ddefnyddwyr gwasanaethau. | Rhannwyd y sylwadau â thîm prosiect Dewis Cymru. | Rhannu |
| Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus: Mae angen cynnwys y cyhoedd i fwy o raddau ac egluro beth maent yn ei wneud a sut i ddylanwadu ar eu gwaith. Mae angen darparu gwell adborth i’r cyhoedd ar ôl cynnal ymgynghoriad. | Rhannwyd y sylwadau â’r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus | Rhannu |

# Cyfeiriadau

Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Wrecsam 2016. Polisi Rhanbarthol Gogledd Cymru ar Ymgysylltu â Dinasyddion. NWASH.

Kenny, L., Hattersley, C., Molins, B., Buckley, C., Povey, C. a Pellicano, E. (2015) 'Which terms should be used to describe autism? Perspectives from the UK autism community', *Autism: The International Journal of Research and Practice*.

Draft

# Atodiad 1: Hyrwyddo'r arolwg

Cafodd yr arolwg ei e-bostio i'r sefydliadau ar y map rhanddeiliaid a gynhyrchwyd ar gyfer yr asesiad poblogaeth, sefydliadau a oedd wedi ymateb i'r holiadur ar yr asesiad poblogaeth ac i'r cynghorau gwirfoddol lleol i'w gylchredeg i'w haelodau. Anfonwyd y neges e-bost gyntaf ar 11 Awst 2017 a nodyn atgoffa ar 19 Medi 2017. Roedd y cyfnod ymgynghori gwreiddiol yn para tan 31 Hydref 2017 ond cafodd ei ymestyn hyd 17 Tachwedd 2017 ar ôl cael cais gan grŵp cymunedol am fwy o amser i gwblhau ymateb.

Lle'r oeddem wedi cael negeseuon ateb awtomatig drwy'r e-bost i ddweud bod rhywun wedi gadael y sefydliad neu lle nad oedd y neges wedi cyrraedd pen y daith, roeddem wedi anfon y neges ymlaen i unrhyw gyfeiriad cyswllt a ddarparwyd. Os nad oedd cyfeiriad cyswllt, roeddem wedi anfon y neges e-bost i'r cyfeiriad cyswllt ar wefan y sefydliad.

Roedd yr arolwg wedi'i hyrwyddo hefyd drwy gylchlythyrau misol yr asesiad poblogaeth, ar wefan Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru a'i rannu'n eang gan aelodau'r grŵp llywio a'r grŵp ymgysylltu.

Os hoffech gael eich ychwanegu at ein rhestr bostio neu wirio'r manylion cyswllt sydd gennym ar gyfer eich sefydliad, cysylltwch â sarah.bartlett@denbighshire.gov.uk.

## Hyrwyddo mewn awdurdodau lleol ac yn y bwrdd iechyd

**Cyngor Sir Ynys Môn**

Fe'i hanfonwyd at yr holl aelodau etholedig, darparwyr yn y fforwm gofal nyrsio a phreswyl, darparwyr gofal cartref, uwch-reolwyr mewn gwasanaethau plant ac oedolion. Fe'i rhannwyd â sefydliadau'r trydydd sector yn Ynys Môn, darparwyr yn y trydydd sector a'r sector annibynnol ac fe'i cyhoeddwyd ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y cyngor.

**Cyngor Gwynedd**

Fe'i hanfonwyd at aelodau etholedig; y grŵp darparwyr; uwch-reolwyr yn yr adrannau gwasanaethau cymdeithasol oedolion a phlant; y darparwr mewnol; y grŵp trawsnewid anabledd dysgu; y Cyngor Pobl Hŷn; y Bartneriaeth Gofalwyr; yr holl staff mewn gwasanaethau oedolion, iechyd a llesiant; ac adrannau plant a chefnogi teuluoedd; a chyfryngau cymdeithasol y Cyngor.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Ymgynghorwyd â'r Cyngor Ieuenctid, fforwm y rhai sy'n gadael gofal, y rhwydwaith cyfranogi ac Ysgol y Gogarth. Anfonwyd dogfennau'r ymgynghoriad i elusennau

Awtistiaeth, Encompass ac Arc Communities. Fe'u hanfonwyd at yr holl staff Gwasanaethau Cymdeithasol. Ychwanegwyd dolen i'r ymgynghoriad yn yr adran Beth sy'n Newydd ar wefan a chyfryngau cymdeithasol y cyngor.

**Cyngor Sir Ddinbych**

Fe'i hanfonwyd at yr holl staff mewn Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (Diweddariad Dydd Gwener); staff Gwasanaethau Addysg a Phlant; cydlynydd y Fforwm Ieuenctid a chynghorwyr. Fe'i cylchredwyd i'r grwpiau llywio/strategaeth ar gomisiynu. Rhoddwyd dolen ar y dudalen Facebook.

**Cyngor Sir y Fflint**

Anfonwyd dogfennau'r ymgynghoriad i'r canlynol:

- Aelodau Etholedig
- Yr holl staff mewn Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant
- Yr holl staff mewn Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion (yn cynnwys Gwasanaethau Anabledd)
- Cylchlythyr y Staff Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwasanaethau Ieuenctid Sir y Fflint
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint
- Dechrau'n Deg
- Gweithredu dros Blant
- Cymdeithas Dai Clwyd Alyn
- Daffodils
- Ysgol Pencoch
- Ysgol Maes Hyfryd
- Y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
- Cydlynydd Cam-drin Domestig Sir y Fflint
- Autism Initiatives
- AFASIC Cymru
- FLVC
- Home Start
- Local Solutions Flintshire
- NEWCIS
- NYAS (gwasanaeth eirioli)
- Theatr Clwyd
- Urdd Gobaith Cymru
- Arthritis Care
- Grŵp Viva LGBT.

Darparwyd gweithdai hefyd ar gyfer:

- Prosiect Cyfranogi Sir y Fflint
- Grŵp Plant sy'n Derbyn Gofal Sir y Fflint
- Rhwydwaith Iechyd Meddwl y Sector Gwirfoddol, Sir y Fflint a Wrecsam

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**

Fe'i hanfonwyd at holl staff CBS Wrecsam yn y Bwletin Dydd Gwener ac at yr holl gynghorwyr.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**



Draft

Fe’i cylchredwyd i’r holl dimau gweithredol a’i gyflwyno i’r Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth. Fe’i hanfonwyd i’r Grŵp Gweithredol Gofalwyr, y Grŵp Strategol Gofalwyr ac i’r is-grŵp Gofalwyr Ifanc.

Fe’i hanfonwyd i Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru ac i’r Grŵp Strategol Cydraddoldeb mewnol.

## Hyrwyddo ymysg y Panel Dinasyddion

Fe’i hanfonwyd at aelodau’r Panel Dinasyddion a’i hyrwyddo drwy Facebook.

## Mathau eraill o hyrwyddo

Fe’i hanfonwyd i’r cynghorau gwirfoddol sirol gan ofyn iddynt ei gylchredeg i’w rhwydweithiau:

- Mantell Gwynedd (Gwynedd)
- Medrwn Môn (Ynys Môn)
- CVSC (Conwy)
- DVSC (Sir Ddinbych)
- FLVC (Sir y Fflint)
- AVOW (Wrecsam)

Fe’i hanfonwyd at aelodau’r:

- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru
- Penaethiaid Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion Gogledd Cymru
- Penaethiaid Gwasanaethau Cymdeithasol Plant Gogledd Cymru
- Grŵp Swyddogion y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (a chylchredwyd adroddiad i aelodau’r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus)

Darparwyd cyflwyniadau am y cynllun yn y cyfarfodydd canlynol:

- Partneriaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru
- Arweinwyr Iechyd Meddwl Gogledd Cymru
- Fforwm Lluoedd Arfog Gogledd Cymru
- Partneriaeth Tai Strategol Conwy
- Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth BIPBC

Fe’i hanfonwyd at holl Aelodau Cynulliad Gogledd Cymru.

Roedd Gofal Cymdeithasol Cymru wedi’i gylchredeg i rwydwaith arweinwyr asesiadau poblogaeth rhanbarthol (yn cynnwys cynrychiolwyr o’r trydydd sector) a’i hysbysebu ar ei wefan.



Drafft

## Sefydliadau ar y map rhanddeiliaid

Lluniwyd y rhestr hon gan y grŵp ymgysylltu ar sail ymarfer a gyflawnwyd ganddo yn 2016 i fapio'r holl randdeiliaid gwahanol yr oedd yr asesiad poblogaeth yn effeithio arnynt, yn cynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig. Nid yw'r rhestr isod yn gyflawn ac nid yw'n cael ei diweddaru i osgoi dyblygu rhestrau postio eraill. Mae'n cynnwys sefydliadau yr oedd y grŵp yn gwybod amdanynt ac yr oedd ganddo gyfeiriadau e-bost ar eu cyfer ac fe'i defnyddiwyd i ategu dulliau hyrwyddo eraill.

### Plant a phobl ifanc

Gweithredu dros Blant
Advance Brighter Futures
Grwpiau cymorth rhieni Afasic Cymru
Clwb Ieuenctid Afasic/Tape Backstage
Arthritis Care
Barnardos
Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau BIPBC
CAIS
Gyrfa Cymru
Plant yng Nghymru
Cofis Bach
Cangen Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Siroedd Conwy a Dinbych
Grŵp Cymorth Epilepsi Cymru
Tîm Cydnerthu Sir y Fflint
Gweithiwr Fforwm Ieuenctid Sir y Fflint
Dechrau'n Deg – cadeirydd grŵp y cydlynwyr rhanbarthol
FNF – Both Parents Matter
Gorwel (Cymorth i Ferched)
Rheolwr Ymgysylltiad Ieuenctid Pobl Ifanc Gwynedd
Caethwasiaeth Fodern (Haven of Light CIC)
Motiv8 North Wales
Gwasanaeth Eiriolaeth Gogledd Cymru (Tros Gynnal)
Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru
Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru
Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru
Prosiect Lydia (Iechyd Rhywiol)
RNIB
SNAP Cymru
Venue Cymru (Swyddog Datblygu'r Celfyddydau)
Prosiect VIVA
Voices from Care: Fforwm Cenedlaethol Plant sy'n Derbyn Gofal
WCD Young Carers
Prosiect Pobl Ifanc Gorllewin y Rhyl
Whizz-kids
Young Arthritis North Wales
Y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid
Yr Urdd

### Pobl hŷn

Mind Aberconwy
Clwb Gweithgareddau i rai dros 60 oed
Canolfan Plant a Theuluoedd Acton
Fforymau Age Connects
Fforymau Ardal Age Cymru
Singing for the Brain Cymdeithas Alzheimers
CAIS
Gofal a Thrwsio
Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr
Cyswllt Conwy ar gyfer Anableddau Dysgu
Cymryd Rhan – Taking Part – Gofal Cartref
Fforwm Pobl Hŷn De Meirionnydd
Gwasanaethau Eiriolaeth Dewis CIL
Panel Dinasyddion Gwynedd
Cyngor Pobl Hŷn Gwynedd
Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd Hafal
Jigsaw (CAIS)
Clwb Cinio Llai
Cwmni Buddiannau Cymunedol Make a Mark 'Ceiriog Creates'
Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Mantell Gwynedd
Mencap Cymru
'Mature Movers' Canolfan Ceiriog
Age Connects Gogledd-ddwyrain Cymru
Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru
Grŵp Cymorth Rainbow Centre Llannerch Banna
Tîm Cydlyniant Cymunedol CBSW
Gwasanaethau Gofalwyr Wrecsam (AVOW)

### Iechyd, anableddau corfforol a nam ar y synhwyrau

Draft

Gofal Arthritis yng Nghymru
Awyr Las
Blind Veterans UK
Cyngor Iechyd Cymuned
Cymryd-rhan
Grŵp Cyfeirio Diabetes UK Cymru
Chwaraeon Anabledd Cymru
Anabledd Cymru
Clwb Dynamic 19-25
Epilepsi Cymru
Fforwm Anabledd Sir y Fflint
Hosbisau Plant Tŷ Gobaith
Hospice of the Good Shepherd
Macmillan
Hosbis Nightingale House
Fforwm Cleifion Rhwydwaith Canser Gogledd Cymru
Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru
Nyrs Sglerosis Ymledol Gogledd Cymru
Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru
Parkinsons UK
Scope
Sense Cymru
Hosbis Dewi Sant
Hosbis St Kentigern
Y Gymdeithas Strôc
Tenovus
The Arthritis and Musculoskeletal Alliance (ARMA)
Tŷ Gobaith
VIEW Visually Impaired Endeavors in Wrexham
Wrexham Visionaries Network 'Walking for Health'

## Anabledd dysgu ac awtistiaeth

*Ynghyd â sefydliadau a restrwyd yn yr adrannau ar blant a phobl ifanc a phobl hŷn*

Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
Cyswllt Conwy
Anabledd Dysgu Cymru
Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Mantell Gwynedd
Hunaneiriolaeth Gogledd-ddwyrain Cymru

## Iechyd meddwl

*Ynghyd â sefydliadau a restrwyd yn yr adrannau ar blant a phobl ifanc a phobl hŷn*

Hafal
Tîm Triniaeth Gartref, Uned Seiciatrig Oedolion Heddfan, Ysbyty Wrecsam Maelor
Mencap

## Gofalwyr

Families Matter a Hidden Harm Barnardos
Gwasanaethau cynnal gofalwyr
Gofal Crossroads
NEWCIS
Grŵp strategol gofalwyr
Grŵp gweithredol gofalwyr
Is-grŵp gofalwyr ifanc

## Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

*Ynghyd â'r grŵp cydlynwyr cam-drin domestig rhanbarthol i'w rannu â'u rhwydweithiau.*

Amethyst – Sexual Assault Referral Centre (SARC)
Bawso (Black Association of Women Step Out)

Broken Rainbow
Cymorth i Ferched CAHA
Choose2Change (Relate Cymru)
Uned Ddiogelwch Cam-drin Domestig (DASU)
Cymorth i Ferched Glannau Dyfrdwy
FNF Both Parents Matter
Cymorth i Ferched Glyndŵr
Gorwel (Gwasanaeth Cam-drin Domestig Ynys Môn)
Hafan Cymru
Eiriolwyr Annibynnol Trais Domestig (IDVA) – Hafan Cymru, Canolfan Menywod Gogledd Cymru
Llinell Gyngor i Ddynion
RASA Gogledd Cymru (Gwasanaeth Treisio ac Ymosod Rhywiol)
Respect
Survivors UK
The Survivors Trust Cymru
Cymorth i Ddioddefwyr (Gogledd Cymru)

### Camddefnyddio sylweddau

AGRO Cymru (Mudiad Adfer Môn a Gwynedd)
Cais
Nacro Cymru

### Grwpiau eraill

Alabare (Cartref i Gyn-filwyr)
ARC Communities
BAWSO
Change Step (CAIS)
Arweinydd Cyngor Sir y Fflint ar Gymunedau Sipsiwn a Theithwyr
Rhwydwaith LGBT Cyngor Sir y Fflint
Rhwydwaith Iaith Gymraeg Cyngor Sir y Fflint
Grŵp Cymdeithasol Rhyngwladol Sir y Fflint
Jigsaw (CAIS)
NWAMI
Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru
Romani Arts
Stonewall Cymru
Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid
Unique Transgender Network

## Gwasanaethau a ymatebodd i arolwg yr asesiad poblogaeth

| | |
|---|---|
| 1 | Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru/Gofal Crossroads |
| 2 | Wow Training |
| 3 | Gofal mewn Galar Gogledd Cymru |
| 4 | Local Solutions |
| 5 | Tender Loving Care Cyf |
| 6 | Cyngor Sir Ddinbych (ar ran Gwasanaethau Addysg a Phlant a'r Grant Teuluoedd yn Gyntaf) |
| 7 | Adran Cleifion Allanol Offthalmoleg BIPBC |
| 8 | Awel Homecare and Support |
| 9 | Cerrig Camu |
| 10 | Canolfan Lôn Abaty |
| 11 | Bawso Cyf |
| 12 | Backcare – aelod proffesiynol (Ceiropractydd) |
| 13 | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol: Safle Cymeradwyedig Plas y Wern |
| 14 | Tai Gogledd Cymru |
| 15 | Ymateb gan unigolyn (meddyg teulu) |
| 16 | Tros Gynnal Plant |
| 17 | BIPBC: Podiatreg ac Orthoteg |
| 18 | BIPBC: Dieteteg |
| 19 | Gyda'n Gilydd (Tîm o Amgylch y Teulu Gwynedd) |
| 20 | BIPBC: Ffisiotherapi |
| 21 | Llys Eleanor |
| 22 | KeyRing |
| 23 | Family Friends for 5's to 11's |
| 24 | Haulfryn Care Cyf |
| 25 | Neuro Therapy Centre (NTC) |
| 26 | RainbowBiz Limited |
| 27 | Gweithredu dros Blant, Prosiectau Gofalwyr Ifanc Gwynedd ac Ynys Môn |
| 28 | Gwasanaeth Cymorth Cymunedol |
| 29 | The Rowan Organisation |
| 30 | Adran Dai, CBSW |
| 31 | Ansa Care Concept Plas Dyffryn |
| 32 | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| 33 | Cyngor Sir y Fflint |
| 34 | Cyngor Gwynedd – Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| 35 | Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Sir Ddinbych (Gwasanaethau i Ofalwyr) |
| 36 | Cyngor Gofal Pobl Ifanc Wrecsam |
| 37 | Cartref Preswyl Marleyfield House |
| 38 | Mencap Cymru |
| 39 | Cymorth i Ferched Cymru Wrecsam |
| 40 | Tîm Datblygu Chwarae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| 41 | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| 42 | Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid |
| 43 | Cymdeithas Alzheimer's Gogledd Cymru |
| 44 | Cynllun Activ8-2-16 |
| 45 | FDF |
| 46 | Y Groes Goch Brydeinig |
| 47 | Prosiect Dechrau'n Deg Ynys Môn |
| 48 | Cyngor Sir y Fflint – Gofal Ychwanegol Llys Jasmine |
| 49 | Uned Ddiogelwch Cam-drin Domestig |
| 50 | NEWCIS |
| 51 | Unllais |
| 52 | GIG Cymru i Gyn-filwyr |
| 53 | Ymateb gan unigolyn (gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol) |
| 54 | Cerrig Camu Gogledd Cymru |
| 55 | Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr |
| 56 | Gorwelion Newydd, perchennog Molly Wright. Yn masnachu o dan yr enw AWT |
| 57 | Cyngor Sir y Fflint |
| 58 | Gofalwyr Ifanc Barnardo's Sir y Fflint |
| 59 | Gweithredu dros Blant (Sir y Fflint) |
| 60 | Cyngor Sir y Fflint – Y Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd |
| 61 | Llys Gwenffrwd |
| 62 | Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru |
| 63 | Gwasanaeth Gofalwyr Wrecsam |
| 64 | Cyngor Sir y Fflint – Strategaeth Pobl Hŷn |
| 65 | Cyngor Sir y Fflint – Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd |
| 66 | Age Connects Gogledd-ddwyrain Cymru |

Draft

| | |
|---|---|
| 67 | Sense Cymru |
| 68 | Y Gymdeithas Strôc |
| 69 | Y Groes Goch Brydeinig |
| 70 | Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint |
| 71 | GISDA |
| 72 | Cymdeithas Syndrom Down |
| 73 | Gofalwyr Powys a WCD Young Carers |
| 74 | Home-Start Conwy |
| 75 | Hafal |
| 76 | Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn |
| 77 | RASASC, Gogledd Cymru |
| 78 | CAIS: Llety a chymorth yn ôl yr angen (Ynys Môn) |
| 79 | Cais: Cymorth Tenantiaeth |
| 80 | Cais: Cefnogi Pobl |
| 81 | CAIS Cyf: Cymorth Tenantiaeth Generig, Ymddygiad Troseddol |
| 82 | Bawso Cyf |
| 83 | Cais: Materion Tenantiaeth |
| 84 | CAIS (Ynys Môn) 1 |
| 85 | CAIS (Ynys Môn) 2 |
| 86 | HAULFRE |
| 87 | Canolfan Iechyd Biwmares |
| 88 | Gwasanaeth Cynnal i Ofalwyr |
| 89 | Cadwyn Môn, Age Cymru Gwynedd a Môn |
| 90 | Meddygfa Gwalchmai |
| 91 | Cartref Preswyl Towyn Capel |
| 92 | Tîm iechyd meddwl cymunedol pobl hŷn Ynys Môn. |
| 93 | Tîm therapi galwedigaethol, gwasanaethau oedolion, cymuned (Ynys Môn) |
| 94 | Canolfan Byron - Gerddi Haulfre |
| 95 | BIPBC: Dementia |
| 96 | Cyngor Sir Ynys Môn |
| 97 | Cyngor Sir Ynys Môn: Gwasanaethau cymorth cymunedol |
| 98 | Cartref preswyl Bryngoleu |
| 99 | Itaca/Gweithredu Cymunedol Abergele |
| 100 | CVSC Datblygu Chwarae |
| 101 | Fair Treatment for the Women of Wales |

| | |
|---|---|
| 102 | Golygfa Gwydyr |
| 103 | Relate Cymru |
| 104 | Touchstones12 |
| 105 | Gorsaf Awyrlu'r Fali |
| 106 | Prosiect Families Together |
| 107 | Cymdeithas Clefyd Huntington |
| 108 | DYNAMIC centre for children and young people with disabilities |
| 109 | Prosiect STARS |
| 110 | Antur Waunfawr |
| 111 | RASASC |
| 112 | Gofalwyr Powys Carers a elwir yn awr yn Credu Connecting Carers – enw prosiect rhanbarthol - WCD Young Carers |
| 113 | Gingerbread |
| 114 | Gwasanaeth Cam-drin Domestig Aberconwy |
| 115 | Caniad (Conwy a Sir Ddinbych) |
| 116 | Anheddau Cyf |
| 117 | Canolfan Gofalwyr Plas Garnedd |
| 118 | Cartref Gofal Brynmair |
| 119 | Anheddau |
| 120 | Cartref Preswyl Willow Hall |
| 121 | Treherne Care and Consultancy Cyf |
| 122 | Gofal Bro Cyf Y Deri |
| 123 | Cartref Preswyl Plas Madryn |
| 124 | Urdd Gobaith Cymru |
| 125 | CBSW Gwasanaethau dydd a chyfleoedd gweithio |
| 126 | Meddygfa Plas Meddyg |
| 127 | Darpariaeth Ieuenctid Integredig Sir y Fflint (Gwasanaethau Ieuenctid) a'r Gwasanaeth Addysg i Deithwyr |
| 128 | Gwasanaeth Eiriolaeth Gogledd-ddwyrain Cymru |
| 129 | Cymdeithas Cludiant Cymunedol |
| 130 | Cymorth i Ferched Glyndŵr |
| 131 | BIPBC: Iechyd meddwl |
| 132 | Y Lleng Brydeinig Frenhinol |
| 133 | Change Step |
| 134 | Help for Heroes |

Draft

CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

# Cynllun Rhanbarthol Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru fersiwn 5

## Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar Les

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi effaith debygol y cynnig ar les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y rhanbarth, Cymru a'r byd.

| | |
|---|---|
| Rhif Asesiad: | 302 |
| Disgrifiad Byr: | Mae Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru a'r Cynllun Rhanbarthol yn nodi sut bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ymateb i ganfyddiadau asesiad poblogaeth Gogledd Cymru a gyhoeddwyd ar 1 Ebrill 2017. Nod yr asesiad poblogaeth oedd asesu anghenion gofal a chefnogi pobl yng Ngogledd Cymru ac anghenion cefnogi gofalwyr.<br>Prif bwyslais y cynllun yw blaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer gweithio mewn ffordd integredig rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar sail ranbarthol.<br>Mae cynhyrchu asesiad poblogaeth rhanbarthol a chynllun yn ofyniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. |
| Dyddiad Cwblhau: | Fersiwn: 5 |
| Cwblhawyd gan: | Jenny Williams — Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Alan Thompson — Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Gerald Witherington — Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Mark Bowler — Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Gary Major — Cyngor Sir Ddinbych<br>Emma Horan — Cyngor Sir Ddinbych<br>Sue Hudson — Cyngor Sir Ddinbych<br>Natasha Hughes — Cyngor Sir Ddinbych<br>Cathy Curtis-Nelson — Cyngor Sir Ddinbych<br>Ann Lloyd — Cyngor Sir Ddinbych<br>Gareth Jones — Cyngor Sir y Fflint<br>Fiona Mocko — Cyngor Sir y Fflint |


| | |
|---|---|
| | Bethan Wyn Evans — Cyngor Gwynedd<br>Dafydd Bulman — Cyngor Sir Ynys Môn<br>Tricia Jones — Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br>Delyth Pridding — Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br>Sally Baxter — Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br>Robert Atenstaedt — Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Sarah Bartlett — Tîm Cydweithio Rhanbarthol |
| Budd-ddeiliaid allweddol ac ymgynghoriad | Bydd y cynllun yn effeithio ar yr holl nodweddion a ddiogelir; mae'n ddull poblogaeth gyfan i ddeall a bodloni anghenion gofal a chefnogi pobl yng Ngogledd Cymru.<br><br>Fe wnaethom ymgynghori â phobl drwy grwpiau sefydledig, cyfweliadau wyneb yn wyneb, gweithdai a holiadur ar-lein.<br><br>Am fanylion, edrychwch ar adroddiad ymgynghori'r asesiad poblogaeth ac adroddiad ymgynghori'r cynllun rhanbarthol. |
| Polisïau a all effeithio ar y cynnig | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br><br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br><br>Deddf Rheoleiddio Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016<br><br>Deddf Plant 1989<br><br>Deddf Gofal Plant (2006)<br><br>Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2015<br><br>Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn<br><br>Dyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol<br><br>Strategaeth Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-23<br><br>Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn<br><br>Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru Llywodraeth Cymru<br><br>Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010<br><br>Deddf Gallu Meddyliol 2005<br><br>Deddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.<br><br>Deddf Troseddau Difrifol<br><br>Deddf Tai (Cymru) 2014 |
| Gwasanaeth â Chyfrifoldeb: | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| Ardaloedd lleol yr effeithir arnynt gan y cynnig: | Gogledd Cymru |

# CRYNODEB A CHASGLIAD YR ASESIAD EFFAITH

Cyn i ni edrych mewn manylder ar gyfraniad ac effaith y cynnig, mae’n bwysig ystyried sut mae’r cynnig yn cymhwyso’r egwyddor datblygiad cynaliadwy. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni weithredu "mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain."

## Y sgôr ar gyfer cynaliadwyedd yr agwedd

A allai rhai newidiadau bach yn eich ffordd o feddwl ddod â gwell canlyniad?




(3 allan o 4 seren)

Gwir sgôr: 20 / 24.

## Crynodeb o’r effaith

Nodau Lles




| | |
|---|---|
| Rhanbarth sy’n ffynnu | Cadarnhaol a negyddol |
| Rhanbarth gwydn | |
| Rhanbarth sy’n fwy iach | Cadarnhaol |
| Rhanbarth sy’n fwy cyfartal | Cadarnhaol a negyddol |
| Rhanbarth o gymunedau cydlynol | Cadarnhaol |
| Rhanbarth â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus | Cadarnhaol |
| Rhanbarth sy’n gyfrifol yn fyd-eang | Cadarnhaol |

## Prif gasgliadau

Nod y cynllun yw dangos sut byddwn yn bodloni anghenion gofal a chefnogi pobl, ac anghenion cefnogi gofalwyr yng Ngogledd Cymru. Os cyflawnir nodau’r cynllun, dylai gael effaith gadarnhaol ar iechyd pobl, lleihau anghydraddoldeb a chefnogi datblygiad cymunedau cydlynol yng Ngogledd Cymru.

Mae yna effeithiau negyddol posibl a allai arwain at, yn enwedig o ddewisiadau anodd, ble i flaenoriaethu buddsoddiad a allai fod o anfantais i rai grwpiau, ar draul eraill. Mae yna hefyd effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl o’r ffordd y byddwn yn comisiynu, caffael a datblygu asedau adeileddol yn y rhanbarth i fodloni anghenion gofal a chefnogi.

Mae’r asesiad effaith wedi tynnu sylw at rai effeithiau posibl o’r cynllun rhanbarthol strategol, ac rydym yn argymell bod yr asesiadau'n parhau i gael eu hasesu wrth i benderfyniadau strategol a gweithredol pellach gael eu gwneud o ran sut i weithredu’r cynllun.

Y dull a gymerwyd i gwblhau’r Asesiad o Effaith ar Les oedd cynnal sesiwn a hwyluswyd 10 Hydref 2017, gan wahodd pobl o bob awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd i gymryd rhan. Cafodd y drafft a gynhyrchwyd yn y sesiwn ei adolygu 1 Rhagfyr 2017 gan grŵp llywio'r prosiect, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob awdurdod lleol, BIPBC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Adolygwyd yr Asesiad o Effaith ar Les yng Ngrŵp Sicrwydd Ansawdd Cyngor Sir Ddinbych 31 Tachwedd 2017.

Bwriad y cynllun yw dylanwadu ar y dull o wneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau. Bydd y ffordd y bydd yn gweithio’n ymarferol yn dod yn fwy eglur. Roeddem yn gorfod ystyried nifer o olygfeydd gwahanol i gwblhau’r asesiad o effaith, a fydd angen ei adolygu wrth i fwy o wybodaeth fod ar gael. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn deall effaith y cynllun ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir a sut y gallwn gael gwared ar elfennau negyddol, ac effeithio arnynt, a pha effaith y bydd hynny’n ei gael ar arian. Roedd cynnal yr asesiad risg hefyd wedi nodi risgiau sydd angen eu trosglwyddo i gofrestr risg y prosiect.

# YR EFFAITH DEBYGOL AR Y RHANBARTH, CYMRU A'R BYD

## Rhanbarth sy'n ffynnu

| Effaith Gyffredinol | Cadarnhaol a negyddol |
|---|---|
| Cyfiawnhad dros yr effaith | Mae yna effeithiau negyddol posibl ar gynnydd tuag at gymdeithas sy'n garbon isel, oherwydd efallai na fydd y ffocws ar fodloni anghenion gofal a chefnogi'n arwain at y model mwyaf effeithlon o ddarparu gwasanaeth. Efallai hefyd y bydd effaith negyddol ar ddatblygiad economaidd gan fod risg y bydd integreiddio a modelau gwasanaeth newydd yn golygu bod llai o swyddi ar gael. Mae'n anodd dweud ar y cyfan, heb wybod y modelau gofal a chefnogi penodol a fydd yn cael eu datblygu mewn ymateb i'r cynllun gwreiddiol. Gall y modelau a ddewisir hefyd gael effeithiau cadarnhaol ar gynnydd tuag at gymdeithas sy'n garbon isel a datblygu economaidd. |

### Canlyniadau cadarnhaol a nodwyd:

Gall darparu gwasanaethau'n agosach at adref a gwneud y gorau o'r gefnogaeth sydd ar gael gan ffrindiau, teulu a'r cymunedau lleol fod yn fwy effeithlon a lleihau'r angen i deithio. Gellir cael effeithiau cadarnhaol o ddatblygu gofal ychwanegol a thai a rennir, sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, er enghraifft, drwy wresogi.

Gall y sectorau gofal cymdeithasol ac iechyd gael effaith gadarnhaol ar yr economi leol drwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a busnes i ddarparu gofal, yn ogystal â darparu cynhyrchion a gwasanaethau i ddarparwyr gofal.

Mae datblygu'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn elfen allweddol o ddarparu'r cynllun rhanbarthol, a fydd yn cyfrannu at swyddi o ansawdd da yn y rhanbarth. Gallai'r dewis o fodel gwasanaeth a darparwyr gael effaith gadarnhaol ar nifer, ansawdd a hyd y swyddi sydd ar gael. Edrychwch ar y strategaeth gweithlu rhanbarthol am fwy o wybodaeth.

Mae datblygu'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn elfen allweddol o ddarparu'r cynllun rhanbarthol, a fydd yn helpu i ddatblygu sgiliau yn y rhanbarth. Edrychwch ar y strategaeth gweithlu rhanbarthol am fwy o wybodaeth.

Bydd angen ystyried y defnydd gorau o gyfathrebu, isadeiledd a chludiant wrth ddewis lle i leoli gwasanaethau.

Gall y cynllun effeithio ar anghenion gofal plant y gweithlu ac efallai y bydd angen i ofal plant fod yn ofynnol i wneud gwasanaethau'n hygyrch.

### Canlyniadau negyddol anfwriadol a nodwyd:

Efallai y bydd effeithiau negyddol ar effeithlonrwydd ynni modelau gwasanaeth sy'n cefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain, yn hytrach na thai a rennir neu gartrefi gofal. Gall y modelau hyn hefyd gynyddu'r pellteroedd a deithir gan weithwyr gofal. Mae

gweithio’n rhanbarthol i ddatblygu’r cynllun ardal yn creu mwy o deithiau car wrth i bobl deithio i gyfarfodydd.

Gall gweithio’n rhanbarthol i ddefnyddio pŵer prynu i leihau costau gael effeithiau negyddol ar yr economi os yw’n arwain at gyflogaeth anniogel, sy’n talu’n isel, ac yn lleihau gallu buddsoddwyr i fuddsoddi yn eu busnesau. Gall comisiynu contractau graddfa fawr ei gwneud yn fwy anodd i ddarparwyr bach, lleol, gystadlu yn y farchnad.

Gall gwneud gwasanaethau’n fwy effeithlon olygu lleihau nifer y swyddi. Gallai’r dewis o fodel gwasanaeth a darparwr gael effaith negyddol ar nifer, ansawdd a hyd y swyddi sydd ar gael.

Bydd angen ystyried y defnydd gorau o gyfathrebu, isadeiledd a chludiant wrth ddewis lle i leoli gwasanaethau.

Gall y cynllun effeithio ar anghenion gofal plant y gweithlu ac efallai y bydd angen i ofal plant fod yn ofynnol i wneud gwasanaethau’n hygyrch.

## Camau lliniaru:

Bydd ystyried yr effeithiau pan fydd mwy yn hysbys am fodelau penodol yn helpu i liniaru'r effeithiau. Gallwn edrych ar ffyrdd i leihau ôl-troed carbon datblygu’r cynllun rhanbarthol drwy edrych ar nifer y cyfarfodydd a gynhelir a’r ffordd y mae pobl yn teithio iddynt, er enghraifft, cyfarfod mewn llefydd sy’n fwy hygyrch gyda chludiant cyhoeddus neu annog pobl i rannu car.

## Rhanbarth gwydn

| | |
|---|---|
| Effaith Gyffredinol | |
| Cyfiawnhad dros yr effaith | Bydd angen ystyried yr effaith pan fydd mwy yn hysbys am brosiectau adeiladu a all godi o’r cynllun rhanbarthol. |

### Canlyniadau cadarnhaol a nodwyd:

Bydd gwasanaethau a ddatblygir mewn ymateb i’r cynllun rhanbarthol angen ystyried sut y gallant leihau gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu. Gellid ystyried hyn fel rhan o’r broses gomisiynu.

Bydd gwasanaethau a ddatblygir mewn ymateb i’r cynllun rhanbarthol angen ystyried sut y gallant leihau’r defnydd o ynni/tanwydd. Gellid ystyried hyn fel rhan o’r broses gomisiynu.

Efallai na fydd ymwybyddiaeth pobl o’r amgylchedd a bioamrywiaeth yn cael ei heffeithio’n uniongyrchol, ond efallai y bydd prosiectau penodol, er enghraifft, i wella lles drwy wneud y gorau o’r amgylchedd naturiol, a fydd yn cael effaith gadarnhaol.

### Canlyniadau negyddol anfwriadol a nodwyd:

Gall y cynllun rhanbarthol arwain at brosiectau adeiladu a allai gael effaith negyddol ar fioamrywiaeth a’r amgylchedd naturiol ac adeiledig.

Mae datblygu cynllun rhanbarthol yn arwain at fwy o ddefnydd o danwydd oherwydd bod pobl yn teithio i gyfarfodydd. Gall y cynllun rhanbarthol arwain at brosiectau adeiladu a allai gael effaith negyddol ar reoli’r risg o lifogydd.

### Camau lliniaru:

Gellir lleihau'r defnydd o ynni/tanwydd wrth ddatblygu prosiectau rhanbarthol drwy ddefnyddio technoleg i leihau nifer y cyfarfodydd, ac annog pobl i ddefnyddio cludiant cyhoeddus, rhannu ceir a defnyddio cerbydau sy'n effeithlon o ran ynni wrth deithio. Gall fod cyfleoedd i hyrwyddo’r ymwybyddiaeth o'r amgylchedd a bioamrywiaeth wrth ddatblygu prosiectau i wella lles, y gellid edrych arno ynghyd â’r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

## Rhanbarth sy’n fwy iach

| | |
|---|---|
| Effaith Gyffredinol | Cadarnhaol |
| Cyfiawnhad dros yr effaith | Ar y cyfan, mae’r cynllun rhanbarthol yn anelu at wella iechyd a dylai gael effaith gadarnhaol. |

### Canlyniadau cadarnhaol a nodwyd:

Nod y cynllun rhanbarthol yw cefnogi iechyd a lles drwy ddarparu’r gofal a’r gefnogaeth y mae pobl eu hangen, yn cynnwys cefnogaeth i ofalwyr.

Mynediad at fwyd iach, o ansawdd da: mae gwasanaethau sydd wedi’u darparu mewn ymateb i’r cynllun rhanbarthol yn darparu bwyd, a all gael effaith gadarnhaol. Bydd angen i bob gwasanaeth ei ystyried.

Dylai darparu cefnogaeth o amgylch ‘beth sy’n bwysig’ i bobl helpu i gynyddu’r cyfranogiad mewn cyfleoedd hamdden a ddewisir.

Mae’r cynllun rhanbarthol yn cynnwys argymhellion i wella lles meddyliol a datblygu iechyd meddwl cyhoeddus.

Mae’r cynllun rhanbarthol yn cynnwys argymhellion i wella mynediad at ofal iechyd.

### Canlyniadau negyddol anfwriadol a nodwyd:

Mynediad at fwyd iach, o ansawdd da: mae gwasanaethau sydd wedi’u darparu mewn ymateb i’r cynllun rhanbarthol yn darparu bwyd, a all gael effaith negyddol. Bydd angen i bob gwasanaeth ei ystyried.

### Camau lliniaru:

I leihau unrhyw effeithiau negyddol, dylid ystyried effeithiau iechyd penodol gwasanaeth wrth iddynt gael eu datblygu.

## Rhanbarth sy'n fwy cyfartal

| Effaith Gyffredinol | Cadarnhaol a negyddol |
|---|---|
| Cyfiawnhad dros yr effaith | Gallwn ddweud y bydd effaith trechu tlodi'n gadarnhaol yn fwy hyderus na'r effaith ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir. Mae'r cynllun yn hyrwyddo eiriolaeth a all helpu gwella lles pobl gyda nodweddion a ddiogelir. Mae rhai o'r blaenoriaethau rhanbarthol yn fwy datblygedig nag eraill, felly nid yw union fanylebau pob blaenoriaeth wedi cael cytundeb eto. Bydd angen ail-ymweld â'r asesiad o effaith wrth i'r cynlluniau ddatblygu.  Mae'r cynllun hwn yn gynlluniau rhanbarthol, isranbarthol a lleol sydd wedi'u casglu.<br><br>Bydd gweithredu gwasanaethau integredig, yn cynnwys cynllun gweithlu, angen sicrhau ein bod yn lliniaru tlodi ar y cyd. Bydd unrhyw faterion o ran cyflog ac amodau gweithlu'n cael eu hystyried ymhellach ymlaen yn y broses. Oherwydd y gyfran uwch na'r cyfartaledd o bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a gyflogir mewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru, gall newidiadau i'r gweithlu gael effaith anghymesur ar y grwpiau hyn. |

Y nodweddion a ddiogelir sydd dan ystyriaeth yw:

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu Rhyw
- Priodas neu bartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu Gred
- Rhyw
- Tueddfryd Rhywiol
- *Ar gyfer y Gymraeg, gweler y rhanbarth â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus*

Drwy ddefnyddio'r offeryn sgrinio, fe wnaethom nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol y cynllun ar bob grŵp a ddiogelir (atodiad 1). Dyma'r meysydd a ystyriwyd gennym:

- A yw'r cynnig yn ymwneud â maes lle mae anghydraddoldeb hysbys?
- I ba raddau y bydd defnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr neu'r gymuned ehangach yn cael eu heffeithio?
- Sut byddwch yn gwybod beth yw anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig? Beth am unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig lluosog?

  A yw'n berthnasol i ardal lle mae diffyg ymchwil wedi ei gyhoeddi neu dystiolaeth arall?

- A yw'n berthnasol i ardal lle mae’ch sefydliad wedi pennu canlyniadau cydraddoldeb?
- A oes unrhyw dystiolaeth o ddefnydd neu fodlonrwydd uwch neu is gan unrhyw grŵp a nodwyd?
- Os oes cyfyngiadau neu rwystrau i fynediad, a yw’r rhain yn arwain at wahaniaethu anghyfreithlon, neu a oes potensial ar gyfer lleihau anghydraddoldebau neu wella canlyniadau?

## Canlyniadau cadarnhaol a nodwyd:

*Gwella lles pobl â nodweddion a ddiogelir*

Mae’r cynllun yn anelu at wella lles pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, yn seiliedig ar yr hyn sy’n bwysig iddynt. Dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir. Mae yna benodau penodol am wella gwasanaethau i blant a phobl ifanc, pobl hŷn, pobl gyda chyflyrau iechyd cronig, anableddau corfforol a nam synhwyraidd, anableddau dysgu, anghenion iechyd meddwl, gofalwyr, merched a dynion sy’n profi cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae’r cynllun yn seiliedig ar asesiad poblogaeth o’r anghenion gofal a chefnogi, ac anghenion cefnogi gofalwyr yn y rhanbarth.

Oherwydd bod y cynllun yn cael ei gynhyrchu ar sail ranbarthol, mae'n haws i bobl gyda nodweddion a ddiogelir gymryd rhan, a all gael rhai buddion ariannol, osgoi dyblygu ac yn y blaen.

Mae pob pennod o’r asesiad poblogaeth yn cynnwys adran cydraddoldeb a hawliau dynol sy'n crynhoi'r dystiolaeth sydd ar gael am anghenion pobl gyda nodweddion a ddiogelir ac unrhyw fylchau. Roedd y dystiolaeth a ddefnyddiwyd yn cynnwys adroddiadau ymchwil ac ymgynghoriad. Mae adroddiad ymgynghori llawn ar gael.

*Rhoi sylw i/lleihau anghydraddoldeb iechyd*

Mae yna bennod am ffyrdd o fyw mwy iach ac anghydraddoldeb iechyd, sy’n cynnwys gwaith integredig i atal anghydraddoldeb iechyd, fel y prosiect 1,000 diwrnod cyntaf. Mae’r cynllun yn ymateb i’r asesiad poblogaeth ac yn adlewyrchu llawer o’r gwaith sy’n digwydd eisoes neu’n cael ei gynllunio ar hyn o bryd, fel strategaeth ‘Byw’n Iach, Aros yn Iach’ BIPBC.

*Trechu Tlodi*

Mae Trechu Tlodi’n flaenoriaeth i Fyrddau Iechyd Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru. Mae yna sawl ffactor a allai effeithio ar dlodi y tu allan i reolaeth y cynllun.

## Canlyniadau negyddol anfwriadol a nodwyd:

*Gwella lles pobl â nodweddion a ddiogelir*

Disgwyliadau uwch o ganlyniad i ymgynghori.

Disgwyliadau uwch o’r trydydd sector i ddarparu a bodloni anghenion.

Gallu'r sector cyhoeddus i fodloni’r anghenion a nodwyd yn yr asesiad poblogaeth ac wedi’u cynnwys yn y cynllun rhanbarthol.

Efallai na fydd yr asesiad poblogaeth a'r cynllun yn nodi effeithiau cronnus, er enghraifft, ar bobl gyda nifer o wahanol nodweddion a ddiogelir, neu wedi'u cyfuno ag anghenion eraill, fel tlodi neu gyfrifoldebau gofalu.

Mae mwy o wybodaeth yn llyfrgell gyfeirio'r asesiad poblogaeth ac adroddiad ymgynghori'r asesiad poblogaeth am y materion sy'n wynebu'r grwpiau hyn.

Fe wnaeth adborth o'r ymgynghoriad dynnu sylw at bryderon bod y lleiafrifoedd ethnig a'r boblogaeth fudol yng Ngogledd Cymru'n agored i elyniaeth gynyddol, ac yn agored i aflonyddwch sydd wedi'i nodi fel cyfrannwr at broblemau iechyd meddwl, yn enwedig mewn lleoliadau gwledig. Roedd hefyd yn tynnu sylw at yr angen i ystyried anghenion gwahanol merched a dynion.

Mae un o bob pedwar person o gefndir pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) a gyflogir yng Ngogledd Cymru wedi'u cyflogi yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Gallai unrhyw newidiadau o'r cynllun sy'n effeithio ar y gweithlu gael effaith anghymesur ar y grwpiau hyn.

*Rhoi sylw i/lleihau anghydraddoldeb iechyd*

Dim effaith glir ar grwpiau Sipsiwn a Theithwyr (y mae'n hysbys iddynt gael canlyniadau iechyd gwaeth).

*Trechu Tlodi*

Gellid cael effaith negyddol ar bobl sy'n cefnogi eu hunain, er enghraifft, drwy ariannu eu gofal eu hunain. Mae mwy o wasanaethau gyda mynediad ar-lein - pe byddai dewisiadau amgen yn cael eu lleihau, gellid cael effaith anghymesur ar bobl sydd heb fynediad at y rhyngrwyd oherwydd tlodi neu nodweddion a ddiogelir.

## Camau lliniaru:

Mae'r asesiad poblogaeth yn cynnwys gwybodaeth am bobl gyda nodweddion a ddiogelir a dylid cynnwys hyn yn y cynllun terfynol. Mae angen i ni gymryd gofal i beidio ag edrych ar bobl hŷn, merched ac ati, fel grŵp homogenaidd, er enghraifft, gan y bydd sawl person gyda mwy nag un nodwedd a ddiogelir. Fel cam lliniaru, byddwn yn ystyried cynnwys cyfeiriadau at bobl gyda nodweddion a ddiogelir o fewn pob pennod yn y cynllun.

Fe wnaeth rhai grwpiau a oedd yn cynrychioli pobl gyda nodweddion a ddiogelir ymateb ac ymgysylltu, ond mae gennym wybodaeth llai manwl/ymgysylltiad â grwpiau/pobl sy'n cynrychioli pobl eraill gyda nodweddion a ddiogelir. Wrth i wasanaethau gael eu datblygu, mae angen i ni siarad gyda phobl am y manylder, er enghraifft, gall symud rhai gwasanaethau gael effaith gadarnhaol ac effeithio'n negyddol ar eraill. Fodd bynnag, mae dull rhanbarthol mwy strategol yn gorfod gwella darpariaeth gwasanaeth a lleihau/tynnu bylchau.

Byddwn yn rhannu'r cynllun rhanbarthol, asesiad poblogaeth a'r adroddiadau ymgynghori gyda chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru, bwrdd iechyd a phartneriaid eraill sy'n gyfrifol am ddatblygu camau gweithredu'n seiliedig ar y canfyddiadau. Gellir ail-archwilio gwybodaeth ymgynghori ac ymgysylltiad o'r asesiad poblogaeth. Bydd pob blaenoriaeth/gwasanaeth rhanbarthol angen ei asesiad effaith ei hun. Bydd y blaenoriaethau'n cael eu datblygu dros y pum mlynedd nesaf.

Egwyddorion cydraddoldeb i'w hystyried: Cyfle cyfartal a mynediad cyfartal, er enghraifft, addysg, tai, mynediad at ofod awyr agored, cludiant a chysylltedd rhwng ardaloedd, amwynderau cyhoeddus, mynediad at yr amgylchedd naturiol, technoleg

gwybodaeth, gofal iechyd a hamdden, cost y cyfranogiad. Monitro a dadansoddi cydraddoldeb – ymrwymiad i ymgysylltiad parhaus, pob ardal i gyfeirio at ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ei hun a chymryd camau hanfodol. Mae angen i ni wneud ymrwymiad parhaus i gyd-gynhyrchu. Mae yna fforwm gwerth cymdeithasol sy'n edrych ar gyd-gynhyrchu a all ein cefnogi.

Yn ystod y broses asesiad o effaith ar gydraddoldeb, mae'r cynllun rhanbarthol wedi'i ddiwygio i gynnwys canfyddiadau o'r ymgynghoriad am yr effaith ar bobl gyda nodweddion a ddiogelir.  Mae hefyd wedi'i ddiwygio i gynnwys cysylltiadau mwy clir yn ôl at y canfyddiadau o'r asesiad poblogaeth am anghenion y bobl gyda nodweddion a ddiogelir, a chynllun cydraddoldeb strategol pob partner.

Bydd y cynnydd yn erbyn y cynllun a'r canlyniadau'n cael eu monitro drwy adroddiad blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

**Dogfennau tystiolaeth**

Adroddiad Ymgynghori Cynllun Rhanbarthol Gogledd Cymru

Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru

Adroddiad Ymgynghori Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru

Rhan 2 Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Pecyn gwaith asesiad poblogaeth (Gofal Cymdeithasol Cymru)

Templed cynllun ardal (Gofal Cymdeithasol Cymru)

Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb Rhan 2 Llywodraeth Cymru

Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol y chwe awdurdod lleol a BIPBC

Llyfrgell gyfeirio'r Asesiad Poblogaeth (gweler cronfa ddata Endnote). Mae'r llyfrgell yn cynnwys:

- adroddiadau ymchwil, er enghraifft, ar ddatblygu gofal preswyl cynhwysol o bobl LGBT hŷn;
- canfyddiadau o ymgynghoriadau eraill gyda phobl â nodweddion a ddiogelir, fel adroddiad ar fynediad at wasanaethau statudol o safbwynt Pobl Hŷn o Leiafrifoedd Ethnig yng Ngogledd Cymru;
- cysylltiadau at ystadegau sy'n mesur anghydraddoldeb yng Ngogledd Cymru.

## Rhanbarth o gymunedau cydlynol

| Effaith Gyffredinol | Cadarnhaol |
|---|---|
| Cyfiawnhad dros yr effaith | Os caiff yr amcanion eu cyflawni, dylai'r cynllun rhanbarthol gael effaith gadarnhaol ar gydlyniant cymunedol. Bydd yr effaith yn dibynnu ar ba fesurau lliniaru rydym yn eu rhoi yn eu lle a'r cysylltiadau gyda strategaethau eraill. Gall newid dros amser wrth i bobl ymgysylltu ac wrth i brosiectau ddatblygu. |

### Canlyniadau cadarnhaol a nodwyd:

Cysylltiadau gyda'r strategaeth VAWDASV a'r grŵp rhanbarthol; Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru – prosiect i weithio gyda theuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan garchar; Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion Gogledd Cymru; Bwrdd Cynllunio Ardal ar gyfer camddefnyddio sylweddau

Cynllun i barhau gyda chyfranogiad wrth i strategaethau ddatblygu, angen ei ymgorffori yn y cynllun rhanbarthol. Fforwm gwerth cymdeithasol, yn hyrwyddo cyd-gynhyrchu. Nod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Gofynion newydd eiriolaeth. Hyrwyddo rôl y trydydd sector a mentrau cymdeithasol. Cynnig gweithredol o wasanaethau yn Gymraeg.

Datblygu cartrefi gofal. Tai sy'n fwy addas ar gyfer grwpiau diamddiffyn mewn ardaloedd diogel. Cysylltiadau â'r CDLl a strategaethau tai a strategaethau cludiant.

### Canlyniadau negyddol anfwriadol a nodwyd:

Gall cefnogi rhai cymunedau ar draul rhai eraill beri problemau. Hyrwyddo byw'n annibynnol – gall fod risgiau o amgylch diogelu, dioddefwyr troseddau, twyll

Mae canolbwyntio ar bobl sy'n ymgysylltu neu gydag eiriolwr yn golygu y gallwn fethu pobl sydd ddim yn ymgysylltu. Datblygu cartrefi gofal. Gall grwpiau eraill ystyried bod tai ar gyfer pobl ddiamddiffyn yn cael effaith negyddol ar eu hardal.

### Camau lliniaru:

Cyfathrebu'n glir, dod â phobl gyda chi, sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys. Ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd a chefnogi grwpiau anodd eu cyrraedd i ymgysylltu â ni, yn cynnwys pobl gydag un neu fwy o nodweddion a ddiogelir. Newid y ffordd rydym yn ymgysylltu er mwyn ei wneud yn fwy hygyrch, mynd i lefydd lle mae'r bobl. Heriau o amgylch rhoi adnoddau ar gyfer hyn. Ymateb i ymgysylltiad, gwneud yn siŵr ei fod yn helpu i siapio gwasanaethau. Byw'n annibynnol – ystyried diogelu, materion arwahanrwydd, cludiant, cyfranogiad grwpiau cymdeithasol – sgyrsiau beth sy'n bwysig. Os yw'r dull 'beth sy'n bwysig' yn digwydd, bydd y materion hyn yn cael eu lliniaru. Meddwl am sut rydym yn casglu'r wybodaeth o sgyrsiau 'beth sy'n bwysig' i lywio gwasanaethau.

## Rhanbarth â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus

| | |
|---|---|
| Effaith Gyffredinol | Cadarnhaol |
| Cyfiawnhad dros yr effaith | Mae’r cynllun rhanbarthol yn anelu at wella gwasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg. |

### Canlyniadau cadarnhaol a nodwyd:

Roedd yr asesiad poblogaeth yn cynnwys proffil iaith Gymraeg ac fe nododd bod angen mwy o wasanaethau yn Gymraeg, ac fe wnaeth yr ymgynghoriad gefnogi’r canfyddiad hwn.

Mae'r cynllun rhanbarthol yn cefnogi'r gofyniad i wneud 'cynnig gweithredol' o wasanaethau iaith Gymraeg. Mae angen ystyried hyn ymhellach wrth ddatblygu gwasanaethau.

Fe wnaeth yr ymgynghoriad nodi cyfleoedd i ddefnyddio diwylliant a threftadaeth i gefnogi lles, er enghraifft, drwy ragnodi cymdeithasol. Dylid canolbwyntio ar beth sy’n bwysig i bobl helpu i gael mynediad at y diwylliant a’r dreftadaeth y maent yn ei dewis.

### Canlyniadau negyddol anfwriadol a nodwyd:

Os nad ydym yn gallu recriwtio digon o staff sy'n siarad Cymraeg, gallai ein gwasanaethau gael effaith negyddol ar nifer y bobl sy'n defnyddio Cymraeg.

### Camau lliniaru:

Edrychwch ar y strategaeth gweithlu rhanbarthol a ‘Mwy na Geiriau’ am fwy o wybodaeth.

## Rhanbarth sy’n gyfrifol yn fyd-eang

| | |
|---|---|
| Effaith Gyffredinol | Cadarnhaol |
| Cyfiawnhad dros yr effaith | Mae buddion i gydweithio fel rhanbarth i ysgrifennu’r cynllun. Angen sicrhau ein bod yn cydnabod y gwahaniaethau rhwng ardaloedd a chymryd y gwahaniaethau i ystyriaeth wrth ddylunio gwasanaethau i fodloni anghenion lleol yn hytrach na strwythurau rhanbarthol. |

### Canlyniadau cadarnhaol a nodwyd:

Mae cadwyni cyflenwi lleol, cenedlaethol a rhanbarthol yn rhywbeth i’w ystyried fel rhan o'r prosiectau wrth gyrraedd y cam prynu. Bydd comisiynu da’n helpu darparwyr i gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol. Mae angen i ni fod yn glir am beth sydd ei angen. Dylai integreiddio gwasanaethau’n dda helpu. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynnu ein bod yn cefnogi mentrau cymdeithasol.

Mae’r cynllun yn rhoi sbotolau ar faterion hawliau dynol penodol sy’n gallu effeithio ar bobl sy’n derbyn gwasanaethau, fel carchardai, hawliau plant a phobl hŷn, masnachu. Gall sicrhau bod cefnogaeth ar gael i bobl sy'n ddiamddiffyn helpu i ategu at hawliau pobl, fel cefnogaeth i aros gartref a'r hawl i fywyd teuluol.

Dull cyd-gynhyrchu – hawl pobl i gael barn ac eiriolaeth.

Dylai helpu i lywio darpariaeth arall ac integreiddio strategaethau’n well. Dylai hefyd ein gwneud yn fwy ymwybodol o beth y mae sefydliadau eraill yn eu gwneud a’n helpu i fod yn fwy cyson, a fydd yn helpu sefydliadau eraill a defnyddwyr gwasanaeth i lywio’r drwy’r systemau.

### Canlyniadau negyddol anfwriadol a nodwyd:

Po fwyaf y byddwch yn integreiddio gwasanaethau, y mwyaf y byddant yn mynd, sy'n gwneud darparwyr rhyngwladol/cenedlaethol yn fwy tebygol i roi cynnig arnynt, a allai gael effaith negyddol ar sefydliadau lleol. Gall hyn effeithio ar y farchnad. Gall sefydliadau mwy fod yn fwy tebygol i brynu gan gyflenwyr rhyngwladol, a all gael effaith negyddol ar fusnesau lleol. Angen dull cydlynol gyda buddion cymunedol. Gwneud yn siŵr y gall pobl leol gael mynediad at swyddi sy’n cael eu creu, ac nad ydym yn eithrio'n ddamweiniol, er enghraifft, gyda gofynion hyfforddi. Os nad ydym yn cael y cam ymgysylltu’n gywir, gallwn fethu materion hawliau dynol sy'n effeithio ar grwpiau anodd eu cyrraedd. Os nad ydym yn cael eiriolaeth neu gyd-gynhyrchu’n gywir, neu os na fydd pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau, bydd yn cael effaith negyddol. Gall penderfyniadau o amgylch dyrannu adnoddau gael effeithiau negyddol. Gallai gwaith rhanbarthol ei wneud yn llai amlwg o ran sut i ymgysylltu. Pwy sy’n darparu neu’n arwain ar beth, colli perthynas leol, dysgu o brosiectau eraill sy’n datganoli cyfrifoldeb i’r rhanbarthau. Effeithiau ar sefydliadau llai sydd heb y gallu i weithio ar lefel leol. Gall safoni gwasanaethau olygu bod arfer da’n cael ei golli mewn rhai ardaloedd.

**Camau lliniaru:**

Cefnogi budd-ddeiliaid a phartneriaid eraill i ffurfio consortia a phartneriaethau fel y gallant weithio'n fwy effeithiol ar lefel ranbarthol. Cefnogi sefydliadau bach i ehangu neu gynyddu gallu i weithio ar lefel ranbarthol.

## **Atodiad 1:** Offeryn Sgrinio

| | Oed | Anabledd | Ailbennu rhywedd | Priodas neu bartneriaeth sifil | Beichiogrwydd a mamolaeth | Hil | Crefydd neu gred | Rhyw | Tueddfryd rhywiol | Y Gymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A yw'r cynnig yn ymwneud â maes lle mae anghydraddoldeb hysbys? | Ydi | Ydi | Ydi | Ydi | Ydi | Ydi | Ydi | Ydi | Ydi | Ydi |
| A yw'r cynnig yn debygol o gael effaith sylweddol ar y grwpiau hyn? | Ydi | Ydi | Ydi | Ydi | Ydi | Ydi | Ydi | Ydi | Ydi | Ydi |
| Sut byddwch chi'n deall anghenion pobl? | Gweler yr Asesiad Poblogaeth a'r adroddiadau ymgynghori | Gweler yr Asesiad Poblogaeth a'r adroddiadau ymgynghori | Gweler yr Asesiad Poblogaeth a'r adroddiadau ymgynghori | Gweler yr Asesiad Poblogaeth a'r adroddiadau ymgynghori | Gweler yr Asesiad Poblogaeth a'r adroddiadau ymgynghori | Gweler yr Asesiad Poblogaeth a'r adroddiadau ymgynghori | Gweler yr Asesiad Poblogaeth a'r adroddiadau ymgynghori | Gweler yr Asesiad Poblogaeth a'r adroddiadau ymgynghori | Gweler yr Asesiad Poblogaeth a'r adroddiadau ymgynghori | Gweler yr Asesiad Poblogaeth a'r adroddiadau ymgynghori |
| A oes tystiolaeth o ddefnydd neu fodlonrwydd uwch neu is? | Gweler yr Asesiad Poblogaeth a'r adroddiadau ymgynghori | Gweler yr Asesiad Poblogaeth a'r adroddiadau ymgynghori | Gweler yr Asesiad Poblogaeth a'r adroddiadau ymgynghori | Gweler yr Asesiad Poblogaeth a'r adroddiadau ymgynghori | Gweler yr Asesiad Poblogaeth a'r adroddiadau ymgynghori | Gweler yr Asesiad Poblogaeth a'r adroddiadau ymgynghori | Gweler yr Asesiad Poblogaeth a'r adroddiadau ymgynghori | Gweler yr Asesiad Poblogaeth a'r adroddiadau ymgynghori | Gweler yr Asesiad Poblogaeth a'r adroddiadau ymgynghori | Gweler yr Asesiad Poblogaeth a'r adroddiadau ymgynghori |
| A fydd y cynnig yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un o'r grwpiau hyn? | Effeithiau cadarnhaol a negyddol | Effeithiau cadarnhaol a negyddol | Effeithiau cadarnhaol a negyddol | Effeithiau cadarnhaol a negyddol | Effeithiau cadarnhaol a negyddol | Effeithiau cadarnhaol a negyddol | Effeithiau cadarnhaol a negyddol | Effeithiau cadarnhaol a negyddol | Effeithiau cadarnhaol a negyddol | Effeithiau cadarnhaol a negyddol |
| Os oes potensial ar gyfer lleihau anghydraddoldebau neu wella canlyniadau? | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 19 Chwefror 2018 |
| **Pwnc:** | Tai Gofal Ychwanegol Seiriol- darparu crynodeb o'r adborth yn dilyn y broses ymgysylltu a'r argymhelliad terfynol. |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Alwyn Jones |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Elin Williams<br>01248 751813<br>ElinWilliams@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Cynghorydd Carwyn Elias Jones<br>Cynghorydd Alun Roberts<br>Cynghorydd Lewis Wyn Davies |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Cefndir**

Cyflwynwyd adroddiad (*Papur Cefndir A*) i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (2 Hydref 2017) ac i'r Pwyllgor Gwaith (30 Hydref 2017) yn argymell y dylid cynnal cyfnod o ymgysylltiad lleol o fewn ardal Seiriol mewn perthynas â'r bwriad i ddatblygu cyfleuster Gofal Ychwanegol yn yr ardal leol.

Cefnogodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith y dylid cynnal cyfnod o ymgysylltiad lleol yn ardal Seiriol yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 2017 a gofynnodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i grynodeb o'r adborth yn dilyn y broses ymgysylltu gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor cyn ei gyflwyno ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

Mae'r broses ymgysylltu eisoes wedi'i chynnal. Mae'r papur hwn yn crynhoi'r adborth a gafwyd ac yn adlewyrchu barn roedd pobl leol wedi ei fynegi yn ardal Seiriol ac yn darparu argymhelliad terfynol ar gyfer safle i ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol.

**Ymgysylltu**

Mae gwahanol weithgareddau ymgysylltu wedi cael eu cynnal yn ward Seiriol yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 2017 mewn perthynas â'r tri mater canlynol:

1) Datblygu darpariaeth Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol er mwyn darparu o leiaf 39 o fflatiau hunangynhwysol yn unol â modelau darpariaeth a gymeradwyir yn genedlaethol.

2) Mai'r safle sy'n cael ei ffafrio ar gyfer y datblygiad hwn yw safle'r Ysgol Gynradd

bresennol ym Miwmares un ai wedi'i gyd-leoli gydag ysgol wedi'i haddasu neu fel y prif ddefnydd ar gyfer y safle.

3) Bod y Cyngor yn mynd ar ôl opsiynau i ariannu'r datblygiad drwy'r Cyfrif Refeniw Tai fel bod y datblygiad yn cael ei ychwanegu at stoc y Sir o dai cyngor.

Fel rhan o'r ymgysylltu, mae'r Pennaeth Gwasanaeth a'r Aelod Portffolio[1] wedi cyfarfod â Chynghorau Tref a Chymuned Llandegfan, Llanddona, Porthaethwy, Biwmares a Llangoed. Mae sesiynau galw heibio hefyd wedi eu cynnal yn Llanddona, Biwmares x2, Porthaethwy a Llangoed. Defnyddiwyd arolwg ar-lein hefyd fel rhan o'r ymgysylltiad a chynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus yn Llangoed ar 15 Ionawr 2018.

**Crynodeb o'r Adborth a Dderbyniwyd**

Derbyniwyd cyfanswm o 81 o holiaduron adborth. O'r 81, cafodd 16 eu llenwi fel rhan o'r cyfarfodydd â'r Cynghorau Tref a Chymuned ac fel rhan o'r sesiynau galw heibio. Cafodd y 65 arall eu llenwi ar-lein.

Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn gefnogol i ddatblygiad Gofal Ychwanegol yn lleol ac yn cytuno y byddai darpariaeth o'r math yma o werth. Mae ymatebion i'r holiadur yn dynodi bod 47 o'r 81 a rhai a dderbyniwyd yn cefnogi'r cysyniad. Yn yr un modd, roedd aelodau'r cynghorau cymuned yn cefnogi'r math hwn o ddatblygiad. Mae'n bwysig nodi nad oedd ymatebion gan aelodau Cyngor Cymuned Llangoed, er eu bod yn cydnabod rôl Tai Gofal Ychwanegol, yn cefnogi'r datblygiad hwn.

Mae safbwyntiau a fynegwyd yn y Cyfarfod Cyhoeddus yn adlewyrchu bod pobl yn credu na fyddai Gofal Ychwanegol yn gweithredu fel darpariaeth amgen i ofal mewn Cartrefi Preswyl.

Mae adborth o'r holiaduron, ac o'r Cyfarfod Cyhoeddus, yn dangos bod yna lefel o anghytundeb o ran y safle a argymhellir. Nodir bod yr un safbwyntiau wedi eu mynegi hefyd yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Biwmares a Llangoed.

Yn yr ardaloedd eraill ddaru i ni ymweld dim dyma oedd yr achos ac roedd aelodau o Cyngor Cymuned Cwm Cadnant yn mynegi eu cefnogaeth o safle yn Biwmares yn y Cyfarfod Cyhoeddus ac yn eu hadborth drwy'r holiadur ac yn yr un modd mae Cyngor Cymuned Llanddona wedi derbyn yr angen i'r Gofal Ychwanegol fod yn Biwmares. Ni chafwyd wrthwynebiad i'r cynnig yma gan Gyngor Cymuned Porthaethwy.

Nodir y problemau sy'n gysylltiedig â'r ffaith bod y safle ar allt a'i leoliad daearyddol ym Miwmares a'i effaith bosibl ar y dref ac yn fwy na hynny y problemau sy'n gysylltiedig â mynd o gwmpas Biwmares. O'r 81 o holiaduron a dderbyniwyd, nid oedd 56 ohonynt yn cytuno â'r safle.

[1] Roedd yr Aelod Portffolio dim ond yn bresennol yng nghyfarfodydd Tref a Chymuned Llandegfan, Biwmares a Llangoed.

O ran ariannu'r datblygiad, ychydig iawn o sylwadau a wnaed yn ystod y cyfarfodydd mewn perthynas a'r mater hwn, fodd bynnag dangosodd 58% o'r rhai a ymatebodd i'r holiadur eu cefnogaeth i'r cynnig o ran cyllido.

Codwyd nifer o bwyntiau penodol yn ystod Cyfarfod Cyhoeddus a fynychwyd gan nifer dda o bobl ar 15 Ionawr 2018 (*gweler Atodiad A).* Mae nifer o'r pwyntiau a godwyd yn adlewyrchu'r materion a nodwyd yn yr adborth generig. Roedd nifer yn anghytuno â'r safle a oedd yn cael ei ffafrio ac yn dymuno gweld y ddarpariaeth Gofal Ychwanegol yn cael ei hadeiladu yn Haulfre neu, fel arall, yn gofyn a fyddai modd i'r Cyngor fuddsoddi yn y cartref gofal. Mae'r pwyntiau yn cael eu nodi mewn mwy o fanylder yn yr atodiad.

**Achos Ariannol ar gyfer Lleoliad Tai Gofal Ychwanegol**

Mae ystyriaeth fanwl o'r achos busnes ar gyfer Gofal Ychwanegol hefyd yn cefnogi'n gryf adeiladu yn Biwmares. Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi gofyn bod safle Haulfre yn cael ei ail-gysidro fel safle ar gyfer y datblygiad Gofal Ychwanegol, ond, rydym yn credu bod y gwybodaeth sydd yn cael ei gynnwys yn *Atodiad B* yn disgrifio pam mai Biwmares sydd yn cael ei gefnogi fel y lleoliad i adeiladu o fewn yr ardal yma. Mae cynlluniau Tai Gofal Ychwanegol yn bennaf yn cael eu hadeiladu o fewn trefi fel bod preswylwyr yn gallu integreiddio gyda eu cymuned. Hefyd, mae yna fwy o ofyn am ddarpariaeth tai yn Biwmares yn hytrach na yn Llangoed. Gan bod Biwmares efo poblogaeth hŷn, mae'n ymddangos bydd yna fwy o angen am lety ar gyfer pobl hŷn yn y dyfodol ac efo cyfleuster Gofal Ychwanegol yn cael ei adeiladu yn Biwmares mae'n debygol bydd cartrefi teulu yn dod ar gael yn ystod y broses a fydd yn cefnogi pobl ifanc i ddiogelu tai yn y dref.

Gan gydnabod y pwyntiau pwysig a godwyd yn ystod y broses ymgynghori ac yn y Cyfarfod Cyhoeddus, mae ein hargymhelliad yn parhau i fod yr un fath â'r cynnig gwreiddiol a hynny am y rhesymau canlynol:-

- Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i strategaeth i foderneiddio'r cyfleusterau sydd ar gael er mwyn galluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae Gofal Ychwanegol yn ganolog i hyn.

- Gwnaed ymrwymiad yn 2015 i ddatblygu Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol ac rydym yn parhau i fod o'r farn, yn wyneb nifer cyfyngedig y safleoedd sydd ar gael ac a ystyriwyd yn ardal Seiriol, mai safle'r ysgol yw'r un gorau ac y bydd mynediad i'r safle yn cael sylw mewn unrhyw gais cynllunio.

- Mae datblygiadau Gofal Ychwanegol wedi eu cynllunio er mwyn cefnogi pobl i barhau i fod yn annibynnol ac i fod â chyswllt. Mae safle Biwmares yn cynnig cyfle go iawn i allu cyflawni hyn, nid yn unig ar gyfer trigolion hŷn Seiriol ond ar gyfer trigolion De yr Ynys yn ehangach. Nid yw safle Haulfre yn cynnig y mynediad hwn na'r cyfleusterau lleol.

- Mi fydd Adeilad Gofal Ychwanegol angen cwrdd a safonau BREEAM. Mae yna bump meini prawf penodol ar gyfer BREEAM- mynediad i gludiant cyhoeddus;

mynediad i gyfleusterau fel siopau, syrjeri doctor; cyfleusterau cerdded a beicio; darpariaeth parcio; cynllun teithio cynaliadwy. Yn y cyd-destun yma y ddau meini prawf cyntaf sydd fwyaf perthnasol ar gyfer datblygiad Gofal Ychwanegol. Mae hyn i ryw raddau yn adlewyrchu'r ffaith bod darpariaeth Gofal Ychwanegol yn aml yn cael ei leoli mewn trefi er mwyn cael mynediad i lwybrau bysiau a chyfleusterau dydd-i-ddydd fel siopau a bwytai.

**Argymhellion**

Yn dilyn cwblhau cyfnod o ymgysylltu argymhellir bod:

- Safle Ysgol Biwmares yn cael ei ddefnyddio er mwyn datblygu Cynllun Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol.
- Bod y datblygiad yn cael ei ariannu drwy'r Cyfrif Refeniw Tai.
- Yn ddibynnol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad mewn perthynas â dyfodol Ysgol Biwmares, dylid adeiladu'r datblygiad un ai tu ôl i'r ysgol fel rhan o ddatblygiad integredig gyda'r ysgol yn parhau ar agor neu dylid ei adeiladu gan ddefnyddio rhannau o adeilad yr ysgol petai penderfyniad yn cael ei wneud i gau'r ysgol.
- Fe ddylai'r broses ddatblygu ar gyfer y cynllun ystyried y pwyntiau a godwyd mewn perthynas â'r safle yn ystod y broses ymgysylltu a sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried a bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod y safle yn hwylus ar gyfer pobl hŷn. Er enghraifft, gan fod y datblygiad ar allt, cynnwys cyfleoedd am lwybrau ychwanegol a chludiant cymunedol i'r dref. Hefyd, sicrhau bod y datblygiad yn gweithredu fel rhywle y gellir cynnal digwyddiadau cymunedol ynddo a sicrhau integreiddiad da â'r dref a chymunedau ehangach ledled De yr Ynys.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
| --- |
| Mae gwaith helaeth wedi ei gwblhau yn flaenorol ynglyn â lleoliadau posibl eraill fuasai yn gallu cael eu defnyddio i ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol o fewn ward Seiriol ond safle Ysgol Biwmares sydd wedi cael ei gytuno fel y safle sydd yn cael ei ffafrio ar gyfer y datblygiad. Mae Adroddiad Dewis Safle (*gwelir Atodiad C*) wedi ei gwblhau a ddaru hwn asesu cyfaddasrwydd lleoliadau potensial eraill o fewn yr ward, ac efo'r gwaith pellach sydd wedi ei gwblhau, Safle Ysgol Biwmares sydd yn cael ei ystyried fel y safle sydd yn cael ei ffafrio. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| --- |
| Mae darparu darpariaeth Tai Gofal Ychwanegol yn ne-ddwyrain o'r Ynys yn amcan yn y Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn 2017-2022 ac felly o arwyddocâd strategol. |

| |
|---|
| Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (2 Hydref 2017) ac i'r Pwyllgor Gwaith (30 Hydref 2017) yn argymell y dylid cynnal cyfnod o ymgysylltiad lleol o fewn ardal Seiriol mewn perthynas â'r bwriad i ddatblygu cyfleuster Gofal Ychwanegol yn yr ardal leol.<br><br>Mae'r adroddiad yma rŵan yn darparu crynodeb o'r adborth o'r broses ymgysylltu ac yn cyflwyno yr argymhelliad terfynol.  Mae'r penderfyniad rŵan i'r Pwyllgor Gwaith i'w wneud ynglŷn â argymhelliad terfynol ynglyn â safle ar gyfer datblygiad Tai Gofal Ychwanegol yn ward Seiriol. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Yndi. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Yndi. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Trafodir hyn yng Nghyfarfod Uwch Dîm Arweinyddol ar yr 8fed o Ionawr 2018. Roedden nhw yn gefnogol o'r argymhelliad. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Fel yr uchod. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Fel yr uchod. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dim yn berthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Dim yn berthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Dim yn berthnasol |
| **7** | **Caffael** | Dim yn berthnasol |
| **8** | **Sgriwtini** | Roedd y mater yma wedi ei gysidro yng nghyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ddaru ymgynnull ar y 31ain Ionawr, 2018.<br><br>Roedd y Pwyllgor Sgriwtini wedi cael crynodeb o'r adborth o'r broses ymgysylltu ac roedd yr argymhellion terfynol wedi eu cyflwyno ar gyfer ystyriaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Derbynir cynrychiolaeth yn y Pwyllgor gan y 3 Aelod Lleol a chynrychiolaeth o’r gymuned leol a Chyngor Tref Biwmares.<br><br>Yng ngolau ei ystyriaethau, mi ddaru i’r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol benderfynu i argymell fel y ganlyn i’r Pwyllgor Gwaith:<br><br>1. Oherwydd y cryfder o deimlad ymhlith y gymuned leol ac yr Aelodau Lleol, bod y Cyngor yn ail-ystyried sefydlu y datblygiad Tai Gofal Ychwanegol yn yr ardal Seiriol ar safle Haulfre, Llangoed.<br><br>2. Oherwydd y prinder o dir ar gyfer tai ar gyfer pobl ifanc yn Biwmares, bod Ysgol Biwmares yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu tai cymdeithasol.<br><br>3. Bod y datblygiad Tai Gofal Ychwanegol yn cael ei ariannu drwy’r Cyfrif Refeniw Tai. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Gofynnodd Aelodau Lleol yn flaenorol bod cyfarfod cyhoeddus yn mynd gyda cynlluniau ymgysylltu. Mae hyn eisioes wedi digwydd. |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Dim yn berthnasol |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Dim yn berthnasol |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Dim yn berthnasol |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Dim yn berthnasol |
| **4** | **Amgylcheddol** | Dim yn berthnasol |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Dim yn berthnasol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Dim yn berthnasol |
| **7** | **Arall** | Dim yn berthnasol |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A - Sylwadau ac Ymatebion o’r Cyfarfod Cyhoeddus ac Ymgysylltu Ynglŷn â Tai Gofal Ychwanegol |

| |
|---|
| Atodiad B - Lleoliad Cynllun Tai Gofal Ychwanegol Ardal Seiriol<br>Atodiad C - Adroddiad Dewis Safle<br>Atodiad D - Adborth yr Holiaduron |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Papur Cefndir A – Tai Gofal Ychwanegol Seiriol- Pwyllgor Gwaith- Hydref 2017. |

# **Atodiad A – Sylwadau ac Ymatebion o Gyfarfod Cyhoeddus ynghylch**

## **Cynllun Tai Gofal Ychwanegol Seiriol**

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus yn Llangoed ar 15 Ionawr, 2018 a dyma oedd rhan olaf y broses ymgysylltu. Gwelwyd nifer dda yn mynychu a mynegodd y tri chynghorydd lleol ar gyfer yr ardal eu safbwyntiau. Roedd llawer o'r sylwadau a wnaed yn ystod y cyfarfod yn adlewyrchu'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y sesiynau galw heibio ac yng nghyfarfodydd y Cynghorau Tref a Chymuned a hefyd yn yr arolwg ar-lein.

Cau Haulfre a'r posibilrwydd y byddai'r ysgol yn cau a oedd y prif bynciau a drafodwyd ac er nad oedd pobl yn gyffredinol yn erbyn y syniad o gael cyfleuster Tai Gofal Ychwanegol, roedd negeseuon clir eu bod yn anghytuno mai safle'r ysgol oedd y lleoliad iawn ar gyfer datblygu Tai Gofal Ychwanegol o fewn ward Seiriol.

Teimlai cyfran fawr o'r rheini a fynychodd y cyfarfod y dylid defnyddio safle Haulfre ac roeddent o'r farn fod angen yn parhau am gartref preswyl yn Haulfre ac y dylai'r Tai Gofal Ychwanegol fod ar safle Haulfre hefyd. Roedd pobl yn anghytuno â'r penderfyniad a wnaed ym mis Hydref 2015 y byddai Haulfre, ar ôl gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r adeilad yn y tymor byr, yn cau pan fyddai'r cyfleuster Tai Gofal Ychwanegol yn agor. Eglurwyd bod safle Haulfre wedi cael ei ystyried fel lleoliad posib ond nid oedd yn sgorio mor uchel â safle'r ysgol ac mai ei leoliad oedd un o'r rhesymau y tu ôl i hynny.

Cafwyd y neges yn gryf fod y gymuned yn gwrthwynebu cau'r ysgol ac roedd y mwyafrif o bobl yn anghytuno mai safle'r ysgol ddylai fod y safle a ffafrir, a hynny'n bennaf oherwydd ei fod ar ben bryn serth. Gwnaed sylwadau ynghylch anhawster teithio o'r safle i'r dref, boed hynny ar droed neu gyda sgwter symudedd, a hynny oherwydd palmentydd cul, ceir sydd wedi eu parcio a hysbysfyrddau ar y palmentydd.

Gofynnwyd i'r Cyngor ailystyried yr ysgol fel y safle sy'n cael ei ffafrio, a hynny oherwydd y newidiadau a fu ers 2015 (llywodraethiant y Cyngor) a dylai Haulfre cael ei ystyried fel lleoliad posib.

| Rhif | Sylw / Cwestiwn | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 1 | Problemau gyda lleoliad a hygyrchedd safle Ysgol Biwmares e.e. y bryn serth. | Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r heriau a nodwyd mewn perthynas â'r safle, ond o'r holl opsiynau sydd ar gael, yr opsiwn hwn yw'r un mwyaf addas.<br><br>Bydd sicrhau bod y safle'n hawdd ei gyrraedd i bobl sy'n defnyddio trafnidiaeth (gan gynnwys sgwteri symudedd) neu ar droed yn flaenoriaeth i unrhyw gynllun. Bydd y Cyngor yn edrych ar gyfleoedd am lwybrau ychwanegol ac yn trefnu cludiant cymunedol i'r dref a gwneud unrhyw drefniadau eraill sydd eu hangen i sicrhau hygyrchedd y safle.<br><br>Mae'r safle wedi sgorio'n uchel o ran ei leoliad oherwydd ei fod yn agos i dref Biwmares ac felly at fwynderau lleol a thrafnidiaeth gyhoeddus. |
| 2 | Pam fod safle Ysgol Biwmares wedi ei nodi fel yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio yn hytrach na Haulfre? | Gwnaeth y Pwyllgor Gwaith benderfyniad ar 19 Hydref 2015 i fuddsoddi yn Haulfre i gadw'r cartref ar agor yn y tymor byr ac y byddai'n cau pan fydd y datblygiad Gofal Ychwanegol arfaethedig yn agor.<br><br>Mae'r Adroddiad Dewis Safle yn darparu manylion ynghylch pa safleoedd a aseswyd fel safleoedd posib ar gyfer Tai Gofal Ychwanegol ac fe sgoriodd safle Ysgol Biwmares yn uwch na Haulfre:<br><br>1. Canolfan Gofal Dydd Biwmares<br>2. Ysgol Gynradd Biwmares<br>3. Haulfre, Llangoed<br>4. Hen Glwb Cymdeithasol Biwmares<br>5. Bryn Tirion, Biwmares<br>6. Safle Laird<br>7. Safle Carchar Biwmares<br><br>Mae'r ffactorau sydd wedi dylanwadu ar yr asesiad hwn yn cynnwys: -<br><br>**Caniatâd Cynllunio** – Ystyried y tebygolrwydd o gael caniatâd cynllunio. |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Addasrwydd y safle ar gyfer ei ddatblygu** – Yn seiliedig ar ei leoliad, y cyfyngiadau y gwyddys amdanynt a’r amodau<br><br>**Mynediad –** Rhoddwyd sylw i agosrwydd y safleoedd at ganol y dref mewn perthynas â chysylltiadau i gerddwyr a’r gallu i gael mynediad i'r tir gyda cherbyd a heb gerbyd.<br><br>**Cost –** Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i werth y tiroedd fel tiroedd datblygu, naill ai costau prynu’r tir neu’r incwm a gollid pe ceid gwared ar yr ased. Cymerwyd effaith costau clirio’r safleoedd i ystyriaeth hefyd os oes adeiladau neu strwythurau arnynt ar hyn o bryd.<br><br>**Argaeledd ac Amseru –** Gall safleoedd maes glas sydd heb eu datblygu fod ar gael i'w datblygu'n fuan iawn; fodd bynnag, bydd safleoedd tir llwyd, safleoedd sy’n cael eu defnyddio ar hyn o bryd a safleoedd a ddatblygwyd eisoes yn cymryd mwy o amser i fod ar gael.<br><br>**Gwasanaethau** – Prif ystyriaeth y maen prawf hwn yw agosrwydd a lleoliad systemau draenio dŵr wyneb a charthffosiaeth.<br><br>Mae safle Ysgol Biwmares wedi sgorio'n uchel o ran ei leoliad oherwydd ei agosrwydd i dref Biwmares ac felly i fwynderau lleol a thrafnidiaeth gyhoeddus – sy'n cydymffurfio ag ethos Tai Gofal Ychwanegol.<br><br>Yn gyffredinol, datblygir y cynlluniau hyn o fewn trefi neu'n agos at fwynderau lleol ac anaml iawn y datblygir hwy mewn lleoliadau gwledig oni bai bod angen mawr i wneud hynny oherwydd bod tref yn bell iawn i ffwrdd. Ethos Gofal Ychwanegol yw galluogi pobl hŷn i barhau i fod mor annibynnol â phosib. Trwy ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol mewn trefi, mae siopau a thrafnidiaeth gyhoeddus o fewn cyrraedd yn rhwydd a gall pobl gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol lleol.<br><br>Mae Datblygu Tai Gofal Ychwanegol mewn lleoliad ym Miwmares yn cydymffurfio ag egwyddorion Gofal Ychwanegol, ond ni fyddai hynny’n wir am ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol ar safle Haulfre, gan fod y safle y tu allan i'r dref ac oherwydd nad yw'n |

| | | |
|---|---|---|
| | | darparu mynediad rhwydd i fwynderau. Mae safle Ysgol Biwmares yn lleoliad llawer mwy ymarferol ar gyfer ardal Seiriol gyfan.<br><br>Mi fydd Adeilad Gofal Ychwanegol angen cwrdd a safonau BREEAM. Mae yna bump meini prawf penodol ar gyfer BREEAM- mynediad i gludiant cyhoeddus; mynediad i gyfleusterau fel siopau, syrjeri doctor; cyfleusterau cerdded a beicio; darpariaeth parcio; cynllun teithio cynaliadwy. Yn y cyd-destun yma y ddau meini prawf cyntaf sydd fwyaf perthnasol ar gyfer datblygiad Gofal Ychwanegol. Mae hyn i ryw raddau yn adlewyrchu'r ffaith bod darpariaeth Gofal Ychwanegol yn aml yn cael ei leoli mewn trefi er mwyn cael mynediad i lwybrau bysiau a chyfleusterau dydd-i-ddydd fel siopau a bwytai. |
| 3 | Beth yw manteision cael cynllun Gofal Ychwanegol? | Mae llawer o fanteision i bobl hŷn o fod yn byw mewn Tai Gofal Ychwanegol.<br>Mae Gofal Ychwanegol yn gysyniad arloesol lle gall pobl hŷn fyw'n annibynnol gyda gwasanaethau cymorth tai a gofal o ansawdd uchel sy'n galluogi, cynorthwyo ac annog pobl i fyw'n annibynnol am gyn hired ag y maent yn dymuno ac yn gallu gwneud hynny.<br><br>Gall Gofal Ychwanegol fod yn ddewis arall yn lle cartref preswyl ac, o'i gymharu â darpariaeth breswyl "draddodiadol", mae Gofal Ychwanegol nid yn unig yn cefnogi byw'n annibynnol a bywyd o ansawdd uwch, ond, yn gyffredinol, mae hefyd yn rhatach i drigolion ac yn fwy cost effeithiol i awdurdodau lleol.<br><br>• Mae'n hyrwyddo ac yn cynorthwyo pobl i barhau i fod mor annibynnol ag y bo modd am gyn hired â phosib yn eu cartrefi eu hunain;<br>• Darperir gofal ar y safle yn ôl y galw, yn ogystal â Teleofal 24 awr a thechnoleg gynorthwyol arall i rybuddio staff pan fo pobl angen cymorth;<br>• Mae'n amgylchedd diogel a chyfforddus ac mae gan bawb eu drws ffrynt eu hunain;<br>• Gall Tai Gofal Ychwanegol fod yn gartref am oes;<br>• Gall ymateb ac addasu i anghenion newidiol unigolion a darparu ar eu cyfer;<br>• Mae'n hyrwyddo cymorth a chyfranogiad teuluol a chymunedol a gellir ei ddefnyddio fel Hyb Cymunedol; |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Mae'n rhoi cyfleoedd i bobl gymdeithasu a gall gael gwared ar deimladau o unigrwydd ac unigedd oherwydd bod cynlluniau Gofal Ychwanegol yn gymunedau naturiol;<br>• Darperir prydau yn y bwyty ar y safle bob dydd;<br>• Potensial i gyplau fyw gyda'i gilydd;<br>• Mae yna ardaloedd cymunedol amlbwrpas o fewn y cynllun;<br>• Mae yna ystafelloedd ymolchi gyda chyfleusterau cymorth; ceginau wedi'u haddasu a lle i gadw sgwteri symudedd;<br>• Dyluniad hygyrch i bobl ag anghenion symudedd;<br>• Ystafelloedd gwely ar gyfer gwesteion. |
| 4 | Pryder nad yw Gofal Ychwanegol yn darparu gofal ysbaid. | Gall cyfleusterau Gofal Ychwanegol ddarparu gofal ysbaid hefyd. Yn ein cynlluniau Gofal Ychwanegol eraill, rydym yn bwriadu cael fflatiau y bydd y Cyngor yn eu defnyddio ar gyfer pobl sydd angen gwelyau gofal canolraddol tymor byr. |
| 5 | Mae Tai Gwarchod wedi newid ac nid oes wardeiniaid yn byw ar y safle mwyach. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Tai Gofal Ychwanegol a Thai Gwarchod? | Mae Tai Gwarchod yn dai yn y gymuned lle mae trigolion yn byw yn eu llety eu hunain ac yn cael cymorth gan rywun sy'n dod i ymweld â nhw yn eu cartrefi eu hunain. Er yn debyg i'r cysyniad o Ofal Ychwanegol, mae Tai Gwarchod yn wahanol gan fod yr holl drigolion yn byw mewn llety ar wahân ac yn defnyddio eu cyfleusterau eu hunain megis cegin, ystafell ymolchi ac ystafell fyw. Ni ddarperir yr un gofal o fewn Tai Gwarchod ac nid yw'r dyluniad mor fodern â Thai Gofal Ychwanegol ac nid yw Tai Gwarchod yn hyrwyddo'r un lefel o annibyniaeth â Thai Gofal Ychwanegol.<br><br>Mewn cyfleuster Gofal Ychwanegol, er bod gan drigolion eu llety eu hunain a'u drws ffrynt eu hunain, maent i gyd o fewn yr un cynllun ac mae ganddynt fynediad at gyfleusterau sy’n cael eu rhannu o fewn yr adeilad ac i fannau cymunedol megis lolfeydd; bwyty ar y safle; golchdy; garej ar gyfer sgwteri symudedd ac ystafell ymolchi arbenigol.<br><br>Mae Tai Gwarchod yn parhau i fod yn opsiwn ymarferol ar gyfer pobl sydd â llai o anghenion gofal ond mae Gofal Ychwanegol yn darparu mwy o ofal a chymorth i'r rheini sydd ei angen a gall gwrdd ag unrhyw newid yn anghenion yr unigolion. |

| | | |
|---|---|---|
| 6 | Beth fydd yn digwydd i drigolion Haulfre pan fydd yn cau? | Fel rhan o ddatblygiad Hafan Cefni, bydd Plas Penlan, sef Cartref Preswyl yr Awdurdod Lleol yn cau. Mae'r Awdurdod Lleol yn dilyn proses canllawiau statudol Llywodraeth Cymru o gau'r cartref preswyl a sicrhau bod y trigolion, yn ogystal â'r staff, yn cael eu symud ymlaen i lety arall, gan gynnwys Hafan Cefni, a bod staff yn cael cymorth gyda'u cyfleoedd cyflogaeth. Asesir preswylwyr i sicrhau eu bod yn symud ymlaen i lety addas a phriodol sy'n cwrdd â'u hanghenion a'u dymuniadau, a byddai'r un broses yn cael ei dilyn ar gyfer cau Haulfre.<br><br>Byddai'r Awdurdod Lleol yn dymuno trosglwyddo cymaint o drigolion â phosib o Haulfre i'r Cynllun Gofal Ychwanegol. Os nad yw hwn yn opsiwn priodol ar gyfer rhai o'r trigolion oherwydd bod ganddynt anghenion gofal uwch, yna byddai opsiynau llety eraill yn cael eu sicrhau. Mae gan yr Awdurdod Lleol gartrefi gofal preswyl eraill fel Plas Mona yn Llanfairpwll sydd 9 milltir i ffwrdd o Haulfre ac y gall trigolion symud ymlaen iddo. Mae yna gartrefi gofal preswyl preifat yn lleol ac mae yna gartrefi nyrsio a chartrefi mwy arbenigol y gellid eu hystyried os oes angen – bydd hynny'n dibynnu ar anghenion a dewis yr unigolyn. |
| 7 | Sut byddai'r Cyngor yn delio â thrigolion mewn Tai Gofal Ychwanegol os na fyddent yn gallu parhau i fod yn annibynnol oherwydd bod eu hiechyd wedi dirywio fel bod angen iddynt fynd i gartref gofal preswyl neu nyrsio ar ryw adeg. | Nod yr Awdurdod Lleol o ran Gofal Ychwanegol yw darparu cartref ar gyfer unigolion lle mae'r gofal a'r cyfleusterau o fewn fflat y person ei hun yn addasu i anghenion yr unigolyn pe baent yn dwysau.<br><br>Pe bai unigolyn yn datblygu anghenion arbenigol sylweddol y mae angen cymorth nyrsio dwys neu EMI ar eu cyfer mae'n bosib y bydd angen iddynt adael. Rydym o'r farn mai dim ond mewn achosion eithriadol fydd hynny'n digwydd ac rydym yn ymrwymedig i gynorthwyo pobl mewn Tai Gofal Ychwanegol. Pe bai angen iddynt fynd i gyfleuster arall, byddai cyfleuster priodol yn cael ei ddarganfod ar eu cyfer mewn ymgynghoriad â'r unigolyn dan sylw â'i deulu.<br><br>Mae cyfleusterau preswyl ar gael yn ne'r Ynys, ond yn amlwg byddai'r cyfleuster a geir ar gyfer unigolyn yn dibynnu ar ei anghenion unigol. |

| | | |
|---|---|---|
| 8 | Pam nad yw Haulfre yn dderbyniol fel cartref preswyl i'r dyfodol? | Roedd y swm o fuddsoddiad fyddai ei angen er mwyn dod a Haulfre i safon derbyniol wedi ei amcangyfrif yn 2015 i fod yn £1,156,950. Roedd yr amcangyfrif yma wedi ei wneud yn absenoldeb asesiad safle llawn ac yn eithrio unrhyw gostau cysylltiol gyda thirwedd y tir a hygyrchedd, gan gynnwys cyfleusterau parcio priodol. Mae'r buddsoddiad yn sylweddol er mwyn cynyddu model darpariaeth gofal nad yw'r Cyngor rhagor yn ei flaenoriaethu ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol. Mae'r ffactorau yma ac yr hyd amser sydd wedi mynd heibio yn debygol o gynyddu y costau o unrhyw datblygiad yn Haulfre.<br><br>Strategaeth y Cyngor ar gyfer Pobl Hŷn yw cynyddu'r opsiynau i bobl barhau i fod mor annibynnol â phosib am gyn hired ag y bo modd h.y. Gofal Ychwanegol. |
| 9 | A oes llai o welyau ar gael ar yr Ynys nawr? | Na, gallwn gadarnhau bod yna dim llai o welyau ar gael ar yr Ynys nag oedd ar gael yn 2015. Mewn gwirionedd, yn ystod y cyfnod yma, mae cynhwysedd Fairways Newydd (St Tysilio ynghynt) wedi cynyddu ac mae yna rŵan welyau arbenigol dementia ychwanegol yn Garreglwyd.<br><br>O ran blaenoriaethau'r Awdurdod Lleol i'r dyfodol, rydym yn canolbwyntio ar yr angen am opsiynau i helpu unigolion a chanddynt anghenion gofal a chymorth i barhau i fyw bywydau mor annibynnol â phosib yn eu cartrefi eu hunain am gyn hired ag y bo modd.<br><br>Bydd Hafan Cefni, y cynllun Gofal Ychwanegol yn Llangefni, sydd yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd, yn darparu 63 o fflatiau o haf 2018 ymlaen ar gyfer unigolion gyda anghenion gofal i'r gwrthwyneb o'r 28 o welyau preswyl sydd ar gael.<br><br>Os y cawn gytundeb i adeiladu Cynllun Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol, bydd yr Awdurdod Lleol yn cynyddu opsiynau o 19 gwely yn Haulfre i 39 o fflatiau hunangynhwysol yn y Cynllun Gofal Ychwanegol. |
| 10 | Manylion y broses ymgysylltu. | Cynhaliwyd gweithgareddau ymgysylltu yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 2017 ar ôl i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith gefnogi cynnal cyfnod o ymgysylltu yn lleol yn ardal Seiriol. Cyfarfu'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion â'r Cynghorau Tref a Chymuned lleol a chynhaliwyd sesiynau galw heibio hefyd yn yr ardal. Defnyddiwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | | arolwg ar-lein hefyd fel cyfle i ymgysylltu a chynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus ym mis Ionawr i gwblhau’r broses.<br><br><br><br><br>Yn gyffredinol, cafwyd adborth cadarnhaol gan bob Cyngor Cymuned ynglŷn â datblygu Gofal Ychwanegol. Pryder am y safle a gynigir oedd y prif bryder.<br><br>Nododd Cyngor Tref Biwmares bryderon ynglŷn â'r effaith ar y dref yn ei chyfanrwydd a'i fod yn cyfrannu ymhellach at “heneiddio” y dref, tra bod aelodau o Gyngor Cymuned Llangoed yn gwrthwynebu'r safle arfaethedig a’r bwriad i gau Haulfre o ganlyniad i'r datblygiad, ac roeddent yn glir eu bod yn teimlo y gellid lleoli’r datblygiad ar safle Haulfre.<br><br>Er bod y rhan fwyaf o'r adborth a dderbyniwyd yn erbyn dewis safle Ysgol Biwmares fel y safle sy’n cael ei ffafrio ar gyfer datblygu Gofal Ychwanegol, derbyniwyd rhai sylwadau cadarnhaol a oedd yn cefnogi’r safle i fod ym Miwmares e.e. mi ddaru Cyngor Cymuned Cwm Cadnant fynegi eu cefnogaeth i ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol ym Miwmares. |

# Ymgysylltu Ynglyn â Tai Gofal Ychwanegol yn Ardal Seiriol

## Ymgysylltu efo Cynghorau Tref a Chymuned

| Cyfarfod | Dyddiad |
|---|---|
| Llandegfan | 08.11.17 |
| Llanddona | 15.11.17 |
| Porthaethwy | 20.11.17 |
| Biwmares | 04.12.17 |
| Llangoed | 06.12.17 |

## Sesiynau Galw- Fewn yn y Gymuned

| Ardal | Dyddiad |
|---|---|
| Llanddona | 22.11.17 |
| Biwmares | 27.11.17 |
| Menai Bridge | 30.11.17 |
| Llangoed | 05.12.17 |
| Biwmares | 07.12.17 |

Gofal Ychwanegol
Drop Ins.pdf

## Cyfarfod Cyhoeddus, 15 Ionawr 2018

## Holiadur ar-lein

## Lleoliad Cynllun Tai Gofal Ychwanegol Ardal Seiriol

Mae lleoliad Cynllun Tai Gofal Ychwanegol yn hanfodol bwysig wrth ystyried bod buddsoddiad sylweddol o arian cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi mewn cynllun o'r fath ac i'r perwyl hyn mae rhaid sicrhau yn gyntaf bod angen am dai yn bodoli yn yr ardal dan sylw ac yn fwy penodol byth bod angen am ofal yn bodoli ar gyfer y grŵp cleiant dan sylw.

Gofynnwyd yn ystod cyfarfod Pwyllgor Sgriwtini i roddi ystyriaeth pellach i fod yn lleoli cynllun tai gofal ychwanegol ardal Seiriol ar safle Haulfre, Llangoed yn hytrach na'i leoli ym Miwmares.

Wrth ystyried safleoedd ar gyfer cynlluniau tai gofal ychwanegol y man cychwyn yw edrych ar y lleoliadau mwyaf trefol er mwyn sicrhau bod cyfleusterau fel siopau, meddygfa, swyddfa bost a mynediad tuag at drafnidiaeth cyhoeddus ar gael i'r trigolion er mwyn iddynt allu deimlo'r ran integreiddiedig o'r gymuned ac er mwyn i'r gymuned fod yn ran o'r cynllun.

Pe byddem yn edrych ar gynlluniau o'r fath sydd wedi neu yn y broses o gael eu datblygu yng Ngogledd Cymru byddwn yn gweld eu bod wedi eu datblygu mewn ardaloedd mwy trefol fel Caergybi, Llangefni, Bangor, Y Bala, Porthmadog, Llanfairfechan, Llanrwst, Abergele, Rhyl, Dinbych, Ruthin, Fflint a Wrecsam.

Gan bod y Cyfrif Refeniw Tai yn bwriadu ariannu ein cynllun tai gofal ychwanegol yn ardal Seiriol fydd rhaid sicrhau bod ein achos busnes yn un cadarn.

Y maes cyntaf i roi sylw iddo mewn achos busnes unrhyw ddatblygiad o'r fath yw cadarnhad o'r angen.

Wrth ystyried safle yn Llangoed a safle ym Miwmares mae'r angen am dai yn sylweddol uwch ar gyfer Biwmares gyda 15 ar y rhestr aros am Llangoed  tra bod 38 ar y rhestr aros am Biwmares.  Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau nad oes unrhyw unedau gwag yn bodoli yn y cynllun ac i leihau unrhyw golledion foidiau yn yr achos busnes.

Yn ôl ffeithiau rhannwyd yn ystod y Pwyllgor Sgriwtini mae 40% o boblogaeth Biwmares dros 65 oed sy'n awgrymu yn gryf iawn byddai angen am unedau o'r fath yn cynyddu i'r dyfodol ym Miwmares.

Wrth i ddatblygiad o 40 o unedau tai gofal ychwanegol gael eu datblygu ym Miwmares mae'n debygol byddai hyn yn rhyddhau tai teulu ar gael yn yr ardal wrth i fobl symud i eiddo llai, gall rhain fod yn dai cymdeithasol sy'n cael eu rhyddhau ar gyfer teuluoedd neu dai fyddai yn dod ar werth ar y farchnad agored.  Mae gwir brinder am dai fforddiadwy yn bodoli yn Biwmares.

Byddai disgwyl i unrhyw ddatblygiad tai gofal ychwanegol gyrraedd lefel "Rhagorol" BREEAM ac mae pwyntiau i'w cael am y ffactorau isod a byddai hyn yn gwneud Biwmares yn fwy deiniadol o ran lleoliad:

- Mynediad at drafnidiaeth cyhoeddus (hyd at 5 pwynt)
    - Pwyntiau am agosrwydd datblygiad i'r rhwydwaith drafnidiaeth cyhoeddus er mwyn lleihau llygredd a thagfeydd
- Agosrwydd at gyfleusterau (hyd at 2 bwynt)
    - Pwyntiau am agosrwydd datblygiad at gyfleusterau lleol sy'n debygol o gael eu defnyddio gan defnyddwyr yr adeilad e.e. siop bwyd, meddygfa, peiriant arian, siop bapur
- Cyfleusterau beicio (hyd at 2 bwynt)

    - Mannau cadw beics a llwybrau agos er mwyn annog defnyddio beics
- Lleihau mannau parcio (hyd at 2 bwynt)
    - Pwyntiau ar gyfer datblygiad sy’n fwriadol lleihau mannau parcio er mwyn cyfyngu defnydd ceir
- Cynllun teithio ( 1 pwynt)
    - Pwynt i’w gael os oes cynllun teithio yn cael ei lunio sy’n gosod allan ffyrdd cynaliadwy o deithio

Wedi cysylltu gyda dwy Gymdeithas Dai sy’n gweithredu yma ar yr Ynys a gofyn iddynt am sylwadau mewn perthynas a datblygu cynllun tai gofal ychwanegol yn unai Llangoed a Biwmares, yr ymatebion derbyniwyd y byddent ddim yn ymrwymo i ddatblygu cynllun mewn ardal bentrefol a byddent yn gweld Biwmares yn llawer iawn mwy deiniadol ac addas i gynllun o’r fath.

**Ned Michael**
**Pennaeth Gwasanaethau Tai**
**05.02.2018**

# Site Selection Report

# Seiriol Extra Care Project

**Prepared By:** **Barry. W. Jones BSc (Hons) MRICS**
**Senior Valuation Officer**

# Site Selection Report – Seiriol Extra Care Project

## Contents


| | Page |
|---|---|
| Purpose | 2 |
| Scope | 2 |
| Site Analysis | |
| Site 1 – Beaumaris Primary School | 4 |
| Site 2 – Beaumaris Day Care Centre | 5 |
| Site 3 – Beaumaris Gaol | 6 |
| Site 4 – Bryn Tirion, Beaumaris | 7 |
| Site 5 – Haulfre, LLangoed | 8 |
| Site 6 – Former Beaumaris Social Club | 9 |
| Site 7 – Seiriol Lairds, | 10 |
| Space Planning | 11 |
| Early Cost Advice | 11 |
| Site Selection Matrix | 12 |
| Recommendations | 13 |
| Appendix 1 - Plan | 14 |



Author: Barry. W. Jones BSc (Hons) MRICS
Senior Valuation Officer
Isle of Anglesey County Council


Signed: ………………………………………………………………..  Dated: ……………………………………………

## Purpose

This report has been prepared on behalf of the Extra Care Project group to explore and recommend a suitable site for the development of a new build extra care housing scheme in the Seiriol ward of Anglesey. The recommendations made have been based on the information provided by the Project Group management team.

## Scope

A number of sites have been identified following a careful desk-top study of available land with potential for development within close proximity of key facilities which are within reasonable walking/travel distance as well as easy access to local public transport. As amenities in Llangoed are somewhat limited only the options in Beaumaris can fully satisfy these particular requirements. Each of the sites considered in Beaumaris are located within 600mm of the most relevant town centre facilities such as the shop, library, medical surgery and pharmacy. (as shown on the following illustration (Figure 1).





Figure 1 – Beaumaris Town Centre

Six of the identified sites are in the freehold ownership of the Council with 1 being privately owned. The sites considered in this report are listed as follows:-

Site 1 – The Beaumaris Primary School (Council owned)
Site 2 – Former Day Care Centre, Beaumaris (Council owned)
Site 3 – Bryn Tirion, Beaumaris (Council owned)
Site 4 – Gaol, Beaumaris (Council owned)
Site 5 – Heulfre, Llangoed (Council owned)
Site 6 – Former Social Club, Beaumaris (Privately owned)
Site 7 – Seiriol – Lairds, Beaumaris (Privately owned)

Consultations have been carried out with a number of internal Council Services on the potential of each site to develop a new Extra Care facility. Input has mainly been provided from the Council's Property Service from a land ownership and architectural perspective with additional expertise from Highways and Planning Policy. The Highways Service has provided information on highway access and drainage and written comments have been received from Gwynedd and Anglesey's Joint Planning Policy Unit (JPPU) as well as the Local Planning Authority (LPA).

Officers Consulted:

Gareth W. Thomas – Architectural Services Manager
Huw Percy – Chief Engineer (Highways)
David F. Jones – Development Management (Planning)
Dave Jump – Senior Planning and Conservation Officer
Sean Pritchard – Building Surveyor

The JPPU has provided planning policy comments on each of the sites being considered. The JPPU team are currently working towards a 2016 date for adoption of the JLDP and it is highly likely that the proposed Extra Care development will need to be addressed within that policy.

All of the sites within the town of Beaumaris are located within the defined development boundaries of the Ynys Môn Local Plan and Stopped UDP. None of the option sites are allocated for any specific purpose in either the YMLP or SUDP.

None of the sites would appear to have a high ecological interest, but an appropriate inspection for bats (protected under the Habitats Regulations 2010 etc) would help inform any case involving the demolition of existing buildings. Similarly nesting birds are also protected by law, therefore any buildings to be demolished or any trees or hedges would need to be surveyed or avoided by working outside of the nesting season.

## Site 1 – Beaumaris Primary Schools Site

**Description –** The site extends to approximately 2.07 hectares (5.13 acres) which has been partially developed to provide a two-storey school building extending to approximately 2025m² together with playing fields. The site is already within the ownership of Anglesey County Council and may be available in a reasonable period. The entire site is located within development boundaries however the school building is Grade II listed and cannot be demolished.



**Figure 2 – Beaumaris Primary School**

**Architects** – The site is large enough to cater for an extra care facility however the building is Grade II listed therefore there are limitations with how it could be modified. The site is however a great setting with good external spaces and plenty of parking and delivery space but is not within easy walking distance of the town centre and its amenities. Any conversion of the building would have to be sympathetic to its Grade II listed nature and there are numerous steps in floor levels within the existing building which need to be considered.

**Highways** – This site is acceptable in terms of the highway leading to it. The site is located on a bus route and there are good links down towards the town, however it's a fair distance on foot.

**Drainage** – The existing developed part of the site is adequately serviced although additional surface water attenuation may be required as part of the scheme design.

**Planning** –– The property is situated within the development boundary in the Ynys Mon Local Plan, Stopped Unitary Development Plan and emerging Joint Local Development Plan. There are however listed building constraints.

**Conservation / Listed Building** – The school is a grade II listed building but a very sensitive conversion together with high quality modern extension(s) could be considered. This would mean developing a very sensitive more costly approach than one on a brown or green field site. A small section of the grounds to the left of the site could however be developed as part of the development of the neighbouring property the 'Beaumaris Day Care Centre'.

## Site 2 – Beaumaris Day Care Centre

**Description** – Property knows as the Beaumaris Day Care centre which adjoins the Beaumaris School playing fields. The site extends to approximately 0.16 hectares (0.41 acres) with the building extending to approximately 215 m². The property adjoins the neighbouring Beaumaris School playing field providing scope to extend the site area to accommodate larger development.



Figure 3 - **Beaumaris Day Care Centre**

**Architects** – Site may not be large enough for Extra Care Facility therefore any development may require part of the neighbouring school grounds to form part of it.

**Highways** –The site is located on a bus route and there are good links down towards the town, although it is a fair distance on foot. The access road is considered suitable up to the Maes Hyfryd junction but is too narrow thereafter and would require widening over a stip of the adjoining Beaumaris Primary School playing field which is already owned by Anglesey County Council (forming part of the school grounds) .

**Drainage** – The existing site is adequately serviced. Additional development will increase loading, but it is believed that the drainage system will cope given sufficient surface water attenuation as part of the scheme design. Additional surface water attenuation may still be required as part of the scheme design.

**Planning** – Property is within the development boundary in Ynys Mon Local Plan, Stopped Unitary Development Plan and emerging Joint Local Development Plan.

**Conservation / Listed Building** - It's not a Listed Building but is in the essential setting of the neighbouring school. This site although being a brown field one would need a sensitive approach due to its close proximity to the LB.

## Site 3 – Bryn Tirion, Beaumaris

**Description** – Bryn Tirion is a small cul-de-sac of local authority sheltered bungalows and extends to some 0.92 hectares (2.27 acres). The site is located in an established residential area however roadways are narrow and parking is at a premium. All of the properties are occupied on secured tenancy agreements therefore the properties are not readily available for development.



Figure 4 - **Bryn Tirion, Beaumaris**

**Architects** – Site may not be large enough to accommodate extra care facility and external space is limited for garden and parking. There are also limitations with the setting of any development adjacent to properties due to matters related to of overlooking etc.. Delivery of materials / goods may also prove to be problematic due to the nature of the roads.

**Highways** – Town center site with good walking links. The access road however is to narrow and unsuitable to accommodate any additional traffic caused by a larger development.

**Drainage** –. The existing site is adequately serviced. Additional development will increase loading, but it is believed that the drainage system will cope given sufficient surface water attenuation as part of the scheme design. Additional surface water attenuation may still be required as part of the scheme design.

**Planning** – The site is situated within an established residential area and is within the development boundary contained within the Ynys Mon Local Plan, Stopped Unitary Development Plan and emerging Joint Local Development Plan. Proximity of dwellings surrounding site may however be problematic to any development proposals.

**Conservation / Listed Building** –This site is in the Area Of Outstanding Natural Beauty but just outside of the designated special conservation area . The site bounders Bryn Cottage which is inside the special designated conservation area. There are some LB in the surrounding area but the potential impact of a proposed development on LB settings would be difficult to assess in the absence of the details at this time.

## Site 4 – Gaol, Beaumaris

**Description** – Historic Grade I listed former prison located close to the centre of Beaumaris. The site extends to approximately 0.17 hectares 0.42 acres and has been fully developed. Roads leading to the property are extremely narrow with a general lack of footways.



Figure 5 - Gaol, Beaumaris

**Architects** – The site is not considered being large enough and the existing building is Grade I listed.

**Highways** – Town center site but the roads around it are narrow for vehicles not to mention construction traffic. There is also lack of footways around the site.

**Drainage –** The existing developed part of the site is adequately serviced however additional development will increase loading which may require improvements to the drainage system.

**Planning** – The property is within development boundary in Ynys Mon Local Plan, Stopped Unitary Development Plan and emerging Joint Local Development Plan. Any development however would be extremely difficult having regard to the Grade I listed nature of the property, the proximity of nearby properties and the narrow roadways.

**Conservation / Listed Building** – This building and the site is a Scheduled Ancient Monument (SAM), a Grade I Listed Building, in the special designated Conservation Area, in an Area of Outstanding Natural Beauty, in the setting of numerous Listed Buildings and in the essential setting of Beaumaris Castle designated SAM, Grade I LB and a World Heritage Site (WHS). It's not impossible but Scheduled Monument Consent (SMC Cadw) and Listed Building Consent (LBC Cadw) applications would be extremely complicated and costly to prepare with no guarantee of a successful outcome.

## Site 5 – Haulfre, LLangoed

**Description** – A Local Authority owned care home facility with grounds extending to approximately 8.41 hectares (20.79 acres).



Figure 6 - Haulfre, LLangoed

**Architects** – Site is large enough to accommodate a development of a large scale however there may be limitations to how it can be modified due to its Grade II listed nature and extensive costs likely for refurbishment or extensive demolition. The site is situated in a great setting with good external spaces and plenty of parking and delivery space however there is no option for residents to walk into a town.

**Highways** –There are bus services into the village of Llangoed however the subject site is outside the village and there are no walkways linking it back to the village. The road is also narrow for vehicles and construction vehicles.

**Drainage** – The existing developed part of the site is adequately serviced. Additional development will increase loading, but it is believed that the drainage system will cope given sufficient surface water attenuation as part of the scheme design.

**Planning** – The property is outside of the development boundary in Ynys Mon Local Plan and Stopped Unitary Development Plan but is classed as a countryside cluster in the emerging Joint Local Development Plan. The land is also currently classed as a countryside location designated as being of Outstanding Natural Beauty. Use has been established on site but there may still be some listed building issues.

**Conservation / Listed Building** - Haulfre Stables (former) and Outbuildings are Grade II Listed Buildings. However, the other buildings on the site are not listed and there is clearly scope with appropriate planning in such large grounds to give this one serious consideration.

## Site 6 – Social Club, Beaumaris

**Description** – A privately owned former social club located close to the Beaumaris Town Centre. 0.07 Hectares 0.237 acres. The site comprises 2 mid terraced properties together with a former social club building to the rear. Access is problematic due to the nature of the roads and privately owned garages to the rear of the property. Space is also limited and the site is adjacent to the Church.



Figure 7 - Social Club, Beaumaris

**Architects** – The site is somewhat irregularly shaped and does not seem large enough. There may also be limitations with the setting of any development adjacent to the Church. Demolition costs may also be problematic together with there being major issues for contractor deliveries and compound areas. Additionally there is no external space for garden or parking.

**Highways** – Town center site but Steeple Lane is narrow and there is no footway alongside it. Difficult access for vehicles and construction traffic

**Drainage** – The existing developed part of the site is adequately serviced however additional development will increase loading which may require improvements to the drainage system.

**Planning** – Within development boundary in Ynys Mon Local Plan, Stopped Unitary Development Plan and emerging Joint Local Development Plan. Development of the property must be sympathetic and in keeping with the character and nature of nearby listed buildings.

**Conservation / Listed Building** –A long standing problem site located inside the special designated CA, in the AONB, in the setting of numerous LB's and in the essential setting of Beaumaris Castle designated SAM, Grade I LB and a World Heritage Site (WHS) site.

### Site 7 – Seiriol – Leirds, Llanfaes

**Description** – A privately owned site extending to approximately. 5.96 Hectares (14.73 Acres). There are a number of industrial buildings on site which would require demolition and it is quite likely the ground I contaminated in part.



Figure 8 – Seiriol – Leirds, Llanfaes

**Architects** – Large site which may be suitable for development subject to statutory consents. Demolition costs likely to be high though and probable that the ground is contaminated. The setting however is great with good external spaces and plenty of parking and delivery space but there is no option for residents to walk to a town.

**Highways** – Site within reach of bus service but far from the Town of Beaumaris by foot. Road network is acceptable however no pavements alongside it leading to the Town of Beaumaris.

**Drainage** – –Land is unserviced but foul and surface water connections are available below the highway leading into Llanfaes. Additional development will increase loading, but it is believed that the drainage system below the highway will cope given sufficient surface water attenuation as part of the scheme design.

**Planning** – Not within a development boundary in the Ynys Mon Local Plan allocated in Stopped Unitary Development Plan for 'Employment' use. Llanfaes is classed as a countryside cluster in the emerging Joint Local Development Plan but there is no allocation for the subject site.
Previously developed land in a countryside location designated as being of Outstanding Natural Beauty.

**Conservation / Listed Building -** Part of this site is a SAM (Old Priory), its located inside the AONB and it has TPO's within the site. No LB's and outside of the CA but never the less constrained to some degree by SAM and TPO's.

## Space Planning

The Council's Architect provided a space planning assessment for  a similar proposed facility based in the Amlwch and Llangefni areas..

His conclusions are as follows:-

- A **56** unit development is estimated to require a **6,600 m²** building.
- A **48** unit development is estimated to require a **5,825 m²** building.
- A **40** unit development is estimated to require a **5,055 m²** building.

## Early Cost Advice

Building construction cost data has been sourced from the Building Cost Information Service of the Royal Institution of Chartered Surveyors (BCIS). Building cost indices are published on a quarterly basis for various types of property on a square meterage floor area basis. These figures are exclusive of professional fees, external works and contingencies, but are inclusive of overheads, profit and main contractors preliminary costs. There is no specific category within the BCIS's data for 'Extra Care' facilities, mainly because insufficient samples have been analysed. The closest property type is considered to be:-

BCIS – Sheltered Housing with shops, restaurants or the like – The current construction rate is recorded as £1,421/m² (rebased to the region of Wales from national statistics).

To allow for external works and contingency elements of the scheme I would advise increasing this rate to £1,600/m².

A **56** unit development **= £10.56 m**

A **48** unit development **= £9.32 m**

A **40** unit development = **£8.09 m**

An allowance for professional and project fees is estimated at 9% of the building cost.

## Site Selection and scoring Matrix

Based on the information collated during the course of the preparation of this report, a matrix has been prepared to score each of the sites being considered on a number of criteria, with a view to narrowing the options. Each criterion has been given equal weighting.

**Planning Permission** – Consideration of the likelihood of obtaining planning permission based on either existing policies or the emerging Joint Local Development Plan. A score has been applied where 5 is the most likely and 1 is the least likely.

**Suitability of site for development** – Based on the physical location, known site constraints and conditions. A score has been applied where 5 is the most suitable and 1 is the least suitable.

**Access** – Consideration has been given to the proximity of the sites to the town centre in relation to pedestrian links, the ability to access the land with and without vehicles. A score has been applied where 5 has the most favourable access and where 1 has the least favourable access.

**Cost** – Consideration has also been given to the value of land for development, either the cost of purchase or the loss of asset value income from any potential disposal. Consideration has also been made in relation to the effect of the site clearance costs where existing buildings or structures are present. A score has been applied between 5 for the least expensive and 1 for the most expensive.

**Availability and Timing** – Previously undeveloped greenfield sites are potentially available for development very quickly; however, brownfield, occupied or existing developed sites will take longer to become available. A score has been applied between 5 for the sites that are currently available and 1 for the sites that are least available.

**Services** – It is considered that the availability of electricity and water supplies will be fairly similar over each option. The main consideration of this criterion is the proximity and location of foul and surface water drainage. A score has been applied between 5 where adequate drainage connections are known to be present and 1 where adequate provisions are not present.

| | Site 1 – Beaumaris Primary School | Site 2 – Beaumaris Day Care Centre | Site 3 – Beaumaris Gaol | Site 4 – Bryn Tirion, Beaumaris | Site 5 – Haulfre, LLangoed | Site 6 – Former Beaumaris Social Club | Site 7 – Seiriol Lairds, |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Likelihood of Planning Permission** | 4 | 5 | 2 | 3 | 4 | 4 | 3 |
| **Site Suitability** | 3 | 4 | 1 | 3 | 4 | 2 | 3 |
| **Access to and from the site** | 5 | 3 | 2 | 3 | 4 | 3 | 4 |
| **Cost or value of land** | 4 | 5 | 2 | 3 | 2 | 3 | 2 |
| **Availability and timing** | 3 | 5 | 2 | 1 | 3 | 4 | 3 |
| **Access to existing services** | 4 | 4 | 4 | 4 | 3 | 3 | 2 |
| Total | **23** | **26** | **13** | **17** | **20** | 19 | 17 |


## Recommendations

It is my option that, from the considered sites, the preferred option for the development of a new Extra Care facility in Seiriol should be the former Day Care Centre Site together with the part of the land directly behind it which forms part of the neighbouring Primary School playing field. It was also the most favoured site by the officers from Planning, Highways and Architectural Services during my consultations

Options 1, and 2 scored closely in the matrix using the initial criteria; however, I favour the Day Care centre site for the following reasons:

1. The site is readily available and within the ownership of Anglesey County Council and is deemed surplus.
2. It is the most favourable from a Planning, Highways and Architectural perspective.
3. The site can be extended to within the grounds of the neighbouring Council Owned Primary School.
4. There are no operational services on the site which I believe would make the site available for development sooner than the others.
5. There are no restrictions and the building is not situated within a conservation area.
6. There are service provisions to the site.
7. The site is located close to a bus route.

## Appendix 1 – Recommendation Former Day Care Centre Site




Beaumaris Day Care centre (Edged Red) together with part of neighbouring school field (Edged Blue)

Total area approximately 0.49 Hectares (1.2 Acres)

**Atodiad D**

**Adborth o'r Holiadur**

| **Ydych chi'n cytuno y dylem ddatblygu o leiaf 39 o fflatiau gofal ychwanegol hunangynhwysol yn Ne'r Ynys?** | |
|---|---|
| Ydw | 47 |
| Nac ydw | 34 |

| **Ydych chi'n hapus gyda'r safle a ffefrir ar gyfer y datblygiad hwn?** | |
|---|---|
| Ydw | 24 |
| Nac ydw | 56 |
| Dim ateb penodol wedi ei roi | 1 |

| **Ydych chi'n cytuno y dylai'r Cyngor ystyried opsiynau i ariannu'r datblygiad drwy'r Cyfrif Refeniw Tai** | |
|---|---|
| Ydw | 47 |
| Nac ydw | 32 |
| Dim ateb penodol wedi ei roi | 1 |
| Efallai | 1 |

I gloi, mae 58% yn gefnogol i'r cysyniad o Dai Gofal Ychwanegol ond nid yw 69% o'r farn mai safle Ysgol Biwmares yw'r lle iawn ar gyfer y datblygiad. Mewn perthynas â'r Cyngor yn ystyried opsiynau i ariannu'r datblygiad drwy'r Cyfrif Refeniw Tai, 'roedd 58% yn cytuno â hyn.

'Roedd mwyafrif y bobl a gymerodd ran yn yr ymgysylltiad wedi gwneud sylwadau hefyd.

Nid oedd rhai pobl o'r farn bod angen Tai Gofal Ychwanegol yn yr ardal gan fod darpariaeth tai eisoes ar gael ar gyfer pobl hŷn, yn enwedig ym Miwmares. Derbyniwyd nifer o sylwadau yn nodi bod angen mwy o dai yn yr ardal ar gyfer pobl iau a theuluoedd neu'n cyfeirio at yr angen i gael cydbwysedd o bobl o wahanol oedrannau a mathau gwahanol o lety yn yr ardal. Mae gan rai bryderon nad oes cymhelliant i bobl iau fyw yn yr ardal. Mewn ymateb, gwnaed ymrwymiad ym mis Hydref 2015 i ystyried opsiynau o ran safle priodol yn Ne Ynys Môn ar gyfer datblygu Tai Gofal Ychwanegol gan y gwelwyd bod angen datblygiad o'r fath yn y rhan hon o'r Ynys.

Mae nifer o bobl wedi tynnu sylw at y ffaith bod safle'r ysgol ar ben bryn serth a'i fod yn anodd i bobl hŷn a phobl â phroblemau symudedd fynd yn ôl ac ymlaen i'r dref a chael mynediad i fwynderau. Mae rhai pobl hefyd wedi dangos pryderon ynghylch argaeledd gwasanaeth bws o'r lleoliad a chyflwr y palmentydd. Mewn ymateb, mae yna ffyrdd o sicrhau bod gan drigolion y

Cynllun Gofal Ychwanegol fynediad at fwynderau lleol. Enghraifft o hynny fyddai darparu gwasanaeth i fynd â phobl i lawr i'r dref mewn car / bws mini o'r Cynllun Gofal Ychwanegol.

Mae llawer o bobl wedi dweud bod yr ysgol yn y lle anghywir. Mae rhai wedi awgrymu safleoedd eraill megis Castle Meadow, Haulfre, yr hen Glwb Cymdeithasol, Ysgol Llangoed, tir ym Mhorthaethwy, Llanfaes, safle Laird a'r maes parcio wrth ymyl Parc Hamdden Happy Valley. Mae rhai hefyd wedi awgrymu defnyddio'r hen ganolfan ddydd. Mewn ymateb, mae'r Adroddiad Dewis Safleoedd eisoes wedi archwilio rhai o'r safleoedd a awgrymwyd ond nid ydynt wedi sgorio mor uchel â safle'r ysgol am amryw o resymau a dyna pam mai safle'r ysgol yw'r un a ffefrir.

Er iddo gael ei egluro bod yr ymarfer ymgysylltu hwn yn hollol ar wahân i'r ymgynghoriad ynghylch dyfodol ysgolion ar yr Ynys ac na fyddai'r datblygiad Tai Gofal Ychwanegol yn effeithio ar ganlyniad yr ymgynghoriad ynghylch yr ysgolion, mae nifer o bobl wedi gwneud sylwadau ar ddyfodol Ysgol Biwmares. Mae llawer o bobl eisiau i'r ysgol barhau i fod ar agor ac nid ydynt yn dymuno ei gweld yn cau. Mae gan rai pobl bryderon ynghylch yr effaith ar yr ardal chwarae ar gyfer plant pe bai'r adeilad ar safle'r ysgol ac wedi nodi y byddai angen cau'r ysgol yn ystod y cyfnod o adeiladu'r datblygiad Gofal Ychwanegol. Mewn ymateb, gall y datblygiad Gofal Ychwanegol fynd rhagddo p'un a fydd yr ysgol yn cau ai peidio.

Mae yna lawer o sylwadau ynglŷn â Haulfre. Nid yw pobl eisiau ei weld yn cau ac mae eraill wedi awgrymu y gellid defnyddio Haulfre ar gyfer datblygu Tai Gofal Ychwanegol. Mewn ymateb, mae'r penderfyniad eisoes wedi'i wneud i gau Haulfre gan nad yw'r adeilad yn addas i'r pwrpas ac mae Haulfre wedi cael ei ystyried a'i sgorio fel rhan o'r broses Dewis Safleoedd ac nid oedd yn sgorio mor uchel â safle'r ysgol o ran addasrwydd i ddatblygu Cynllun Gofal Ychwanegol ac felly ni chafodd ei gynnig fel y safle a ffefrir.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **19.02.18** |
| **Pwnc:** | Adroddiad Cynnydd – Gwasanaeth Plant a Theuluoedd |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Fôn Roberts<br>01248 752708<br>fonroberts@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Yn berthnasol i'r holl Aelodau |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Gofynnir i'r Pwyllgor:

1.1 gadarnhau a yw'n fodlon â'r camau a gymerwyd i fynd ati i weithredu'r Cynllun Gwella ar gyfer y Gwasanaeth a chyda chyflymder y cynnydd a wnaed

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Arolygwyd Gwasanaethau Plant Ynys Môn gan AGGCC yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2016. Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar sut mae plant a theuluoedd yn cael eu grymuso i gael mynediad at wasanaethau cymorth a gofal ac yn edrych ar ansawdd y canlyniadau a gyflawnir ar gyfer plant sydd angen cymorth, gofal a chefnogaeth a / neu blant y mae angen eu diogelu, gan gynnwys plant sydd wedi dechrau derbyn gofal yn ddiweddar gan yr awdurdod lleol. Gwerthusodd yr arolygiad ansawdd y trefniadau arweinyddiaeth, rheoli a llywodraethu sydd mewn grym i ddatblygu a chynorthwyo'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. Cyhoeddwyd adroddiad terfynol AGGCC ar 7 Mawrth 2017. Roedd 14 o argymhellion yn yr adroddiad, sef saith argymhelliad yr oedd rhaid eu blaenoriaethu a saith i'w gweithredu erbyn Mawrth 2018 .

Mewn ymateb i'r canfyddiadau a'r argymhellion, mae'r awdurdod wedi rhoi'r trefniadau canlynol ar waith:

- Cynllun Gwella Gwasanaeth diwygiedig (CGG), sy'n ymgorffori'r holl Argymhellion a wnaed yn Adroddiad Arolygu AGGCC yn erbyn y 5 thema.

- Rhoi trefniadau newydd ar waith i Reoli Prosiectau, gyda Grŵp Gwella Mewnol o swyddogion yn cyfarfod bob mis, ac yn adrodd i'r Uwch Dîm Rheoli ac i'r Pwyllgor Gwaith.
- Sefydlu Panel newydd o Aelodau Etholedig yn dilyn yr etholiadau lleol a gynhaliwyd yn ddiweddar, a fydd yn adrodd i'r Pwyllgor Sgrwitini Corfforaethol.

Ffocws y gwaith:

**Ailstrwythuro**

Ailstrwythurwyd y gwasanaeth hwn ar 4 Hydref (CGG 4.2) ac mae 8 Arweinydd Ymarfer bellach yn gyfrifol am eu Grwpiau Ymarfer eu hunain. Mae angen gwneud rhagor o waith i gwblhau'r ailstrwythuro, gan gynnwys adolygu'r trefniadau ar gyfer y Tîm Lleoli Plant, gwneud y defnydd gorau o Weithwyr Cymorth i gefnogi teuluoedd, yn ogystal â sicrhau cymorth gweinyddol priodol i Grwpiau Ymarfer fel y gallant gyflawni eu cyfrifoldebau statudol.

**Recriwtio a Chadw**

Mae gallu recriwtio a chadw staff sydd wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc yn Ynys Môn yn hollbwysig os ydym am gyflawni'r dyletswyddau y mae'r ddeddfwriaeth yn eu gosod arnom. Mae gweithlu ansefydlog yn y blynyddoedd diwethaf, ynghyd â chynnydd sylweddol yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n Derbyn Gofal ac sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, wedi rhoi straen sylweddol ar ein gwasanaethau.

Fel y soniwyd yn flaenorol, dechreuodd y Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Ymyrraeth Gynnar ac Atal yn ei swydd ym mis Awst a dechreuodd yr holl Arweinwyr Ymarfer ym mis Medi 2017. Dychwelodd y Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro i'w swydd fel Rheolwr Gwasanaeth – Ymyrraeth Ddwys ym mis Rhagfyr 2017. Recriwtiodd yr adran Bennaeth Gwasanaeth parhaol a dechreuodd yn ei rôl ym mis Rhagfyr 2017.

Ar ddiwedd 2017 a dechrau 2018 llwyddwyd i recriwtio 8 o Weithiwr Cymdeithasol newydd ac rydym wedi parhau yn ein hymdrechion i recriwtio 5 o Weithwyr Cymdeithasol eraill. Mae 5 o staff asiantaeth yn cyflawni'r swyddi yma ar hyn o bryd. Mae 1 swydd wedi'i llenwi a bydd y gweithiwr cymdeithasol a benodwyd yn dechrau gyda'r awdurdod yng nghanol mis Ionawr 2018. Mae'r ymdrechion i recriwtio yn parhau a hysbyswyd yn 'The Guardian' (ar-lein) a 'Community Care' (sef cyfnodolyn Gwaith Cymdeithasol).

Yn 2017 a 2018 penodwyd 5.5 Swyddog Ymgysylltu ar gyfer Teulu Môn a llenwyd 1 swydd cyfwerth ag amser llawn arall trwy Grant Teuluoedd yn Gyntaf sy'n gadael hanner swydd sydd heb ei llenwi yn nhîm Teulu Môn. Rydym hefyd wedi penodi i 3 swydd arall yn y Tîm o Amgylch y Teulu ac mae'r staff hyn bellach wedi ymuno â'r gwasanaeth.

Mae'r Tîm Teuluoedd Gwydn bellach wedi'i staffio'n llawn ac ar hyn o bryd mae'n gweithio gydag 8 o deuluoedd i atal yr uned deuluol rhag torri i lawr, er mwyn cynorthwyo fel y gall

plant fyw gartref. Mae'r tîm hefyd yn gweithio gyda rhai teuluoedd ar gynllun aduno fel bod plant yn gallu gadael gofal a dychwelyd i fyw'n ddiogel gyda'u teuluoedd. Bydd Gweithiwr Cymorth Teulu ychwanegol yn cael ei recriwtio i'r tîm hwn gan ddefnyddio cyllid 'Trothwy Gofal'.

Buom yn llwyddiannus yn recriwtio Ymgynghorydd Personol ychwanegol, sef swydd a ariennir trwy Gronfa Dewi Sant gan Lywodraeth Cymru, a hynny er mwyn darparu cymorth ymarferol ac emosiynol i bobl ifanc sy'n gadael gofal pan fyddant yn 15 i 24 oed.

Fel Gwasanaeth, rydym wedi datblygu trefniadau Hyfforddeiaeth Gwaith Cymdeithasol yn fewnol fel y gall 2 o'n staff hyfforddi i fod yn Weithwyr Cymdeithasol cymwys (cwrs 2 flynedd). Gan ein bod wedi gweld trosiant sylweddol o staff dros y 18 mis diwethaf nod y strategaeth hon yw tyfu ein gweithwyr ein hunain i sicrhau bod gennym Weithwyr Cymdeithasol cymwys a fydd yn gweithio i'r Gwasanaeth am o leiaf 2 flynedd ar ôl cymhwyso (CGG 1.2).

Ar hyn o bryd mae gan y gwasanaeth 5 o swyddi gwag ar gyfer Gwaith Cymdeithasol ac mae'n mynd ati'n rhagweithiol i geisio recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol profiadol i'r swyddi hyn. Ar hyn o bryd gweithwyr asiantaeth sy'n cyflawni'r swyddi ac felly mae yna oblygiadau ariannol i'r gwasanaeth.

**Polisïau**

Mae'r Strategaeth Gweithlu, a gymeradwywyd dros yr haf, bellach yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan staff y sgiliau, yr hyfforddiant a'r gefnogaeth i fedru cyflawni eu swyddi yn effeithiol a darparu'r cymorth sydd ei angen ar blant, pobl ifanc a theuluoedd ym Môn. Byddwn yn parhau i adolygu'r ddogfen hon, nid yn unig mewn perthynas â recriwtio staff, ond yn bwysicach fyth, o ran cadw'r staff sydd gennym.

Goruchwyliaeth – lansiwyd y Polisi Goruchwylio newydd ym mis Mawrth 2017, ar ôl ymgynghori â staff ac fe'i defnyddir i adolygu achosion yn fisol ac i weithredu'n gynnar os oes angen unrhyw newid yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae amlder goruchwyliaeth yn cael ei fonitro ac mae archwiliad wrthi'n cael ei gynnal fel ein bod yn sicr bod y polisi'n cael ei weithredu'n llawn.

Mae'r Gwasanaeth Plant wedi datblygu pum Canllaw Ymarfer Amlasiantaethol fel ymateb uniongyrchol i Arolygiad AGGCC gyda'r nod o gryfhau cydweithio amlasiantaethol. Maent yn canolbwyntio ar ddarparu arweiniad clir ar:

- Sut i wneud Atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant
- Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant – Trothwyon Ymchwilio
- Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant – Gweithwyr Allweddol a Grwpiau Craidd
- Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant – Trothwyon Cofrestru.
- Sut i reoli cyhuddiadau amddiffyn plant a wneir yn erbyn Canllawiau Ymarfer Proffesiynol

**Sicrhau Ansawdd**

Mae'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd wedi'i gymeradwyo o fewn y Gwasanaeth.

Bydd y gwasanaeth yn defnyddio ystod eang o ffynonellau tystiolaeth i ategu'r adroddiad gwerthuso ymarfer chwarterol megis:

- Archwiliadau misol o ffeiliau achos
- Archwiliadau misol o ffeiliau achos – Yr Uned Ddiogelu a Gwella Ansawdd
- Arsylwi Ymarfer
- Archwiliadau Goruchwylio
- Dysgu oddi wrth a chyda'n partneriaid
- Dysgu gan bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau
- Goruchwylio a Herio
- Dysgu oddi wrth ein staff
- Swyddog Adolygu Annibynnol a Chydlynydd Amddiffyn Plant

Dangosodd yr Adroddiad Gwerthuso Ymarfer ar gyfer chwarter 2 fod arferion cofnodi yn parhau i fod yn anghyson, er bod tystiolaeth o welliant mewn rhai archwiliadau.

Mae Cynllun Gwella Ymarfer yn cael ei ddatblygu yn 2018 a bydd yn canolbwyntio ar ddatblygu a chryfhau arferion Gwaith Cymdeithasol a hefyd ymarfer staff eraill yn yr adran.

Er gwaethaf yr anghysondeb mewn ymarfer, mae gennym dystiolaeth gadarnhaol bod y gweithlu yn gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd a bod hynny'n arwain at well canlyniadau. Mae'r Gwasanaethau Plant wedi mabwysiadu Model Risg Thornton / Gwynedd i barhau i gefnogi gweithwyr cymdeithasol i weithio'n rhagweithiol gyda theuluoedd i reoli risg – gan dreulio llawer mwy o amser yn gweithio ochr yn ochr â nhw a'u helpu i newid fel bod y teulu yn lle diogel i'w plant.

Mae'r holl staff yn parhau i fynychu hyfforddiant ar sail barhaus, sy'n cynnwys Therapi Datrysiadau Byr, Cyfweld Ysgogol ac Asesu Risg i enwi ond ychydig. Bydd Arweinwyr Ymarfer nawr yn helpu staff i roi eu dysgu ar waith.

Mae llwyth achosion y Gweithwyr Cymdeithasol bellach yn unol â'r hyn a ystyrir yn arfer 'gweithio'n dda'.

**Partneriaid**

Mae'r gwaith o gryfhau rôl yr Awdurdod Lleol fel rhiant corfforaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi'i gytuno gan y Panel Rhiant Corfforaethol gyda'r nod o sicrhau bod Cyngor Sir Ynys Môn yn ymgymryd â'i ddyletswyddau'n llawn i sicrhau y gall pobl ifanc gyrraedd eu potensial llawn a throsglwyddo'n llwyddiannus i fyd oedolion.

Parhaodd y Gwasanaeth i gryfhau ei berthynas ag asiantaethau partner ar bob lefel. Ym mis Ionawr 2018 bydd grŵp aml-asiantaeth gweithredol yn cyfarfod i siarad am faterion ar gyfer ymarferwyr ar 'lefel grŵp' a hefyd i feithrin perthynas a chael mwy o ddealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau ei gilydd.

| |
|---|
| Mae Gwasanaethau Ataliol yn cael eu hadolygu, a datblygir strategaeth newydd ar y cyd â phartneriaid er mwyn sicrhau gwasanaethau mwy effeithiol i gynorthwyo teuluoedd a chomisiynu Grant Teuluoedd yn Gyntaf i leihau nifer y plant a'r bobl ifanc y mae angen eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac y mae angen darparu gofal iddynt.<br><br>Mae'r rhaglen ar gyfer cyfarfod Panel yr Aelodau Etholedig a'r Uwch Reolwyr wedi parhau i ganolbwyntio ar fonitro a herio gweithrediad y Cynllun Gwella Gwasanaeth, gan ddal y Cyfarwyddwr a'r Gwasanaeth i gyfrif. Cynhaliwyd pum cyfarfod hyd yn hyn.<br><br>Mae’r ymweliadau Laming (ymweliadau gan aelodau etholedig ac Uwch Swyddogion y Cyngor) yn parhau i ddigwydd. Casglwyd adborth o’r ymweliadau hyn ac mae’r sylwadau a gafwyd wedi bod yn gadarnhaol hyd yn hyn a chynigiwyd rhai safbwyntiau defnyddiol ac adeiladol. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>1.1 gadarnhau a yw’n fodlon â'r camau a gymerwyd i fynd ati i weithredu'r Cynllun Gwella ar gyfer y Gwasanaeth a chyda chyflymder y cynnydd a wnaed |

| **CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| |

| **D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y plant a phobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn ystod 2015-16; rhoddodd hynny bwysau ychwanegol ar gyllidebau'r Gwasanaeth ac mae'r sefyllfa honno’n parhau. Mae'r Gwasanaeth wedi cymryd nifer o gamau yn y misoedd diwethaf i reoli a lleihau'r pwysau hyn. Ar hyn o bryd mae'r Panel Sgriwtini Cyllid yn edrych ar y pwysau cost hyn yn fanwl, a bydd yn adrodd i'r Pwyllgor Sgriwtini ar ei ganfyddiadau maes o law |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | √ |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** | |

| | | |
|---|---|---|
| | (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | Cafodd yr adroddiad cynnydd ar y gwelliannau yn y Gwasanaethau Plant dros y tri mis diwethaf ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 31 Ionawr, 2018.<br><br>Nodwyd bod y cynnydd yn parhau a bod Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) wedi adolygu yn ddiweddar iawn y gwaith a wnaed o ran gweithredu'r cynllun gwella ar gyfer y Gwasanaethau Plant. I grynhoi, dywedodd CIW bod gan y Gwasanaethau Plant sylfeini cadarn yn awr ac y bu gwelliant cadarnhaol, graddol.<br><br>Wedi trafod y mater, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol nodi'r camau a gymerwyd hyd yma i weithredu'r cynllun gwella yn y Gwasanaethau Plant ac i argymell i'r Pwyllgor Gwaith fod cyflymder y cynnydd yn ddigonol ar hyn o bryd.<br><br>Cafodd yr adroddiad eu cyflwyno i'r cyfarfod Busnes y Pwyllgor Gwaith ar y 5 Chwefror 2018.<br><br>Dim sylwadau i nodi. |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |

| 7 | Arall | |
|---|---|---|

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad 1 - Argymhellion AGGCC a'r cysylltiad â'r Cynllun Gwella Gwasanaeth<br>Atodiad 2 - Cynllun Gwella Gwasanaeth<br>Atodiad 3 - AGGCC – Hunanasesiad Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Ynys Môn<br>Atodiad 4 - Llythyr gan AGGCC – dyddiedig 11.01.18 |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

**Atodiad 1**

Argymhellion Adroddiad yr AGGCC – Gwasanaethau Plant [Mawrth, 2017]
*CSSIW Report Recommendations – Children's Services [March, 2017]*

## **Fel blaenoriaeth**:

1. Dylai'r awdurdod fwrw ymlaen â'i ymrwymiad i ddatblygu fframwaith ar gyfer darparu gwaith ataliol gyda phlant a theuluoedd a fydd yn darparu gwasanaeth integredig yn ogystal â darparu help a chymorth cynnar sy'n oedi'n effeithiol yr angen am ofal a chymorth. CG 4.4

2. Dylid sefydlu systemau sicrhau ansawdd a threfniadau hyfforddiant aml-asiantaeth effeithiol i sicrhau bod y staff a'r partneriaid yn deall y trothwyon ar gyfer asesu gwasanaethau plant statudol a'u bod yn cael eu cymhwyso'n gyson; dylai hyn gynnwys datblygu protocol trothwyon diogelu plant aml-asiantaeth sy'n ymgorffori'r canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru. CG 3.4

3. Dylai uwch arweinwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu barhau i gydweithio'n rhagweithiol i sicrhau gwelliannau i ansawdd, cysondeb ac amseroldeb ymholiadau diogelu plant. CG 2.2

4. Dylai'r cyngor barhau i gynorthwyo uwch arweinwyr i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o natur gymhleth a'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau plant, er mwyn rhoi sicrwydd iddynt hwy, eu partneriaid, staff a chymunedau bod eu cyfrifoldebau yn cael eu cyflawni i'r eithaf. CG 1.5

5. Dylid datblygu strategaeth gadarn ar gyfer y gweithlu i gynnwys nodau byrdymor, tymor canolig a hirdymor er mwyn recriwito a chadw gweithwyr cymdeithasol. CG 1.1

6. Dylid adolygu'r trefniadau ar gyfer rheolwyr timau ac uwch ymarferwyr er mwyn sicrhau capasiti digonol i ddarparu arolygiaeth gan reolwyr o benderfyniadau a herio a chyfeirio staff ar draws y gwasanaeth; dylid bod rhaglen arweinyddiaeth a datblygiad ar gael er mwyn datblygu gwytnwch. CG 1.4

7. Dylai uwch reolwyr gymryd camau i wella amlder, cysondeb ac ansawdd arolygiaeth staff rheng flaen; mae'n rhaid cyflwyno dull sicrwydd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac ansawdd. CG 1.3

## **Yn ystod y 12 mis nesaf:**

8. Mae'n rhaid i gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref ar gyfer y gwasanaethau plant barhau i sicrhau bod y gwelliannau sydd eu hangen ar wasanaethau yn cael eu blaenoriaethu a bod cyflymder y gwelliannau yn cyflymu ac yn cael ei gynnal. CG 1.5

9. Dylid sefydlu trefniadau aml-asiantaeth i atgyfnerthu cynlluniau gweithredol a fydd yn cynorthwyo cydlyniad effeithiol o waith cwblhau Fframweithiau Asesu ar y Cyd gan bartneriaid statudol. CG 2.3

10. Dylid gwella ansawdd asesiadau a chynlluniau i sicrhau eu bod o ansawdd da yn gyson, gyda ffocws clir ar anghenion, risgiau a chryfderau plant a theuluoedd, a bod dealltwriaeth glir o'r canlyniadau, amserlenni a'r cyfrifoldebau am weithredoedd a ddymunir. CG 2.1

11. Dylid gwella ansawdd a chysondeb cofnodion; dylai pob aelod o staff a rheolwr sicrhau bod eu cofnodion o safon dda, eu bod yn gyfredol a'u bod yn cael eu storio'n systemataidd. CG 2.1

12. Dylai'r awdurdod lleol a'i bartneriaid gydweithio i ddatblygu dull gydlynol ar gyfer casglu a dadansoddi gwybodaeth am anghenion cymunedau sy'n cynnwys lleisiau plant a theuluoedd. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i hysbysu'r broses o greu cynlluniau strategol er mwyn cyflawni aliniad effeithiol darpariaeth gwasanaethau rhwng gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth, y sector ataliol a'r gwasanaethau statudol. CG 4.4

13. Mae angen ymgorffori trefniadau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd, yn cynnwys craffu ar y galw am wasanaethau ac archwilio ansawdd arfer yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod gan reolwyr ar bob lefel wybodaeth amserol, berthnasol a chywir am berfformiad a sicrhau ansawdd i'w galluogi i wneud eu swyddi yn effeithiol ac i gyflawni gwelliannau. CG 3.2

14. Dylid monitro baich achosion ac adroddiadau ar ansawdd perfformiad gweithwyr yn barhaus er mwyn sicrhau bod capasiti digonol i alluogi'r gweithwyr i ymgysylltu'n effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd. CG 3.

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | **Gweithlu hyderus a chymwys gyda chapasiti digonol i ddarparu gwasanaeth cyson ac effeithiol** | | | | | | |
| 1.1 | Datblygu'r **Strategaeth Gweithlu** i gynnwys:<br><br>• Arfer dda o ran recriwtio<br>• Cadw a chefnogi staff<br>• Trefniadau cynefino clir<br>• Cyfeillio<br>• Hyfforddi a mentora<br>• Cysgodi<br>• Cyfleoedd gwell i hyfforddi a datblygu ar ôl cymhwyso<br>• Canllawiau blwyddyn gyntaf o ymarfer (nid oes angen hwn gan ein bod yn dilyn Canllawiau y Tair Blynedd Gyntaf o Ymarfer a luniwyd ar gyfer Cyngor Gofal Cymru)<br><br>Dolen Argymhelliad rhif 5 yr AGGCC: Dylid datblygu strategaeth gweithlu gadarn | Tachwedd 2017 – Ionawr 2018<br><br>• Mae enghreifftiau o Arweinwyr Ymarfer yn hyfforddi/mentora Gweithwyr Cymdeithasol sydd newydd gymhwyso<br>• Mwy o gyfleoedd hyfforddi a datbygu ar ôl cymhwyso – bydd yr anghenion hyn yn cael eu nodi mewn Gwerthusiadau a Goruchwyliaeth<br>• Mae 2 Weithiwr Cymdeithasol dan Hyfforddiant wedi cychwyn yn eu swyddi<br>• Gwaith wedi parhau ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gweithlu<br>• Arsylwi ymarfer – Mae'r Grŵp Ymarfer Da wedi bod yn trafod sut orau i wneud hyn<br>• Llysgenhadon Gofal Cymdeithasol<br>• Denu Talent – rydym yn symud ymlaen efo hyn a mae ebost wedi mynd allan i Benaethiaid Gwasanaethau i ofyn am gyfleon profiad gwaith.<br><br>Medi a Hydref 2017<br><br>• Mae 2 aelod o staff wedi llwyddo i ennill hyfforddeiaeth 2 flynedd i hyfforddi i ddod yn Weithwyr Cymdeithasol cymwys, nod y strategaeth hon yw meithrin ein gweithwyr ein hunain ('Grow our Own'), gan sicrhau bod gennym Weithwyr Cymdeithasol a fydd yn gweithio i'r Gwasanaeth am o leiaf 2 flynedd ar ôl iddynt gymhwyso.<br>• Mae Cynllun Gweithredu'r Gweithlu yn cael ei yrru yn ei flaen i fonitro cynnydd yn erbyn y camau tymor byr hyd ar Ragfyr 2017. Cynhelir cyfarfodydd bob 6-8 wythnos i fonitro cynnydd. | • Sesiwn Gynefino Gorfforaethol ar gael yn fisol ar gyfer staff newydd.<br>• Sicrhau cynnydd o ran y Cynllun Gweithredu. Cynhelir cyfarfodydd bob 6-8 wythnos i fonitro cynnydd ynghyd â monitro materion eraill sy'n ymwneud â'r gweithlu<br>• Ymgymerir â gwaith pellach i gwblhau'r ailstrwythuro, gan gynnwys adolygu'r trefniadau ar gyfer y Tîm Lleoli Plant, gan wneud y defnydd gorau o Weithwyr Cymorth i roi cymorth i deuluoedd, yn ogystal â sicrhau bod cymorth gweinyddol yn briodol er mwyn i Grwpiau Ymarfer gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol.<br>• Adolygu'r Strategaeth Gweithlu tuag at ddiwedd haf 2018 | **Heb eu gwneud hyd yma**<br><br>Gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso yn adrodd eu bod wedi derbyn cyfarwyddyd a disgwyliadau clir, cefnogaeth, ac adborth adeiladol ynghylch eu hymarfer ac ar ansawdd eu gwaith.<br><br>Staff yn nodi'n gadarnhaol eu bod yn fodlon yn y gweithle ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.<br><br>**Wedi cychwyn**<br><br>Archwiliad o waith sy'n darparu tystiolaeth o weithlu hyderus a chymwys.<br><br>Gwelliant amlwg mewn cyfraddau recriwtio a chadw gyda mwy o staff yn cael eu recriwtio i swyddi parhaol | Melanie Jones a Margaret Peters | Ion 2017 | Gwaith sy'n parhau |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ar frys a fydd yn cynnwys amcanion ar gyfer y tymor byr, canolig a hir ar gyfer recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol. | • Rhoddwyd ailstrwythuro'r Gwasanaeth ar waith ar 4ydd Hydref. Cymerodd 8 Arweinydd Ymarfer gyfrifoldeb dros eu Grwpiau Ymarfer, yn rheoli grwpiau llai ar draws Ymyrraeth Gynnar ac Ymyrraeth Ddwys gyda phob Arweinydd Ymarfer yn gyfrifol am 3 neu 4 o Weithwyr Cymdeithasol. Bydd hyn yn golygu y bydd gan Weithwyr Cymdeithasol well mynediad i'w Harweinwyr Ymarfer, gan eu galluogi i gael cyngor buan ar gyfer delio ag achosion unigol ynghyd ag i gael cymorth a goruchwyliaeth ddigonol.<br><br>**Awst 2017**<br><br>• Mae cynllun hyfforddeiaeth wedi cael ei ddatblygu ar y cyd ag AD sy'n cynnig y cyfle i un aelod staff hyfforddi i fod yn Weithiwr Cymdeithasol dros ddwy flynedd drwy Brifysgol Bangor, gyda'r posibilrwydd o ddiogelu swydd barhaol yn y gwasanaeth ar ôl cymhwyso.<br>• Rhaglen Gynefino'r Gwasanaeth wedi'i llunio ar gyfer staff newydd.<br>• Mae Cynllun Gweithredu'r Gweithlu yn cael ei yrru yn ei flaen i fonitro cynnydd yn erbyn y camau tymor byr hyd at Ragfyr 2017.<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br><br>• Strategaeth Gweithlu wedi'i gwblhau.<br>• Cynllun Gweithredu'n cael ei baratoi.<br><br>**Mai 2017** | | a gostyngiad yn nifer y staff sy'n gadael.<br><br>Cynefino - pob aelod newydd o staff yn cael cyfnod cynefino cynhwysfawr ac yn llwyr ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau.<br><br>Tystiolaeth bod cyfarfodydd cynefino yn cael eu cynnal a bod staff newydd o'r farn eu bod yn ddefnyddiol mewn perthynas â chanllawiau a disgwyliadau, cymorth, llywio eu hymarfer ac ansawdd y gwaith. | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Strategaeth Gweithlu Drafft wedi'i lunio ar y cyd ag AD sy'n cynnwys rhannau perthnasol ar recriwtio, cadw a chymorth, trefniadau cynefino, cyfeillio, hyfforddi a mentora, cysgodi, cyfleoedd hyfforddi a datblygu estynedig ar ôl cymhwyso, canllawiau ar gyfer y flwyddyn gyntaf o ymarfer.<br>• Y strategaeth wedi'i rhannu â staff am eu sylwadau.<br>• Disgwyliadau ar Reolwyr o ran cynefino wedi'u hamlygu – mae hyn yn gysylltiedig â manteision strwythur newydd a nifer uwch o arweinwyr ymarfer.<br>• Materion yng nghyswllt AD – cyfarfodydd wythnosol wedi'u sefydlu i fynd i'r afael â'r holl faterion perthnasol gan gynnwys recriwtio.<br>• 4 gweithiwr cymdeithasol dwyieithog newydd gymhwyso wedi'u recriwtio.<br>• Pob swydd gweithiwr cymdeithasol wedi'u llenwi gyda staff dros dro/parhaol/trefniadau recriwtio ar waith.<br>• Hysbyseb agored ar gyfer gweithwyr cymdeithasol profiadol.<br>• Sesiwn i Reolwr ar ganllawiau Cynefino wedi ei gynnal ym mis Mawrth.<br>• Canllawiau ar flwyddyn gyntaf ymarfer wrthi'n cael eu hadolygu gan y Cydlynydd Dysgu Ymarfer. | | | | | |
| 1.2 | **Materion o ran Datrys Staffio** i gynnwys:<br>• Recriwtio i swyddi parhaol<br>• Strategaeth ymadael ar gyfer staff asiantaeth | **<u>Tachwedd 2017 – Ionawr 2018</u>**<br>• Un Gweithiwr Cymdeithasol parhaol wedi ei b/phenodi ddechrau mis Ionawr<br>• Fôn Roberts wedi bod yn ei swydd fel Pennaeth Gwasanaeth ers dechrau mis Rhagfyr<br>• Rydym yn parhau i ostwng nifer y staff Asiantaeth, 7 yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd ar sail dros dro i wneud gwaith 5 o swyddi Gwaith Cymdeithasol sy'n wag. Caiff swydd | • Gostwng nifer y staff Asiantaeth | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Gweithlu sefydlog a pharhaol sy'n arwain at:<br>• Gysondeb ymarfer ar draws y gwasanaeth.<br>• Cymorth o ansawdd gwell i blant a theuluoedd.<br>• Sefydlu gwell perthnasau rhwng teuluoedd a gweithwyr | Uwch Dîm Rheoli ac AD | Tach<br>2016 | Gwaith sy'n parhau |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | un o'r staff Asiantaeth ei chyllido drwy'r Grant Trothwy Gofal.<br>• 2 aelod o staff wedi cychwyn eu cwrs fel hyfforddeion<br>• Sefydlwyd ymgyrch recriwtio newydd ym mis Tachwedd i geisio denu Gweithwyr Cymdeithasol profiadol a pharhaol. Caiff hysbysebion eu cynnwys yn y Guardian am flwyddyn.<br>• 4 o Weithwyr Cymorth ychwanegol wedi cael eu recriwtio i TAT a'u hariannu o Teuluoedd yn Gyntaf.<br>• Ymgynghorydd Personol ychwanegol wedi cael ei recriwtio a'i gyllido gyda Grant Dydd Gŵyl Dewi Llywodraeth Cymru i roi cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i bobl ifanc sy'n gadael gofal yn 18 oed.<br><br>**<u>Medi a Hydref 2017</u>**<br><br>• Mae Pennaeth Gwasanaeth wedi'i benodi a bydd yn cychwyn yn ei swydd ddechrau mis Rhagfyr.<br>• Rydym wedi recriwtio 8 Gweithiwr Cymdeithasol newydd dros yr ychydig fisoedd diwethaf, y mae pob un ohonynt yn lleol, ac ar wahân i un gweithiwr cymdeithasol, maent i gyd yn siaradwyr Cymraeg rhugl.<br>• Mae 7 o aelodau staff Asiantaeth yn cael eu cyflogi dros dro i wneud gwaith swyddi Gwaith Cymdeithasol a Rheolwr Tîm sy'n wag ar hyn o bryd<br>• Rydym wedi datblygu trefniadau Hyfforddeiaeth Gwaith Cymdeithasol yn fewnol a bydd 2 o'n staff yn hyfforddi i ddod yn Weithwyr Cymdeithasol cymwys dros y 2 flynedd nesaf.<br>• Rydym wedi methu ag apwyntio i swydd y Rheolwr Sicrwydd Ansawdd sydd wedi arafu | | cymdeithasol yn arwain at well canlyniadau i blant a theuluoedd.<br><br>Partneriaid yn adrodd bod gwelliant o ran y trefniadau cydweithio â'r Gwasanaethau Plant o ganlyniad i ostyngiad mewn trosiant staff. | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ein cynnydd o ran cyflawni'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd.<br><br>**Awst 2017**<br><br>• Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob pythefnos rhwng AD ac uwch reolwyr y Gwasanaethau Plant i sicrhau bod materion o ran recriwtio a datblygu'r gweithlu yn symud yn eu blaenau'n gyflym. Bydd hyn yn cynnwys diweddariadau rheolaidd ar lefelau staffio, siart staffio a llwyth achosion.<br>• Wedi penodi'r Tîm Teuluoedd Gwydn.<br>• Wedi penodi 2.5 Swyddog Ymgysylltu ar gyfer Teulu Môn.<br>• 8 Arweinydd Ymarfer wedi'u penodi erbyn hyn, yn dechrau ar y 4ydd o Fedi.<br>• Byddir yn cynnal trafodaethau ynghylch ymestyn cytundebau Staff Asiantaeth hyd at ddiwedd mis Rhagfyr.<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br><br>• Cytundebau staff asiantaeth wedi'u hymestyn tan ddiwedd Medi 2017 i sicrhau gweithlu digonol o ran niferoedd a phrofiad. Nod i leihau nifer y gweithwyr cymdeithasol asiantaeth yn ystod mis Medi.<br>• 1 gweithiwr cymdeithasol cymwys a 3 myfyriwr gwaith cymdeithasol wedi'u penodi i swyddi. 1 cymwys ac 1 myfyriwr yn dechrau ym mis Gorffennaf. 5 swydd wag yn cael eu hysbysebu ar sail treigl.<br>• 7 Arweinydd Ymarfer wedi'u penodi. Swydd wag arall yn cael ei hysbysebu.<br>• Wedi penodi i swydd IRO wag gyda dyddiad dechrau y 10th o Orffennaf.<br>• Wedi penodi Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Atal. Yn dechrau ganol Awst. | | | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Ddwys wedi'i benodi. Rheolwr Gwasanaeth Asiantaeth yn cyflawni'r swydd dros dro.<br>• Mae cadw Gweithwyr Cymdeithasol dros dro a pharhaol yn parhau i fod yn sialens i'r Gwasanaeth.<br>• Mae darparu cefnogaeth ac arweiniad digonol i'r staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth.<br><br>**Mai 2017**<br><br>• Cyfarfodydd misol wedi'u sefydlu rhwng AD ac uwch reolwyr y Gwasanaethau Plant i sicrhau bod materion o ran recriwtio a datblygu'r gweithlu'n symud yn eu blaenau'n gyflym. Bydd hyn yn cynnwys diweddariadau rheolaidd ar lefelau staffio, siart staffio a llwyth achosion.<br>• Rydym yn parhau i hysbysebu swyddi ar gyfer gweithwyr cymdeithasol profiadol ar sail treigl.<br>• AD wedi cynnal sesiynau briffio ar recriwtio i Reolwyr.<br>• AD i ddarparu diweddariadau rheolaidd ynghylch cyfraddau'r Gwasanaeth o ran recriwtio a chadw staff.<br>• Arweiniad parhaus gan yr Adran Gyllid ar oblygiadau cost cyflogi staff asiantaeth.<br>• Strategaeth ymadael yn ei lle ar gyfer staff asiantaeth lle mae swyddi wedi cael eu llenwi gan weithwyr parhaol. | | | | | |
| 1.3 | Adolygu'r **Polisi Goruchwylio**. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Cod Ymarfer<br>• Goruchwyliaeth ffurfiol ac anffurfiol neu ad-hoc<br>• Pwrpas Goruchwylio | **Tachwedd – Ionawr 2018**<br><br>• Cychwynnodd Archwiliad o drefniadau goruchwylio ym mis Hydref 2017 ar draws y Gwasanaethau Plant. Nid yw'r archwiliad hwn wedi mynd rhagddo yn ôl y disgwyl – nid oedd y rheolwyr perthnasol wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cofnodiadau goruchwyliaeth ar draws y timau. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu fod | | **Wedi Cychwyn**<br><br>Adroddiadau cadarnhaol gan staff fod ansawss eu hasesiadau a chynlluniau wedi gwella drwy oruchwyliaeth reolaidd o ansawdd. Mae'r ymatebion i'r Arolwg Goruchwyliaeth yn dangos diffyg | Melanie Jones a Leighton Rees | Rhag 2016 | Tracio a monitro parhaus |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | • Manteision Goruchwylio<br>• Rolau a Chyfrifoldebau<br>• Isafswm y Sesiynau a Gynhelir a threfniadau Canslo<br>• Cynllunio ar gyfer Sesiwn Goruchwylio<br>• Cofnodi Goruchwyliaeth<br>• Anghydfodau<br>• Cyfrinachedd a Mynediad<br>• Cysylltiadau â Pholisiau a Gweithdrefnau Eraill<br><br>Dolenni i Argymhelliad rhif 7 AGGCC: Dylai uwch arweinwyr gymryd camau i wella amlder, cysondeb ac ansawdd y goruchwylio ar gyfer staff rheng flaen; rhaid sefydlu mecanwaith sicrwydd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac ansawdd. | problem o ran cofnodi goruchwyliaeth. Mae arolwg staff wedi'i gwblhau ac mae'n dangos rhai canlyniadau positif.<br>• Cynhaliwyd gweithdai mentora ym mis Rhagfyr i Arweinwyr Ymarfer ar oruchwyliaeth yn canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn datblygu ymarfer adlewyrcho.<br>• Cyngor a chanllawiau'n parhau i gael eu darparu ar gyfer gweithwyr cymdeithasol unigol mewn perthynas â chwblhau asesiadau, cofnodi ac asesu risg.<br><br>**Medi a Hydref 2017**<br><br>• Mae ffurflen adborth wedi'i datblygu gan gydweithwyr ym maes Hyfforddiant i ofyn beth y maent wedi ei ddysgu o'r hyfforddiant a dderbyniwyd ganddynt, p'un a ydynt wedi rhoi'r hyn a ddysgwyd ganddynt ar waith, beth fyddent yn ei newid am y cwrs os oes unrhyw beth. Cwblhawyd y ffurflenni hyn gan staff yn ystod y Gynhadledd Staff ym mis Hydref. Rydym wrthi'n dadansoddi'r wybodaeth ar hyn o bryd.<br>• Cynhaliwyd gweithdy cynllunio ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli gyda Rhonwyn Dobbing i baratoi am y 3 gweithdy ar oruchwyliaeth sy'n rhoi sylw i ganlyniadau ('outcome focused supervision').<br>• Rydym wedi parhau i atgoffa staff bod goruchwyliaeth yn flaenoriaeth a bod ar bob aelod staff angen eu goruchwylio'n rheolaidd yn unol â'r Polisi. Mae goruchwyliaeth yn parhau i gael ei olrhain gan y Pennaeth Gwasanaeth i sicrhau cydymffurfiaeth. Bydd Rheolwyr/Arweinwyr Ymarfer yn atebol am unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio.<br>• Roedd Archwiliad o drefniadau goruchwylio wedi dechrau ym mis Hydref 2017 ar draws y Gwasanaethau Plant, gan gynnwys canfyddiad staff o oruchwyliaeth drwy | | consensws ar draws y gwasanaeth ynghylch hyn ac mae angen gwneud gwaith pellach ar effaith goruchwyliaeth ar ansawdd ymarfer;<br><br>Mae'r ymateb i effaith y strwythur newydd o ran y capasiti i ddarparu arweinyddiaeth broffesiynol i gefnogi'r gweithlu drwy oruchwyliaeth reolaidd o safon yn dangos bod angen gwneud mwy o waith yn hyn o beth.<br><br>Arweiniad clir ar safonau ac arfer dda yn cael ei gyfleu'n glir ac ar gael i bawb trwy Oruchwyliaeth reolaidd. 67% o ymatebwyr yn cytuno bod goruchwyliaeth yn eu helpu i ddeall yn well yr hyn y mae angen iddynt fod yn ei wneud. Mae angen adeiladu ar hyn.<br><br>Rheolwyr yn cydymffurfio â'r Polisi Goruchwylio a'r Model Risg wedi ei ymgorffori yn y sesiynau Goruchwylio gyda staff. 83% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod modd iddynt wneud hyn. Bydd angen rhoi prawf pellach ar hyn yn | | | SA Mehefin 2017 |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | holiaduron a grwpiau ffocws. Yr adborth cychwynnol gan yr archwilydd yw bod cynnydd gyda'r gwaith yn araf gan nad yw rheolwyr yn gallu darparu'r holl gofnodion goruchwylio a oedd i fod wedi digwydd o fewn y cyfnod dynodedig. Mae'n annhebygol y bydd yr adolygiad hwn yn darparu tystiolaeth o gydymffurfiaeth systematig a chyson gyda'r polisi.<br>• Mae'r Arweinwyr Ymarfer yn newydd iawn i'w swyddi ac nid ydynt ond wedi bod yn goruchwylio eu staff ers dechrau mis Hydref. Byddwn yn cynnal ail archwiliad yn Chwefror 2018.<br>• Mae'r mentora gan Bruce Thornton wedi dechrau gweithio gyda phob Arweinydd Ymarfer yn nhermau sut y maent yn ymwreiddio'r Model Risg yn eu gwaith, gan gynnwys yn ystod goruchwylio.<br>• Mae canfyddiadau o archwiliadau o ffeiliau achosion yn dangos yn gyson bod diffyg tystiolaeth o drosolwg a goruchwyliaeth gan reolwyr ar y ffeiliau achosion. Ychydig iawn o dystiolaeth ar hyn o bryd i gefnogi bod y canlyniadau a nodir yn cael eu cyflawni yn nhermau:<br>• Mae ansawdd eu hasesiadau wedi gwella drwy oruchwyliaeth reolaidd o safon dda.<br>• Mae rheolwyr yn cydymffurfio â'r Polisi Goruchwyliaeth a'r Model Risg yn cael ei ymgorffori o fewn sesiynau goruchwyliaeth gyda staff.<br>• Mae archwiliadau rheolaidd ar draws y Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn dangos ansawdd da a goruchwyliaeth gyson.<br><br>**<u>Awst 2017</u>**<br><br>• Gwnaed trefniadau gyda Rhonwyn Dobbing o ran ymgymryd â hyfforddiant ar oruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer | | ystod gwerthusiad o Fodel Risg yr hyfforddiant/mentora diweddar.<br><br>Mae archwiliadau rheolaidd ar draws y Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn dangos goruchwyliaeth gyson o ansawdd da. Mae archwiliadau rheolaidd yn dangos bod gwelliant o ran trosolwg a goruchwyliaeth rheolwyr yn parhau i fod yn anghyson.<br><br>Mecanwaith sicrwydd wedi ei sefydlu'n ganolog i sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi Goruchwylio.<br><br>Staff yn dweud eu bod yn cael cymorth effeithiol i gyflawni eu dyletswyddau. Oddeutu 75% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf yn yr arolwg goruchwylio eu bod yn cael eu cefnogi'n effeithiol i gyflawni eu dyletswyddau. 79% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn cael eu goruchwylio'n ddigon aml. | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Arweinwyr Ymarfer. Cynhelir tri gweithdy a'u pwrpas fydd rhoi cymorth i oruchwylwyr archwilio eu rôl o ran goruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ynghyd ag ystyried gwerth goruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau o ran defnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr, ymarfer gwaith cymdeithasol ynghyd ag ar gyfer y sefydliad. Yn ogystal, dylai gryfhau rôl y goruchwyliwr, rhoi sylw i sgiliau craidd a'r heriau ar gyfer gwahanol grwpiau ymarfer.<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br><br>• Hyfforddiant ar y polisi Goruchwyliaeth wedi'i gynnal, ynghyd â hyfforddiant ar y model risg ym mis Mehefin.<br>• Tracio a monitro trefniadau goruchwylio'n barhaus i sicrhau cydymffurfiaeth o ran y Polisi.<br><br>**Mai 2017**<br><br>• Polisi Goruchwyliaeth wedi'i adolygu a'i rannu gyda staff.<br>• Trefniadau tracio yn eu lle i fonitro cydymffurfiaeth lwyr â'r polisi Goruchwyliaeth.<br>• Polisi Goruchwyliaeth wedi'i gwblhau.<br>• Hyfforddiant ar y Model Risg a'i gyswllt â Goruchwylio staff wedi'i ddarparu ar gyfer yr holl staff ym mis Mehefin.<br>• Hyfforddiant Goruchwyliaeth wedi'i ddarparu i bob aelod staff a'r Rheolwyr. | | Rheolwyr yn dweud eu bod yn gallu cefnogi staff i'r safonau gofynnol – 83% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn gallu gwneud hyn. | | | |
| 1.4 | Darparu **cyfleoedd datblygu ar gyfer Arweinwyr Ymarfer** i **gefnogi'r gweithlu** i | **Tachwedd – Ionawr 2018** | • AD i ddarparu diweddariadau rheolaidd mewn perthynas â chyfraddau recriwtio a | **Wedi cychwyn** | Uwch Dîm Rheoli | Ionawr<br><br>2017 | Mawrth 2018 |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | gyflawni eu dyletswyddau. Meysydd i ganolbwyntio arnynt:-<br><br>• Egwyddorion ar gyfer gwneud penderfyniadau cywir a diogel o ran rheoli achosion (rheolwyr â throsolwg o'r drefn gwneud penderfyniadau)<br>• Gwella a rheoli ymarfer a pherfformiad gan gynnwys darparu her a chyfarwyddyd adeiladol i staff<br>• Rheoli sgyrsiau anodd<br>• Darparu goruchwyliaeth reolaidd o ansawdd<br>• Datblygu arweinwyr ymarfer mewn sgiliau hyfforddi a mentora<br><br>Dolen i argymhelliad rhif 6 AGGCC: Dylai trefniadau ar gyfer rheolwyr tîm ac uwch ymarferwyr gael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod capasiti ymysg rheolwyr i gadw golwg yn effeithiol ac yn gyson ar y drefn gwneud penderfyniadau, darparu | • Mae'r swyddfa wedi cael ei hailstrwythuro ac mae'r Arweinwyr Ymarfer wedi cael eu lleoli gyda'u Grwpiau Ymarfer.<br><br>**Medi a Hydref 2017**<br><br>• Mae Rhaglen Gynefino'r Gwasanaeth yn parhau (gweler isod).<br>• Cymerodd yr Arweinwyr Ymarfer gyfrifoldeb am eu Grwpiau Ymarfer ddechrau mis Hydref. Fe gafodd y mwyafrif ohonynt gyfnod cynefino o 3 wythnos heb gyfrifoldeb rheoli dros staff.<br><br>**Awst 2017**<br><br>• Ymgymerwyd ag archwiliad pellach ym Mai/Mehefin 2017 a gadarnhaodd bod cynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud o ran atgyfeiriadau a oedd yn mynd ymlaen i Strategaeth a Chynhadledd: Ansawdd Trafodaethau/Cyfarfodydd, Ansawdd Asesu.<br>**Dyma'r Themau Allweddol:**<br><br>Mae presenoldeb a chofnodi mewn Cyfarfodydd Strategaeth wedi gwella<br>Defnydd wedi cynyddu o ran yr offeryn Risk 2<br>Cyfarfodydd Strategaeth amserol<br>Defnydd cynyddol o Gronolegau yn amlwg<br>Gwell ansawdd yn amlwg o ran asesiadau<br>Mae cysondeb ffurflenni'n dal i fod yn broblem (Adroddiad G.C/Craidd/Risk2/ mae'r Asesiad Gofal a Chymorth a'r offeryn Cymhwyster yn cael eu defnyddio).<br>Nid yw'r cam cysyniadol o hidlo risg i ganfod cryfderau wedi'i wreiddio'n llawn<br>• Cynhaliwyd Bore Cwrdd i Ffwrdd o'r gwaith ar y 28ain o Orffennaf ar gyfer Uwch Aelodau Staff i gytuno ar drefniadau ar gyfer ailstrwythuro'r gwasanaeth ac i ddechrau trafod trefniadau ar gyfer Arweinwyr Ymarfer. | chadw ar gyfer y Gwasanaeth. (Gallai hyn fod yn rhan o'r trafodaethau a gynhelir yn y cyfarfodydd a gynhelir bob 6-8 wythnos gydag AD). | Rheolwyr yn dweud bod ganddynt fwy o hyder yn eu sgiliau o ran gwneud penderfyniadau rheoli achos cywir a diogel. 83% o'r Staff a gwblhaodd yr Holiadur Staff ym mis Tachwedd 2017 yn cytuno.<br><br>Staff yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael gwell cefnogaeth gan eu rheolwyr llinell i gyflawni eu cyfrifoldebau gyda hynny'n arwain at ostyngiad o ran trosiant staff, cyfraddau gwell o ran cadw staff a mwy o sefydlogrwydd yn y gweithlu. 74% o'r staff a gwblhaodd yr Holiadur Staff ym mis Tachwedd 2017 yn cytuno neu'n cytuno'n gryf.<br><br>Adborth gan bartneriaid yn dangos mwy o hyder yn y gweithlu ac enw da'r sefydliad.<br><br>Archwiliadau rheolaidd o ffeiliau achosion yn dangos gwelliant yn ansawdd yr asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth. | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | her a chyfeiriad ar gyfer staff ar draws y gwasanaeth; dylai rhaglen arweinyddiaeth a datblygu fod ar gael i adeiladu gwytnwch. | • Llwyddwyd i benodi 8 Arweinydd Ymarfer.<br>• Mae rhaglen gynefino'r gwasanaeth yn ei lle ar gyfer mis Medi, i gynnwys sesiynau hyfforddiant ar:<br>Y Weledigaeth ar gyfer y Gwasanaeth, sefydliad trosfwaol, CGG, rheoli absenoldeb salwch a Chyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith<br><br>Cwynion a'r system Fflecsi<br><br>Cyfathrebu ar y Cyd<br><br>Gweithdai Goruchwylio -3 x gweithdy diwrnod llawn ar oruchwyliaeth yn seiliedig ar ganlyniadau<br><br>PLO a gwaith Llys<br><br>Rheoli Amser a Rheoli Dyddiadur, Blaenoriaethu Gwaith a Disgwyliadau<br><br>Cyflwyno Sesiynau Gwaith Grŵp ACE i Rieni<br><br>Perfformiad<br><br>Galluogrwydd<br><br>Cwrs Dull Rheoli<br><br>Sicrwydd Ansawdd ac Archwiliadau<br><br>Trothwyon a gwneud penderfyniadau cywir ynghyd â staff yn cyflawni camau gweithredu<br><br>Cynllunio Gofal ac Adolygu Gofal a Chymorth, Amddiffyn Plant a LAC | | Cynhelir archwiliadau rheolaidd ar draws y Gwasanaeth sy'n dangos fod Rheolwyr yn gwneud penderfyniadau rheoli cywir a diogel. | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cofnodi achosion<br><br>Asesiadau a'r Model Risg<br><br>Rheoli Llwyth Achosion – Neilltuo achosion, camu i lawr i TAF a pheidio â chau achosion i'r Gwasanaethau Plant, llwyth achosion llai ar gyfer rhai sydd newydd gymhwyso – uchafswm o 12 achos<br><br>Cynadleddau Grŵp Teulu, Cyfranogi a Gwaith Datblygu Rhiantu<br><br>Uned Diogelu'r Cyhoedd Heddlu Gogledd Cymru<br><br>CAFCASS<br><br>Cyfweld Ysgogiadol<br><br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br>• Archwiliadau wedi dechrau ar gyfer Chwarter 1: archwiliadau o ffeiliau achosion, archwiliadau amlasiantaethol, archwiliadau thematig, dadansoddiadau ar gael ddiwedd Gorffennaf.<br>• Hyfforddiant wedi'i gynnal ar gyfer Rheolwyr ar reoli sgyrsiau anodd.<br>• 7 Arweinydd Ymarfer wedi'u penodi, 4 staff mewnol a 3 allanol.<br>• Hyfforddiant wedi'i ddarparu i Reolwyr ar ddarparu Goruchwyliaeth reolaidd o safon.<br>• Mae 4 o reolwyr ar hyn o bryd yn derbyn hyfforddiant achrededig ym maes Arweinyddiaeth a Datblygu.<br>• Bydd ailstrwythuro gwasanaethau a sefydlu timau gweithredol llai yn cael eu gyrru yn eu blaenau a bydd yn sicrhau mwy o gapasiti | | | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ymysg Rheolwyr i roi arweiniad, goruchwyliaeth a chefnogaeth gyson i staff.<br>• Gwnaed trefniadau i Reolwyr Gwasanaethau Oedolion roi cymorth i Reolwyr Gwasanaethau Plant gyda'u datblygiad proffesiynol. | | | | | |
| 1.5 | Argymhelliad 4 AGGCC: Parhau i gefnogi uwch arweinwyr i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cymhlethdodau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau plant er mwyn bodloni eu hunain, partneriaid, staff a chymunedau bod eu cyfrifoldebau yn cael eu cyflawni i'r lefel orau bosib.<br><br>**AGGCC Argymhelliad 8 AGGCC:** Rhaid i'r gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gryf ar gyfer gwasanaethau plant barhau er mwyn sicrhau bod y gwelliannau y mae angen eu gwneud i'r gwasanaeth yn cael eu blaenoriaethu a bod y gwelliant yn cyflymu ac yn cael ei gynnal | **Tachwedd – Ionawr 2018**<br><br>• Mae'r Panel Aelodau'n parhau i gyfarfod yn fisol. Cafwyd 7 cyfarfod hyd yma.<br>• 3 o ymweliadau Laming wedi cael eu cynnal ers Hydref 2017, gydag ymweliadau â'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar, y Tîm Teuluoedd Gwydn a'r Gwasanaethau Arbenigol Plant<br><br>**Medi a Hydref 2017**<br><br>• Mae'r Panel Aelodau wedi parhau i ganolbwyntio ar fonitro a herio gweithrediad Cynllun Gwella Gwasanaeth y Gwasanaethau Plant, gan ddal Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol. Cynhaliwyd pedwar cyfarfod ers yr etholiadau lleol ym mis Mai.<br>• Mae pwrpas y cyfarfodydd Laming wedi cael ei adolygu a chwestiynau wedi'u gofyn yn ystod ymweliadau, ac fe'u cysylltir â chanlyniadau perthnasol yn y CGG.<br>• Mae cyfarfodydd Laming ar gyfer Aelodau wedi'u trefnu hyd at fis Mai 2018. Ymgymerwyd ag ymweliad Laming y ddiweddar â'r Tîm Lleoli Plant ar 27.10.17 gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol, y Cadeirydd Sgriwtini ac aelod etholedig o'r Panel.<br>• Arweinydd y Cyngor yw'r Deilydd Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Plant hefyd, mae'n gefnogol iawn ac mae ganddi gysylltiad agos â'r gwaith o fonitro'r Cynllun Gwella | • Parhau i roi cymorth i uwch arweinwyr wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cymhlethdodau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflenwi gwasanaethau plant. | **Heb eu gwneud hyd yma**<br><br>Uwch arweinwyr ac aelodau etholedig yn dweud bod eu cyfranogiad yn y Panel Gwasanaethau Cymdeithasol wedi datblygu eu dealltwriaeth o'r materion sylfaenol allweddol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth a'u gallu i sgriwtineiddio effeithiolrwydd y gwasanaeth.<br><br>Uwch reolwyr yn y gwasanaeth yn dweud bod y cymorth a'r her a ddarperir gan uwch arweinwyr ac aelodau etholedig wedi parhau i wella.<br><br>Partneriaid proffesiynol a chymunedau yn dweud bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol yn unol â'r Ddeddf GC a Llesiant.<br><br>**Wedi cychwyn**<br><br>Uwch arweinwyr ac aelodau etholedig yn adrodd bod y Cynllun Gwella Gwasanaeth yn cael ei | Prif Weithredwr Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol | Ionawr 2017 | Gwaith sy'n parhau |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gwasanaeth drwy gyfarfodydd misol gyda'r Pennaeth Gwasanaeth i drafod cynnydd a datblygiadau.<br><br>**<u>Awst 2017</u>**<br><br>• Mae rhestr o ymweliadau Laming misol rhwng Gorffennaf 2017 a Mai 2018 wedi cael eu cyflwyno a'u cytuno gan y Panel Gwella Gwasanaethau Plant ar 21/08/17. Mae ymweliadau Laming wedi cychwyn.<br>• Cynhaliwyd trafodaeth gychwynnol gydag Andrew Bennett, Hyfforddiant ac Ymgynghoriaeth 'Public Health Research', am y posibilrwydd o redeg sesiwn fyddai ar gael i'r holl Aelodau/Uwch Arweinyddion ynghylch Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod.<br>• Cynhaliwyd yr ail Banel Aelodau ar 21$^{ain}$ o Awst a lluniwyd dogfen dracio ar gyfer gwaith y panel.<br><br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br><br>• Mae Arweinydd newydd y Cyngor/Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Plant a'r Rheolwr Sgriwtini Dros Dro wedi adolygu rôl y panel Aelodau GC a Llesiant o ran creu Cylch Gorchwyl ar gyfer y Panel Plant.<br>• Aelodau Etholedig ac Uwch Arweinwyr i barhau i gynnal ymweliadau Laming yn rheolaidd.<br>• Grŵp Gwella'r Gwasanaethau Plant yn cael ei gynnal yn fisol, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i yrru ymlaen y gwelliannau a'r newidiadau a fynnir. | | gyflwyno'n unol â'r amserlen ac i'r safon gofynnol. | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Mai 2017**<br><br>• Panel GC a Llesiant i barhau i fonitro'r broses o gwblhau'r Cynllun Gwella Gwasanaeth.<br>• Aelodau Etholedig ac Uwch Arweinwyr i barhau i gynnal ymweliadau Laming yn rheolaidd.<br>• Gwaith Rhianta Corfforaethol i gael ei ddatblygu ymhellach (gweler 5.3).<br>• Angen adnoddau ychwanegol i gael gwell dealltwriaeth o gymhlethdodau'r Gwasanaethau Plant. | | | | | |



**2. Asesiadau, ymyriadau a phenderfyniadau amserol o safon uchel yn cael eu gwneud i ddiogelu, cefnogi a rheoli'r risgiau i blant: cronolegau, cofnodion a thystiolaeth a phecynnau cymorth ymchwil o ansawdd da**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2.1 | Gwelliant o ran ansawdd ymarfer.<br><br>Meysydd i ganolbwyntio arnynt:<br><br>1. Amddiffyn plant, amddiffyn plant ac | **Tachwedd – Ionawr 2018**<br><br>• Nid yw dadansoddiad Ch3 o ansawdd ymarfer wedi cael ei gwblhau eto. Cynhaliwyd nifer o werthusiadau o ymarfer yn ystod y cyfnod – ac mae'r hyn a ddysgwyd wedi cael ei rannu gydag arweinwyr ymarfer/rheolwyr. I grynhoi, deuir i'r casgliad bod ymarfer yn anghyson mewn sawl maes: nid yw rhai o'r gofynion sylfaenol yn cael eu diwallu, e.e. cynlluniau diogelu plant, Cynlluniau Gofal a Chymorth. Dengys | • Adroddiad Gwerthuso Ymarfer Ch1 2017/18 – Rhaid i'r gwasanaeth ganolbwyntio ar sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion sylfaenol i wella data perfformiad. Y flaenoriaeth ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf yw gwella ymarfer asesu. Darperir hyfforddiant gan Bruce Thornton ar weithredu'r model risg mewn asesiadau. Mae gwaith ar fynd o ran ymgysylltu | **Eto i'w wneud**<br><br>Adolygu'r trothwyon sy'n gysylltiedig â phlentyn yn dod i ofal o ganlyniad i'r gwerthusiadau bod y trothwyon ar gyfer cofrestru plant ar y Gofrestr Amddiffyn a chyfarfodydd rhan 4 wedi cael eu nodi fel ymarfer gwael. | Uwch Dîm Rheoli<br><br>Hyfforddiant | Ionawr 2017 | Mawrth 2018 |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ymweliadau gwaith cymdeithasol LAC<br>2. Model Risg – gwella'r dadansoddiad o risg<br>3. Asesu – Beth sy'n bwysig, 5 maes asesu.<br>4. Cynlluniau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.<br>5. Cwblhau cynlluniau Gofal a Chymorth o dan y Ddeddf GC a Llesiant.<br>6. Sefydlu a chynnal perthnasau o ansawdd uchel gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.<br>7. Cadw cofnodion<br>8. Cwrs Cyfathrebu ar y Cyd ar sgyrsiau sy'n seiliedig ar gryfderau.<br><br>**Argymhelliad 10:**<br>Dylid gwella ansawdd yr asesiadau a'r cynlluniau er mwyn sicrhau eu bod yn gyson o ansawdd da, gyda ffocws clir ar anghenion, risgiau a chryfderau plant a theuluoedd, a bod y canlyniadau a ddymunir, amserlenni ac atebolrwydd ar gyfer camau gweithredu yn glir. | archwiliadau bod safon y cofnodi wedi gwella; mae hyn er clod i'r staff er gwaethaf yr anawsterau a gawsant o ran cyfarwyddo eu hunain gyda system newydd. Mae rhai enghreifftiau o Arweinwyr Ymarfer yn ceisio gweithio mewn ffordd wahanol – sefydlu dulliau newydd o weithio: ond nid yw hyn yn cael ei weithredu'n gyson ar draws y Gwasanaeth. Mae ymarfer yn parhau i fod yn anghyson ac mae'r gwasanaeth eto i wireddu nifer o'i amcanion gwella o ran ansawdd ymarfer, asesiad, dadansoddiad, rheoli risg a chynllunio gofal a chymorth.<br>• Penodwyd Rheolwr Dros Dro i geisio gyrru'r gwelliannau i ymarfer drwy hyfforddi/mentora, datblygu prosesau a gweithdrefnau a sefydlu safonau ymarfer. Mae'r gwaith hwn yn parhau. Mae'r sesiynau hyfforddi a mentora gan Bruce Thornton ar Fodel Risg Gwynedd/Thornton yn parhau ac mae gwerthusiad ar y gweill. Yn ôl tystiolaeth anecdotaidd, mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol.<br><br>• Cafwyd llai o gwynion i'r gwasanaeth yn Ch3 o gymharu â Ch2 – 12 lawr i dri a'r sylwadau positif wedi codi o 24 i 31.<br><br>**<u>Medi a Hydref 2017</u>**<br><br>• Cynhaliwyd cwrs Cyfathrebu Cydweithredol ar 28ain a'r 29ain o Fedi ac mae'r symud i weithio o dan y Ddeddf GCaLl yn parhau.<br>• Mae'r crynodeb o berfformiad chwarter 2 yn rhoi tystiolaeth o ystod o ffynonellau gwerthuso - adolygiadau rheoli, cwynion, archwiliadau thematig, archwiliadau rheolaidd o ffeiliau achosion. Y prif ganfyddiadau yw bod ymarfer yn parhau i fod yn anghyson: a bod y gwasanaeth yn dal heb wireddu sawl un o'i amcanion gwella yn nhermau ansawdd ymarfer, | â staff i ddiffinio safonau ar gyfer asesiadau.<br>• Ymarfer Myfyriol mewn Gwaith Cymdeithasol:<br>1. Amddiffyn plant<br>2. Sut i sefydlu a chynnal perthnasau o ansawdd uchel gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.<br>3. Cadw cofnodion.<br>4. Datblygu canllawiau ar ymarfer da mewn perthynas â chadw cofnodion. Comisiynwyd Bruce Thornton i sefydlu model gweithredol o fewn y system newydd - WCCIS.<br>5. Canllawiau ymarfer i gael eu datblygu mewn perthynas ag AP ac ymweliadau gwaith cymdeithasol LAC. | Tystiolaeth o 'atal' a 'chefnogi' gyda mwy o blant yn aros yn eu cartrefi.<br><br>Cynnal archwiliadau rheolaidd yn cadarnhau gwelliannau yn ansawdd yr ymarfer, asesu risg a chadw cofnodion<br><br>Cynhelir archwiliadau rheolaidd sy'n dangos gwelliant yn ansawdd a chysondeb y cofnodion a'u bod yn gyfredol ac yn cael eu storio yn systematig.<br><br>Cynnydd mewn adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaeth ar y cynnydd a gyflawnwyd ganddynt gyda chymorth y Gwasanaethau Plant.<br><br>**Wedi dechrau**<br>Gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc gyda lleihad yn nifer y plant ar y CAP a'r plant sy'n derbyn gofal. Mae hyn wedi ei gynnal a chynhaliwyd gwerthusiad o'r rhesymau am y gostyngiad. Bydd angen monitro hyn yn ofalus dros y cyfnod nesaf er mwyn sicrhau bod y gostyngiad yn parhau.<br><br>**Wedi'u cwblhau** | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | asesu, dadansoddi, rheoli risg a chynllunio gofal a chymorth. Ceir arwyddion o beth gwelliant ym maes gwneud penderfyniadau cychwynnol a chofnodi.<br>• Mae ymyriadau sydd wedi'u targedu'n parhau i gael eu gwneud gyda Gweithwyr Cymdeithasol unigol nad ydynt wedi gwella ansawdd eu hymarfer.<br>• Datblygwyd Cynllun Gweithredu ar gyfer y Llys i ganolbwyntio ar wella ansawdd a'r dadansoddiadau o'r holl asesiadau a wneir i lywio ein penderfyniadau, a bydd yn cefnogi trefniadau ar gyfer gweithredu dwys yn gynnar ('front loading') o fewn achosion cyfraith gyhoeddus. Mae gan Arweinwyr Ymarfer bellach drosolwg o amserlen y Llys ar gyfer achosion o fewn eu Grwpiau Ymarfer a byddant yn cefnogi ac yn arwain Gweithwyr Cymdeithasol i sicrhau eu bod yn paratoi'n well ar gyfer y Llys a bod dogfennau'n cael eu ffeilio mewn pryd.<br>• Mae'r Gwasanaethau Plant wedi mabwysiadu Model Risg Thornton/Gwynedd er mwyn parhau i gefnogi gweithwyr cymdeithasol i weithio mewn modd rhagweithiol gyda theuluoedd i reoli risg - gan dreulio llawer mwy o amser yn gweithio ochr yn ochr â hwy yn eu helpu i newid fel bod y teulu'n lle diogel i'w plant. Bellach, mae angen ymwreiddio'r model risg o fewn ymarfer a chefnogi ymarferwyr ac arweinwyr ymarfer i ddatblygu ymhellach eu sgiliau o ran plannu'r model i gefnogi penderfyniadau effeithiol o ran risgiau.<br>• Mae Bruce Thornton, cyd-awdur y model, yn ymgymryd â rôl Hyfforddwr Ymarfer/Datblygu Mentora am gyfnod o 7 mis i ganolbwyntio ar:<br>• Ddarparu hyfforddiant a mentora i helpu i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a | | Sicrhau bod templedi rhanbarthol ar gyfer 'asesu' / cynllunio gofal a chefnogaeth' sy'n cofnodi glir anghenion, risgiau, cryfderau, canlyniadau, atebolrwydd am weithredoedd a'u hamserlenni cysylltiedig ar gael i'w defnyddio o fewn y gwasanaeth. | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | chymhwyster ymarferwyr ac arweinwyr ymarfer.<br>• Cefnogi Rheolwyr Gwasanaeth i weithredu, prosesu, systemau a gweithdrefnau i sicrhau bod y Model Risg yn cael ei weithredu o fewn prosesau gwasanaeth.<br>• Cefnogi datblygiad y Model Risg o fewn goruchwyliaeth feirniadol a myfyriol.<br>• Er gwaethaf yr anghysondeb o ran ymarfer, mae gennym dystiolaeth gadarnhaol o'r gweithlu'n gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd gan arwain at well canlyniadau. Gwelsom ostyngiad sylweddol yn nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o 102 ym Mawrth 2017 i 56 ar y gofrestr ar 31ain Awst, 2017, sef gostyngiad o 55%.<br>• Mae nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal wedi parhau i fod yn gyson yn ystod yr 8 mis diwethaf oherwydd ein bod yn ceisio rhoi cymorth i blant barhau i fyw adref pan fo'n ddiogel i wneud hynny.<br>• Trafodaethau parhaus ynghylch y gofynion ar gyfer Adroddiadau Monitro Perfformiad o'r System Gofal Cymdeithasol newydd - WCCIS a gyflwynwyd ym mis Awst. Ni fu modd i ni ond adrodd ar 4 o'r 6 dangosydd cerdyn sgorio corfforaethol oherwydd bod angen gwneud rhagor o waith i gael darlun cywir o berfformiad presennol. Bu'r gwaith hwn yn parhau ac mae gan y Gwasanaeth gynllun gweithredu yn ei le i wella'r sefyllfa ac i ddarparu data cywir a chyfredol i'w ystyried.<br><br>**<u>Awst 2017</u>**<br><br>• Archwiliadau – ffeiliau achosion a thematig – fesul gwasanaeth ac amlasiantaethol – wedi'u cynnal yn ystod y mis. Mae'r llwythi achosion ar gyfer y tîm rheng flaen yn parhau i fod yn uwch | | | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | nag y byddai'r tîm rheoli gwasanaeth yn ei ddymuno, mae tystiolaeth o archwiliadau'n awgrymu fod ymarfer yn parhau i fod yn anghyson.<br>• Fframwaith Drafft ar gyfer Gwella Ansawdd Ymarfer wedi'i ddatblygu ar gyfer ymgynghori.<br>• Mae'r UDRh yn ystyried canfyddiadau adroddiad ansawd Ch1 – yn argymell blaenoriaethu gwelliannau o ran arferion asesu.<br>• Wedi herio a chefnogi gweithwyr unigol i wella eu hymarfer<br>• Dogfen Adroddiad Gwerthuso Ymarfer Ch1 2017/18 Gwaith archwilio ffeiliau achos wedi'i gwblhau ar y meysydd ymarfer a ganlyn: archwiliad camu i lawr LAC, adroddiad ar gyfer y panel lleoli, archwiliadau ffeiliau achos misol wedi'u cynllunio gan Reolwyr Timau, archwilio ymatebol (cwynion Cam 2) a phenderfynu cychwynnol, sgrinio, trafodaethau a chyfarfodydd strategaeth ac asesu syml. Barnau defnyddwyr gwasanaeth a gwerthuso adolygiadau rheoli a gynhaliwyd yn flaenorol. Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod ymarfer yn dal i fod yn anghyson, fodd bynnag, ceir enghreifftiau o arfer dda y mae AGGCC wedi cadarnhau eu bod wedi cyflawni'r canlyniad a fynnir ar gyfer y plentyn/plant a'u teuluoedd.<br>• Roedd AGGCC wedi tracio dau achos – 'Darllenwyd ffeiliau achos, cyfwelwyd gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr a theuluoedd. Darparodd yr achosion dystiolaeth o ganlyniadau da i deuluoedd. Defnyddiwyd ystod dda o wasanaethau yn effeithiol. Roedd y gweithwyr cymdeithasol a gyfwelwyd yn llawn cymhelliad ac yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Roeddynt yn cyflawni lefel uchel iawn o ymgysylltu gyda'r teuluoedd. Roedd y teuluoedd yn frwdfrydig ac yn cael | | | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | cymorth i fynd i'r afael â phatrymau ymddygiad a oedd wedi gwreiddio'n ddwfn o ran camddefnyddio sylweddau a thrais domestig. Roedd gweithwyr cymdeithasol yn cael eu cefnogi'n dda ond nid bob amser drwy oruchwyliaeth ffurfiol'.<br>**Roedd Achos 2 yn darparu tystiolaeth o:**<br>'Ddefnydd da o systemau a gwasanaethau. Ystod dda o wasanaethau - LAC, Trais Domestig, FGC mewn cynllunio, asesiad therapiwtig gwasanaeth arbenigol.<br>Mae anghenion plant a theuluoedd wedi'u diwallu. Roedd y gweithiwr cymdeithasol yn fedrus, yn gallu cynnal ei pherthynas gyda'r fam a'r plant a gwneud gwaith uniongyrchol gyda'r plant. O'r trafodaethau a'r ffeil, roedd wedi gwneud cyfraniad sylweddol o ran newid disgwyliadau'r fam, ei meddyliau a'i hymddygiad.'<br>• Ymgymerwyd ag archwiliad pellach ym Mai/Mehefin 2017 o ran atgyfeiriadau a oedd yn mynd ymlaen i Strategaeth a Chynhadledd: Ansawdd Trafodaethau/Cyfarfodydd, Ansawdd Asesu.<br>**Dyma'r Themau Allweddol:**<br><br>Mae presenoldeb a chofnodi mewn Cyfarfodydd Strategaeth wedi gwella<br>Defnydd wedi cynyddu o ran offeryn Risk 2<br>Cyfarfodydd Strategaeth amserol<br>Defnydd cynyddol o Gronolegau yn amlwg<br>Gwell ansawdd yn amlwg o ran asesiadau<br>Mae cysondeb ffurflenni'n dal i fod yn broblem (Adroddiad G.C/Craidd/Risk2/ mae'r Asesiad Gofal a Chymorth a'r offeryn Cymhwyster yn cael eu defnyddio).<br>Nid yw'r cam cysyniadol o hidlo risg i ganfod cryfderau wedi'i wreiddio'n llawn.<br>• Mae canllawiau ymarfer Teulu Môn yn cael eu datblygu gan y Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar. | | | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Comisiynwyd Bruce Thornton i lunio Arweiniad ar Gadw Cofnodion a Gwneud Penderfyniadau.<br>• Mae ansawdd yr ymarfer yn parhau i fod yn anghyson.<br>• Mae canllawiau ymarfer amlasiantaethol wedi'u cwblhau a fydd yn cael eu cadarnhau yn y Grŵp Diogelu Cyflawni Lleol ym mis Hydref, meysydd a gynhwysir yw:<br>Trothwyon Ymchwilio Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol<br>Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Gweithwyr Allweddol a Grwpiau Craidd<br>Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Trothwyon Cofrestru.<br>Rhan 4 AWCPP2008<br>Gwneud Atgyfeiriadau<br>• Lluniwyd dogfen ddrafft sy'n nodi'r dull gweithio ar gyfer y gwasanaeth (cyfathrebu ar y cyd, cyd-gynhyrchu ac asesu risg). Wrth baratoi'r ddogfen hon, mae'r gwasanaeth wedi ystyried yr angen i wella ymarfer o ran ffurfio asesiadau o ansawdd da ynghyd ag ymateb i'r gofynion o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i weithio ar y cyd gyda phlant a theuluoedd. Mae'r ddogfen hon yn nodi gweledigaeth y gwasanaeth o ran sut y byddwn yn asesu risg, yn cyd-gynhyrchu ac yn cynnal cyfathrebu ar y cyd gyda phlant a theuluoedd ym Môn.<br><br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br><br>• Archwiliadau wedi dechrau ar gyfer Chwarter 1: Archwilio ffeiliau achosion, archwiliadau amlasiantaethol, archwiliadau thematig, dadansoddiad ar gael ddiwedd Gorffennaf. | | | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Wedi herio a rhoi cymorth i weithwyr unigol wella eu hymarfer.<br>• Mae ansawdd ymarfer yn parhau i fod yn anghyson.<br>• Sesiwn ar gyfer staff wedi'i gynnal ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol i drafod safonau ymarfer, ynghyd â gofyn i staff am syniadau o ran beth fyddai'n eu helpu i wella eu dulliau gweithio.<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br>• Yr Uned Hyfforddi wedi trefnu hyfforddiant i'r holl staff gofal cymdeithasol ar:<br>Asesu Gofalwyr yn y tymor hir<br><br>Gweithredu'r Fframwaith Cynefino ar gyfer Gofalwyr Maeth<br><br>Newid Diwylliant a Mesur Perfformiad yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant<br><br>Cyfathrebu Cydweithredol / sgyrsiau sy'n canolbwyntio ar Ganlyniadau<br>Templedi rhanbarthol – gan gynnwys Asesu, Beth sy'n Bwysig, 5 maes asesu, cynluniau Gofal a Chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau<br>Gwneud y Gorau o Oruchwyliaeth – ar gyfer Rheolwyr<br>Darparu Adborth Adeiladol a Rheoli Sgyrsiau Anodd<br>Gwneud y Gorau o Oruchwyliaeth – ar gyfer staff<br>Hyfforddiant Teuluoedd Gwydn GICD (gan gynnwys Therapi Byr sy'n Canolbwyntio ar Ddatrysiadau a Chyfweld Ysgogiadol<br>Cyfathrebu Cydweithredol – dilyn i fyny<br>Diogelu Cyffredinol ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol<br>Model Risg | | | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Chyfweliadau ar gyfer Dychwelyd Adref Cyfweld Ysgogiadol | | | | | |
| 2.2 | Argymhelliad 3 AGGCC:<br>Bydd uwch arweinwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau gwelliannau o ran:<br>1. ansawdd,<br>2. cysondeb, ac<br>3. amseroldeb<br>ymholiadau amddiffyn plant.<br><br>Datblygu Canllaw Ymarfer rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Plant mewn perthynas ag atgyfeiriadau diogelu plant, trafodaethau / cyfarfodydd strategaeth ac ymholiadau. | **Tachwedd – Ionawr 2018**<br><br>• Yn dilyn dadansoddi atgyfeiriadau CID 16, mae gwaith yn parhau rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Plant.<br>• Trafodaeth ynghylch arbrofi gyda threfniadau ar gyfer nifer o fesurau i wella llif ac ansawdd y wybodaeth a rennir rhwng y naill asiantaeth a'r llall.<br><br>**Medi a Hydref 2017**<br><br>• Mae archwiliadau rheolaidd yn dangos bod tystiolaeth anghyson yn nhermau'r gwelliant o ran ansawdd, cysondeb ac amseroldeb ymholiadau amddiffyn plant. Daeth archwiliad o'r 'pellter a deithiwyd' i'r casgliad y cafwyd gwelliant o ran presenoldeb a chofnodi mewn Cyfarfodydd Strategaeth a bod y cyfarfodydd strategaeth yn amserol. Fodd bynnag, daeth Archwiliad o Ffeil Achosion (Gorffennaf) ac adolygiad rheoli i'r casgliad, mewn sawl achos, bod archwilwyr wedi mynegi pryder am drafodaethau neu gyfarfodydd strategaeth o ran:<br>  • Nid ydynt bob amser yn cael eu cynnal mewn modd amserol – e.e. ni chynhaliwyd un tan 3 wythnos ar ôl gwneud penderfyniad i'w gynnal.<br>  • Mae cofnodion o'r trafodaethau'n annigonol – h.y. yn rhy gryno.<br>  • Ceir cyfeiriadau at yr angen am gyfarfodydd strategaeth dilynol ond heb dystiolaeth o'u cynnal. | | **Heb eu gwneud hyd yma**<br><br>Archwiliadau rheolaidd yn dangos gwelliant yn ansawdd, cysondeb a phrydlondeb ymholiadau amddiffyn plant gan arwain at well canlyniadau i blant a phobl ifanc.<br><br>Staff yn dweud eu bod yn cael arweiniad cliriach a bod ganddynt well dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau oherwydd gweithrediad y Canllawiau Ymarfer. | Rheolwyr Gwasanaeth | Ionawr 2017 | Gwaith sy'n parhau |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Adlewyrchir hyn yn Archwiliad Thematig Rhan 4, ynghyd ag adolygiad o blant sy'n destun Cynlluniau Amddiffyn Plant – mae prosesau penderfynu, oediadau a diffyg cynlluniau clir a'u dilyn trwodd yn faterion a nodwyd.<br>• Cynhaliwyd trafodaethau lefel uchel rhwng Heddlu Gogledd Cymru a'r Gwasanaethau Plant ynghylch peilota hyb Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Amlasiantaethol. Bydd hyn yn cael ei yrru yn ei flaen ymhellach ym mis Tachwedd.<br>• Mae'r Heddlu yn gwneud cynnydd gyda'u dadansoddiad o CID 16's, ac yn awgrymu mai'r cam nesaf fydd i'r ddau dîm gyfarfod i gymharu eu casgliadau.<br>• Mae canllawiau ymarfer amlasiantaethol drafft wedi'u cwblhau gan gynnwys:<br>  ◦ Trothwyon Ymchwilio Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol<br>  ◦ Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Gweithwyr Allweddol a Grwpiau Craidd<br>  ◦ Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Trothwyon Cofrestru<br>  ◦ Rhan 4 AWCPP2008<br>  ◦ Gwneud Atgyfeiriadau<br>• Bydd y canllawiau amlasiantaethol yn cael eu cadarnhau gan y Bwrdd Diogelu Corfforaethol ym mis Rhagfyr, ac yn cael eu defnyddio gan yr adrannau Tai ac Addysg a gan asiantaethau sy'n bartneriaid mewn perthynas â'r broses ddiogelu. Yn ogystal, trafodir y canllawiau yn yr Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau Rhanbarthol er mwyn eu defnyddio ar lefel ranbarthol. Datblygir cynllun hyfforddiant i sicrhau bod trefniadau | | | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | yn eu lle i staff ddefnyddio'r Canllawiau Ymarfer<br><br>**<u>Awst 2017</u>**<br><br>• Rydym wedi cyfarfod â'r hyb IAA cyfatebol yng Nghynghorau Sir Conwy a Sir y Fflint er mwyn archwilio opsiynau a rhannu eu profiadau. Mae'r ymweliad â Chonwy a Sir y Fflint wedi ein cynorthwyo i ffurfio cenhadaeth gliriach ar gyfer ein IAA ein hunain.<br>• Wedi datblygu cwmpas y gwaith gyda'r heddlu ar yr archwiliad ar y cyd a gwelliant o ran atgyfeiriadau, cyfarfodydd Strategaeth ac archwiliadau Adran 47.<br>• Cynhaliwyd archwiliad ar bob un o'r 81 atgyfeiriad a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Plant oddi wrth Uned Diogelu'r Cyhoedd yn ffurf CID 16's rhwng y $1^{af}$ a'r $14^{eg}$ o Fehefin 2017. Ystyriwyd nad oedd 20 o'r atgyfeiriadau'n glir o ran y rheswm dros rannu'r wybodaeth. O'r 81, dim ond saith oedd yn nodi beth fyddai'r canlyniad disgwyliedig ar gyfer yr atgyfeiriad. Dim ond 15 atgyfeiriad oedd yn cynnwys llais y plentyn. Rhaid i Uned Diogelu'r Cyhoedd sicrhau eu bod yn fwy penodol o ran pam maent yn atgyfeirio'r wybodaeth ac ni ddylent atgyfeirio dim ond oherwydd bod plant yn gysylltiedig â'r oedolion dan sylw.<br>• CSE a Chyfweliadau Dychwelyd Adref ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, mae gwaith yn cael ei wneud i wella perfformiad yn y meysydd hyn gyda phartneriaid – yr Heddlu a 6 Awdurdod Lleol Gogledd Cymru.<br>• Ymgymerwyd ag archwiliad pellach ym Mai/Mehefin 2017 o ran atgyfeiriadau a oedd yn mynd ymlaen i Strategaeth a Chynhadledd: | | | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ansawdd Trafodaethau/Cyfarfodydd, Ansawdd Asesu. Gweler 2.1<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br><br>• Mae protocolau wedi'u drafftio ar hyn o bryd ar gyfer:<br>  • Trothwyon Ymchwilio Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol<br>  • Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Gweithwyr Allweddol a Grwpiau Craidd<br>  • Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Trothwyon Cofrestru<br>Set o brotocolau'n debygol o fod yn barod ar gyfer mis Hydref.<br>• Dadansoddiad pythefnos wedi dechrau ar 10/07/17 mewn perthynas â phob CID16 a dderbynnir yn Teulu Môn er mwyn sicrhau gwneud atgyfeiriadau priodol i'r Cyngor a deall y data ac archwilio rhannu gwybodaeth. Cynhaliwyd cyfarfod ar 26ain Mehefin.<br>• Trefnir cyfarfodydd misol rhwng y Gwasanaethau Plant a Heddlu Gogledd Cymru i fynd i'r afael â materion gweithredol ac i ddatblygu Canllawiau Ymarfer mewn perthynas ag atgyfeiriadau amddiffyn plant, trafodaethau /cyfarfodydd strategaeth ac ymholiadau.<br>• PG yn cael gwybod am unrhyw anawsterau gweithredol mewn perthynas â chydweithio gyda'r Heddlu i sicrhau eu bod yn cael sylw brys ac nad yw plant yn cael eu gadael mewn sefyllfaoedd sy'n golygu eu bod yn agored i niwed.<br>• Cynnal archwiliad i fonitro ansawdd, cysondeb a phrydlondeb ymholiadau amddiffyn plant.<br><br>**Mai 2017** | | | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Cynhaliwyd trafodaeth gadarnhaol gyda'r Heddlu ynghylch cydweithredu. | | | | | |
| 2.3 | **Argymhelliad 9 AGGCC:** Dylid sefydlu trefniadau amlasiantaethol i gryfhau cynlluniau gweithredol i gefnogi cydlyniad effeithiol er mwyn sicrhau bod partneriaid statudol yn cwblhau 'Fframweithiau Asesu ar y Cyd'.<br><br>Canllawiau Ymarfer i gael eu datblygu rhwng y Gwasanaethau Plant, Iechyd, yr Heddlu ac Addysg er mwyn sicrhau eglurder o ran trefniadau gweithredol – cytuno ar drothwy atgyfeirio, gwella ansawdd yr atgyfeiriadau, mynychu cyfarfodydd strategaeth, cyfarfodydd grŵp craidd a rhannu gwybodaeth. | **<u>Tachwedd – Ionawr 2018</u>**<br><br>• Rydym wedi derbyn caniatâd gan Lywodraeth Cymru i gyfuno'r Fframwaith Asesu ar y Cyd (JAF) gyfredol efo'r ffurflen asesu gofal a chefnogaeth. Mae gwaith wedi cychwyn ar gynnwys y mesuriadau sy'n cael eu casglu yn y Fframwaith Asesu ar y Cyd. Bydd angen defnyddio'r Asesiad a'r Cynllun Gofal a Chymorth yn lle'r JAF.<br>• Mae cyfarfodydd gweithredol Aml-asiantaethol yn cael eu cynnal yn fisol gyda'r Heddlu, y Bwrdd Iechyd, CAMHS, Pediatregydd ac Addysg i drafod trefniadau cydweithio i wella a chryfhau trefniadau cyfredol, e.e ansawdd y cyfeiriadau a dderbynnir gan y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.<br><br>**<u>Medi a Hydref 2017</u>**<br><br>• Gwnaed cynned o ran gwella ansawdd a'n dealltwriaeth o'r asesiadau gofal a chymorth (Rhan 1,2,3). Mae hyn yn cynnwys y set ddata graidd, y sgwrs 'beth sy'n bwysig' a'r asesiad gofal a chymorth. Buom yn gweithio i wella ein dealltwriaeth o'r meini prawf cymhwyster cenedlaethol ac i gael cysondeb o ran cofnodi'r meini prawf cymhwyster yn ein hasesiadau. Rydym wedi canfod dulliau cyfathrebu addas, awgrymiadau ac offerynnau i wella ansawdd y sgyrsiau 'beth sy'n bwysig', y broses benderfynu a chofnodi.<br><br>**<u>Awst 2017</u>** | | **Heb eu gwneud hyd yma**<br><br>Gwell trefniadau diogelu amlasiantaethol sy'n arwain at well canlyniadau a phrofiadau i blant a phobl ifanc<br><br>**Wedi cychwyn**<br><br>Canllaw Ymarfer amlasiantaethol sydd yn rhoi diffiniad clir o swyddogaethau a chyfrifoldebau lleol a threfniadau diogelu. | Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar | Ionawr 2017 | Gwaith sy'n parhau ynglyn a'r<br><br>cyfarfodydd gweithredol Aml-asiantaethol |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Canllawiau ymarfer wedi'u cwblhau, gweler 2.2<br>• Cyfarfodydd wedi eu cynnal efo CAFCASS a CAMHS<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br><br>• Gwnaed trefniadau i gynnal grŵp tasg a gorffen amlasiantaethol o dan y grŵp cyflawni diogelu lleol i ddatblygu y canllawiau ymarfer.<br><br>**Mai 2017**<br><br>• Y Grŵp Cyflawni Diogelu Lleol wedi cytuno ar 16.2.17 y dylid cynnal cyfarfod amlasiantaethol rhwng Gwynedd ac Ynys Môn i drafod trefniadau gwaith ac anawsterau presennol a'u dwyn i sylw'r BRhDP.<br><br>• Canllawiau Ymarfer i gael eu datblygu rhwng y Gwasanaethau Plant, Iechyd, yr Heddlu ac Addysg er mwyn sicrhau eglurder o ran trefniadau gweithredol - cytuno ar drothwy atgyfeirio, gwella ansawdd yr atgyfeiriadau, mynychu cyfarfodydd strategaeth, cyfarfodydd grŵp craidd a rhannu gwybodaeth, gweler. 3.3 (4) | | | | | |

**3. Fframwaith sicrhau ansawdd a pherfformiad sy'n cefnogi'r awdurdod lleol i reoli ei gyfrifoldebau tuag at blant yn effeithiol**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.1 | Adolygu'r holl blant sydd mewn gofal er mwyn sicrhau bod cynlluniau cymorth a gofal yn seiliedig ar ganlyniadau mewn lle er mwyn sicrhau fod ganddynt sefydlogrwydd tymor hir.<br><br>Dealltwriaeth ar lefel gwasanaeth a chorfforaethol o broffil plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd ar y CAP.<br><br>Adolygu bob achos lle mae enwau plant wedi bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant am 12 mis + er mwyn penderfynu os y dylid eu trafod mewn Panel Porthgadw Cyfreithiol (achosion gofal). | **Tachwedd - Ionawr 2018**<br>• Adolygiad o leoliadau preswyl yn mynd rhagddo.<br>• Mae Rheolwr Gwasanaeth yn cynnal cyfarfod bob mis gydag Arweinwyr Ymarfer i drafod y plant sydd wedi bod ar y Gofrestr am o leiaf 10 mis i benderfynu ar unrhyw gamau y mae angen eu cymryd, e.e. trafod yr achos mewn cyfarfod Porthgadw Cyfreithiol.<br>• Mae'r gwasanaeth yn edrych ar ddatblygu darpariaeth gofal yn lleol er mwyn cwrdd â'r pwysau cynyddol o ran Plant Sy'n Derbyn Gofal, e.e.:<br>1. Cartrefi i Grwpiau Bychan<br>2. Gofalwyr Maeth Cyflogedig; ac<br>3. Yr hyn a gynigir yn gyffredinol i ofalwyr maeth<br>Mae'r Aelodau Etholedig yn ffafrio hyn nid yn unig oherwydd cost ond, yn bwysiach, er mwyn sicrhau y gallwn gadw plant Ynys Môn yn eu cynefin, er na fyddant yn byw gyda'u teuluoedd genedigol.<br><br>Cwblhaodd y Gwasanaeth Hunanasesiad Arolygiaeth Gofal Cymru mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal ar 26 Ionawr 2018. Cynhelir y Cyfarfod Her ar 27 Mawrth 2018.<br><br>Yn ogystal, cwblhaodd y Gwasanaeth yr Adolygiad Mabwysiadu ar 25 Ionawr 2018 gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. | • Nod i leihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal drwy:<br>Ymgysylltu â theuluoedd, ffrindiau a'r gymuned yn gynt<br><br>Bod yn greadigol – cymorth /darpariaeth ychwanegol<br><br>Cwblhau Asesiadau Gofal a Chymorth manwl<br><br>Ymgysylltu â'r plentyn/unigolyn ifanc yn y broses Asesu<br><br>Gwrando ar blant a phobl ifanc<br><br>Cynllunio Gofal a Chymorth SMART<br><br>Ymyrraeth Teuluoedd Gwydn<br><br>• Angen symud i ffwrdd o feddwl mai'r modd gorau o ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc yw drwy eu rhoi mewn gofal.<br>• Mae angen mynd ati'n raddol i ddileu'r defnydd o seibiannau (dros nos) oddi wrth rieni.<br>• Pan fydd rhieni'n gofyn am gael rhoi eu plentyn/plant mewn gofal, rhaid dweud wrthynt bod rhaid gweithio drwy'r camau a nodir uchod*. | **Wedi cychwyn**<br><br>Gwaith dwys gyda phlant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sydd angen trefniadau 'camu i lawr' llwyddiannus yn arwain at well canlyniadau.<br><br>Y Cyngor yn cael sicrwydd bod lleoliadau yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Plant yn cael eu hadsefydlu'n ddiogel yn eu cartrefi trwy leoliadau gyda'u rhieni/cyflawni Gorchmynion Gofal.<br><br>Gweithwyr Cymdeithasol yn rhoi blaenoriaeth i argymhellion Adolygiadau LAC a bod y broses o gwblhau asesiadau a gwaith sydd ar ôl i'w wneud yn digwydd yn gyflym ac yn cael ei chynnal.<br><br>Lleihad yn nifer y plant mewn lleoliadau preswyl erbyn diwedd mis Mawrth 2018 o ganlyniad i waith dwys a wnaed i'w symud i drefniadau 'camu i lawr'.<br><br>Costau a gwariant ar leoliadau costus wedi lleihau'n sylweddol o ganlyniad i drefniadau 'camu i lawr' ar gyfer plant a phobl ifanc'. | | Ionawr 2017 | Mawrth 2018 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Medi a Hydref 2017**<br><br>• Rydym yn gweld tystiolaeth o'r gweithlu'n gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd sy'n arwain at well canlyniadau – gan ein bod wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y plant ar y gofrestr AP o 102 ym mis Mawrth 2017 i 56 ar y gofrestr ar 31$^{ain}$ Awst 2017, gostyngiad o 55%.<br>• Mae gwaith wedi parhau mewn perthynas â threfniadau camu i lawr o ofal preswyl, nodwyd y bydd 3 o bobl ifanc naill ai'n dychwelyd adref neu'n symud i drefniadau gofal amgen.<br>• Gwnaed gwaith pellach gan y Tîm Teuluoedd Gwydn i sicrhau dilyniant o ran atal plant rhag derbyn gofal a gwneud cynnydd o ran y trefniadau camu i lawr ar gyfer y 3 unigolyn ifanc y soniwyd amdanynt uchod.<br>• Mae camau ar waith i recriwtio i swydd gwaith cymdeithasol i ddirymu gorchmynion gofal.<br><br>**Awst 2017**<br><br>• Ymgymerwyd ag adolygiad o gofnodion Cynadleddau Achos ar gyfer 34 o blant – dangosodd, mewn cryn nifer o achosion nad oedd tystiolaeth i gyfiawnhau'r farn o ran niwed arwyddocaol pellach. Mae Arweinydd Ymarfer wrthi'n adolygu'r un cofnodion mewn ymgais i gadarnhau'r canfyddiadau.<br>• Atgyfeiriwyd un achos i sylw rheolwyr gan y bu'r plant ar y gofrestr am 4 blynedd. Roedd hyn yn gadarnhaol ac arweiniodd at wneud penderfyniadau, cyfeiriad a gweithredu cliriach.<br>• Mae proffil y plant ar y gofrestr AP wedi'i gwblhau, mae gwaith wedi mynd yn ei flaen i leihau nifer y plant ar y gofrestr. Nifer y plant ar y gofretsr ar 31$^{ain}$ Awst 2017 oedd 56, o gymharu â 102 ddiwedd Mawrth 2017, gostyngiad o 55%. Mae Arweinydd Ymarfer wedi'i ganfod i roi sylw i welliannau o ran ansawdd y gwaith mewn perthynas â chynadleddau AP a lleihau'r cyfnod amser y mae plant yn aros ar y gofrestr. | | Archwiliadau o ffeiliau achos yn dangos bod cynllunio gofal gan Weithiwr Cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn gwella'n sylweddol drwy weithredu'r Canllaw Ymarfer.<br><br>Mae adolygu'r plant sy'n derbyn gofal a'r plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn darparu gwybodaeth fanwl a dealltwriaeth o'u hanghenion. Bydd hyn yn cynorthwyo gyda'r strategaeth atal a gwaith y Tîm Teuluoedd Gwydn. | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Mae gwaith wedi dechrau ar ddeall a herio “cyfnodau rhybudd” a roir gan ddarparwyr gofal.<br>• Mae gwaith wedi dechrau ar herio Ansawdd y lleoliadau a gynigir.<br>• Mae’r Tîm Teuluoedd Gwydn wedi’i benodi ac rydym wedi dechrau gweithio o dan y model Teuluoedd Gwydn gyda theuluoedd.<br><br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br><br>• Yr holl blant sy’n derbyn gofal wedi’u hadolygu a phlant sydd angen trefniadau ‘Camu i Lawr’ wedi’u hadnabod.<br>• Y Pennaeth Gwasanaeth yn cadeirio grŵp – panel adolygu mewnol ar gyfer lleoliadau preswyl:<br>Sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth yn cyflawni eu canlyniadau llesiant i sicrhau bod argymhellion adolygiadau LAC yn cael eu gweithredu ac i sicrhau gwerth am arian.<br>• Swyddi Tîm Teuluoedd Gwydn wedi cau erbyn hyn.<br>• Angen cryfhau cynlluniau gofal ar gyfer plant sy’n derbyn gofal drwy ddatblygu canllawiau ymarfer ychwanegol.<br>• Polisi Parhad yn cael ei adolygu ar hyn o bryd<br>• Rydym wedi cychwyn ymarfer yn wahanol ac yn fwy dwys efo nifer fechan o deuluoedd yn dilyn model tebyg i waith y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd. Dyma’r gwaith y bydd y Tîm Teuluoedd Gwydn yn ei wneud i roi cymorth i blant sy’n byw adref: gan atal yr angen am lety a rhoi cymorth ar gyfer cynlluniau i ddychwelyd adref.<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br><br>• Rheolwyr Tîm i gadarnhau erbyn Mawrth 2017 pa blant / pobl ifanc fydd yn cael cynlluniau gofal a chymorth ‘camu i lawr’.<br>• Daethpwyd i gytundeb erbyn mis Mawrth 2017 ynghylch y tasgau sy'n ofynnol er mwyn sicrhau sefydlogrwydd a'r gwaith dwys y mae angen ei wneud gyda phlant sy'n derbyn gofal / pobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn sicrhau bod trefniadau ‘camu i lawr’ yn llwyddiannus. | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Swyddi o fewn y Tîm Teuluoedd Gwydn a phenodiadau wedi eu gwneud erbyn Mai 2017.<br>• Cryfhau'r broses o gynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal trwy ddatblygu Canllawiau Ymarfer ychwanegol. | | | | | |
| 3.2 | Cryfhau ac ymgorffori'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd o fewn y Gwasanaeth, trwy:<br><br>1. SAA a CAP i adrodd yn chwarterol ar eu hasesiad o berfformiad gweithredol cynadleddau ac adolygiadau.<br>2. SAA a CAP i ddwyn sylw, ar sail thematig, at faterion yn ymwneud ag ansawdd a dysgu ar gyfer y Gwasanaeth.<br>3. Rheolwyr i gynnal archwiliadau rheolaidd ar feysydd sy'n canolbwyntio ar:<br>• Oruchwylio<br>• Cofnodi<br>• Asesu<br>• Ansawdd, cysondeb a phrydlondeb ymholiadau amddiffyn plant<br><br>Llwyth achosion ac adroddiadau ynghylch ansawdd perfformiad gweithwyr i gael eu monitro yn barhaus.<br><br>Argymhelliad 13 AGGCC: Mae angen gwreiddio trefniadau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd, gan gynnwys sgriwtineiddio'r galw am wasanaethau ac archwiliadau rheolaidd o ansawdd ymarfer, fel bod rheolwyr ar bob lefel yn | **Tachwedd - Ionawr 2018**<br><br>• Mae llai o gydymffurfiaeth ymysg rheolwyr ac Arweinwyr Ymarfer o ran yr angen i gwblhau archwiliadau mewn dull cynlluniedig.<br>• Mae'r Uned Ddiogelu wedi bod yn gweithio ar ddau o adroddiadau thematig yn ystod y cyfnod hwn – a bydd hyn yn cael ei fwydo i mewn i adroddiad Ch3. Mae hyn yn cryfhau'r trosolwg a'r adolygiad o swyddogion annibynnol ac yn rhoddi yn ei lle elfen arall o'r Fframwaith IQ.<br>• Mae cynllun gweithredu ar gyfer gweddill elfennau'r IQF wedi cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â rheolwyr ac arweinwyr ymarfer; a bydd angen i hyn gael ei gymeradwyo gan Dîm Rheoli'r Gwasanaeth yn ei gyfarfod nesaf.<br>• Mae rheolwr interim wedi cael ei benodi i ddarparu capasiti ychwanegol fel y gellir datblygu'r gwelliannau mewn modd cynlluniedig a systematig. Mae'r swydd Sicrwydd Ansawdd wrthi'n cael ei hysbysebu ar hyn o bryd.<br>• Bydd yr holl achosion a ddyfarnwyd yn 'annigonol' mewn archwiliadau blaenorol yn cael eu hadolygu gan y rheolwr interim.<br>• Canllawiau wedi cael eu datblygu i gefnogi Sylwebaeth Ymarfer: allan i ymgynghori gyda'r Arweinwyr Ymarfer ar hyn o bryd.<br>• Parhau i ddarparu Hyfforddiant a Mentora ar y Model Risg.<br>• Grŵp Ymarfer Da wedi cael ei sefydlu i yrru gwelliant a'r newidiadau i ymarfer ar draws y Gwasanaeth drwy ddysgu o adroddiadau thematig/ansoddol. Mae hyn angen amser i sefydlu a chael effaith.<br><br>**Medi a Hydref 2017**<br><br>• Cymeradwywyd y Fframwaith Gwella Ansawdd gan y Tîm Rheoli Gwasanaeth yn dilyn cyfnod o ddatblygu, ymgynghori a | • Canllawiau i gael eu datblygu mewn perthynas â rheoli llwyth achosion i sicrhau bod digon o gapasiti i weithwyr fedru ymgysylltu'n effeithiol â phlant a'u teuluoedd –<br><br>**Camau nesaf**<br><br>▪ Mae risg ein bod yn canolbwyntio ar werthuso ar draul gwella. Rhaid i ni sicrhau capasiti digonol o fewn yr uned i fwrw ymlaen â'r gwaith o wneud gwelliannau mewn modd systematig sydd wedi'i gynllunio.<br>▪ Gweithredu'r elfennau sy'n weddill o broses Gwerthuso Ansawdd y fframwaith dros gyfnod o amser: gwreiddio bob elfen ac adeiladu ar y sylfaen hwnnw. Rhaid i ni sicrhau capasiti digonol o fewn yr uned i fwrw ymlaen â'r gwaith.<br>▪ Darparu offerynnau, cymorth a hyfforddiant i staff weithredu'r fframwaith.<br>▪ Cwblhau'r adolygiad o waith yr Uned Gwella Ansawdd i gefnogi gwella Ansawdd.<br>▪ Diwygio'r Cynllun Archwilio'n unol ag Adroddiad Gwerthuso Cryno Ch2. | **Heb eu gwneud hyd yma**<br><br>WCCIS yn cefnogi rheoli perfformiad a rheoli llwyth achosion drwy nodweddion 'adrodd' hwylus sydd ar gael i Reolwyr.<br><br>Mae gan weithwyr gapasiti digonol i ymgysylltu'n effeithiol â phlant a'u teuluoedd oherwydd bod Rheolwyr yn gweithredu'r Canllawiau llwyth achosion.<br><br>**Wedi cychwyn**<br><br>Archwiliadau o adroddiadau sicrwydd ansawdd a ffeiliau achos yn dangos tystiolaeth o welliant yn ansawdd yr ymarfer a'r dysgu a bod penderfyniadau diogel yn cael eu gwneud ar bob lefel. Gweler y sylwadau blaenorol. Ymarfer yn parhau i fod yn anghyson ac mae'r gwasanaeth eto i wireddu nifer o'i amcanion gwella o ran ansawdd ymarfer, asesiad, dadansoddiad, rheoli risg a chynllunio gofal a chymorth.<br><br>Adroddiadau ansoddol rheolaidd ac amserol yn cael eu cyflwyno yn ddi- | Rheolwr Gwasanaeth Diogelu a Sicrhau Ansawdd | Ionawr 2017 | Mawrth 2018 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | cael gwybodaeth amserol a pherthnasol o safon uchel am berfformiad a sicrwydd ansawdd i'w galluogi i wneud eu gwaith yn effeithiol ac i gyflawni gwelliannau<br><br>Argymhelliad 14 AGGCC: Dylai Llwyth achosion ac adroddiadau ynghylch ansawdd perfformiad gweithwyr gael eu monitro'n barhaus er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti i weithwyr ymgysylltu'n effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd. | chydweithredu. Nod y fframwaith yw'r ymagwedd y bydd y Gwasanaethau Plant yn ei gymryd i sicrhau eu bod yn<br>• Darparu ymarfer diogel a phroffesiynol<br>• Rhoi cymorth i'r plant/oedolion iawn, yn y ffordd iawn, ar yr adeg iawn<br>• Gwerthuso p'un a ydyw'n gwneud gwahaniaeth i wella ymarfer<br>• Darparu cyd-destun proffesiynol sy'n cefnogi dysgu, myfyrio, didwylledd a herio cefnogol<br>• Mynd â'r agenda wella y tu hwnt i gydymffurfio gyda gweithdrefnau i ymrwymiad i wella ansawdd yr ymarfer gwaith cymdeithasol a ddarperir i blant, eu teuluoedd a'u gofalwyr.<br><br>• Mae sawl elfen allweddol o'r fframwaith yn ei lle –<br>• Cyfathrebu a sicrhau deialog a rennir ynghylch ansawdd<br>• Grŵp gwella ymarfer : rhannu Lledaenu: deialog a rennir<br><br>• Cydgynhyrchu safonau<br>• Darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu<br>• Darparu canllawiau a gweithdrefnau ymarfer<br>• Recriwtio a chadw'r bobl iawn<br>• Disgwyliadau o ran Goruchwyliaeth<br>• Disgwyliadau o ran Trosolwg gan Reolwyr<br><br>• Mae'r broses archwiliadau o ffeiliau achosion ac Archwiliadau Amlasiantaethol yn ymwreiddio o fewn y gwasanaeth.<br>• Mae'r Pennaeth Gwasanaeth wedi penderfynu sefydlu panel sgriwtini o fewn y gwasanaeth i gynnal trosolwg o ran cynllunio ar gyfer parhad.<br>• Mae'r Fframwaith Gwella Ansawdd yn argymell sefydlu cofnod argymhellion a her SAA. Mae archwiliadau wedi dangos, mewn achosion lle cafwyd oedi o ran bwrw ymlaen â chynllun gofal a chymorth plentyn (o dan | ▪ Parhau i ddarparu Hyfforddiant a Mentora yng nghyswllt y Model Risg.<br>▪ Ailymweld ag achosion mis Tachwedd/Rhagfyr y barnwyd eu bod yn annigonol mewn archwiliadau blaenorol. Angen capasiti. | oed i'r tîm arweinyddiaeth, gan gynnwys aelodau.<br><br>Mae'r sefydliad yn arddangos trefniadau llywodraethu a chraffu mwy strwythuredig drwy archwilio ffeiliau achosion yn rheolaidd.<br><br>Mae gan y Swyddog Adolygu Annibynnol / CAP rôl well o ran sicrhau ansawdd gyda hynny'n arwain at ddysgu a gwelliant yn ansawdd yr ymarfer.<br><br>Mae rheolwyr yn darparu adroddiadau misol i reolwyr gwasanaeth a'r PG ar y prif bwyntiau o ran ansawdd perfformiad gweithwyr i sicrhau bod digon o gapasiti i ymgysylltu'n effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd.<br><br>Yr Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd i yrru gwelliannau a newid mewn ymarfer ar draws y Gwasanaeth wrth ddysgu o adroddiadau thematig ac ansoddol.<br><br>Gwelliant o ran ansawdd, cysondeb a phrydlondeb ymholiadau amddiffyn plant. | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ran 6) y bu'r SAA yn argymell camau i gyflawni parhad. Ni wnaed cynnydd o ran yr argymhellion hynny.<br>• Y flaenoriaeth ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf yw asesiadau Gwaith Cymdeithasol - integreiddio'r model risg mewn ymarfer a sicrhau bod yr asesiad yn cael ei gylchredeg o fewn y gwasanaeth.<br>• Mae Bruce Thornton wedi'i gomisiynu i ddarparu rôl fentora/hyfforddi o fewn y gwasanaeth i sicrhau bod y Model Risg yn cael ei wreiddio o fewn ymarfer.<br>• Cynhaliwyd gweithdy llwyddiannus gyda staff yn ymrwymo i'r weledigaeth yn y Fframwaith Sicrwydd Ansawdd ac yn dechrau gweithio gyda'i gilydd i ddarparu ymagwedd wahanol. Roedd moral staff yn dda ac roeddynt o'r farn ei bod yn braf clywed am yr ymagwedd newydd. Rhoir sylw ar y swyddogion yn adrodd yn chwarterol ar eu hasesiad o'r perfformiad gweithredol drwy gynadleddau ac adolygu, gan amlygu, yn ôl themâu, y materion yng nghyswllt ansawdd a dysgu ar gyfer y Gwasanaeth. Maent wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar adroddiad ar y diffyg paratoi, adroddiadau a chynlluniau ar gyfer adolygiadau a chynadleddau. Byddant hefyd yn awgrymu camau gwella.<br><br>**Awst 2017**<br><br>• Wedi penodi Swyddog Cymorth Busnes ar gyfer Adolygiadau Statudol a Chynadleddau Achos<br>• Wedi hysbysebu swydd y Cydlynydd Gwella Ymarfer, sef y 'Rheolwr Sicrwydd Ansawdd' gynt.<br>• Bu rheolwyr yn ymgymryd ag archwiliadau rheolaidd o'r meysydd sydd o dan sylw i fonitro ansawdd perfformiad gweithwyr.<br>• Mae archwiliadau pellach o'r broses benderfynu yn dangos gwelliant o ran ymarfer. Gweler 2.1<br>• Archwiliadau – ffeiliau achosion a thematig – fesul gwasanaeth ac amlasiantaethol – wedi'u cynnal yn ystod y mis. | | **Wedi Cyflawni**<br><br>Adroddiadau ansoddol rheolaidd ac amserol yn cael eu cyflwyno yn ddi-oed i'r tîm arweinyddiaeth gan gynnwys aelodau.<br><br>Fframwaith a thecylynnau ar gyfer llywodraethiant a threfniadau sgriwtini strwythuredig drwy archwiliadau rheolaidd o ffeiliau achos. | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Fframwaith ar gyfer Gwella Ansawdd Ymarfer wedi'i ddatblygu mewn ffurf drafft ar gyfer ymgynghori.<br>• UDRh yn ystyried canfyddiadau adroddiad ansawdd Ch1 – yn argymell blaenoriaethu gwelliannau o ran ymarfer asesu.<br>• Wedi herio a rhoi cymorth i weithwyr unigol wella eu hymarfer.<br><br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br><br>▪ Mae'r gwaith sicrwydd ansawdd yn Chwarter 1 wedi cynnwys:<br>Dadansoddiad proffil Plant sy'n Derbyn Gofal<br>Awdit o Ffeiliau Achos<br>Dadansoddi Llwyth Achosion<br>• Recriwtio i'r swydd cefnogi busnes ar gyfer Adolygiadau Statudol a Cynadleddau Achos erbyn diwedd mis Gorffennaf.<br>• Penodiad i'r swydd Swyddog Adolygu Annibynnol wedi'i wneud ym mis Gorffennaf.<br>• Mwy o ddatblygiadau wedi digwydd mewn perthynas â'r awdit sicrhau ansawdd amlasiantaethol efo Addysg a'r Bwrdd Iechyd i wella ansawdd cyfeiriadau a gwybodaeth sy'n cael eu rhannu efo asiantaethau sy'n bartneriaid.<br>• Mae arian ychwanegol wedi ei gytuno i ailsefydlu'r swydd Rheolwr Sicrhau Ansawdd, cafodd y swydd ei hysbysebu ond wedi methu penodi.<br>• Awdit o Achosion 'Public Law Outline' wedi ei orffen<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br><br>• Fframwaith Sicrhau Ansawdd wedi cael ei ddiwygio a'i gymeradwyo gan y Gwasanaethau Plant.<br>• Cynllun Gweithredu Sicrhau Ansawdd wedi cael ei gytuno ar gyfer y 12 mis nesaf yn canolbwyntio ar archwiliadau rheolaidd ar feysydd sy'n canolbwyntio ar:<br>Oruchwylio<br>Cofnodi<br>Asesu | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Adroddiadau Sicrwydd Chwarterol i'w trafod yn y cyfarfod Rheoli Gwasanaethau Plant a Grŵp Gwella Ymarfer i'w sefydlu i fwrw ymlaen â gwelliannau o ran ymarfer.<br>• Rheolwyr i ddarparu adroddiadau misol i reolwyr gwasanaeth a'r PG ar y prif bwyntiau o ran ansawdd perfformiad gweithwyr i sicrhau bod digon o gapasiti iddynt fedru ymgysylltu'n effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd. | | | | | |
| 3.3 | Datblygu'r fframwaith perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Plant ac Oedolion i gynnwys:<br><br>1. Dangosyddion perfformiad Amlinellol wedi eu rhannu'n berfformiad Cenedlaethol, Corfforaethol a Gwasanaeth.<br>2. Trefniadau llywodraethu i gynnwys adrodd, atebolrwydd a mecanwaith i yrru gwelliant.<br>3. Gwelliant parhaus wedi ei ymgorffori yn y fframwaith.<br>4. Fframwaith i ddarparu tystiolaeth o ansawdd ymarfer a phrofiadau defnyddwyr gwasanaeth.<br>5. Angen gwelliant mewn meysydd perfformiad blaenoriaeth sydd y tu hwnt i'r lefel dderbyniol a thargedau:<br>• Asesu<br>• Adolygiadau Plant LAC<br>• Ymweliadau Plant LAC<br>• Ymweliadau plant ar y gofrestr<br>• Cyfarfodydd grwpiau craidd | **<u>Tachwedd – Ionawr 2018</u>**<br><br>• Cynllun gweithredu yn parhau i fod yn ei le fel mesur dros dro i gasglu gwybodaeth ac adrodd ar DP<br>• Rydym yn parhau i weithio ar ddulliau o gael i mewn i adroddiadau ar WCCIS – mae hon yn broblem ar gyfer y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol sydd wedi mynd yn 'fyw' ar y system newydd ac rydym yn gweithio gyda Chyngor Ceredigion yn benodol i'n cynorthwyo yn hyn o beth. Ymddengys bod problem yn genedlaethol i'r holl Awdurdodau Lleol o ran cysondeb dehongliad ac adroddiadau yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad newydd a gyflwynwyd dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Derbyniwyd llythyr dyddiedig 25 Hydref gan Glyn Jones, Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru. Dygodd y llythyr hwn sylw at y ffaith bod dynodiad Ystadegau Cenedlaethol wedi cael ei dynnu'n ôl am gyfnod dros dro ar gyfer cyhoeddiadau Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd pryderon ynghylch ansawdd y data yr adroddwyd arno'n dilyn cyflwyno WCCIS.<br><br>**<u>Medi a Hydref 2017</u>**<br><br>• Mae Cynllun Gweithredu yn ei le fel cam dros dro i adrodd yn erbyn Dangosyddion Perfformiad hyd nes y gellir eu cael o'r system WCCIS. Buom yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Trawsnewid Corfforaethol ar y mater hwn mewn perthynas â chryfhau'r trefniadau adrodd a monitro.<br>• Rydym yn ysgrifennu'r sgriptiau i gael mynediad i adroddiadau o'r WCCIS – mae hyn yn broblem i'r mwyafrif o'r awdurdodau lleol sydd wedi mynd yn 'fyw' ar y system newydd, | • Bydd Rheolwr Prosiect Allanol yn cychwyn gweithio gyda'r Gwasanaeth i sgopio'r hyn sydd ei angen o'r System ac i edrych ar y nodau tymor hir o ran y defnydd gorau o'r dechnoleg er enghraifft.<br>• Bydd Bwrdd Prosiect yn cael ei sefydlu. | **Heb eu gwneud hyd yma**<br><br>Yn gyffredinol, gwelliant parhaus mewn perfformiad a chanlyniadau ar gyfer plant/pobl ifanc.<br><br>Gwelliant o ran lefel dealltwriaeth y staff o ddangosyddion perfformiad a'r cysylltiad clir gydag ansawdd ac phrydlondeb ymarfer. Mae hyn yn arwain at welliant parhaus mewn perfformiad a chanlyniadau i blant / pobl ifanc - un dangosydd yw gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal.<br><br>**Wedi cychwyn**<br>Cryfhau'r trefniadau adrodd a monitro mewn perthynas â gwybodaeth am Berfformiad.<br><br>Gwybodaeth perfformiad yn dangos gwelliant mewn perfformiad i lefelau derbyniol:<br>• Asesu<br>• Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal<br>• Ymweliadau Plant sy'n Derbyn Gofal<br>• Ymweliadau plant ar y Gofrestr<br>• Cyfarfodydd grwpiau craidd<br>• Cynlluniau Llwybr | Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant | Mawrth 2017 | Hydref 2017 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | • Cynlluniau Llwybr<br>Byddir yn dod â'r rhain yn ôl o fewn y targed. | ac rydym yn gweithio gyda Chyngor Ceredigion yn arbennig i'n galluogi i wneud hyn.<br>• Buom yn edrych yn fanwl ar un o'r dangosyddion, % y plant sy'n derbyn gofal a welwyd o fewn amserlenni statudol, ac rydym yn amau efallai na fu'r data a gasglwyd gennym a'r dadansoddi yn gywir, sydd wedi arwain at berfformiad sy'n ymddangos yn waeth nag ydyw mewn realiti. Mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r materion hyn.<br><br>**<u>Awst 2017</u>**<br><br>• Rydym yn parhau i herio a rhoi cymorth i weithwyr unigol wella eu hymarfer.<br>• Gwnaed cryn welliant o ran ymweliadau adolygiadau LAC ar gyfer Awst ar ôl adolygu sut yr oedd y dangosyddion yn cael eu mesur. Mae 86% o ymweliadau'n cael eu cynnal o fewn yr amserlen.<br>• Rydym bellach yn blaenoriaethu dangosyddion mewn perthynas ag Adolygiadau LAC, ymweliadau LAC, ymweliadau AP, cyfarfodydd grŵp craidd. Byddwn yn canolbwyntio ar Amserlenni, Pwrpas, Recordio a Pherfformiad.<br><br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br><br>• Wedi herio a chefnogi gweithwyr unigol i wella ymarfer<br>• Canllawiau wedi'u drafftio ar hyn o bryd ar gyfer:<br>Trothwyon Ymchwilio Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol<br><br>Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Gweithwyr Allweddol a Grwpiau Craidd<br><br>Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Trothwyon Cofrestru<br><br>• Mae safonau gwasanaeth yn cael eu datblygu i sicrhau arfer dda mewn perthynas â pherfformiad | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | allweddol sydd y tu hwnt i'r lefel dderbyniol a thargedau.<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br><br>▪ Comisiynu arbenigedd allanol ym mis Mai 2017 / Mehefin i ddatblygu'r fframwaith perfformiad ar draws y Gwasanaethau Plant ac Oedolion<br>▪ Bydd system dracio fanylach yn cael ei datblygu, wedi ei selio ar arfer dda o fannau eraill; wedi'i chyfuno â strwythur newydd ar gyfer Gwasanaethau Plant, bydd yn galluogi Rheolwyr Timau/Arweinwyr Ymarfer i sicrhau fod ymweliadau'n cael eu cynnal pan fo staff yn absennol o'r gwaith (p'un a ydynt ar wyliau blynyddol neu'n absennol oherwydd salwch). | | | | | |
| 3.4 | Argymhelliad 2 AGGCC: Sefydlu systemau sicrhau ansawdd a threfniadau hyfforddiant amlasiantaethol i sicrhau bod staff a phartneriaid yn deall y trothwyon ar gyfer asesiadau gwasanaethau plant statudol ac y glynir wrth trothwyon hynny'n gyson.<br><br>Datblygu protocol ar gyfer trothwyon amddiffyn plant amlasiantaethol a bod y protocol hwnnw'n ymgorffori canllawiau diweddar Llywodraeth Cymru.<br><br>Canllawiau Ymarfer i gael eu datblygu rhwng y Gwasanaethau Plant, Iechyd, yr Heddlu ac Addysg er mwyn | **<u>Tachwedd – Ionawr 2018</u>**<br><br>• Mae'r Rheolwr Gwasanaeth wedi cyflwyno papur i Grŵp Cyflawni Lleol Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (NWSCB) o ran y modd y gall ddatblygu ei drefniadau i sefydlu systemau sicrwydd ansawdd amlasiantaethol. Mae'n hanfodol bod y datblygiadau hyn yn digwydd dan lywodraethiant y bwrdd.<br>• Wedi cynnal 2 MAPF yn ystod y cyfnod – sydd wedi nodi gwersi defnyddiol a ddysgwyd ar sail amlasiatnaethol. Caiff y rhain eu cyflwyno i Grŵp Cyflawni Lleol yr NWSCB yn ystod y Chwarter hwn.<br>• Canllawiau Ymarfer wedi cael eu datblygu ond heb eu cymeradwyo eto gan Grŵp Cyflawni Lleol yr NWSCB. Maent wedi eu cymeradwyo ar gyfer eu defnyddio yn CSYM.<br>• Archwiliad CID16 gyda'r Heddlu – dangos y materion y mae angen eu datrys o ran y gwahaniaeth rhwng rhannu gwybodaeth/gwiriadau diogelwch/gwneud cyfeiriad. Angen cytuno ar yr adroddiad gyda'r Heddlu cyn ei gyflwyno i Dîm Rheoli'r Gwasanaeth. | **Camau nesaf**<br>▪ Parhau gyda'r gwaith gwella mewn modd cynlluniedig a systematig. Yn gysylltiedig â lansio'r Canllawiau Ymarfer.<br>▪ Angen capasiti i gynnal y cynnydd o ran ymgymryd â gwerthusiadau amlasiantaethol. Mae angen cynllunio hyn i mewn i gapasiti'r uned ddiogelu ac ansawdd. | **Heb eu gwneud hyd yma**<br><br>System sicrhau ansawdd amlasiantaethol y cytunwyd arni yn arwain at welliant o ran ansawdd a phrydlondeb ymarfer.<br><br>Yr holl staff a phartneriaid allweddol wedi cael yr hyfforddiant a nodwyd ac mae tystiolaeth o welliant o ran lefel y ddealltwriaeth o drothwyon ar gyfer atgyfeiriadau, asesiadau ac amddiffyn plant a'r modd y dylid defnyddio'r trothwyon hynny. Mae hyn o ganlyniad i weithredu'r Canllawiau Ymarfer.<br><br>Mae gwybodaeth/atgyfeiriadau gan yr Heddlu i'r Gwasanaethau Plant yn cael | Rheolwr Gwasanaeth Diogelu a Sicrwydd Ansawdd | Rhagfyr 2016 | Rhagfyr<br><br>2017 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | sicrhau eglurder o ran trefniadau gweithredol - trothwy atgyfeirio y cytunwyd arno, trothwy asesu, gwella ansawdd yr atgyfeiriadau, mynychu cyfarfodydd strategaeth, cyfarfodydd grŵp craidd a rhannu gwybodaeth. | • Canllawiau Ymarfer Amlasiantaethol wedi eu cytuno gan y Bwrdd Diogelu Corfforaethol ar 8 Rhagfyr 2017.<br><br>**<u>Medi a Hydref 2017</u>**<br><br>• Yn bwrw ymlaen gyda phartneriaid (yr Heddlu, Iechyd ac Addysg) i weithredu'r system sicrwydd ansawdd amlasiantaethol y cyfeirir ati isod.<br>• Darperir crynodeb o adroddiad Ch2 uchod - Mae archwiliadau rheolaidd yn dangos bod tystiolaeth anghyson yn nhermau'r gwelliant o ran ansawdd, cysondeb ac amseroldeb ymholiadau amddiffyn plant. Daeth archwiliad o'r pellter a deithiwyd i'r casgliad y cafwyd gwelliant o ran presenoldeb a chofnodi mewn Cyfarfodydd Strategaeth a bod y cyfarfodydd strategaeth yn amserol. Fodd bynnag, daeth Archwiliad o Ffeil Achosion (Gorffennaf) ac adolygiad rheoli i'r casgliad, mewn sawl achos, bod archwilwyr wedi mynegi pryder am drafodaethau neu gyfarfodydd strategaeth o ran:<br>    • Nid ydynt bob amser yn cael eu cynnal mewn modd amserol – e.e. ni chynhaliwyd un tan 3 wythnos ar ôl gwneud penderfyniad i'w gynnal.<br>    • Mae cofnodion o'r trafodaethau'n annigonol – h.y. yn rhy gryno.<br>    • Ceir cyfeiriadau at yr angen am gyfarfodydd strategaeth dilynol ond heb dystiolaeth o'u cynnal.<br>• Adlewyrchir hyn yn Archwiliad Thematig Rhan 4, ynghyd ag adolygiad o blant sy'n destun Cynlluniau Amddiffyn Plant – mae prosesau penderfynu, oediadau a diffyg cynlluniau clir a'u dilyn trwodd yn faterion a nodwyd.<br>• Wrthi'n gweithio gyda'r Heddlu ac Iechyd - fforwm proffesiynol amlasiantaethol ynghylch dau adolygiad rheoli o achosion lle'r oedd yn well cynnal adolygiad o ymarfer yn amlasiantaethol – un wedi'i gwblhau: un ar y gweill. Mae'r adolygiad sydd wedi'i gwblhau yn dangos arferion gwael o ran rhannu | | eu craffu ymlaen llaw yn cynnwys crynodeb sy'n rhoi rheswm dros yr atgyfeiriad a'r camau gweithredu y gofynnwyd amdanynt. Bydd hyn yn arwain at welliant yn ansawdd yr atgyfeiriadau a'r penderfyniadau ac yn gostwng yn sylweddol nifer yr atgyfeiriadau a dderbynnir gan y Gwasanaethau Plant wrth y drws ffrynt.<br><br>Mae ansawdd yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Plant wedi gwella'n sylweddol o ganlyniad i'r gwelliant yn ansawdd y wybodaeth a ddarperir gan bartneriaid. Bydd hyn yn galluogi staff i ganolbwyntio ar sefydlu perthynas gadarnhaol gyda theuluoedd a darparu ymyriadau o ansawdd. | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gwybodaeth: diffyg sylw i risg a chyfleoedd wedi'u methu o ran ymyrryd yn gynharach.<br>• Rydym wedi ymgymryd ag adolygiad cyfaill beirniadol o achos ar y gofrestr CAP gyda Chyngor Gwynedd. Mae'r adolygiad a gwblhawyd yn dangos diffyg sylw i risg, cynlluniau amddiffyn plant gwael a cholli cyfleoedd i ymyrryd yn gynharach i asesu risg, ymgysylltu â'r teulu a chreu newid.<br>• Mae Ffurflen Atgyfeirio Ranbarthol wedi'i chymeradwyo a cheir trafodaeth yn y Bwrdd Diogelu Plant o ran cael Heddlu Gogledd Cymru'n cwblhau'r ffurflen hefyd.<br>• Datblygwyd atgyfeiriadau o dan y Canllawiau Ymarfer, cynhelir hyfforddiant rhanbarthol i sicrhau bod y trothwyon ar gyfer asesiadau i'r gwasanaethau plant statudol yn cael eu deall gan staff a phartneriaid a'u bod yn cael eu gweithredu'n gyson.<br>**<u>August 2017</u>**<br><br>• Dogfen Adroddiad Gwerthuso Ymarfer Ch1 2017/18 Gwaith archwilio ffeiliau achos wedi'i gwblhau ar y meysydd ymarfer a ganlyn: archwiliad camu i lawr LAC, adroddiad ar gyfer y panel lleoli, archwiliadau ffeiliau achos misol wedi'u cynllunio gan Reolwyr Timau, archwilio ymatebol (cwynion Cam 2) a phenderfynu cychwynnol, sgrinio, trafodaethau a chyfarfodydd strategaeth ac asesu syml. Barnau defnyddwyr gwasanaeth a gwerthuso adolygiadau rheoli a gynhaliwyd yn flaenorol. Mae canlyniadau chwarter 1 wedi cael eu dadansoddi, gweler 2.1<br>• Yn gwneud cynnydd gyda phartneriaid (yr Heddlu, Iechyd ac Addysg) o ran gweithredu'r system sicrhau ansawdd amlasiantaethol y cyfeirir ati isod.<br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br><br>• Mae fframwaith sicrwydd ansawdd amlasiantaethol wedi'i ddatblygu i'w gymeradwyo rhwng y Gwasanaeth a'r Heddlu, y Gwasanaeth a'r Bwrdd Iechyd a'r Gwasanaeth ac Addysg.<br>• Bydd canlyniadau'r archwiliadau a wnaed yn Chwarter 1 yn cael eu dadansoddi yn chwarter 1 | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ac yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Cyflawni Lleol ar gyfer sicrwydd ansawdd.<br>• Canllawiau wedi'u drafftio ar hyn o bryd ar gyfer:<br>Trothwyon Ymchwilio Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol<br>Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Gweithwyr Allweddol a Grwpiau Craidd<br>Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Trothwyon Cofrestru<br>Set o ganllawiau yn debygol o fod yn barod ar gyfer mis Hydref.<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br><br>Partneriaid yn darparu cytundeb i ddatblygu a chefnogi / blaenoriaethu:<br>• Systemau sicrhau ansawdd amlasiantaethol<br>• Hyfforddiant ar gyfer staff y Gwasanaethau Plant a phartneriaid ar drothwyon ar gyfer asesu a rolau a chyfrifoldebau phartneriaid.<br>• Datblygu trothwy amddiffyn plant amlasiantaethol.<br>• Canllawiau Ymarfer i gael eu datblygu rhwng y Gwasanaethau Plant, Iechyd, yr Heddlu ac Addysg i gynnwys pob maes gwaith lle mae angen gwneud gwaith datblygu. | | | | | |
| 3.5 | **Argymhelliad 11 AGGCC:**<br>Dylid gwella ansawdd a chysondeb cadw cofnodion; dylai'r holl staff a rheolwyr sicrhau bod eu cofnodion o ansawdd da, yn gyfredol ac yn cael eu storio yn systematig.<br><br>Staff i dderbyn hyfforddiant ar y safonau disgwyliedig o safbwynt cadw cofnodion. | **<u>Tachwedd – Ionawr 2018</u>**<br><br>• Mae'r gwaith wedi cael ei ailddiffinio'n brosiect i edrych ar ddatblygiad WCCIS<br>• Bydd Safonau Cadw Cofnodiadau'n cael eu cytuno fel rhan o'r gwaith o gytuno ar safonau ymarfer. Mae drafft ar gael o ran cofnodi. Wedi cael ei gyflwyno ar gyfer rhaglen yr SMT.<br><br>**<u>Medi a Hydref 2017</u>**<br><br>• Mae'r gwaith hwn wedi'i ddatblygu i creu model Gweithredol o fewn WCCIS (MP yw'r | • Staff i dderbyn hyfforddiant ar yr arferion gorau o ran cadw cofnodion a'r Canllawiau Ymarfer. | **Wedi cychwyn**<br><br>Rheolwyr yn archwilio ffeiliau achos yn rheolaidd gyda hynny'n dangos gwelliant yn ansawdd a chysondeb y cofnodion.<br><br>Cefnogaeth ac arweiniad i staff trwy oruchwyliaeth reolaidd o safon yn | Rheolwr Gwasanaeth Diogelu a Sicrhau Ansawdd a Rheolwyr Gwasanaeth | Ionawr 2017 | Medi 2017 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Canllawiau ymarfer ar gadw cofnodion i gael eu datblygu er mwyn sicrhau cysondeb ac ansawdd. | Arweinydd Prosiect). Mae gennym gynhyrchion defnyddiol – geirfa termau, sesiwn heb jargon, safonau drafft y gellid eu datblygu.<br>• Cofnodi perfformiad o Ch2 - Mae'r gwerthusiad cyffredinol yn dangos bod ymarfer o ran cofnodi yn anghyson, er bod tystiolaeth o welliannau mewn rhai archwiliadau.<br><br>**Awst 2017**<br><br>• Fel rhan o'r cofrestriad fel Gweithwyr Cymdeithasol, mae gan staff y cyfrifoldeb i sicrhau cofnodi o ansawdd da mewn modd amserol.<br><br>• Ymgymerir ac archwiliadau rheolaidd o ffeiliau achosion i fonitro ansawdd ac amseroldeb y cofnodion a gedwir mewn perthynas ag achosion unigol.<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br><br>• Mae Cadw Cofnodion yn parhau i fod yn anghyson<br>• Cynnal archwiliad pellach o ffeiliau achosion sy'n agored i ganfod p'un a oes gwelliant yn ansawdd y cofnodi. | | arwain at welliant yn ansawdd y cofnodion a gedwir. | | | |

4. **Gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio rhagweithiol gyda theuluoedd i reoli – treulio llawer mwy o amser yn gweithio ochr yn ochr â theuluoedd yn eu helpu i newid fel bod y teulu yn lle diogel ar gyfer eu plant.**

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4.1 | Sicrhau bod ymyrraeth gwaith cymdeithasol yn cyd-fynd â'r ffordd wahanol o weithio gyda theuluoedd dan y Ddeddf Newydd ac yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig, gan adeiladu ar gryfderau pobl a'u galluogi i gymryd rhan yn y broses o roi sylw i anghenion a chyflawni canlyniadau.<br><br>Hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn canolbwyntio ar:<br><br>1. Gwrs Cyfathrebu ar y cyd ar sgyrsiau sy'n seiliedig ar gryfderau.<br>2. Ymyriadau GICD<br>3. Newid diwylliant<br>4. Mesur perfformiad<br>5. Cyfweld ysgogiadol | **Tachwedd – Ionawr**<br><br>• Derbyniwyd adborth/dysgu ar y newidiadau sydd wedi digwydd o fewn ymarfer gwaith cymdeithasol yn dilyn yr hyfforddiant y mae staff wedi ei gael yn ystod y flwyddyn (gweler 1.4 am restr o'r cyrsiau hyfforddiant a gafwyd). Mae'r adborth a gafwyd yn dangos bod staff yn gweithredu ar yr hyn y maent wedi ei ddysgu yn eu gwaith o ddydd i ddydd.<br><br>**Medi a Hydref 2017**<br><br>• Cynhaliwyd cwrs Cyfathrebu Cydweithredol ar 28ain a'r 29ain o Fedi ac mae'r symud i weithio o dan y Ddeddf GCaLl yn parhau.<br><br>**Awst 2017**<br><br>• Rydym wedi parhau i roi cymorth i staff weithio gyda theuluoedd gan ganolbwyntio ar eu cryfderau, cael 'sgwrs beth sy'n bwysig', gofynion o ran eiriolaeth a chyd-gynhyrchu.<br>• Rydym yn gweld tystiolaeth o'r gweithlu'n gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd sy'n arwain at well canlyniadau – gan ein bod wedi gweld gostyngiad sylweddol yn y plant ar y gofrestr AP o 102 ym Mawrth 2017 i 56 ar 31ain Awst 2017, gostyngiad o 55%. | | **Heb eu gwneud hyd yma**<br><br>Staff yn dweud eu bod yn teimlo bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth ac yn gallu gwneud mwy o ymyriadau uniongyrchol gyda theuluoedd.<br><br>Gwybodaeth bod mwy o blant yn cael eu cefnogi i barhau i fyw adref gyda'u teuluoedd.<br><br>Adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaeth bod ansawdd ymyriadau yn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau<br><br>**Wedi cychwyn**<br><br>Tystiolaeth bod y gweithlu yn ddigon medrus i weithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd sy'n arwain at well canlyniadau - enghraifft o hyn yw gostyngiad yn nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. | Uwch Dîm Rheoli | Mawrth 2017 | Mawrth 2018 |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Mehefin/Gorffennaf 2017**<br><br>• Mae'r hyfforddiant isod wedi digwydd<br>• Rydym yn parhau i roi ffocws ar ymyrraeth gwaith cymdeithasol yn aliniedig efo'r dull gwahanol o weithio efo teuluoedd o dan y Ddeddf newydd fel: Y sgwrs 'Beth sy'n Bwysig', gofynion eiriolaeth a chyd-gynhyrchu, mae hyn oll yn parhau i fod yn sialens i'r gwasanaeth oherwydd bod teuluoedd yn amharod i ymgysylltu.<br><br>**Mai 2017**<br>• Hyfforddiant yn digwydd ar hyn o bryd ar Gyfweld Ysgogiadol a'r ymagweddau 'Teuluoedd Gwydn'.<br>• Cynhelir hyfforddiant cyfathrebu ar y cyd ym mis Mawrth ar gyfer yr holl Reolwyr.<br>• Hyfforddiant ar ymyriadau GICD yn cael ei ddarparu'n flynyddol.<br>• Hyfforddiant ar newid diwylliant a mesur perfformiad yn cael ei gynnal ym mis Mawrth ar gyfer Rheolwyr. | | | | | |
| 4.2 | Adolygu'r strwythur gwasanaeth presennol i fynd i'r afael â'r angen am ymyriadau ataliol ac ymyriadau dwys gwell.<br><br>Sefydlu timau llai gydag Arweinwyr Ymarfer i ddarparu cymorth a goruchwyliaeth effeithiol i staff. | **Tachwedd – Ionawr 2018**<br><br>• Mae'r strwythur newydd yn ei le ac mae'r Arweinwyr Ymarfer wedi cael eu lleoli gyda'u Grwpiau Ymarfer<br>• Yn ôl yr arwyddion cynnar, mae hyn yn gweithio'n dda, staff yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi mewn grwpiau llai<br>• Parhau i ddatblygu cefnogaeth a sefydlu hyn yn gadarn yn y strwythur<br><br>**Medi a Hydref 2017**<br><br>• Gweithredwyd strwythur newydd y gwasanaeth ar 4ydd Hydref pryd y cymerodd | • Bydd adolygiad o'r Tîm Lleoli yn cychwyn yn Chwefror mewn ymgynghoriad â'r staff | **Heb eu gwneud hyd yma**<br><br>Bydd strwythur newydd y gwasanaeth yn cefnogi ac yn cryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau ataliol ac ymyriadau dwys yn sylweddol, ac enghraifft o hyn fydd gostyngiad yn nifer y plant sy'n dod i ofal.<br><br>Rheolwyr yn dweud bod strwythur newydd y gwasanaeth yn cynyddu eu gallu i ddarparu arweinyddiaeth broffesiynol i gefnogi'r gweithlu trwy oruchwyliaeth reolaidd o ansawdd. | Uwch Dîm Rheoli | Ionawr 2017 | Mai 2017 |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | yr 8 Arweinydd Ymarfer gyfrifoldeb dros eu Grwpiau Ymarfer.<br>• Ymgymerir â gwaith pellach i gwblhau'r ailstrwythuro, gan gynnwys adolygu'r trefniadau ar gyfer y Tîm Lleoli Plant, gan wneud y defnydd gorau o Weithwyr Cymorth i roi cymorth i deuluoedd, yn ogystal â sicrhau bod cymorth gweinyddol yn briodol er mwyn i Grwpiau Ymarfer gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol.<br><br>**<u>Awst 2017</u>**<br><br>• Dau Uwch Reolwr wedi cychwyn (Ymyrraeth Gynnar ac Ymyrraeth Ddwys)<br><br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br><br>• Strwythur gwasanaeth newydd wedi'i weithredu.<br>• Yn parhau i benodi i'r swyddi i sefydlu timoedd llai efo Arweinwyr Ymarfer<br>• Yn parhau i adolygu ein gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal o gwmpas y rhaglen 'Teuluoedd yn Gyntaf'<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br><br>• Daw'r cyfnod ymgynghori gyda staff i ben ar 24.2.17.<br>• PG Dros Dro wedi darparu dadansoddiad o'r sylwadau a'r adborth yn yr adroddiad gydag argymhellion.<br>• Penderfyniad terfynol ac amserlenni i'w cytuno a'u rhannu yn y Gynhadledd staff ar 27.3.17. | | Staff yn adrodd eu bod yn cael eu cefnogi a'u goruchwylio'n ddigonol gan eu rheolwyr wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.<br><br>Archwiliadau o ffeiliau achos yn dangos gwelliant amlwg yn ansawdd yr ymarfer o ganlyniad i'r llwybrau a systemau clir o fewn y Gwasanaeth a thrwy oruchwyliaeth reolaidd. | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 4.3 | Gweithredu model Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) ar gyfer Ynys Môn | **<u>Tachwedd – Ionawr 2018</u>**<br><br>• Mae Swyddog Ymgysylltu amser llawn wedi cychwyn yn Teulu Môn ym mis Ionawr ac mae hynny wedi cryfhau'r capasiti i 3.5 gweithiwr FTE yn y tîm hwnnw. Ymwelwyd â Theulu Môn ar 29.01.18 gan Jackie Drysdale, Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn arsylwi'r tîm ac ystyried yr angen am Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer Cymru gyfan. Gwnaeth yr hyn a welodd argraff ar Jackie a dywedodd bod y tîm yn ymrwymedig, yn dangos gwytnwch yn wyneb rhai o'r rhwystredigaethau. Bydd gwaith yn parhau i ddatblygu'r tîm hwnnw o ran sgiliau a chymorth TG.<br><br>**<u>Medi a Hydref 2017</u>**<br><br>• Ers dechrau mis Hydref, mae'r gwasanaeth IAA o'r enw Teulu Môn, yn cael ei reoli gan 3 Arweinydd Ymarfer a Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Ymyrraeth Gynnar ac Atal.<br>• Bellach mae swyddogion ymgysylltu Teulu Môn yn gallu bod yn fwy effeithiol fel pwynt cyswllt cyntaf – gyda'r cyfle i gael sgwrs fwy strwythuredig i gynorthwyo teuluoedd i gael mynediad i ddatrysiadau o fewn eu cylch eu hunain o adnoddau/adnoddau cymunedol.<br>• Bydd cyllid gan Teuluoedd yn Gyntaf yn cryfhau ein gwasanaethau IAA gyda recriwtio ar gyfer 1.5 swydd Swyddog Ymgysylltu arall.<br>• Wedi parhau i gefnogi ein staff i sicrhau eu bod yn mynd ati'n gyson i gael sgyrsiau o ansawdd da gan fod gan rai swyddogion fwy o hyder a sgiliau o ran yr ymagwedd hon.<br>• Gwnaed trefniadau ar gyfer cael gweithdai mewnol i staff ymarfer y sgyrsiau 'Beth sy'n | | **Heb eu gwneud hyd yma**<br><br>Defnyddwyr gwasanaeth yn dweud ei bod yn hawdd cael mynediad at wasanaethau a bod gofal cwsmer yn dda.<br><br>Gwell cydlyniant o ran gwasanaethau a strategaethau ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal yn cael ei adlewyrchu yn y gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal.<br><br>Llai o ddyblygu ymdrech fel sy'n digwydd ar hyn o bryd oherwydd bod nifer o 'ddrysau ffrynt' ar gael. | Rheolwr Gwasanaeth | Rhagfyr 2016 | Ebrill 2017 |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Bwysig' gyda Jackie Drysdale, y Rheolwr Datblygu Gwelliant ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru.<br><br>**<u>Awst 2017</u>**<br><br>• Mae Swyddogion Ymgysylltu wedi dechrau yn eu swyddi.<br>• Mae Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Atal yn ei swydd.<br><br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br><br>• Rheolwr Ymgysylltu Dros Dro wedi'i benodi.<br>• Hysbysebion allan ar gyfer y Swyddogion Ymgysylltu, dyddiad cau 12/07/17<br>• Deunyddiau hyrwyddo wedi'u cadarnhau.<br>• Nifer o ddigwyddiadau rhannu gwybodaeth wedi'u trefnu ar gyfer yr Eisteddfod, Sioe Môn ac ati ynghyd â nifer o ddiwrnodau hwyl/carnifals ac ati yn y gymuned.<br>• Archwiliadau Amlasiantaethol (Iechyd, Addysg a'r Heddlu) mewn perthynas ag ansawdd yr atgyfeiriadau a dderbynnir yn Teulu Môn<br>• Gwaith parhaus gydag asiantaethau sy'n bartnieriaid o ran rhannu gwybodaeth a chydweithio gyda Teulu Môn<br>• Dadansoddiad pythefnos wedi dechrau ar 10/07/17 o ran yr holl CID16's a dderbynnir yn Teulu Môn er mwyn sicrhau gwneud atgyfeiriadau priodol i'r Cyngor ac archwilio rhannu gwybodaeth.<br>• Bydd gwaith yn dechrau i sefydlu Protocol Rhannu Gwybodaeth.<br><br>**<u>Mai 2017</u>**<br><br>• Llunio, cymeradwyo a chyfieithu'r holl bolisïau, protocolau, trothwyon a'r templedi | | | | | |

Tudalen 245

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | cysylltiedig sy'n ofynnol ar gyfer darparu gwasanaethau.<br>• Cytuno ar fesurau llwyddiant<br>• Sgopio anghenion TGCh<br>• Cytuno ar y gofynion hyfforddi.<br>• Enw'r tîm 'Teulu Môn', y Cyfryngau Cymdeithasol, cytunwyd ar rif ffôn.<br>• Hyfforddi staff wedi cychwyn<br>• Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar fin symud i'r Pencadlys ddiwedd mis Ionawr<br>• Logo ar gyfer y gwasanaeth newydd wrthi'n cael ei ddylunio.<br>• Y bwrdd prosiect yn cyfarfod yn fisol<br>• Grŵp tasg a gorffen Marchnata yn cyfarfod ac yn datblygu allbynnau marchnata ar gyfer y gwasanaeth.<br>• Tîm newydd yn cychwyn ar gyfnod o 'adeiladu tîm'<br>• Staff y Gwasanaethau Plant a phartneriaid allweddol yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ar y newidiadau o fewn y Gwasanaeth a thrwy Sesiynau Gwybodaeth.<br>• Ymgynghori ar y strwythur diwygiedig wedi'i gwblhau.<br>• Un pwynt mynediad ar gyfer pob ymholiad o ran plant a theuluoedd wedi'i sefydlu ac yn weithredol erbyn 03.04.17 | | | | | |
| 4.4 | Datblygu Strategaeth Atal Gorfforaethol; rhaid i'r ALI ddarparu ystod a lefel o wasanaethau ataliol ar draws y Gwasanaethau Plant ac Oedolion.<br><br>Darparu gwasanaeth integredig a rhoi help a chymorth cynnar sydd, i bob pwrpas, yn fodd effeithiol o | **Tachwedd – Ionawr 2018**<br><br>• Mae'r Prif Weithredwr Cynorthwyol yn gyfrifol am yrru'r gwaith yn ei flaen o ran y Strategaeth Ddiogelu gorfforaethol<br>• Mae'r Tîm Teuluoedd Gwydn yn gweithio gydag 8 o deuluoedd<br>• Yn dilyn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, bydd y Cynlluniau Rhanbarthol ar gael o Ebrill 2018 gan nodi'r amrediad o wasanaethau y bydd angen eu darparu<br><br>**Medi a Hydref 2017** | • Ymgysylltiad ac ymgynghoriad ystyrlon gyda theuluoedd, plant, pobl ifanc a defnyddwyr gwasanaeth.<br>• Byddwn yn ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion am y mathau o wasanaethau sydd eu hangen arnynt. | **Heb eu gwneud hyd yma**<br><br>Rydym wedi ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion am y mathau o wasanaethau sydd eu hangen arnynt.<br><br>Ailgomisiynu gwasanaethau yn unol â chanllawiau LlC drwy ddefnyddio data lleol, safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth ac Anghenion y | Dr Caroline Turner, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Pennaeth Dros Dro | Ionawr 2017 | Hydref 2017 |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ohirio'r angen am ofal a chymorth.<br><br>Bydd yr asesiad poblogaeth yn cynorthwyo'r awdurdod lleol i nodi'r gwasanaethau ataliol sydd eu hangen.<br><br>Cryfhau'r swyddogaeth gomisiynu o fewn y Gwasanaethau Plant ac Oedolion i'n cefnogi i gyflawni'r agenda hon.<br><br>Argymhelliad 1 AGGCC.<br><br>Datblygu fframwaith ar gyfer gwneud gwaith ataliol gyda phlant a theuluoedd a fydd yn darparu gwasanaeth integredig ac yn rhoi help a chymorth cynnar gyda hynny i bob pwrpas, yn fodd effeithiol o ohirio'r angen am ofal a chymorth.<br><br>**Argymhelliad 12 AGGCC:**<br><br>Dylai'r awdurdod lleol a phartneriaid gydweithio i ddatblygu dull cydlynol o | • Mae grŵp Strategaeth Atal Corfforaethol yr Awdurdod Lleol a arweinir gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfarfod yn rheolaidd. Cyflwynodd y grŵp bapur i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn amlinellu'r hyn a fynnir i sicrhau cyflawni strategaeth atal yn llwyddiannus ac mae gwaith yn parhau i yrru hyn yn ei flaen.<br>. Mae'r Awdurdod Lleol wedi blaenoriaethu datblygiad gwasanaethau atal corfforaethol a chymorth i deuluoedd fel rhan o'i Gynllun ar gyfer 2017 – 2022 o ran *''Darparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal cynnar i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael cymorth fel eu bod yn cael cyn lleied â phosib o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.''*<br>• Sefydlwyd gweledigaeth glir o ran gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal ac mae strategaeth ddrafft wedi'i datblygu a'i rhannu gyda AGGCC.<br>Ymgynghorwyd â staff ac asiantaethau sy'n bartneriaid ac rydym wedi trefnu i gael sesiynau ymgynghori pellach gyda grwpiau cymunedol a gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc a fydd yn gallu rhoi barn o ran yr hyn sydd wedi gweithio ac nad yw wedi gweithio yn y gorffennol, ynghyd â pha wasanaethau ataliol y dylid eu datblygu yn y dyfodol.<br><br>**<u>Awst 2017</u>**<br><br>• Mae Strategaeth Darpariaeth Gwasanaeth yn ei lle. | | Boblogaeth / Cynlluniau Ardal Lleol yn arwain at wella canlyniadau i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd (gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal).<br><br>Lleihad yn nifer y plant sy'n dod i ofal a chynnydd yn nifer y plant sy'n cael eu cefnogi i fyw adref efo'u teuluoedd.<br><br>**Wedi cychwyn**<br><br>Mae gan yr Awdurdod Lleol weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal ar Ynys Môn.<br><br>'Teulu Mon', y gwasanaeth GCCh (IAA) newydd ar gyfer Ynys Môn yn weithredol ac yn rhan allweddol o'r gwasanaeth ymyrraeth gynnar / atal. | Gwasanaethau Plant<br><br>Alwyn Jones, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Dafydd Bulman, Rheolwr Trawsnewid Strategol a Busnes<br><br>Melanie Jones, Rheolwr Gwasanaeth<br><br>Llyr Ap Rhisiart, GICD | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | gasglu a dadansoddi gwybodaeth am anghenion cymunedau, sy'n cynnwys lleisiau plant a theuluoedd. Dylid defnyddio hyn i lywio'r broses o lunio cynlluniau strategol er mwyn sicrhau aliniad effeithiol rhwng gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth, y sector ataliol a'r gwasanaethau statudol. | • Mae LlC wedi cytuno i ariannu 3 o staff cymorth i deuluoedd ychwanegol o fewn TAF ynghyd ag 1.5 o Swyddogion Ymgysylltu ar gyfer Teulu Môn. Bydd hyn yn cryfhau'r gwasanaethau ataliol er mwyn gohirio'r angen am ofal a chymorth.<br>• Mae gan yr Awdurdod Lleol weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal ar gyfer Ynys Môn. Mae briff wedi cael ei ddrafftio ar gyfer ymgynghori gyda grwpiau cymunedol plant a theuluoedd ac asiantaethau sy'n bartneriaid ar Ynys Môn. Mae strategaeth ddrafft wedi cael ei llunio. Lluniwyd hon gan wybod bod gennym wybodaeth o ran anghenion teuluoedd Ynys Môn drwy'r asesiad anghenion lleol, ein data ein hunain ac ymchwil a gomisiynwyd yn flaenorol gan Cordis Bright. Mae gwaith yn cael ei wneud ar ffurfio cysylltiadau â grwpiau cymunedol fel Caru Amlwch. Cynhaliwyd trafodaethau gyda darparwyr presennol o ran sut y gallant ddarparu gwasanaethau mewn modd gwahanol yn y dyfodol.<br>Bydd strategaeth yr adran o ran gwaith ataliol yn bwydo i mewn i broses y strategaeth ataliol ehangach ar gyfer yr Awdurdod Lleol. Bydd canfod ACE'au yn ffurfio rhan o'n strategaeth. Gwnaed cysylltiadau ag Andrew Bennet (Hyfforddiant ac Ymgynghoriaeth 'Public Health Research') a gomisiynwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyflwyno ymarfer sy'n ymwybodol o ACE'au mewn meddygfeydd ar yr ynys. Cynhaliwyd trafodaethau i gynnwys y maes hwn o fewn ysgolion yn y gobaith y gallwn ddatblygu ysgolion sy'n ymwybodol o ACE'au ym Môn. Gwnaed cysylltiadau â grwpiau cymunedol a | | | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | chanddynt ddiddordeb mewn defnyddio ACE'au o fewn eu hymagweddau.<br><br>• Mae archwiliad o achosion TAF wedi dechrau. Gwnaed hyn i wella ein dealltwriaeth o'r teuluoedd yr ydym yn gweithio â hwy. Mae angen i ni sicrhau bod y teuluoedd iawn yn cael mynediad i'r gwasanaeth. Yn ystod y cyfnod cynnar hwn yn yr archwiliad, mae'n ymddangos y gellir cau achosion o fewn y TAF a chyfeirio teuluoedd ymlaen i gael mynediad at wasanaethau penodol sydd wedi'u targedu.<br><br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br><br>• Yn adolygu pob gwasanaeth a gomisiynir o dan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.<br>• Ymgynghori gyda staff ac asiantaethau sy'n bartneriaid o ran canfod y bwlch mewn darpariaeth gwasanaeth.<br>• Cais i ailddosbarthu cyllid gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf wedi'i anfon at LlC.<br>• Cais ar gyfer Grant Rhiantu Teuluoedd yn Gyntaf ychwanegol yn cael ei gyflwyno erbyn 14/07/17.<br>• Arian wedi ei gymeradwyo ar gyfer Rheolwr Atal Corfforaethol i sicrhau bod y strategaeth atal yn cael ei gwireddu ar draws yr Awdurdod Lleol.<br><br>**Mai 2017**<br><br>• Bydd adolygiad o'r gwasanaeth ataliol cyfredol a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gynnal yn fuan yn 2017.<br>• Ail-gomisiynu gwasanaethau yn unol â chanllawiau LlC drwy ddefnyddio data lleol ac Asesiad Anghenion y Boblogaeth gyda | | | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | hynny'n arwain at ganlyniadau o ansawdd oherwydd ymyrraeth gynnar.<br>• Swyddog comisiynu, cydlynu a monitro'r grant Teuluoedd yn Gyntaf, wedi trosglwyddo i'r Gwasanaethau Plant erbyn mis Ebrill 2017.<br>• Adolygu ac aildrefnu 'Gofal Ysbaid' sy'n cael ei gynnig drwy'r Gwasanaeth Arbenigol Plant i gefnogi teuluoedd. | | | | | |

**5.Gwella gwasanaethau cymorth i deuluoedd a'u targedu tuag at ddarparu cefnogaeth ddwys a chyflym ar adeg pan fydd teuluoedd yn chwalu mewn ymagis i gadw'r teulu gyda'i gilydd.**



| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5.1 | Adolygiad o Wasanaethau Cefnogi Plant i ganolbwyntio ar:<br>1. Gyswllt dan oruchwyliaeth<br>2. Rhyddhau capasiti i ymgymryd â gwaith ataliol<br>3. Rôl y Swyddog Rhianta | **<u>Tachwedd – Ionawr 2018</u>**<br>• Oherwydd pwysau sy'n cystadlu ar Uwch Reolwyr, mae adolygiad hwn wedi cael ei ohirio. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2018<br>**<u>Medi a Hydref 2017</u>**<br>• Mae'r gwaith o adolygu Gwasanaethau Cymorth wedi dechrau gan wneud y defnydd gorau o Weithwyr Cymorth i gefnogi teuluoedd.<br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>** | Byddwn yn adolygu Gwasanaethau Cymorth i Blant yn Chwefror 2018 i ganolbwyntio ar:<br>• Gyswllt dan oruchwyliaeth<br>• Rhyddhau capasiti i ymgymryd â gwaith ataliol<br>• Rôl y Swyddog Rhianta<br>• Bydd gwaith yn dechrau ar hyn | **Heb eu gwneud hyd yma**<br>Mae'r gwasanaeth yn gwneud gwell defnydd o'i adnoddau ac yn canolbwyntio ar gefnogi plant i barhau i fyw o fewn eu teuluoedd.<br>Darparu cymorth rhianta 1: 1 ac / neu mewn | Rheolwr Gwasanaeth<br>Ymyrraeth Ddwys | Ionawr 2017 | Mawrth 2018 |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Fel rhan o ailstrwythuro'r gwasanaeth mae'r gwaith cychwynol o ran 'Teuluoedd Gwydn' wedi cychwyn i leihau'r angen am gyswllt o dan oruchwyliaeth ar gyfer gweithwyr cefnogol, mae hyn yn rhyddhau capasiti i ymgymryd â gwaith mwy dwys efo plant a theuluoedd i sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi i fyw adref.<br><br>**Mai 2017**<br><br>• Mae gwaith wedi cychwyn ar adolygu achosion lle nad oes angen i'r awdurdod lleol oruchwylio cyswllt. Bydd hyn yn ein galluogi i ddeall y capasiti sydd ar gael i'w drosglwyddo i'r Tîm Teuluoedd Gwydn. | | Grŵp i rieni i gryfhau safon y gofal a gaiff eu plant.<br><br>Mwy o blant yn cael eu cefnogi i fyw adref.<br><br>Gostyngiad yn nifer y plant sy'n dod i dderbyn gofal. | | | |
| 5.2 | Gweithredu'r Tîm Teuluoedd Gwydn | **Tachwedd – Ionawr 2018**<br><br>• Mae'r Tîm Teuluoedd Gwydn bellach yn weithredol ac yn gweithio ar hyn o bryd gyda 9 o blant unigol o 8 teulu<br><br>Mae'r tîm yn gweithio gyda rhieni i'w cefnogi i fedru gofalu am eu plant a'u hatal rhag gorfod mynd i ofal. Maent hefyd yn gweithio gyda phobl ifanc sydd mewn gofal ac mae cynlluniau adfer dwys wedi cael eu sefydlu ar gyfer y bobl ifanc hynny. Rydym yn gobeithio cynhyrchu adroddiad ym mis Mai 2018 i ddwyn sylw at beth o'r gwaith a gwblhawyd gan y tîm hwn.<br><br>**Medi a Hydref 2017** | • Bydd rhaglen hyfforddi a datblygu sgiliau yn cael ei llunio ar gyfer y Tîm newydd.<br>• Bydd angen gwneud gwaith i sefydlu sut y bydd y grant Teuluoedd Gwydn yn cael ei ddefnyddio. | **Heb eu gwneud hyd yma**<br><br>Mae gwybodaeth am berfformiad yn dangos bod cysylltiad uniongyrchol rhwng ymyrraeth y tîm hwn a nifer y plant a phobl ifanc y llwyddwyd i'w hadsefydlu'n ôl yn eu cartrefi.<br><br>Mae gwybodaeth am berfformiad yn dangos cyswllt uniongyrchol rhwng gwaith y tîm a lleihad yn yr angen am leoliadau maethu/preswyl costus.<br><br>Gall y tîm ddangos tystiolaeth o ymyrraeth yn seiliedig ar atal a dad- | Alex Kaitell,<br><br>Rheolwr Gwasanaeth | Ionawr 2017 | Mai 2017 |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Mae'r Tîm Teuluoedd Gwydn wedi'i staffio'n llawn erbyn hyn ac wrthi'n gweithio ag 8 teulu i atal y teuluoedd rhag chwalu ac i roi cymorth i blant sy'n byw yn y cartref.<br>• Mae gan y tîm dri nod craidd:<br>  • Atat - atal plant rhag gorfod Derbyn Gofal<br>  • Lleihau – lleihau natur y llety gofal a ddarperir, o ofal preswyl i ofal maeth.<br>  • Ailuno – ailuno plant sy'n derbyn gofal gyda'u teuluoedd.<br>• Mae'r Arweinydd Ymarfer ar gyfer y tîm hwn wedi derbyn gwobr genedlaethol yn ddiweddar gan Gymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW) am ei gwaith yn datblygu cymorth i rai sy'n gadael gofal, ynghyd â threfniadau i roi cymorth i ofalwyr maeth atal lleoliadau rhag chwalu.<br><br>**<u>Awst 2017</u>**<br><br>• Mae'r Tîm Teuluoedd Gwydn wedi'i benodi a bydd y staff i gyd yn eu swyddi erbyn dechrau mis Medi.<br>• Mae LlC wedi rhoi grant ychwanegol o £96,000 i roi cymorth pellach i sefydlu'r Tîm Teuluoedd Gwydn. Ceisir rhagor o arweiniad gan LlC mewn perthynas â sut y gellir defnyddio'r grant hwn.<br><br>**<u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u>**<br><br>• Reciwtio i'r swyddi Arweinydd Ymarfer, Gweithiwr Cymdeithasol a Gweithwyr Cymorth, wedi eu hysbysebu, cyfweliadau i'w cynnal erbyn diwedd Gorffennaf.<br>• Fel rhan o ailstrwythuro'r gwasanaeth mae'r gwaith cychwynol o ran 'Teuluoedd Gwydn' wedi cychwyn i leihau'r angen am gyswllt o dan oruwchwyliaeth ar gyfer gweithwyr | | ddwysáu drwy gyfrwng adroddiadau chwarterol.<br><br>Mae archwiliadau o ffeiliau achos yn dangos bod y gwasanaethau a ddarperir yn cael eu teilwra o amgylch anghenion y teulu unigol, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.<br><br>**Wedi cychwyn**<br><br>Mae'r tîm newydd yn weithredol ac yn darparu cefnogaeth ddwys i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd fel y gallant barhau i fyw gyda'u teuluoedd. | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | cefnogol, mae hyn yn rhyddhau capasiti i ymgymryd â gwaith mwy dwys efo plant a theuluoedd i sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi i fyw adref.<br><br>**Mai 2017**<br><br>• Mae gwaith wedi cychwyn ar adnabod y plant a phobl ifanc y gellir gwneud gwaith dwys â hwy er mwyn eu galluogi i ddychwelyd adref yn ddiogel.<br>• Mae Disgrifiadau Swydd newydd wedi cael eu llunio a byddir yn cychwyn recriwtio i'r swyddi ddiwedd mis Mawrth 2017. | | | | | |
| 5.3 | Gwella cyfrifoldeb yr awdurdod lleol fel Rhiant Corfforaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Meysydd y dylid canolbwyntio arnynt:<br><br>• Adolygu'r gwasanaeth gadael gofal (ôl-ofal)<br>• Creu 'Polisi Llety â Chymorth'<br>• Cytuno ar 'Bolisi Ariannol Gadael Gofal'<br>• Trefniadau profiad gwaith a phrentisiaethau yn y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd<br>• Mynediad am ddim / am bris gostyngol i wasanaethau hamdden a gwasanaethau llyfrgell<br>• Penodi Aelod Lleol fel Hyrwyddwr ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal | **Tachwedd – Ionawr 2018**<br><br>• Mae un cyfarfod o'r Panel Rhiant Corfforaethol wedi cael ei gynnal ar 11 Rhagfyr 2018 ers i raglen y Panel gael ei hailstrwythuro. Mae hyn yn rhoi amser i'r aelodau graffu'r data a ddarperir a chael trafodaeth ystyrlon ar faterion rhiantu corfforaethol.<br>• Mae gwaith ar y Strategaeth ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Gadawyr Gofal yn parhau i fynd rhagddo a gobeithir y bydd modd cynhyrchu Strategaeth ddrafft y gellir ymgynghori arni yn ystod Ebrill 2018.<br><br>**Medi a Hydref 2017**<br><br>• Ym mis Medi, cymeradwyodd y Panel Rhiantu Corfforaethol gynllun gweithredu i ddatblygu "Strategaeth ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Rhai sy'n Gadael Gofal" am gyfnod o dair blynedd 2018 - 2020. Byddai'r strategaeth hon yn darparu'r fframwaith i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau fel rhieni corfforaethol Plant sy'n Derbyn Gofal. | • Mae angen gwneud penderfyniad o ran cyllid grant ychwanegol gan LlC mewn perthynas â phrofiad gwaith a phrentisiaethau.<br>• Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Panel Rhiant Corfforaethol ar 18 Mawrth. | **Heb eu gwneud hyd yma**<br><br>Gwaith clir o ran cynllunio llwybr yn darparu amcanion yn y cynllun i baratoi'r unigolyn ifanc ar gyfer bod yn oedolyn.<br><br>Rhai sy'n gadael gofal yn dweud eu bod yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt a bod yr awdurdod yn eu cefnogi yn y cyfnod trosiannol cyn gadael gofal.<br><br>Mae plant sy'n derbyn gofal yn dweud eu bod yn teimlo bod ganddynt ddylanwad ar y modd y darperir gwasanaethau ar eu cyfer. | Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Ddwys | Ionawr 2017 | Mawrth 2018 |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Erbyn Mawrth 2018 rydym yn bwriadu ail-lansio gweledigaeth Cyngor Sir Ynys Môn o ran Rhiantu Corfforaethol.<br>• Wrthi'n recriwtio ar gyfer swydd Cynghorydd Personol ychwanegol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, a ariennir gan gronfa Dydd Gŵyl Dewi a'r grant Cymorth i Rai sy'n Gadael Gofal. Bydd hyn yn cryfhau ein gwasanaeth i ddarparu cymorth amserol i rai sy'n gadael gofal i'w helpu i gyflawni eu huchelgeisiau ac i drosglwyddo'n llwyddiannus i fod yn oedolion ac i fyw'n annibynnol.<br>• Bydd y Gwasanaethau Plant yn rhan o fenter newydd o fewn y Cyngor i gynnig profiad gwaith cyflogedig i bobl ifanc i'w paratoi ar gyfer gwaith; cyfnod cyflogedig o hyd at 12 wythnos gyda'r Cyngor. Bydd pobl ifanc sy'n derbyn gofal yn cael blaenoriaeth gyda chyfle iddynt fynychu sesiwn gynefino ffurfiol, cyrsiau mewnol perthnasol a chyfle i weithio ar brosiectau penodol o fewn y gwasanaeth.<br><br>**Awst 2017**<br><br>• Mae'r Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Ddwys wedi paratoi adroddiad ar gyfer y panel rhiantu corfforaethol gydag opsiynau o ran sut i gryfhau rôl y panel rhiantu corfforaethol.<br>• Drwy grant Dydd Gŵyl Dewi LlC a'r grant Cymorth i Rai sy'n Gadael Gofal derbyniwyd £31,000. Mae gwaith wedi mynd yn ei flaen gyda chydweithwyr AD i ganfod cyfleoedd o ran lleoliadau gwaith o fewn yr Awdurdod Lleol. Bydd y grŵp prosiect ôl-ofal yn gyrru'r gwaith hwn yn ei flaen. | | **Wedi cychwyn**<br><br>Canllawiau clir ar waith ar gyfer staff y Gwasanaethau Plant a phartneriaid allweddol drwy bolisïau, gweithdrefnau a hyfforddiant mewn perthynas â gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal. | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Mehefin/Gorffennaf 2017**<br><br>• Cyfarfu'r Panel Rhiantu Corfforaethol ar 10/07/17, yr aelodaeth, yr agenda a'r Cylch Gorchwyl i'w hadolygu ac i gynnwys pobl ifanc.<br>• Digwyddiad Rhiantu Corfforaethol wedi'i gynllunio ar gyfer aelodau lleol ac uwch swyddogion ar 20/07/17<br>• Penodi Aelod Lleol fel Hyrwyddwr Plant sy'n Derbyn Gofal.<br>• Gwaith yn parhau i baratoi ar gyfer seremoni wobrwyo 'STARS' ym mis Tachwedd i ddathlu llwyddiannau plant sy'n derbyn gofal.<br><br>**Mai 2017**<br><br>• Sefydlwyd prosiect ôl-ofal gyda chynllun gweithredu cytunedig.<br>• Cymeradwywyd protocol ôl-ofal a thai ym mis Chwefror 2017<br>• Cynhaliwyd trafodaethau gydag AD a Hamdden ynglŷn â phrofiad gwaith a gwasanaethau hamdden.<br>• Wedi llunio drafft cynnar o'r polisi ariannol Ôl-ofal.<br>• Yn ystyried cynnal Digwyddiad Rhianta Corfforaethol ar gyfer aelodau lleol ac uwch swyddogion i gytuno ar gryfhau'r trefniadau presennol.<br>• Sefydlwyd grŵp ymgynghori gyda phlant sy'n derbyn gofal lle gallant roi eu barn am y gwaith datblygu y mae angen ei wneud. | | | | | |

| | CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGGCC | CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT | CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT | CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH | SWYDDOG ARWEINIOL | CYCHWYN | DIWEDD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5.4 | Datblygu a gweithredu Protocol ar gyfer Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gan fyfyrio ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 - Rhan 8 Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. | **Tachwedd – Ionawr 2018**<br>• Mae'r protocol wedi cael ei adolygu a bydd fersiwn ddrafft yn cael ei chyflwyno i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yng nghanol mis Chwefror.<br>**Medi a Hydref 2017**<br>• Dim cynnydd o ran adolygu'r protocol mewnol mewn perthynas â rôl drosfwaol y Cyfarwyddwr oherwydd materion capasiti.<br>**Mehefin/Gorffennaf 2017**<br>• Dim cynnydd o ran adolygu'r protocol mewnol mewn perthynas â rôl drosfwaol y Cyfarwyddwr oherwydd materion capasiti.<br>**Mai 2017**<br>• Bydd gwaith yn dechrau ar gryfhau rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2017. | | **Heb ei wneud hyd yma**<br>Cryfhau rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn yr Awdurdod Lleol. | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Dafydd Bulman, Rheolwr Trawsnewid Strategol a Busnes | Hydref 2017 | Chwefror 2018 |

## Atodiad 3



# Gwasanaethau Plant Ynys Môn

## Rhagair

Dros y cyfnod ers yr arolygiad, rydym wedi chwarae rhan sylweddol yn y gwaith o sefydlu cyfres o newidiadau pwysig a fydd, yn ein barn ni, yn cyflawni'n well yn unol â'r ddeddfwriaeth. Yn benodol, byddem yn tynnu sylw at y canlynol: -

Ailstrwythuro'r gwasanaeth fel ei fod yn canolbwyntio ei egni ar yr ymyrraeth gynnar ac ataliaeth, ynghyd ag ymyrraeth ddwys gyda rheolwyr gwasanaeth yn arwain pob un o'r meysydd gwasanaeth hyn ac yn cynnal yr adnoddau sy'n berthnasol i'r maes gwasanaeth penodol hwnnw h.y. gwaith maes a darparu gwasanaethau. Mae wedi cynyddu'n sylweddol lefel yr adnoddau ar gyfer goruchwyliaeth, trosolwg gan reolwyr a chyfarwyddyd ar achosion, yn ogystal â gwella cynllunio gofal gyda grwpiau ymarfer bach dan reolaeth arweinyddion ymarfer sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd yr ymarfer proffesiynol. Buom yn arbennig o lwyddiannus yn denu gweithwyr cymdeithasol profiadol i ymgymryd â'r rôl hon. Mae'r model hefyd yn sicrhau bod yr Hyb Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, sef Teulu Môn, wrth wraidd y Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth. Dechreuodd yr arweinwyr ymarfer yn eu swyddi ym mis Medi a'r ffocws ar hyn o bryd yw datblygu eu dealltwriaeth o'r rôl a dechrau'r broses o weithredu ffyrdd newydd o weithio ar draws ein holl wasanaethau. Bydd angen newid y diwylliant yn sylweddol i wneud hyn a bydd yn cymryd amser ac egni i gyflawni'r fath newid ar draws ein holl wasanaethau.

Rydym wedi datblygu strategaeth ataliaeth sy'n canolbwyntio ar leihau anghenion ar bob lefel, a gostwng yr angen am ymyrraeth ddwys. Rydym yn ymgynghori ar gynnwys y strategaeth honno gyda rhanddeiliaid perthnasol ar hyn o bryd. Rydym yn defnyddio adnoddau Teuluoedd yn Gyntaf i wella ein hymatebion gan Teulu Môn a'r Tîm o Amgylch y Teulu i sicrhau bod buddsoddiadau Teuluoedd yn Gyntaf eraill yn gydnaws â'r amcan hwnnw. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi adnoddau i sefydlu tîm teuluoedd gwydn ar gyfer ymyrraeth ddwys fel y gallwn ymateb yn rhagweithiol i blant ag anghenion lefel uchel / ar drothwy gofal. Mae'r tîm teuluoedd gwydn hefyd yn cael effaith o ran gweithio gyda'r gweithwyr cymdeithasol a neilltuwyd i achosion, a hynny er mwyn cynorthwyo i ddychwelyd plant a phobl ifanc o ofal naill ai at ffrindiau neu deulu, neu'n agosach at eu cartrefi. Mae'r mentrau hyn bellach yn weithredol ac yn dechrau cyflawni yn unol â'r disgwyliadau hyn, rydym wrthi'n cynyddu'r adnoddau i wella'r ddarpariaeth hon ymhellach.

Rydym wedi bod yn rhoi sylw sylweddol i'r systemau sydd wedi eu sefydlu i gefnogi ymyrraeth ddwys y tu allan i'r agweddau proffesiynol, gan ddefnyddio gwybodaeth er mwyn sicrhau bod yr achosion cywir yn cael sylw ar y lefel hon, a bod ein prosesau mor effeithiol â phosib. Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn ailystyried ein dull strategol o ymdrin â phlant sy'n derbyn gofal i sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar sicrhau dilyniant, gwella’r ddarpariaeth leol a hwyluso trefn lle na fydd plant ond yn blant sy’n derbyn gofal am y cyfnod priodol o amser.

Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i ansawdd a chysondeb yr ymarfer fod wrth wraidd yr hyn a wnawn ac rydym wedi cymryd camau i wella'r swyddogaeth sicrhau ansawdd / gwella ansawdd. Datblygwyd prosesau a chanllawiau newydd a neilltuwyd adnoddau ychwanegol ar gyfer y swyddogaeth. Mae hyn yn golygu datblygu perthynas waith agos rhwng y Rheolwr Gwella a Sicrhau Ansawdd a’r tri rheolwr gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb gweithredol. Bydd rhyngweithio uniongyrchol a rheolaidd rhyngddynt yn anelu at sicrhau bod gwybodaeth ar gael ar unwaith am sut mae gwasanaethau'n perfformio. Yn ychwanegol, bydd hyn yn ein galluogi i ganolbwyntio ar nodi a gweithredu'r gwelliannnau ymarfer y nodwyd bod angen eu gwneud. Bydd yr holl drefniadau strwythurol newydd hyn yn cael eu datblygu ymhellach dros y misoedd nesaf.

Rydym yn cydnabod mai dim ond yn ddiweddar yr ydym wedi cymryd a gweithredu’r camau hyn, gyda’r mwyafrif yn dwyn ffrwyth ers i'r adroddiad arolygu gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2017 ac yn ddibynnol ar weithrediad llwyddiannus y rôl arweinydd ymarfer. Bydd yn cymryd amser i gyflawni'r hyn a ddisgwylir ac fe welir manteision gwneud hynny'n effeithiol ar draws ein holl wasanaethau.

Bydd y Pennaeth Gwasanaeth a benodwyd yn ddiweddar yn canolbwyntio ei sylw ar sicrhau bod yr ymgyrch i wella ymarfer yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i'r gwasanaeth.

## Adroddiad Cynnydd

1.0 Mewn ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion adroddiad Arolygu AGGCC, mae'r Gwasanaethau Plant wedi rhoi'r trefniadau canlynol ar waith:

- Cynllun Gwella Gwasanaeth diwygiedig (CGG) sy’n ymgorffori'r holl Argymhellion a wnaed yn Adroddiad Arolygu AGGCC
- Mae trefniadau Rheoli Prosiect newydd ar waith, gyda Grŵp Gwella Mewnol o swyddogion yn cyfarfod bob mis ac yn adrodd i'r Uwch Dîm Rheoli ac i'r Pwyllgor Gwaith.
- Sefydlu Panel newydd o Aelodau Etholedig yn dilyn etholiadau diweddar yr Awdurdod Lleol, sy'n adrodd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

1.1 Yn ogystal, mae'r Prif Weithredwr yn cynnal cyfarfodydd (pob wythnos ar y dechrau ond pob pythefnos ar hyn o bryd) gyda Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a'r Pennaeth Adnoddau Dynol, i oruchwylio datblygiad a gweithrediad y Strategaeth Gweithlu ac i sicrhau cyflymder priodol o ran gwneud penodiadau allweddol i swyddi.

1.2 Pan gynhaliwyd yr Arolwg, roedd y Pennaeth Gwasanaeth wedi dechrau cyfnod o absenoldeb cynlluniedig o'r gwaith. Y trefniant dros dro a wnaed o fis Hydref 2016 oedd:

- Llyr Bryn Roberts i oruchwylio’r gwaith o redeg y Gwasanaeth o ddydd i ddydd fel Pennaeth Gweithrediadau ac i arwain ar y Cynllun Gwella Gwasanaeth a
- Leighton Rees, cyn-Bennaeth Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, yn llywio cyfeiriad strategol y Gwasanaeth fel Pennaeth Datblygu Strategol, ac yn arwain ar ailstrwythuro'r Gwasanaeth.

1.3 Pan ddychwelodd y Pennaeth Gwasanaeth o'i habsenoldeb cynlluniedig, penodwyd hi i swydd Rheolwr Gwasanaeth, Diogelu a Sicrhau Ansawdd. Parhaodd y trefniadau dros dro uchod i reoli'r Gwasanaeth a chynhaliwyd proses i recriwtio Pennaeth Gwasanaeth Plant a Theuluoedd newydd. Ar 7 Tachwedd 2017 penodwyd Fôn Roberts gan yr Awdurdod Lleol i swydd y Pennaeth Gwasanaeth a bydd yn cychwyn yn y swydd ar 1 Rhagfyr. Bu'n gweithio fel Rheolwr Gwasanaeth yn y Gwasanaeth dros y chwe mis diwethaf ac mae ganddo gyfoeth o brofiad yn sgil gweithio mewn amrywiaeth o Awdurdodau Lleol ledled Cymru a Lloegr. Dechreuodd Fôn ei yrfa fel Gweithiwr Cymdeithasol yma ym Môn bron i 20 mlynedd yn ôl.

1.4 Cynorthwywyd yr Awdurdod gan y Tîm Cymorth Annibynnol (TCA) yn ystod 2011 a 2012 i sicrhau gwelliant ym mherfformiad y gwasanaethau cymdeithasol i blant mewn ymateb i Adroddiad yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol a

gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2011. Cynhyrchodd y Tîm adroddiad terfynol ar ddiwedd 2012 a gadarnhaodd fod cryn gynnydd wedi'i wneud o ran cryfhau perfformiad y gwasanaethau hyn. Cyflwynodd y Tîm ei ganfyddiadau i'r Pwyllgor Sgriwtini ac i'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol. Ar ôl derbyn yr Adroddiad Arolygu diweddaraf ar ddechrau 2017, ac o gofio ei brofiad blaenorol o'r Gwasanaethau Plant yn yr Awdurdod, gofynnodd y Cyfarwyddwr i'r TCA ddarparu cymorth gyda gweithredu'r Rhaglen Wella ar gyfer y Gwasanaeth.

Y tri aelod o'r TCA yw:

**Graham Williams** a fydd yn gweithredu fel arweinydd y tîm. Dechreuodd ei yrfa yn y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn 1972 ac roedd yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o 1990 tan 1999 pan ddaeth yn Brif Arolygydd ar gyfer Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC) yn y Cynulliad Cenedlaethol. Ymddeolodd yn 2009 o swydd Cyfarwyddwr Polisi Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru. Ers hynny, mae wedi gweithio gyda nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru i'w helpu i wella eu Gwasanaethau Cymdeithasol i blant.

Mae **Rhonwyn Dobbing** wedi bod yn aelod o'r tîm ar ôl iddi ymddeol o swydd Arolygydd yn Llywodraeth Cymru. Cyn ei phenodi i AGCC roedd gan Rhonwyn brofiad helaeth fel uwch reolwr yn y maes Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant. Mae'n cael ei chydnabod yn weithiwr proffesiynol uchel ei pharch yn y maes ac mae wedi gweithio fel Arolygydd ar gyfer AGGCC ac wedi defnyddio ei harbenigedd yn y Tîm i gynorthwyo nifer o awdurdodau i wella eu perfformiad.

Roedd **John Llewellyn Thomas** yn aelod o'r TCA pan oedd yn gweithio yn Ynys Môn yn ystod 2011 a 2012. Mae gan John brofiad helaeth o weithio yn y maes Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant a bu'n Gyfarwyddwr Cynorthwyol ac yna'n Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn dilyn ei ymddeoliad, bu'n aelod o nifer o Dimau Arolygu yng Nghymru a thu hwnt ac fe'i defnyddiwyd gan awdurdodau i roi mewnbwn proffesiynol i'w gwaith i gryfhau eu gwasanaethau.

**Cyfraniad y Tîm**

Mae'r Cyfarwyddwr wedi gofyn i'r Tîm weithredu fel "ffrind beirniadol" i roi cymorth yn y ffyrdd canlynol:

1. Rhoi asesiad i'r Cyfarwyddwr o'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod mewn ymateb i Adroddiad Arolygu AGGCC ac, yn bwysig, wrth weithredu gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 .

2. Darparu cymorth uniongyrchol ar gyfer y broses o gryfhau perfformiad yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant trwy hyrwyddo'n uniongyrchol:
   - Gwaith i wella ansawdd a ffocws trefniadau goruchwyliaeth staff o fewn y Gwasanaethau Plant;
   - Gweithredu Fframwaith Sicrhau Ansawdd i sicrhau ei fod wedi'i integreiddio'n llawn ar draws y gwasanaethau plant a'r gwasanaethau oedolion ac y'i defnyddir i lywio a gyrru ymarfer da a chanlyniadau o ansawdd ar gyfer pobl sydd angen cymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Y Rhaglen Waith a Gynlluniwyd**

- 13 – 17 Tachwedd – Mae'r Tîm wedi casglu tystiolaeth o ddogfennau polisi a chanllawiau a deunyddiau ysgrifenedig perthnasol eraill. Cynhaliwyd gweithdy 'Goruchwyliaeth sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau' ar 16 Tachwedd. Bu Rhonwyn yn  arsylwi ar staff Teulu Môn.
- 28 Tachwedd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant – bydd Graham Williams yn adrodd ar sut y bydd y Tîm yn cynnal yr asesiad hwnnw a'r amserlen a ragwelir ar gyfer y gwaith hwnnw ac yn arsylwi yng nghyfarfod y Panel
- 4 – 7 Rhagfyr – Bydd y tîm yn cynnal asesiad o'r cynnydd a wnaed gyda'r Cynllun Gwella Gwasanaeth; gan gyfweld aelodau perthnasol o staff a fydd yn cynnwys Aelodau'r Panel ac arsylwi ar wahanol grwpiau o fewn y Gwasanaeth. Bydd y tîm hefyd yn cynnal archwiliad sampl o ffeiliau achos.
- Ionawr neu Chwefror – Bydd y tîm yn cyflwyno canfyddiadau eu hasesiad o'r cynnydd a wnaed gyda'r Cynllun Gwella Gwasanaeth i'r Panel ac yn ei rannu gydag AGGCC.

| Argymhellion AGGCC | Cynllun Gwella Gwasanaeth | Diweddariad |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 1: Dylai'r awdurdod fwrw ymlaen â'i ymrwymiad i ddatblygu fframwaith ar gyfer darparu gwaith ataliol gyda phlant a theuluoedd a fydd yn darparu gwasanaeth integredig yn ogystal â darparu help a chymorth cynnar sy'n oedi'n effeithiol yr angen am ofal a chymorth.** | **CGG 4.4** | **1 Cyflawniadau**<br><br>1.1 Ym mis Medi 2017 ailstrwythurwyd y Gwasanaethau Plant trwy sefydlu'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth a'r Gwasanaeth Ymyrraeth Ddwys. Mae'r strwythur gwasanaeth newydd wedi cryfhau'n sylweddol y gwaith o ddarparu gwasanaethau ataliol wrth i'r rhaglen Teuluoedd yn Cyntaf, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a'r Tîm o Amgylch y Teulu drosglwyddo i'r Gwasanaethau Plant. Mae hyn wedi creu Hyb Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth gydag ymagwedd fwy cydlynol tuag at ddarparu cymorth cynnar i deuluoedd, gan liniaru'r angen am wasanaethau statudol.<br><br>1.2 Ers dechrau mis Hydref rheolir yr Hyb newydd, sef Teulu Môn, gan 3 Arweinydd Ymarfer a Rheolwr Gwasanaeth profiadol ar gyfer Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth. Mae'r trefniadau rheoli parhaol ychwanegol wedi cryfhau ein goruchwyliaeth yn sylweddol fel y gellir gwneud penderfyniadau gwybodus a chywir pan fo arwyddion bod angen cymorth a chefnogaeth ar blant a theuluoedd, gan arwain at asesiad cyn penderfynu sut a phwy fydd yn gallu darparu cymorth yn y ffordd fwyaf effeithiol.<br><br>1.3 Erbyn hyn, mae swyddogion ymgysylltu Teulu Môn yn gallu darparu gwasanaeth cyswllt cyntaf gwell – gyda'r cyfle i gael sgwrs fwy strwythuredig i gynorthwyo'r dinesydd i gael mynediad at ddatrysiadau o fewn eu cylch eu hunain o ffynonellau / adnoddau cymunedol. Rydym yn parhau i gefnogi ein staff i sicrhau eu bod yn cael sgyrsiau o ansawdd da yn rheolaidd oherwydd bod gan rai swyddogion fwy o hyder a sgiliau yn y dull hwn. Mae trefniadau ar gyfer gweithdai mewnol i staff ymarfer y sgyrsiau 'Beth sy'n Bwysig' ac rydym wedi trefnu i Jackie Drysdale, Rheolwr Datblygu Gwella ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru, arsylwi ar ein hymarfer yn y maes hwn ar ddechrau mis Rhagfyr. Mae Jackie yn |

datblygu rhaglen hyfforddi genedlaethol ar gyfer Hybiau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.

1.4 Gall cofnodi sgyrsiau 'Beth sy'n Bwysig' fod yn heriol gan ei bod yn well gan rai staff ysgrifennu yn yr arddull cofnodi achosion traddodiadol tra bod eraill yn cofnodi mewn ffordd fwy myfyriol. Rydym yn anelu at symud ymarfer i gofnodi mewn modd mwy myfyriol gan y bydd hyn yn cyflawni dau bwrpas:

- Rhoi tystiolaeth gryfach o ymgysylltiad y plentyn ac aelodau'r teulu
- Rhoi cyfle i wirio manylion y sgwrs gyda'r teulu trwy ei gynnwys mewn llythyr myfyriol i'r teulu.

1.5 Rydym yn ymwybodol bod y sgwrs 'Beth sy’n Bwysig’ yn cymryd amser i'w chwblhau i safon dda a gall y swyddogion Ymgysylltu gymryd hyd at 45 munud i gwblhau sgwrs. Mae swyddogion ymgysylltu yn dweud bod ganddynt ddigon o adnoddau amser i gynnal y sgyrsiau yn effeithiol.

1.6 Dros yr ychydig wythnosau diwethaf, rydym wedi gallu ymateb yn effeithiol o ran atal yr angen am ofal a chymorth trwy ddarparu cyngor a chymorth prydlon. Dros gyfnod o bythefnos (diwedd mis Hydref – dechrau Tachwedd) cawsom:

- 37 o atgyfeiriadau
- Ymdriniwyd â 24 o'r rhain yn y sgwrs 'Beth sy'n Bwysig'.
- 10 asesiad sylfaenol a
- 3 asesiad cymhleth

1.7 Mae archwiliadau amlasiantaeth a'r archwiliadau yr ydym ni wedi eu gwneud ein hunain yn dangos bod ansawdd yr atgyfeiriadau a dderbynnir yn anghyson ar y cyfan. Gall rhai fod yn wael iawn, gyda gwybodaeth gyfyngedig sy’n golygu bod rhaid i ni gysylltu â'r sawl sy'n cyfeirio a gofyn iddynt siarad â theuluoedd i gael eu caniatâd a gofyn iddynt gynnal sgwrs 'Beth sy’n Bwysig’ ac ystyried opsiynau a gwasanaethau eraill. Ein nod yw

bod yn rhagweithiol yn y ffordd yr ydym yn delio ag atgyfeiriadau gwael, gan geisio gwella’r canlyniad yn hytrach na dim ond gwrthod yr atgyfeiriad.

1.8 ’Rydym wedi datblygu Canllawiau Ymarfer drafft ar gyfer Teulu Môn yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nod Teulu Môn yw "*cynorthwyo teuluoedd ym Môn i ofalu am blant gyda phwyslais ar helpu rhieni i ddatblygu eu gallu eu hunain i nodi a rheoli anawsterau a heriau a chadw teuluoedd gyda'i gilydd mewn amgylchedd diogel, cefnogol a sefydlog.*"

Mae Teulu Môn yn darparu ystod o adnoddau a chymorth a fydd yn:

- cyfrannu at atal neu oedi datblygiad anghenion gofal a chymorth plant a phobl ifanc sydd angen cymorth gan yr Awdurdod Lleol;
- newid sut y caiff anghenion gofal a chymorth plant a phobl ifanc eu diwallu;
- hyrwyddo teuluoedd yn magu eu plant, lle mae hynny’n gyson â lles y plentyn (plant);
- lleihau'r effaith a gaiff eu hanableddau ar blant a phobl ifanc anabl;
- cyfrannu at atal plant a phobl ifanc rhag dioddef camdriniaeth neu esgeulustod.

1.9 Datblygwyd Canllawiau Ymarfer Cyfeirio Amlasiantaeth gyda phartneriaid a chânt eu cadarnhau yn y Bwrdd Diogelu Corfforaethol ym mis Rhagfyr. Cytunwyd ar y ffurflen atgyfeirio ranbarthol a chaiff ei hymgorffori yn y Canllawiau Ymarfer. Rydym wedi dechrau gweithio gyda phartneriaid ar esbonio'r trefniadau mynediad i'r Gwasanaethau Plant i sicrhau bod partneriaid a'r bobl sy'n ymgysylltu â'r gwasanaeth yn eu deall. Bydd nifer y sesiynau gwybodaeth yn cynyddu dros y misoedd nesaf wrth i ni barhau i ddylanwadu a siapio rolau asiantaethau eraill, eu helpu i feithrin perthynas ac i gael dealltwriaeth o amgylchiadau a ffactorau breguster fel y gallant eu hadnabod yn gywir ac ymgysylltu yn hytrach na cheisio eu cyfeirio ymlaen os oes ansicrwydd ac amheuaeth.

| | | |
|---|---|---|
| | | 1.10 Gyda chyllid gan Teuluoedd yn Gyntaf rydym hefyd yn cryfhau ein gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth gan fuddsoddi ymhellach yn Teulu Môn a'r Tîm o Amgylch y Teulu. Ar hyn o bryd rydyn ni'n recriwtio i swyddi ychwanegol (Swyddogion Ymgysylltu, 1.5 Cyfwerth ag Amser Llawn a Gweithwyr Cymorth ar gyfer y Tîm o Amgylch y Teulu, 3 Cyfwerth ag Amser Llawn) a fydd yn cryfhau ymhellach ein gallu i ymateb yn effeithiol i blant a theuluoedd sydd angen cymorth ac i atal yr angen am ofal a chymorth.<br><br>1.11 Mae'r holl wasanaethau a gomisiynir o dan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd a chynhaliwyd trafodaethau gyda'r darparwyr cyfredol ynghylch sut y gallant ddarparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol yn y dyfodol.<br><br>1.12 Un opsiwn yw comisiynu gwasanaeth cymorth sy'n hawdd cael gafael arno'n lleol i ategu a chefnogi darparu gwasanaethau i blant a theuluoedd ac i ddarparu cyrchfan ar gyfer trefniadau camu allan i deuluoedd bregus. Os caiff ei gymeradwyo, bydd y gwasanaeth camu ymlaen yn gweithio gyda'r plant a'r teuluoedd sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Plant a byddai'r gwasanaeth yn gweithio'n benodol, ond nid yn unig, gyda;<br>• Theuluoedd y plant hynny y nodwyd eu bod wedi dioddef niwed sylweddol ac sydd bellach wedi eu dadgoftrestru,<br>• Plant y nodwyd bod ganddynt nifer o anghenion nad ydynt wedi eu diwallu ac sydd wedi bod yn derbyn cynllun gofal a chymorth,<br>• Plant sydd wedi dangos rhai arwyddion cynnar o ymddygiad rhywiol niweidiol,<br>• Teuluoedd a all fod â phroblemau camddefnyddio sylweddau lefel isel.<br>• Teuluoedd a all fod â phroblemau iechyd meddwl lefel isel, megis pryder a hwyliau isel.<br>• Cynorthwyo plant ag anableddau i gael mynediad at weithgareddau yn eu cymunedau, gan gynorthwyo eu cynhwysiad cymdeithasol a normaleiddio eu bywydau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Teuluoedd a all fod angen rhywfaint o fewnbwn ychwanegol i gyflawni eu nodau yn llawn a chynnal newid.<br><br>Bwriedir i'r ymwneud hwn fod am gyfnod cymharol fyr er mwyn cynnig cymorth lefel isel i deuluoedd y nodwyd eu bod yn fregus, a hynny er mwyn sicrhau nad yw eu sefyllfa’n dirwywio. Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol gyda Barnados mewn perthynas â'r gwaith hwn.<br><br>1.13 Mae gan y Gwasanaethau Plant weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliaeth ac mae strategaeth ddrafft wedi'i rhannu gydag AGGCC. Rydym wedi ymgynghori â staff ac asiantaethau partner ac rydym wedi trefnu rhagor o sesiynau ymgynghori gyda grwpiau cymunedol a chyda theuluoedd, plant a phobl ifanc a fydd yn rhoi cipolwg ar yr hyn sydd wedi gweithio yn y gorffennol a’r hyn nad yw wedi gweithio a’r hyn y dylid ei ddatblygu i’r dyfodol. Bydd y strategaeth ddrafft yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith.<br><br>1.14 Bydd y strategaeth yn cael ei ffurfio gan wybod bod gennym eisoes fanylion am anghenion teuluoedd Ynys Môn trwy'r Asesiad Anghenion Poblogaeth, ein data ein hunain a gwaith ymchwil gan Cordis Bright a gomisiynwyd yn flaenorol.<br><br>Mae gwaith yn cael ei wneud ar greu cysylltiadau â grwpiau cymunedol megis Caru Amlwch a fydd yn cryfhau cysylltiadau plant a theuluoedd â'u cymunedau eu hunain ac yn adeiladu'r gwydnwch nid yn unig o fewn yr unigolyn ond o fewn y teulu a'r gymuned.<br><br>1.15 Yn gyffredinol, ein nod yw galluogi teuluoedd bregus i allu rheoli eu problemau yn well a darparu amgylchedd addas, diogel a saff ar gyfer eu plant. Byddai hyn yn cynnwys: - |

| | | |
|---|---|---|
| | | • ADEILADU gwydnwch ymhlith plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr a'r gymuned fel eu bod yn dod yn fwy hunangynhaliol.<br>• ATAL anghenion rhag gwaethygu trwy adnabod a blaenoriaethu teuluoedd mewn angen yn gynnar, gan fynd i'r afael ag anghenion yn rhagweithiol gydag ymyrraeth effeithiol.<br>• DIOGELU rhag niwed sylweddol trwy gynnig ymyrraeth ddwys ac effeithiol<br><br>1.16 Byddai ein model ymyrraeth yn ceisio delio â materion yn y lefel gwasanaethau cyn-statudol lle bynnag y bo modd gwneud hynny ac os yw'n briodol. Yn y cyd-destun hwnnw, y Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth fydd yn delio yn y ffordd honno â'r holl amgylchiadau nad ydynt yn cynnwys ymchwiliad A47 neu symud y plentyn i ofal. Gallai hynny gynnwys staff dynodedig yn y Tîm o Amgylch y Teulu neu grwpiau ymarfer gweithiwr cymdeithasol. Byddant yn defnyddio'r dangosyddion breguster sydd ar gael yn Cordis Bright i sefydlu a yw achosion yn gymwys. Bydd yr ymchwiliad A47 neu'r symud i ofal yn cael ei arwain gan y grwpiau ymarfer Gwaith Cymdeithasol.<br><br>1.17 Yr ymyraethau a fydd ar gael bryd hynny fydd: -<br><br>• Rhaglenni Rhiantu<br>• Datblygu Sgiliau Ymarferol yn y Cartref<br>• Cyfweld Ysgogol<br>• Ymyrraeth Fer sy'n canolbwyntio ar Ddatrysiad<br>• Cyfryngu a Rheoli Perthynas<br>• Ymyrraeth i ddelio ag ymddygiad heriol<br>• Mynediad at ddarpariaeth gwasanaeth ehangach i ymateb i anghenion penodol – gwybodaeth sydd ar gael trwy Teulu Môn.<br><br>1.16 Byddai hyn yn creu'r amcanion canlynol: -<br>• Sicrhau bod adnoddau digonol ar gyfer y Tîm o Amgylch y Teulu<br>• Datblygu a gweithredu rhaglen datblygu sgiliau |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Ymyrraeth, Goruchwyliaeth a chymorth trwy Arweinyddion Ymarfer.<br><br>1.17 Bydd strategaeth ataliaeth y Gwasanaethau Plant yn bwydo i mewn i broses strategaeth ataliaeth Gorfforaethol ehangach yr Awdurdod Lleol. |
| **Argymhelliad 1: Dylai'r awdurdod fwrw ymlaen â'i ymrwymiad i ddatblygu fframwaith ar gyfer darparu gwaith ataliol gyda phlant a theuluoedd a fydd yn darparu gwasanaeth integredig yn ogystal â darparu help a chymorth cynnar sy'n oedi'n effeithiol yr angen am ofal a chymorth. (CGG 4.4)** | **CGG 4.4** | **2 Cryfderau**<br><br>a. Rydym wedi datblygu gweledigaeth gref i ddatblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar waith ataliol gyda phlant a theuluoedd.<br><br>b. Mae'r strwythur gwasanaeth newydd wedi ein galluogi i ganolbwyntio ar gryfhau integreiddiad ein gwasanaethau ataliol trwy gynyddu ein capasiti staffio.<br><br>c. Mae sefydlu Grwpiau Ymarfer llai yn galluogi'r Arweinwyr Ymarfer i ddarparu'r cymorth, y cyfarwyddyd a'r oruchwyliaeth angenrheidiol i staff ddarparu gwasanaethau effeithiol.<br><br>ch. Mae canllawiau Ymarfer Teulu Môn yn darparu fframwaith gweithio clir ar gyfer staff gyda'r nod o ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth prydlon ac effeithiol i blant a theuluoedd sydd angen cymorth.<br><br>d. Mae'r Awdurdod Lleol wedi datgan mai datblygu gwasanaethau ataliol a chymorth i deuluoedd yw un o'r prif amcanion ar gyfer y Cyngor. Fe'i hymgorfforir yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2017 – 2022 sy'n ymhelaethau ar y nod corfforaethol ehangach o ddarparu "*gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliaeth cadarn i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael cymorth er mwyn lleihau profiadau niweidiol yn eu plentyndod."*<br><br>dd Mae gan y gwaith a wneir yn Ynys Môn yn y maes Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod botensial mawr i godi ymwybyddiaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | | o effaith andwyol trawma mewn plentyndod ac i ddwyn sylw at y canlyniadau i fywyd oedolion yn sgil hynny. |

| | | |
|---|---|---|
| • **Argymhelliad 1: Dylai'r awdurdod fwrw ymlaen â'i ymrwymiad i ddatblygu fframwaith ar gyfer darparu gwaith ataliol gyda phlant a theuluoedd a fydd yn darparu gwasanaeth integredig yn ogystal â darparu help a chymorth cynnar sy'n oedi'n effeithiol yr angen am ofal a chymorth.**<br>• | **CGG 4.4** | **2 Meysydd y mae angen parhau i'w gwella**<br><br>a. Diweddaru'r wybodaeth sydd ar gael i deuluoedd ar wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.<br><br>b. Sefydlu'r swydd Rheolwr Atal Corfforaethol er mwyn canolbwyntio ar ddatblygu strategaeth atal corfforaethol drwy integreiddio'r grantiau sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i'r Awdurdod lleol a fydd yn ein galluogi ni i fod yn fwy hyblyg gyda'n trefniadau comisiynu er mwyn gallu bodloni anghenion ein teuluoedd a'n cymunedau.<br><br>c. Parhau i ddylanwadu ar a siapio rolau asiantaethau eraill yn y gwaith sy'n cael ei ddatblygu gan y Gwasanaethau Plant er mwyn eu helpu nhw i adeiladu perthnasau â theuluoedd, cael gwell dealltwriaeth o amgylchiadau a ffactorau sy'n ymwneud â bregusrwydd. Bydd hyn yn eu cynorthwyo nhw i adnabod teuluoedd yn gywir ac i ymgysylltu yn effeithiol â nhw yn hytrach na mynd ati i gyfeirio ymlaen yn seiliedig ar ansicrwydd ac amheuaeth.<br><br>d. Cydnabyddir bod hon yn siwrnai ddatblygu sylweddol ar bob lefel o fewn yr Awdurdod Lleol a gydag asiantaethau partner. |
| • **Argymhelliad 2: Dylid sefydlu systemau sicrhau ansawdd a threfniadau hyfforddiant** | **CGG 3.4** | **2.0 Llwyddiannau**<br><br>1.1 Rydym wedi bod yn datblygu arweiniad ymarfer Aml-Asiantaeth fel ymateb uniongyrchol i'r arolwg gan AGGCC gyda'r nod o gryfhau cydweithio aml- |

| | | |
|---|---|---|
| **aml-asiantaeth effeithiol i sicrhau bod y staff a'r partneriaid yn deall y trothwyon ar gyfer asesu gwasanaethau plant statudol a'u bod yn cael eu cymhwyso'n gyson; dylai hyn gynnwys datblygu protocol trothwyon diogelu plant aml-asiantaeth sy'n ymgorffori'r canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Llywodraeth Cymru.** | | asiantaethol. Mae'r Arweiniad Ymarfer wedi'i gynllunio i'w ddarllen a'i ddefnyddio gan yr amrywiaeth o ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar draws y Gwasanaethau plant.<br><br>Nid ydyw'n disodli, yn darparu'r manylion na'n dehongli deddfwriaeth, polisi, fframweithiau a gweithdrefnau, sydd oll yn gallu newid, ond mae'n canolbwyntio ar '*sut i wneud*' pethau gan gynnig cyngor, awgrymu syniadau a chyfeirio at ffynonellau gwybodaeth a gwaith darllen pellach.<br><br>Mae'r Arweiniad Ymarfer yn canolbwyntio ar:<br>• Sut i wneud atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant<br>• Arweiniad Ymarfer Amddiffyn Plant – Trothwyon Ymchwilio<br>• Arweiniad Ymarfer Amddiffyn Plant – Gweithwyr Allweddol a Grwpiau Craidd<br>• Arweiniad Ymarfer Amddiffyn Plant – Trothwyon Cofrestru<br>• Sut i reoli honiadau amddiffyn plant sydd wedi eu gwneud yn erbyn gweithwyr Proffesiynol.<br>Arweiniad Ymarfer<br><br>2.3 Ni chafodd yr arweiniad ei gymeradwyo gan Grŵp Cyflawni Diogelu Lleol Gwynedd a Môn yn eu cyfarfod diwethaf ym mis Hydref. Eglurodd yr heddlu bod angen cymeradwyo hyn yn rhanbarthol ac nid oedd Gwynedd yn dymuno gweithredu unrhyw arweiniad newydd gan fod Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan wrthi'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd.<br>Bydd yr Arweiniad Ymarfer sydd wedi ei gadarnhau gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Addysg bellach yn cael eu cadarnhau yn y Bwrdd Diogelu Corfforaethol a bydd cynllun hyfforddiant i staff yn cael ei ddatblygu ar gyfer y cyfnod rhwng Ionawr a Mawrth 2018.<br><br>2.4 Rydym eisoes wedi cryfhau ein gweithdrefnau o ran y trefniadau trothwy mewn perthynas ag atgyfeiriadau a wnaed i'r Gwasanaethau plant er mwyn sicrhau cysondeb o ran gwneud penderfyniadau. Bydd y cynnydd o un Rheolwr Tîm Dyletswydd i dri Arweinydd Ymarfer yn gwneud gwahaniaeth sylweddol o ran |

cysondeb a'r capasiti i wneud penderfyniadau wrth y 'drws ffrynt' h.y. Teulu Môn. Mae'r cofnod o benderfyniadau bellach yn cynnwys mwy o ddadansoddi risg a dymuniadau'r plentyn a'r teulu. Bydd yr Arweiniad Ymarfer aml-asiantaethol a'r trefniadau hyfforddiant hefyd yn datblygu'r gwaith hwn ymhellach.

2.5 Rydym wedi bod yn trafod ag asiantaethau eraill megis CAMHS, ysgolion, CAFCASS a Dechrau'n Deg er mwyn egluro'r gwaith sy'n cael ei ddatblygu i gryfhau trefniadau atgyfeirio a gwell dealltwriaeth o'r trothwyon ar gyfer asesiadau. Bydd y gwaith rhanbarthol o amgylch prosesau atgyfeirio a gymeradwywyd yn ddiweddar yn darparu eglurder ac arweiniad ychwanegol.

2.6 Rydym wedi datblygu a dechrau rhoi Fframwaith Sicrwydd Ansawdd ar Waith o fewn y Gwasanaethau Plant. Mae trefniadau sicrhwydd ansawdd aml-asiantaethol hefyd wedi dechrau gyda'n prif bartneriaid, Iechyd, Addysg a'r Heddlu gan ein bod yn cydnabod y gwerth o nid yn unig ddeall drosom ein hunain, ond hefyd dysgu o ddeall safbwyntiau ein partneriaid. Mae ein partneriaid o'r un farn, sef pan fydd asiantaethau a gweithwyr proffesiynol unigol yn ymgysylltu ag ymarfer sicrwydd, ei fod yn ein helpu ni i ddeall effeithlonrwydd ymarferion rheng-flaen wrth amddiffyn plant a phobl ifanc. Mae'n ein galluogi ni i adnabod arferion da ac i ofyn cwestiynau ynghylch a oes modd gwneud pethau'n wahanol er mwyn gwella'r system ddiogelu.

2.7 Er mwyn i ni allu deall yn well y wybodaeth sy'n cael ei derbyn gan y Gwasanaeth fe wnaethom ymgymryd ag archwiliad o'r holl atgyfeiriadau a gafodd y Gwasanaethau plant gan Heddlu Gogledd Cymru ar ffurf CID16 dros gyfnod o bythefnos (1-14 Mehefin 2017). Roedd yr archwiliad yn cynnwys dadansoddiad o wybodaeth atgyfeirio:

- Cofnodi gwybodaeth allweddol megis dyddiad geni, iaith, anabledd ac ati;
- A oedd y rheswm am ar atgyfeiriad yn glir;
- A gafodd y canlyniad a ragwelir o'r atgyfeiriad ei nodi
- Gwybodaeth ynghylch a chafwyd sgwrs gyda'r plant a'r rhieni fel rhan o'r broses atgyfeirio;

| | | |
|---|---|---|
| | | • A oedd dadansoddiad o’r risgiau ac anghenion y plant neu’r teulu.<br>• A oedd cronoleg perthnasol<br>• A oedd barn y plant wedi ei geisio.<br>• Yn olaf, daethpwyd i farn ynghylch a oedd yr atgyfeiriad wedi ei wneud modd modd priodol a hynny’n seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd ac ar benderfyniad y rheolwr.<br>2.8 Daeth yr archwiliad i’r casgliad:<br>• Y dylai plant ond gael eu hatgyfeirio un ai pan maent eisoes yn agored i’r Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda chaniatâd y teulu neu lle mae pryderon o ran diogelu.<br>• Rheolau diogelu data yn cael eu torri mewn nifer sylweddol o'r atgyfeiriadau a archwiliwyd gan nad oedd caniatâd wedi’i roi gan y teulu.<br>• Gallai gwybodaeth fod yn fwy penodol o ran egluro pam eu bod yn atgyfeirio ac ni ddylid cyfeirio dim ond oherwydd bod plant yn gysylltiedig â’r oedolion sy’n rhan o’r achos.<br>• Gellid gwella ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd a’r modd y mae ffurflenni CID16 yn cael eu llenwi.<br><br>2.9 Y cam nesaf yw i’r Heddlu gynnal archwiliad a dadansoddiad pellach ac i gyfarfod â’r Gwasanaethau Plant a thrafod eu casgliadau ac i gytuno ar y ffordd orau o symud y gwaith yn ei flaen. Nod y ffordd hon o weithio yw y bydd yn cefnogi ac yn cryfhau ymhellach ddulliau gweithio mwy effeithiol’<br><br>2.10 Mae trafodaeth gychwynnol wedi ei chynnal er mwyn peilota cyfres o fesurau er mwyn gwella llif ac ansawdd y wybodaeth a rennir rhwng Heddlu Gogledd Cymru a’r Gwasanaethau Plant yn Ynys Môn ac fe gynhelir trafodaeth bellach ym mis Tachwedd. Un opsiwn sy’n cael ei ystyried yw sefydlu proses wybodaeth Atal ac Ymyrraeth Gynnar ar y cyd a allai fod yn un ffordd o ddatrys rhai o’r materion a gafodd eu hadnabod yn ein harchwiliad diweddar. |
| • **Argymhelliad 2:** | **CGG 3.4** | **Cryfderau** |

| | | |
|---|---|---|
| • **Dylid sefydlu systemau sicrhau ansawdd a threfniadau hyfforddiant aml-asiantaeth effeithiol i sicrhau bod y staff a'r partneriaid yn deall y trothwyon ar gyfer asesu gwasanaethau plant statudol a'u bod yn cael eu cymhwyso'n gyson; dylai hyn gynnwys datblygu protocol trothwyon diogelu plant aml-asiantaeth sy'n ymgorffori'r canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru.** | | a) Arweiniad Ymarfer aml-asiantaeth wrthi'n cael ei ddatblygu i gynnwys trefniadau hyfforddiant mewn perthynas â:<br>• Sut i wneud atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant<br>• Arweiniad Ymarfer Amddiffyn Plant – Trothwyon Ymchwilio<br>• Arweiniad Ymarfer Amddiffyn Plant – Gweithwyr Allweddol a Grwpiau Craidd<br>• Arweiniad Ymarfer Amddiffyn Plant – Trothwyon Cofrestru<br>• Sut i reoli honiadau amddiffyn plant sydd wedi eu gwneud yn erbyn gweithwyr Proffesiynol.<br>Arweiniad Ymarfer<br><br>b) Mae gan y Gwasanaethau Plant bellach Fframwaith Sicrwydd Ansawdd cadarn yn ei le sydd bellach yn cael ei weithredu ar draws y Gwasanaeth.<br><br>c) Mae archwiliadau misol o ffeiliau achos ac archwiliadau thematig yn cael eu sefydlu'n gadarn yn y gwasanaeth.<br><br>d) Mae Arweinwyr Ymarfer bellach yn archwilio achosion yn rheolaidd ar draws y Gwasanaethau Plant.<br><br>e) Mae Fframwaith Sicrwydd Ansawdd aml-asiantaeth drafft wedi ei ddatblygu ac mae'r gwaith yn o archwilio ansawdd aml-ymarfer wedi dechrau.<br><br>f) Mae parodrwydd cryf ymysg y Gwasanaethau Plant ac asiantaethau partner, Iechyd, Addysg a'r Heddlu, i barhau i gynnal archwiliadau ac i wneud gwaith dadansoddi er mwyn gwella arferion a chryfhau trefniadau i ddiogelu plant a phobl ifanc. |
| • **Argymhelliad 2:**<br>• **Dylid sefydlu systemau sicrhau** | **CGG 3.4** | **Meysydd y mae angen parhau i'w gwella** |

| | | |
|---|---|---|
| **ansawdd a threfniadau hyfforddiant aml-asiantaeth effeithiol i sicrhau bod y staff a'r partneriaid yn deall y trothwyon ar gyfer asesu gwasanaethau plant statudol a'u bod yn cael eu cymhwyso'n gyson; dylai hyn gynnwys datblygu protocol trothwyon diogelu plant aml-asiantaeth sy'n ymgorffori'r canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru.**<br>• | | a. Angen i'r gwaith sy'n gysylltiedig â gwella'r wybodaeth y mae'r Heddlu'n ei rhannu gyda'r Gwasanaethau Plant gael ei ddatblygu ymhellach.<br><br>b. Grŵp Sicrwydd Ansawdd aml-asiantaethol i gael ei sefydlu er mwyn parhau â'r gwaith o ddeall effeithlonrwydd arferion rheng flaen. |
| **Argymhelliad 3:**<br>**Dylai uwch arweinwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu barhau i gydweithio'n rhagweithiol i sicrhau** | **CGG 2.2** | **3 Lwyddiannau**<br><br>3.1 Mae'r broses o wneud penderfyniadau ar y pwynt cyfgyfeirio yn Nheulu Môn wedi gwella'n sylweddol dros y misoedd diwethaf o ganlyniad i gynnydd yn y capasiti rheoli (o un rheolwr i dri Arweinydd Ymarfer). Mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth o ran yr amser a glustnodir i wneud penderfyniadau ac mae'r |

| | | |
|---|---|---|
| **gwelliannau i ansawdd, cysondeb ac amseroldeb ymholiadau diogelu plant.** | | Arweinwyr Ymarfer bellach yn gallu cael sgyrsiau adlewyrchol. Ein nod bellach yw y bydd cysondeb ein penderfyniadau mewn perthynas â threfniadau trothwy atgyfeirio hefyd yn gwella.<br>3.2 Bydd penderfyniadau ar y pwynt asesu yn cael eu gwneud mewn 24 awr ac ar ôl 10 diwrnod pan adolygir yr asesiad gan yr Arweinydd Ymarfer ac eto ar ddiwedd y 42 diwrnod.<br>Os yw'r teulu i dderbyn gwasanaeth gan un ai'r Gwasanaeth Ymyrraeth Ddwys neu drwy gael eu cyfeirio at TAT neu unrhyw wasanaethau eraill a gomisiynir, rydym wedi creu dogfen drosglwyddo sy'n ystyried y dair elfen ganlynol:<br>• Risg<br>• ACE wedi eu hadnabod a<br>• Gwytnwch o fewn yr unigolyn, teulu ac o fewn y gymuned.<br><br>3.3 Mae safon yr atgyfeiriadau CID16 yn parhau i amrywio o ran ansawdd. Os bydd Teulu Môn yn cael atgyfeiriad o safon gwael byddant yn cysylltu â'r Heddlu ac yn rhannu â nhw yr anawsterau y gallwn eu cael wrth brosesu'r atgyfeiriad penodol hwnnw. Rydym yn anelu at fod yn ragweithiol wrth dderbyn atgyfeiriadau yn hytrach na chau neu wrthod atgyfeiriadau ar unwaith.<br><br>3.4 Mae'r Gwasanaethau Plant wedi cynnal archwiliad o ffeiliau achosion ailadroddus ym Mai a Mehefin, gyda chymorth sydd wedi'i gomisiynu'n allanol er mwyn ail edrych ar archwiliad blaenorol er mwyn asesu'r pellter a deithiwyd. Roedd y sampl archwilio bach yn canolbwyntio ar:<br>• Gwneud penderfyniadau cychwynnol<br>• Sgrinio<br>• Trafodaethau Strategaeth<br>• Cyfarfodydd strategol ac<br>• Asesiadau syml<br><br>Daeth yr archwilydd i'r casgliad bod: |

- Presenoldeb a chofnodi mewn Cyfarfodydd Strategol wedi gwella
- Defnydd cynyddol o declyn Risg 2
- Roedd cyfarfodydd strategol yn cael eu cynnal ar amser
- Cynnydd mewn defnydd o Gronolegau
- Asesiadau o ansawdd gwell
- Cysondeb dogfennau yn parhau i fod yn broblem
- Symudiad cysyniadol o hidlo risg i adnabod cryfderau heb ei sefydlu'n llawn

3.5 Mae arweiniad ymarfer Aml-asiantaeth drafft (Trothwy Ymchwilio) wedi ei gwblhau gan ganolbwyntio ar wella ansawdd, cysondeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr Heddlu a'r Gwasanaethau Plant wrth ymateb i faterion diogelu ar gyfer plant a phobl ifanc. Y bwriad yw gwneud y defnydd gorau o sgiliau Swyddogion Heddlu a Gweithwyr Cymdeithasol wrth:

- Ymchwilio i honiadau neu amheuon o gam-drin plant;
- Rhannu gwybodaeth;
- Diogelu plant

3.6 Mae'r Arweiniad Ymarfer wedi ei ddatblygu er mwyn helpu'r holl asiantaethau sydd ynghlwm ag ymchwilio i honiadau o gam-drin plant i gydweithio er lles y plentyn a chyfiawnder troseddol. Mae'n cynnig ffordd o weithio a ddylai sicrhau:

- datblygiad partneriaethau cryf ac effeithiol a fydd yn ehangu'r broses ymchwilio ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc
- bod yr holl ymchwiliadau yn cael eu cynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau bod asesiadau cywir, anghenion ieithyddol a materion lles yn cael eu bodloni
- cyfle i bobl proffesiynol wneud asesiadau hysbys ynghylch a oes gan y plentyn neu a ydyw'n debygol o ddioddef niwed sylweddol a chynllunio gweithredu priodol.
- bod y broses ymchwilio yn achosi cyn lleied o ofid a phosib i'r plentyn a'i fod yn eu galluogi nhw i dderbyn yr amddiffyniad a'r gefnogaeth orau drwy'r sianelau troseddol a sifil.
- y bydd yn adeiladu ar y sylfeini diogel sydd wedi eu sefydlu yng Ngweithdrefn Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

| | | |
|---|---|---|
| | | • bod dulliau ar gael er mwyn datrys gwahaniaethau barn, a<br>• bod prosesau yn gallu cael eu monitro a’u cofnodi.<br><br>3.7 Bydd yr Arweiniad Ymarfer mewn perthynas ag Ymchwiliadau Trothwy yn cael ei drafod yn Is-grŵp Protocol a Pholisi Gogledd Cymru ar 5 Rhagfyr lle gobeithir y bydd yn cael ei gadarnhau a’i weithredu ar draws y rhanbarth gyda'r nod o gryfhau ein trefniadau cydweithio presennol. |
| **Argymhelliad 3:**<br>**Dylai uwch arweinwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol a’r heddlu barhau i gydweithio’n rhagweithiol i sicrhau gwelliannau i ansawdd, cysondeb ac amseroldeb ymholiadau diogelu plant.** | **CGG 2.2** | **3.0 Cryfderau**<br>a. Mae’r cynnydd o ran capasiti rheoli o fewn strwythur newydd y Gwasanaeth newydd yn galluogi Arweinwyr Ymarfer i gael mwy o gapasiti gyda Grwpiau Ymarfer llai er mwyn canolbwyntio ar ansawdd ymarfer Gweithwyr Cymdeithasol unigol mewn perthynas ag ymchwiliadau amddiffyn plant.<br><br>b. Mae’r cynnydd mewn Arweinwyr Ymarfer wedi cryfhau ein capasiti i allu gwneud penderfyniadau amserol a phriodol ar atgyfeiriadau a dderbynnir gan Teulu Môn.<br><br>c. Mae parodrwydd cryf ymysg Uwch Reolwyr a grwpiau gweithredu ar draws Gwasanaethau Plant a’r Heddlu i weithio gyda’i gilydd er mwyn parhau i ddatblygu cydweithio. Bydd trafodaethau yn parhau ym mis Tachwedd ar sefydlu proses ymyrraeth gynnar er mwyn gwella’r broses o wneud penderfyniadau a rhannu gwybodaeth.<br><br>d. Rydym wedi parhau i weithio’n agos â’r Heddlu ac mae trafodaethau gweithredol yn digwydd yn ddyddiol er mwyn gallu ymateb ar y cyd i faterion diogelu. Gallwn gael trafodaethau agored a gonest gyda’r Heddlu am ansawdd yr atgyfeiriadau os oes angen.<br><br>e. Mae parodrwydd ymysg y Gwasanaethau Plant a’r Heddlu i fynd i’r afael ag arferion gwael mewn perthynas ag ansawdd, cysondeb ac amseroldeb ymholiadau amddiffyn plant drwy drafodaethau Rheoli o ddydd i ddydd (drwy |

| | | |
|---|---|---|
| | | Skype neu dros y ffôn) mewn perthynas â safon y ffurflenni CID16 a dderbynnir. |
| **Argymhelliad 3:**<br>**Dylai uwch arweinwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu barhau i gydweithio'n rhagweithiol i sicrhau gwelliannau i ansawdd, cysondeb ac amseroldeb ymholiadau diogelu plant.** | **CGG 2.2** | **3.0 Meysydd y mae angen parhau i'w gwella**<br><br>a. Mae Crynodeb o'r adroddiad Gwerthuso Chwarter 2 yn dangos bod tystiolaeth anghyson o ran y gwelliant yn safon, cysondeb ac amseroldeb ymholiadau amddiffyn plant. Penderfynodd archwiliad bod presenoldeb a chofnodi mewn Cyfarfodydd Strategol wedi gwella a bod y cyfarfodydd strategol yn amserol.<br><br>Fodd bynnag, mae'r Archwiliad o Ffeiliau Achos (Gorffennaf) ac adolygiad rheoli yn casglu, bod archwilwyr, wedi mynegi pryderon am drafodaethau strategaeth neu gyfarfodydd o ran:<br>• Nad oeddent yn cael eu cynnal yn amserol bob amser<br>• Cofnodion o'r trafodaethau yn annigonol<br>• Cyfeirir at yr angen am gyfarfodydd strategol dilynol ac yna nid oes tystiolaeth eu bod wedi eu cynnal.<br><br>b. Adlewyrchir hyn yn yr Archwiliad Thematig Rhan 4, ac adolygiad o Blant sy'n destun Cynlluniau Amddiffyn Plant – roedd gwneud penderfyniadau, oedi a diffyg cynlluniau clir a methu dilyn materion i fyny yn elfennau a nodwyd.<br><br>c. Mae gwaith ar y gweill gyda'r Heddlu ac Iechyd – fforwm proffesiynol aml-asiantaethol ynghylch dau adolygiad rheoli o achosion lle cafodd yr adolygiadau o arferion eu gwneud orau ar sail aml-asiantaethol – un wedi'i gwblhau: un ar y gweill. Mae'r adolygiad sydd wedi'i gwblhau yn dangos arferion gwael o ran rhannu gwybodaeth: diffyg canolbwyntio ar risg a cholli cyfleoedd i ymyrryd yn gynnar. |
| • **Argymhelliad 4:**<br>**Dylai'r cyngor barhau i gynorthwyo uwch** | **CGG 1.8** | **4.0 Llwyddiannau** |

| | | |
|---|---|---|
| **arweinwyr i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o natur gymhleth a'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau plant, er mwyn rhoi sicrwydd iddynt hwy, eu partneriaid, staff a chymunedau bod eu cyfrifoldebau yn cael eu cyflawni i'r eithaf.** | | 4.1 Mae'r Awdurdod Lleol wedi sefydlu Panel o Aelodau Etholedig ac Uwch Arweinwyr, a gadeirir gan Arweinydd y Cyngor, a sefydlwyd yn Ebrill 2016 ac a gafodd ei ffurfioli ym Mawrth 2017 fel rhan o drefniadau Sgriwtini. Mae'r trefniadau mewn perthynas a'r panel traws-barti wedi ein galluogi ni i ddatblygu nifer o egwyddorion pwysig a fydd yn ffurfio sylfaen gref ar gyfer y dyfodol wrth i ni ddatblygu model ar gyfer craffu ar Wasanaethau Plant:<br>4.2 Mae'r Panel yn is-grŵp o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Bydd hyn yn sicrhau'r buddion canlynol:<br>• Datblygu model o weithio o fewn Gwasanaethau Plant sy'n canolbwyntio ar grŵp llai er mwyn galluogi Aelodau i chwarae mwy o ran, i ddatblygu lefel o arbenigedd pwnc ac er mwyn annog presenoldeb da a gwaith tîm<br>• Cryfhau capasiti Aelodau i herio perfformiad drwy wella ansawdd y wybodaeth mewn perthynas â gwasanaethau a phrofiadau plant a theuluoedd sy'n derbyn cymorth a/neu wasanaethau.<br>• Fforwm i drafod gwybodaeth o ran risgiau i'r Gwasanaeth, fel sail i hysbysu blaenraglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.<br>• Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau sydd â'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau mewn perthynas â materion plant a phobl ifanc yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.<br>• Cynnig cymorth i'r Aelod sy'n bencampwr plant sy'n derbyn gofal.<br><br>4.3 Prif rôl y Panel Gwella Gwasanaethau Plant yw:<br>a) Monitro a chraffu mewn modd ystyrlon a chadarn:<br>• y cynnydd a'r datblygiad yn erbyn y cynllun gwella gwasanaeth a gyhoeddwyd mewn ymateb i Arolwg AGGCC.<br>• perfformiad meintiol ac ansoddol y gwasanaethau plant. Hyn i gynnwys datblygu cerdyn sgorio penodol ar gyfer y gwasanaethau plant.<br><br>b) Sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed wrth ystyried effeithlonrwydd ac effaith y gwasanaethau. |

c) Rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar yr elfennau canlynol:

- cynnydd digonol, amserol wrth ddarparu'r cynllun gwella
  - perfformiad meintiol ac ansoddol o wasanaethau cefnogi a gofal sydd ar gael i blant a phobl ifanc.

4.4 Mae'r Panel wedi parhau i ganolbwyntio ar fonitro a herio gweithrediad Cynllun Gwella Gwasanaeth y Gwasanaethau Plant gan ddal y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pennaeth Gwasanaeth i gyfrif. Mae pedwar cyfarfod wedi eu cynnal ers yr etholiadau lleol ym mis Mai.

Mae'r eitemau agenda canlynol wedi eu trafod gan y Panel:

- Cylch Gorchwyl, Cynllun Prosiect a'r cefndir
- Cynllun Gwella Gwasanaeth – trosolwg lefel uchel
- Trosolwg: Ymweliadau Laming – rhaglen dreigl o ymweliadau ac adrodd yn ôl.
- % o ymweliadau statudol Plant sy'n Derbyn Gofal sydd eu hangen yn y flwyddyn a aeth heibio yn unol â'r rheoliadau [SCC/025]
- Thema 3: Sicrwydd Ansawdd, edrych yn agosach ar Argymhellion 2, 11, 13 ac 14 – Adroddiad AGGCC
- Cyflwyniad: "Diwrnod ym mywyd gweithiwr cymdeithasol gwasanaethau plant"
- Thema 2

4.5 Pwrpas ymweliadau Laming gan Aelodau Etholedig â staff rheng flaen wedi'i adolygu er mwyn sicrhau bod cysylltiad rhwng eu gwaith fel Aelodau o'r Panel a'r Cynllun Gwella Gwasanaeth. Roedd yr Arglwydd Laming, Ymchwiliad Cictoria Climbe (2003), yn gwbl glir bod "*uwch reolwyr ac aelodau etholedig o fewn sefydliadau yn atebol am ansawdd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau lleol*" a bod yn "*rhaid iddynt allu bod yn atebol am unrhyw fethiant i amddiffyn plant bregus rhag niwed neu ecsploetiaeth bwriadol.*"

4.6 Mae ymweliadau Laming ar gyfer Aelodau wedi eu trefnu tan Mai 2018. Cynhaliwyd ymweliad Laming diweddar â'r Tîm Lleoli Plant ar 27.10.17 gan y

| | | |
|---|---|---|
| | | Prif Weithredwr Cynorthwyol, Cadeirydd Sgriwtini a'r Aelod Etholedig sy'n Bencampwr Plant sy'n Derbyn Gofal.<br><br>Nododd yr adroddiad a gwblhawyd yn dilyn yr adroddiad bod:<br>• Staff yn cadarnhau eu bod yn derbyn Goruchwyliaeth rheolaidd, sy'n effeithiol iawn.<br>• Nododd y Gweithwyr Cymdeithasol bod Goruchwyliaeth wedi digwydd yn gyson bob amser o fewn y Tîm Lleoli.<br>• Roedd pawb a oedd yn bresennol yn brofiadol un eu rôl ac roedd eu hyder yn glir o'r ffordd yr oeddent yn ymgysylltu â'r cyfarfod.<br>• Nodwyd yn ystod y cyfarfod bod brwdfrydedd y staff tuag at weithio â phlant, teuluoedd a Gofalwyr Maeth yn glir.<br>• Diolchwyd i'r rhai a oedd yn bresennol am ei gwaith caled a'u hymrwymiad, a oedd yn glir i'w weld ac fe nodwyd hynny.<br>Cynhaliwyd ymweliad Laming pellach hefyd â Teulu Môn ar 16 Tachwedd yn y Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar.<br><br>4.7 Mae Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Llinos Medi hefyd yn ddeilydd portffolio Gwasanaethau Plant ac mae hi wedi bod yn gefnogol iawn ac wedi ymwneud yn agos â'r gwaith o fonitro'r Cynllun Gwella Gwasanaeth drwy gyfarfodydd misol â'r Pennaeth Gwasanaeth i drafod cynnydd a datblygiadau. |
| • **Argymhelliad 4:**<br>5 **Dylai'r cyngor barhau i gynorthwyo uwch arweinwyr i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o natur gymhleth a'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau plant, er mwyn rhoi** | **CGG 1.5** | **4.0 Cryfderau**<br><br>a. Mae Aelodau Etholedig ac Uwch Arweinwyr wedi dangos gwir ddymuniad a pharodrwydd i wella eu dealltwriaeth o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan staff y Gwasanaethau Plant drwy waith y Panel Aelodau.<br><br>▪ Mae'r cyfarfodydd rheolaidd a gynhaliwyd â'r Prif weithredwr, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Pennaeth Gwasanaethau Plant wedi golygu gweithrediad cyflym y strwythur gwasanaeth newydd, pobl yn cael eu recriwtio i swyddi a datblygiad y Strategaeth Gweithlu a'r Cynllun Gweithredu. |

| | | |
|---|---|---|
| **sicrwydd iddynt hwy, eu partneriaid, staff a chymunedau bod eu cyfrifoldebau yn cael eu cyflawni i'r eithaf.** | | |

| | | |
|---|---|---|
| **6 Argymhelliad 4:**<br>7 **Dylai'r cyngor barhau i gynorthwyo uwch arweinwyr i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o natur gymhleth a'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau plant, er mwyn rhoi sicrwydd iddynt hwy, eu partneriaid, staff a chymunedau bod eu cyfrifoldebau yn cael eu cyflawni i'r eithaf.** | **CGG 1.5** | **4.0 Meysydd y mae angen parhau i'w gwella**<br><br>a. Bydd aelodau yn derbyn hyfforddiant ar bynciau megis IFSS ac ACEs ac Ymyrraeth Ddwys a byddir yn ymweld ag uwch arweinyddion ac aelodau i wella eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth. |
| **8 Argymhelliad 5:**<br>**9 Dylid datblygu strategaeth gadarn ar gyfer y gweithlu i gynnwys nodau byrdymor, tymor canolig a hirdymor er mwyn recriwito a chadw gweithwyr cymdeithasol.** | **CGG 1.5** | **5.0 Llwyddiannau**<br><br>5.1 Mae'r Strategaeth Gweithlu a gymeradwywyd dros yr haf yn canolbwyntio yn awr ar sicrhau bod gan staff y sgiliau, yr hyfforddiant a'r gefnogaeth i'w galluogi i wneud eu gwaith yn effeithiol a darparu'r gefnogaeth y mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn Ynys Môn ei hangen. |

Mae Cynllun Gweithredu wedi cael ei ddatblygu gyda chefnogaeth lawn yr Adran AD a chynhelir cyfarfodydd bob 6-8 wythnos dan gadeiryddiaeth y Pennaeth Gwasanaeth er mwyn sicrhau bod Cynllun gweithredu'r Strategaeth Gweithlu yn cael ei weithredu'n effeithiol – y prif elfennau yw:

- Datblygu cyfres o ddeunyddiau marchnata yn manylu ar y manteision o weithio i'r Awdurdod a'u cyflwyno ar yr holl gyfryngau.
- Datblygu cynllun recriwtio ar gyfer swyddi gwag ar unwaith wedi i swyddogion ymddiswyddo a hynny ar y cyd ag Adnoddau Dynol.
- Sefydlu dulliau effeithiol o ddewis.
- Sicrhau bod prosesau'n canolbwyntio ar recriwtio diogel
- Lleihau'r oedi yn amryfal gamau'r broses recriwtio.
- Datblygu rhaglen gynefino gyson ac effeithiol.
- Creu diwylldiant cefnogol, herio perfformiad gwael drwy ddarparu cyfeririad clir, goruchwyliaeth reolaidd a chefnogaeth ddatblygiadol fel y gall ein holl weithwyr berfformio'n effeithiol.
- Datblygu ein staff cyfredol a darparu amgylchedd gweithio diogel i bawb ynghyd â darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau newydd a symud ymlaen.

5.2 Rydym yn ddiweddar iawn wedi penodi i swydd y Pennaeth Gwasanaethau Plant. Daw Fon Roberts â sefydlogrwydd i'r Gwasanaeth. Mae ganddo bron i 20 mlynedd o brofiad ac mae wedi bod yn Reolwr Gwasanaeth gyda ni am y 6 mis diwethaf.

5.3 Mae dau Reolwr Gwasanaeth profiadol ar gyfer Ymyrraeth Gynnar ac Atal hefyd wedi cael eu penodi ac wedi cychwyn yn eu swyddi.

5.4 Cafodd strwythur newydd y Gwasanaeth ei weithredu ar 4 Hydref pryd cymerodd yr wyth Arweinydd Ymarfer newydd y cyfrifoldeb am eu grwpiau Ymarfer. Maent yn rheoli Grwpiau llai ar draws Ymyrraeth Gynnar ac Atal ac Ymyrraeth Ddwys gyda phob Arweinydd Ymarfer yn gyfrifol am dri neu bedwar o Weithwyr Cymdeithasol. Mae hyn yn golygu y bydd gan bob Gweithiwr Cymdeithasol fynediad i'w rheolwyr ac y bydd modd iddynt gael cyngor yn fuan wrth ddelio gydag achosion unigol a derbyn cefnogaeth a goruchwyliaeth ddigonol.

Mae angen gwneud mwy o waith i gwblhau'r ailstrwythuro, gan gynnwys adolygu'r trefniadau ar gyfer y Tîm Lleoli Plant gan wneud y defnydd gorau o Weithwyr Cymorth i gefnogi teuluoedd ynghyd â sicrhau bod y gefnogaeth weinyddol yn briodol i Grwpiau Ymarfer fedru cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn effeithiol.

5.5 Cafodd pedwar o'r Arweinwyr Ymarfer eu recriwtio o'r tu allan i'r sefydliad ac maent yn dod â lefel uchel o wybodaeth a sgiliau yn y meysydd a nodwyd yng Nghynllun Gwella'r Gwasanaeth fel rhai y mae angen eu datblygu ymhellach. Roedd y pedwar Arweinydd Ymarfer arall yn ymarferwyr profiadol a oedd yn gweithio yn y Gwasanaethau Plant ac a oedd yn barod am ddyrchafiad.

5.6 Rydym wedi recriwtio 8 o Weithwyr Cymdeithasol newydd yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf ac mae'r cyfan yn lleol a phob un ac eithrio un yn siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n golygu y bydd modd i ni ddiwallu anghenion ieithyddol y plant a'r teuluoedd a ddaw i gyswllt gyda'r Gwasanaeth. Rydym yn parhau i fod â 6 o Weithwyr Cymdeithasol asiantaeth profiadol dros dro mewn swyddi Gwaith Cymdeithasol sy'n wag. Mae'r rhan fwyaf o'r swyddi gweigion hyn wedi codi oherwydd y dyrchafiadau a wnaed o ganlyniad i'r strwythur newydd. Mae menter recriwtio newydd wedi cael ei sefydlu er mwyn denu Gweithwyr Cymdeithasol profiadol parhaol a bydd yn cychwyn ym mis Tachwedd gan amlinellu'r manteision o weithio i Ynys Môn.

5.7 Rydym wedi cryfhau yn sylweddol gapasiti staffio ein gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth gan benodi 2.5 Swyddogion Ymgysylltu ar gyfer Teulu Môn a bydd 1.5 o swyddi pellach ychwanegol drwy'r Grant Teuluoedd yn Gyntaf yn cael eu llenwi yn ystod yr wythnosau nesaf.

5.8 Mae'r Tîm Teuluoedd Gwydn bellach wedi ei staffio'n llawn ac maent yn gweithio ar hyn o bryd gydag 8 o deuluoedd er mwyn atal y teuluoedd hynny rhag torri i lawr ac i gefnogi'r plant sy'n byw yn y cartref. Mae'r Arweinydd Ymarfer ar gyfer y Tîm hwn wedi ennill gwobr genedlaethol yn ddiweddar gan

| | | |
|---|---|---|
| | | Gymdeithas Brydeinig y Gweithwyr Cymdeithasol (BASW) am ei gwaith ar ddatblygu cymorth i adawyr gofal a threfniadau i gefnogi gofalwyr maeth i atal lleoliadau rhag torri i lawr.<br>5.9 Rydym ar hyn o bryd yn recriwtio i nifer o swyddi eraill yn y Gwasanaeth a fydd yn parhau i gryfhau ein gwasanaethau cymorth i deuluoedd. Maent yn cynnwys recriwtio:<br>• 3 x o Weithwyr Cymorth ychwanegol yn y TAT wedi eu cyllido gan y Grant Teuluoedd yn Gyntaf<br>• Swydd Ymgynghorydd Personol ychwanegol wedi ei chyllido gan Grant Diwrnod Dewi Sant Llywodraeth Cymru i ddarparu cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i bobl ifanc sy'n gadael gofal pan maent yn 18 oed.<br><br>5.10 Fel Gwasanaeth, rydym wedi datblygu trefniadau ar gyfer Cynllun Hyfforddeion Gwaith Cymdeithasol mewnol a fydd yn galluogi dau o'n staff i hyfforddi i fod yn Weithwyr Cymdeithasol cymwys (cwrs 2 flynedd). Oherwydd ein bod wedi gweld trosiant staff sylweddol yn ystod y 18 mis diwethaf, nod y strategaeth hon o 'ddatblygu ein pobl ein hunain' yw sicrhau bod gennym Weithwyr Cymdeithasol cymwys a fydd yn gweithio i'r Gwasanaeth am o leiaf 2 flynedd wedi idddynt gymhwyso. |
| **10 Argymhelliad 5:**<br>**11 Dylid datblygu strategaeth gadarn ar gyfer y gweithlu i gynnwys nodau byrdymor, tymor canolig a hirdymor er mwyn recriwito a chadw gweithwyr cymdeithasol.** | **CGG 1.1** | **5 Cryfderau**<br><br>• Rydym wedi recriwtio nifer sylweddol o staff parhaol yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol (Pennaeth Gwasanaeth, Rheolwyr Gwasanaeth, 8 Arweinydd Ymarfer ac 8 o Weithwyr Cymdeithasol). Dyma un o'r prif flaenoraethau yn ein Cynllun Gwella Gwasanaeth.<br><br>• Bu cynnydd yn nifer y staff sy'n gweithio yn y Gwasanaethau Plant o 85 yn 2015/16 i 116 erbyn diwedd Chwarter 2, 2017/18 (mae hyn yn cynnwys trosglwyddo'r TAT a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (7 aelod o staff i gyd) o'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Mae gennym weithlu ymroddgar a medrus iawn sy’n canolbwyntio ar ddarparu’r gwasanaethau gorau ar gyfer plant a theuluoedd ar yr Ynys. Dylai’r strwythur newydd a pholisïau a gweithdrefnau cryfach alluogi’r Gwasanaeth i barhau i recriwtio, datblygu a chadw staff gan sefydlogi’r Gwasanaeth yn dilyn blynyddoedd anodd. |
| 6 **Argymhelliad 5:**<br>7 **Dylid datblygu strategaeth gadarn ar gyfer y gweithlu i gynnwys nodau byrdymor, tymor canolig a hirdymor er mwyn recriwito a chadw gweithwyr cymdeithasol.**<br>8 | **CGG 1.1** | **5.0 Meysydd y mae angen parhau i’w gwella**<br><br>a. Penodi staff parhaol i swyddi Gwaith Cymdeithasol gwag a swyddi yn yr Uned Ddiogelu a Sicrhau Ansawdd.<br><br>b. Mae dal ein gafael mewn staff parhaol sydd ag ymrwymiad i wneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc yn Ynys Môn yn hanfodol os ydym am gyflawni’r Cynllun Gwella Gwasanaeth.<br><br>c. Drwy ein Strategaeth Gweithlu a gweithio gyda chydweithwyr yn AD, byddwn yn rhoi goruchwyliaeth, arweiniad a chefnogaeth i’n holl staff fel y gallant gyflawni eu dyletswyddau’n effeithiol. Rydym yn anelu at sicrhau y bydd y trefniadau hyn yn ein cynorthwyo i ddal gafael yn ein staff. |
| 9 **Argymhelliad 6:**<br>10 **Dylid adolygu’r trefniadau ar gyfer rheolwyr timau ac uwch ymarferwyr er mwyn sicrhau capasiti digonol i ddarparu arolygiaeth gan reolwyr o benderfyniadau a herio a chyfeirio staff ar draws y gwasanaeth; dylid** | **CGG 1.4** | **6.0 Llwyddiannau**<br><br>6.1 Gweithredwyd strwythur newydd y Gwasanaeth ar 4 Hydref (CGG.2), ac mae wedi arwain at gynnydd yn nifer y staff (o dri i wyth) sydd â chyfrifoldeb am reoli Gweithwyr Cymdeithasol. Mae’r Arweinyddion Ymarfer newydd yn gyfrifol am Grwpiau Ymarfer llai o dri neu bedwar o Weithwyr Cymdeithasol. Cyn i ni ailstrwythuro’r gwasaneth, roedd gan y tri Tîm gweithredol – Dyletswydd, FIT a LAC – rhwng wyth a deg aelod o staff yr un.  Bydd rheoli Grwpiau Ymarfer llai yn golygu y gall Arweinwyr Ymarfer roi trosolwg rheoli, bod ar gael yn rhwyddach i’w staff, rhoi cyngor buan iddynt ar reoli achosion unigol a rhoi cymorth a goruchwyliaeth i sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol. |

| | | |
|---|---|---|
| **bod rhaglen arweinyddiaeth a datblygiad ar gael er mwyn datblygu gwytnwch.** | | 6.2 Rydym wedi darparu Rhaglen Gynefino gynhawysfawr i'r Gwasanaeth ar gyfer ein Harweinwyr Ymarfer yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau, ac i sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno yn iawn gan yr Awdurdod Lleol fel gweithwyr newydd. Mae'r rhaglen gynefino a'r sesiynau hyfforddiant wedi sôn am:<br>• Yr Weledigaeth ar gyfer y Gwasanaeth<br>• Cynllun Gwella'r Gwasanaeth<br>• Rheoli Absenoldeb Salwch a Chyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith<br>• Gofal Cwsmer<br>• Rheoli cwynion yn effeithiol<br>• System Oriau Ystwyth<br>• Hyfforddiant Cyfathrebu Cydweithredol<br>• Perfformiad, Fframwaith Sicrhau Ansawdd ac Archwiliadau o Ffeiliau Achosion<br><br>A byddant yn y dyfodol yn sôn am:<br>• Gweithdai Goruchwylio – 3 x gweithdy diwrnod llawn ar oruchwyliaeth yn seiliedig ar ganlyniadau<br>• PLO a Gwaith Llys<br>• Rheoli Amser a Rheoli Dyddiaduron<br>• Blaenoriaethu Gwaith a Disgwyliadau<br>• Gweithdrefnau Medrusrwydd a Disgyblu<br>• Hyfforddiant Steil Rheoli<br>• Trothwyon a gwneud y penderfyniadau cywir<br>• Cynllunio ac Adolygu Gofal<br>• Cofnodi Achosion<br>• Model Asesiadau a Risg<br>• Rheoli Llwyth Achosion – Neilltuo achosion<br>• Cynadleddau Grŵp Teulu<br>• Uned Diogelu'r Cyhoedd Heddlu Gogledd Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| | | • CAFCASS |
| **11 Argymhelliad 6:**<br>**12 Dylid adolygu'r trefniadau ar gyfer rheolwyr timau ac uwch ymarferwyr er mwyn sicrhau capasiti digonol i ddarparu arolygiaeth gan reolwyr o benderfyniadau a herio a chyfeirio staff ar draws y gwasanaeth; dylid bod rhaglen arweinyddiaeth a datblygiad ar gael er mwyn datblygu gwytnwch.** | **CGG 1.4** | **7 Cryfderau**<br><br>a. Mae sefydlu'r Tîm Teuluoedd Gwydn i gefnogi plant i aros yn eu cartref yn ddiogel a chynorthwyo gyda chynlluniau adsefydlu ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn dangos arwyddion cynnar o gynnydd. Mae tystiolaeth o ymgysylltiad cadarnhaol gan y Tîm mewn perthynas â chefnogi 2 o bobl ifanc yn eu harddegau i fyw gyda'u teuluoedd, eu hatal rhag gorfod byw mewn lleoliadau preswyl all-sirol. Mae gweithiwr cymorth wedi gwneud gwaith ardderchog i gefnogi person ifanc i aros gartref gyda'i theulu.<br><br>b. Mae ffocws y strwythur newydd ar ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol gyda theuluoedd a'r modd y mae'r Arweinwyr Ymarfer newydd yn gofyn i'w staff weithio gyda theuluoedd hefyd yn dangos cynnydd cadarnhaol. Enghraifft o hyn yw'r gostyngiad o 55% dros y 6 mis diwethaf yn nifer y plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.<br><br>c. Mae'r Awdurdod Lleol yn buddsoddi'n drwm mewn cyfleoedd i Reolwyr Gwasanaeth ac Arweinwyr Ymarfer ddatblygu eu sgiliau arwain a rheoli. Mae staff sydd wedi derbyn dyfarniadau ar ôl cymhwyso yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn cynnwys:<br>• Dawn Owen, Rheolwr y Tîm Lleoli – Rhaglen Datblygu Arweinwyr Tîm (TMDP)<br>• Hayley Ennis – Rheolwr Tîm Lleoliadau – TMDP<br>• Ceri Jones – Arweinydd Ymarfer, Teulu Môn – TMDP<br>• Huw Owen – Swyddog Diogelu Annibynnol – TMDP<br>• Michelle Evans – Arweinydd Ymarfer - TMDP<br>• Mae dau o Reolwyr Gwasanaeth eraill yn cymryd rhan ar hyn o bryd yn y Rhaglen Datblygu Rheolwyr Canol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **13 Argymhelliad 6:**<br>**14 Dylid adolygu'r trefniadau ar gyfer rheolwyr timau ac uwch ymarferwyr er mwyn sicrhau capasiti digonol i ddarparu arolygiaeth gan reolwyr o benderfyniadau a herio a chyfeirio staff ar draws y gwasanaeth; dylid bod rhaglen arweinyddiaeth a datblygiad ar gael er mwyn datblygu gwytnwch.** | **CGG 1.4** | **6 Meysydd y mae angen parhau i'w gwella**<br><br>Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, mae ein record o ran dal gafael yn ein Rheolwyr/Arweinwyr Ymarfer wedi bod yn wael, gyda phedwar o Reolwyr parhaol yn gadael y Gwasanaeth. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar ein gallu i ddarparu ymarfer Gwaith Cymdeithasol cyson a'n gallu i gefnogi ein staff i'r lefel ofynnol. Gyda phenodi'n barhaol i swyddi'r Pennaeth Gwasanaeth ac Arweinwyr Ymarfer a strwythur newydd y Gwasanaeth, mae gennym bellach fwy o sefydlogrwydd a chapasiti i gefnogi ein staff. Bydd y Strategaeth Gweithlu yr ydym wedi ei datblygu a'r Polisi Goruchwyliaeth diwygiedig yn sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar roddi'r gefnogaeth orau bosibl. |
| **15 Argymhelliad 7:**<br>**16 Dylai uwch reolwyr gymryd camau i wella amlder, cysondeb ac ansawdd arolygiaeth staff rheng flaen; mae'n rhaid cyflwyno dull sicrwydd er mwyn sicrhau** | **CGG 1.3** | **7. 0 Llwyddiannau**<br><br>7.1 Daeth Polisi Goruchwyliaeth diwygiedig i rym ym Mawrth 2017. Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r hyn y dylai staff ei ddisgwyl o oruchwyliaeth ac mae'n rhoi arweiniad i reolwyr ynghylch sut i oruchwylio'n effeithiol. Prif nod y polisi yw cefnogi staff fel rhan o'r fframwaith rheoli perfformiad.<br>Mae'n hanfodol ar gyfer gosod safonau, cyflawni nodau ac amcanion y Gwasanaeth, cadw staff a sicrhau lles ein staff a sicrhau gwasanaethau o'r radd flaenaf i grwpiau bregus. Mae'n hanfodol hefyd o safbwynt cefnogi a datblygu staff. |

| | | |
|---|---|---|
| **cydymffurfiaeth ac ansawdd.** | | 7.2 Drwy'r Cynadleddau Staff a gynhelir bob 6 wythnos, rydym wedi atgoffa'r holl staff eu bod yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn derbyn goruchwyliaeth yn rheolaidd. Mae'r Arweinwyr Ymarfer newydd yn gwbl ymwybodol o'r angen i sicrhau bod goruchwyliaeth yn cael ei gyflawni'n drwyadl yn eu Grwpiau Ymarfer<br>Mae'r polisi'n darparu canllawiau ar amlder goruchwyliaeth ar gyfer yr holl grwpiau staff. Gall goblygiadau goruchwyliaeth wael fod yn ddifrifol iawn gan effeithio'r modd y caiff achosion unigol eu rheoli, datblygu staff a'u lles a diwylliant y sefydliad.<br><br>7.3 Mae Dr Neil Thompson wedi darparu hyfforddiant goruchwyliaeth ar gyfer yr holl staff yn ystod y Gwanwyn ac yn ychwanegol at hyn, mae o wedi darparu canllawiau ar y polisi Goruchwyliaeth diwygiedig.<br><br>7.4 Gan fod y rhan fwyaf o'r Arweinwyr Ymarfer yn newydd yn eu swyddi, mae trefniadau wedi cael eu gwneud gyda Rhonwyn Dobbing i ddarparu hyfforddiant ar oruchwyliaeth sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Cynhelir tri o weithdai yn ystod yr wythnosau nesaf gyda'r nod o gefnogi goruchwylwyr i edrych ar eu rôl mewn goruchwyliaeth sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac i ystyried gwerth goruchwyliaeth sy'n seiliedig ar ganlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth, ymarfer gwaith cymdeithasol ac i'r sefydliad. Dylai hefyd gryfhau rôl y goruchwyliwr, ystyried sgiliau craidd a'r heriau ar gyfer gwahanol grwpiau ymarfer. |
| **17 Argymhelliad 7:**<br>**18 Dylai uwch reolwyr gymryd camau i wella amlder, cysondeb ac ansawdd arolygiaeth staff rheng flaen; mae'n rhaid cyflwyno dull sicrwydd er** | **CGG 1.3** | **7.0 Cryfderau**<br><br>a. Rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o 102 ym Mawrth 2017 i 56 ar 31 Awst, gostyngiad o 55%. Cafodd enwau 60 o blant eu tynnu oddi ar y Gofrestr yn ystod y cyfnod hwn ac rydym wedi dadansoddi'r rhesymau y tu ôl i'r gostyngiad hwn. Gwnaeth Huw Owen, y Swyddog Diogelu Annibynnol, y dadansoddiad a daeth i'r canlyniad fod y Polisi Goruchwyliaeth newydd (a ddaeth i rym ym Mawrth 2017) wedi rhoi |

| | | |
|---|---|---|
| **mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac ansawdd.**<br>**19** | | mwy o eglurder a chyfle i Weithwyr Cymdeithasol drafod risg mewn sesiynau goruchwyliaeth tra'n adlewyrchu ar ansawdd yr oruchwyliaeth a'r cynnydd o ran y gwaith a wneir gyda theuluoedd.<br><br>b. Rydym ar hyn o bryd yn gwerthuso ansawdd goruchwyliaeth. Ceir tystiolaeth o'r Ffeil Oruchwyliaeth, Cofnodiadau Goruchwyliaeth Achos ac adborth gan staff. |
| **20 Argymhelliad 7:**<br>**21 Dylai uwch reolwyr gymryd camau i wella amlder, cysondeb ac ansawdd arolygiaeth staff rheng flaen; mae'n rhaid cyflwyno dull sicrwydd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac ansawdd.** | **CGG 1.3** | 7 **Meysydd sy'n parhau i fod angen eu Gwella**<br><br>Gweithredu'r Model Risg er mwyn sicrhau bod yr holl lefelau o risg yn cael eu hystyried ar gyfer yr holl achosion Gofal a Chefnogaeth |
| **Argymhelliad 8:**<br>**Mae'n rhaid i gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref ar gyfer y gwasanaethau plant barhau i sicrhau bod y gwelliannau sydd eu hangen ar wasanaethau yn cael eu blaenoriaethu a bod cyflymder y gwelliannau** | **CGG 1.5** | **8.0 Llwyddiannau**<br><br>8.1 Mewn ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion Arolwg AGGCC, mae Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol wedi bod yn cynnal cyfarfodydd wythnosol (pob pythefnos ar hyn o bryd) gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, y Pennaeth Gwasanaethau Plant a'r Pennaeth Adnoddau Dynol i oruchwylio cyflawniad y strwythur newydd, datblygu a gweithredu'r Strategaeth Gweithlu, a sicrhau bod y penodiadau allweddol i swyddi'r Pennaeth Gwasaeth, Rheolwr Gwasanaeth ac Arweinwyr Ymarfer yn cael eu gwneud yn ddigon cyflym. |

| | | |
|---|---|---|
| **yn cyflymu ac yn cael ei gynnal.** | | 8.2 Mae Grŵp Gwella ac arno Uwch Swyddogion dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfarfod yn fisol er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud mewn perthynas â'r Cynllun Gwella Gwasanaeth ac adrodd i Uwch Dîm Rheoli'r Awdurdod ac i'r Pwyllgor Gwaith.<br><br>8.3 Mae Panel Gwasanaethau Plant o Aelodau Etholedig dan gadeiryddiaeth Arweinydd y Cyngor wedi cael ei sefydlu yn ffurfiol yn dilyn yr etholiadau Awdurdod Lleol yn ddiweddar ac mae'n adrodd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Llinos Medi yw'r aelod portffolio hefyd ar gyfer y Gwasanaethau Plant ac mae wedi bod yn gefnogol iawn o'r cynnydd a'r datblygiadau sydd eu hangen yn y Gwasanaeth.<br><br>8.4 Mae Arweinydd y Cyngor, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol wedi bod yn mynychu'r Cynadleddau Staff a gynhelir bob 6 wythnos er mwyn sicrhau bod y staff yn cael eu cymorth a'u cefnogaeth lawn ac maent bob amser yn diolch i'r staff am eu gwaith mewn amgylchedd mor heriol. |
| **Argymhelliad 8:**<br>**Mae'n rhaid i gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref ar gyfer y gwasanaethau plant barhau i sicrhau bod y gwelliannau sydd eu hangen ar wasanaethau yn cael eu blaenoriaethu a bod cyflymder y gwelliannau** | **CGG 1.5** | **8.0 Cryfderau**<br><br>a. Mae'r Awdurdod Lleol wedi penderfynu nad oes raid i'r Gwasanaethau Plant ddod o hyd i arbedion am ddwy flynedd (2017-18 a 2018-19). Mae hyn yn tystio i'r ffaith bod yr Awdurdod Lleol yn rhoi blaenoriaeth i'r Gwasanaethau Plant oherwydd mae'n rhaid i'r holl Wasanaethau eraill wneud arbedion.<br><br>b. Yn ogystal, mae'r Awdurdod Lleol wedi rhyddhau cyllid ychwanegol ar gyfer y Gwasanaethau Plant yn dilyn yr Arolwg er mwyn cryfhau capasiti'r Gwasanaeth i wneud y gwelliannau angenrheidiol. Mae swydd Rheolwr Rheoli Ansawdd wedi cael ei chreu er mwyn canolbwyntio ar weithredu'r Fframwaith Rheoli |

| | | |
|---|---|---|
| **yn cyflymu ac yn cael ei gynnal.** | | Ansawdd. Fodd bynnag, nid ydym wedi llwyddo i benodi i'r swydd sydd wedi arafu'r broses yr oeddem wedi gobeithio ei sefydlu. Mae trefniadau dros dro i gyllido ymgynghorwyr gofal cymdeithasol annibynnol i gyflawni darnau penodol o waith hefyd wedi eu cytuno.<br><br>c. Cymeradwywyd cyllid pellach fel y gallai Bruce Thornton, cyd-awdur y Model Risg gymryd arno rôl Datblygu Hyfforddi Ymarfer am gyfnod o 7 mis er mwyn canolbwyntio ar:<br>• Darparu gwasanaeth hyfforddi a mentora er mwyn helpu i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a medrusrwydd ymarferwyr ac Arweinwyr Ymarfer.<br>• Cefnogi Rheolwyr Gwasanaeth i weithredu prosesau, systemau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod y Model Risg yn cael ei weithredu ym mhrosesau'r gwasanaethau.<br>• Cefnogi datblygu Model Risg mewn goruchwyliaeth feirniadol ac adlewyrchol.<br>• Cynnal y lefel gyfredol o Weithwyr Cymdeithasol drwy gyflogi Staff Asiantaeth. |
| **Argymhelliad 8:<br>Mae'n rhaid i gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref ar gyfer y gwasanaethau plant barhau i sicrhau bod y gwelliannau sydd eu hangen ar wasanaethau yn cael eu blaenoriaethu a bod** | **CGG 1.5** | **8.0 Meysydd y mae angen parhau i'w gwella**<br><br>a. Dylai aelodau'r panel barhau i ganolbwyntio ar a herio swyddogion ar y gwelliannau y mae angen eu gwneud yn y Gwasanaethau Plant. |

| | | |
|---|---|---|
| **cyflymder y gwelliannau yn cyflymu ac yn cael ei gynnal.** | | |
| **Argymhelliad 9: Dylid sefydlu trefniadau aml-asiantaeth i atgyfnerthu cynlluniau gweithredol a fydd yn cynorthwyo cydlyniad effeithiol o waith cwblhau Fframweithiau Asesu ar y Cyd gan bartneriaid statudol.** | **CGG 2.3** | **9.0 Llwyddiannau**<br><br>9.1 Rydym wedi cael caniatâd gan Lywodraeth Cymru i gyfuno'r Fframwaith Asesu ar y Cyd (JAF) cyfredol gyda'r ffurflen asesu Gofal a Chefnogaeth. Mae gwaith ar gynnwys y mesurau a gesglir yn y JAF wedi cychwyn a bydd hyn yn cael ei weithredu yn ddiweddarach yn y flwyddyn galendr hon. Bydd y TAT yn parhau i ddefnyddio'r JAF yn y cyfamser.<br><br>9.2 Mae angen cynnal asesiad Gofal a Chefnogaeth cymesur a JAF ar gyfer unrhyw ymholiad neu gyfeiriad i'r Hyb sydd angen cymorth ataliol. |
| **Argymhelliad 9: Dylid sefydlu trefniadau aml-asiantaeth i atgyfnerthu cynlluniau gweithredol a fydd yn cynorthwyo cydlyniad effeithiol o waith cwblhau Fframweithiau Asesu ar y Cyd gan bartneriaid statudol.** | **CGG 2.3** | **9.0 Cryfderau**<br><br>a. Rydym wedi gweithio ar wella ansawdd a'n dealltwriaeth o asesiadau Gofal a Chymorth (Rhan 1,2,3) ac mae hyn yn cynnwys y set data craidd, y sgwrs 'Beth sy'n Bwysig' a'r asesiad gofal a chymorth. Rydym wedi bod yn gweithio i wella ein dealltwriaeth o'r meini prawf cymhwyster cenedlaethol sicrhau cysondeb o ran cofnodi'r meini prawf cymhwyster yn ein hasesiadau. Rydym wedi nodi dulliau addas o gyfathrebu, sbardunau a theclynnau i wella ansawdd y sgwrs 'Beth sy'n Bwysig', y broses gwneud penderfyniadau a chofnodi. |
| **Argymhelliad 9: Dylid sefydlu trefniadau aml-asiantaeth i atgyfnerthu cynlluniau gweithredol a fydd yn cynorthwyo cydlyniad effeithiol o waith cwblhau Fframweithiau** | **CGG 2.3** | **Meysydd y mae angen parhau i'w gwella**<br><br>a. Mae'r Cynlluniau Gofal a Chefnogaeth rhan 4 yn cychwyn cael eu defnyddio i gofnodi'r cynlluniau gofal a chefnogaeth. Rydym wedi nodi'r modd y byddwn yn cwblhau'r cynllun gofal hwn i safon dda a'r teclynnau y bydd eu hangen i gwblhau'r cynllun gofal ar y cyd gyda'r teulu. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio'r 'cwestiwn gwyrthiol' – teclyn Cyfweld Cymhellol a ddefnyddir i sefydlu sgôr gwaelodlin (sefydlu sut mae sgôr o 10 yn edrych), taflenni amcanion i fesur y |

| | | |
|---|---|---|
| **Asesu ar y Cyd gan bartneriaid statudol.** | | pellter a deithiwyd, cerdyn argyfwng i gofnodi'r cynllun wrth gefn a'r cynllun diogelwch. Mae'r teclynnau hyn oll wedi eu dylunio i gyd-gynhyrchu gwaith **gyda** theuluoedd ac nid ar eu rhan. Mae hyfforddiant wedi cael ei drefnu ar gyfer y flwyddyn newydd gan gynnwys Cyfweld Cymhellol, Therapi yn Canolbwyntio ar Ddatrysiadau Byr a Chyfathrebu ar y Cyd. Bydd hyn yn cryfhau'r cynnydd a wnaed hyd yma ac yn atgyfnerthu'r dulliau gwaith newydd a hyrwyddir gan y Ddeddf. |
| • **Argymhelliad 10:**<br>• **Dylid gwella ansawdd asesiadau a chynlluniau i sicrhau eu bod o ansawdd da yn gyson, gyda ffocws clir ar anghenion, risgiau a chryfderau plant a theuluoedd, a bod dealltwriaeth glir o'r canlyniadau, amserlenni a'r cyfrifoldebau am weithredoedd a ddymunir**. | **CGG 2.1** | **10 Llwyddiannau**<br><br>10.1 Mae'r Arweinwyr Ymarfer newydd wedi bod yn canolbwyntio ar leihau baich achosion Gweithwyr Cymdeithasol drwy gamu i fyny a chamu i lawr a chau achosion pan mae hyn yn briodol. Mae arwyddion cynnar bod llai o achosion yn symud ymlaen i'r cam asesu oherwydd cynnydd yn y sgyrsiau 'Beth sy'n Bwysig' sy'n cael eu cynnal yn Teulu Môn, gyda hynny sicrhau ymateb mwy prydlon a phriodol ar gyfer teuluoedd.<br>10.2 Mewn archwiliad dilyn i fyny ym Mai/Mehefin 2017, nodwyd yr isod:-<br>• Gwelliant sylweddol yn andawdd yr asesiadau Cychwynnol/Syml<br>• Ar y cfyan, roedd asesiadau'n gynhwysfawr ac yn briodol (cymesur)<br>• Defnydd cynyddol o Grynodebau Cau Achosion<br>• Yn gyffredinol, roedd y gwaith cofnodi'n well o lawer – dim ond un achos oedd yn is na'r safon ddisgwyliedig<br>• Penderfyniad cychwynnol o fewn 24 awr wedi ei wneud ym hob achos<br>• Cyfraniad cynyddol asiantaethau eraill at y broses asesu yn amlwg<br>• Y fformatau asesu a ddefnyddir yn parhau i fod yn gymwys (Asesiad cychwynnol / Asesiad A47 / Fframwaith Asesiad Gofal a Chefnogaeth) ond roedd defnydd cynyddol o'r Fframwaith Asesu Gofal a Chefnogaeth newydd<br>• Defnydd cyfyngedig o'r adran 'Beth sy'n Bwysig' o'r asesiad Gofal a Chefnogaeth<br>• Roedd y deg achos a archwiliwyd wedi cynhyrchu 22 o gyfeiriadau blaenorol – dim ond tri o'r achosion a archwiliwyd oedd yn ymwneud â "theuluoedd anhysbys". Roedd penderfyniadau i gau yn briodol o ran y |

| | | |
|---|---|---|
| | | problemau a gyflwynwyd, Fodd bynnag, nid oedd y penderfyniadau bob amser yn seiliedig ar olwg holistig a hanesyddol o'r teulu.<br><br>10.3 Mae Cynllun Gweithredu Llys wedi cael ei ddatblygu er mwyn canolbwyntio ar wella ansawdd a dadansoddiad yr holl asesiadau a gynhelir er mwyn hysbysu ein penderfyniadau a bydd hyn yn cefnogi'r trefniadau ar gyfer blaenoriaethu achosion cyfraith gyhoeddus. Mae Arweinwyr Ymarfer bellach yn ymwybodol o amserlen y Llysoedd ar gyfer achosion yn eu Grwpiau Ymarfer a byddant yn cefnogi ac yn rhoi arweiniad i Weithwyr Cymdeithasol er mwyn sicrhau eu bod yn paratoi'n well ar gyfer y Llys a bod y dogfennau'n cael eu llenwi ar amser.<br><br>10.4 Mae'r Gwasanaethau Plant wedi cytuno i roi blaenoriaeth i wella arferion asesu Gwaith Cymdeithasol yn seiliedig ar y ffaith bod angen i'r Gwasanaethau ganolbwyntio ar weithredu cam wrth gam gan sicrhau cynaliadwyedd a hirhoedledd. |
| • **Argymhelliad 10:**<br>• **Dylid gwella ansawdd asesiadau a chynlluniau i sicrhau eu bod o ansawdd da yn gyson, gyda ffocws clir ar anghenion, risgiau a chryfderau plant a theuluoedd, a bod dealltwriaeth glir o'r** | **CGG 2.1** | **Cryfderau**<br><br>a. Mae'r broses o drosglwyddo o asesiadau dan Ddeddf Plant 1989 i ofynion Dedddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynd rhagddi. Mae rhywfaint o waith cadarnhaol yn digwydd yn y gwasanaeth i gefnogi'r symudiad cysyniadol ac ymarferol hwn o ran ymarfer asesu:<br>• Mae ymarferwyr wedi bod yn rhan o'r gwaith o bennu safonau ar gyfer ymarfer asesu: sy'n ein galluogi i fesur ei ansawd. Mae Bruce Thornton, Awdur Model Risg Gwynedd/Thornton wrthi'n hyfforddi ac yn mentora staff ar hyn o bryd ar ddefnyddio'r model i hysbysu asesiadau. Mae'r gwasanaeth wedi cytuno ar ei Brotocol ar gyfer y defnydd cyson o'r Model Risg mewn ymarfer.<br>• Mae yna enghreifftiau o arferion gwaith cymdeithasol da gan gynnwys defnydd effeithiol o Fodel Risg Gwynedd/Thornton Risk Model, gyda hynny |

| | | |
|---|---|---|
| **canlyniadau, amserlenni a'r cyfrifoldebau am weithredoedd a ddymunir.**<br>• | | wedi ei adlewyrchu yng nghynnwys rhai o'r asesiadau a rhai asesiadau'n atgyfnerthu ceisiadau i'r llys drwy roddi cyfarwyddyd clir. Roedd y rhan fwyaf o'r asesiadau cychwynnol wedi cael eu cwblhau'n amserol.<br>• Roedd rhai enghreifftiau o asesiadau da yn dangos dadansoddiad, eglurder o ran risgiau a gallu a deinameg y teulu. Roedd un archwiliad o'r pellter a deithiwyd yn dangos gwelliant yn ansawdd yr asesiadau Cychwynnol/Syml a bod yr asesiadau ar y cyfan yn gynhwysfawr ac yn briodol (yn gymesur).<br><br>b. Mae nifer o Arweinwyr Ymarfer wedi mynychu cwrs hyfforddiant Cyfathrebu Cydweithredol a fydd yn atgyfnerthu'r asesiadau a wnaed dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.<br><br>c. Mae Bruce Thornton wedi cael ei gomisiynu i ddarparu rôl fentora/hyfforddi yn y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y Model Risg yn cael ei wreiddio'n gadarn mew ymarfer.<br><br>d. Bydd sefydlu Grwpiau Ymarfer Llai yn y strwythur newydd yn darparu mwy o gapasiti i Arweinwyr Ymarfer ganolbwyntio ar wella ymarfer Gwaith Cymdeithasol. |
| **Argymhelliad 10:**<br>**Dylid gwella ansawdd asesiadau a chynlluniau i sicrhau eu bod o ansawdd da yn gyson, gyda ffocws clir ar anghenion, risgiau a chryfderau plant a theuluoedd, a bod dealltwriaeth glir o'r canlyniadau, amserlenni a'r cyfrifoldebau am** | **CGG 2.1** | **10 Meysydd y mae angen parhau i'w gwella**<br><br>a. Mae'r dadansoddiad o ymarfer ar gyfer chwarter 2 (cyn gweithredu'r Strwythur newydd) wedi dwyn sylw at y meysydd isod y mae angen rhoi blaenoriaeth iddynt:<br>• Rheoli baich achosion<br>• Camu achosion i fyny/i lawr yn effeithiol<br>• Adennill ein henw da poffesiynol yn y Llysoedd<br>• Gwneud yn siwr bod trosolwg rheoli'n cael ei gofnodi – y penderfyniad a wnaed, gan bwy a'r rhesymau am y penderfyniad – a sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu dilyn i fyny |

| | | |
|---|---|---|
| **weithredoedd a ddymunir**. | | • Darparu model cofnodi gweithredol sy'n addas ar gyfer ymyrraeth gynnar drwodd i ymyrraeth ddwys ac sy'n darparu'r templedi sylfaenol o fewn llif gwaith cyson<br>• Sicrhau bod asesiad cyfredol ar gael ar gyfer pob achos agored.<br>• Sicrhau bod yr asesiadau'n drwyadol – dim yn canolbwyntio ar y broblem a gyflwynwyd yn unig, ond ystyried hefyd y problemau yn hanes y teulu<br>• Mae angen i weithwyr cymdeithasol fod yn fwy cadarn a hyderus yn y modd y maent yn cyflwyno eu dadansoddiad proffesiynol o risgiau ac anghenion.<br><br>b. Nid yw'r meini prawf cymhwyster yn yr asesiadau Gofal a Chefnogaeth yn cael eu cofnodi'n gyson ar hyn o bryd. Rydym yn anelu at sicrhau mwy o gysondeb ac rydym wedi trefnu hyfforddiant pellach ar gyfer staff ddiwedd mis Tachwedd wedi ei gydlynu gan Vicky Allen, sydd wedi bod yn arwain ar ddatblygu templedi rhanbarthol ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.<br><br>c. Mae angen sefydlu'r Model Risg yn gadarn yn ein hymarfer ac rydym yn anelu at gefnogi ymarferwyr ac Arweinwyr Ymarfer i ddatblygu ymhellach eu sgiliau o ran gweithredu'r model er mwyn cefnogi penderfyniadau effeithiol mewn perthynas â risgiau. |

| | | |
|---|---|---|
| • **Argymhelliad 11:**<br>• **Dylid gwella ansawdd a chysondeb cofnodion; dylai pob aelod o staff a rheolwr sicrhau bod** | **CGG 3.5** | **11.0 Llwyddiannau**<br><br>11.1 Rydym yn siomedig fod y gwerthusiad cyffredinol ar gyfer Chwarter 2 yn dangos bod yr ymarfer o ran cofnodion yn dal yn anghyson, serch hyn mae tystiolaeth o welliant mewn rhai archwiliadau. |

| | | |
|---|---|---|
| **eu cofnodion o safon dda, eu bod yn gyfredol a'u bod yn cael eu storio'n systemataidd.** | | 11.2 Rydym yn gweithio ar ddarparu model gweithredol ar gyfer staff sy'n cwmpasu Ymyrraeth Gynnar trwodd i Ymyrraeth Ddwys, sy'n darparu'r templedi cofnodi isafswm o fewn llif gwaith cyson. Ein nod yw:<br>• Ailgadarnhau'r angen am ymarfer da o ran cofnodi achosion, a'r safonau disgwyliedig sy'n gysylltiedig â hynny<br>• Sicrhau Fframwaith Cofnodi sy'n *"maintains a systemic and family narrative, which describes all the events associated with the interaction between a social worker, other professionals and the child and their family"* (Munro)<br>• Sicrhau bod y defnydd o'r Model Risg wedi'i wreiddio o fewn y camau allweddol o Gofnodi a Gwneud Penderfyniadau.<br>• Datblygu ymagwedd sy'n gadael i unigolyn, yn enwedig plentyn, edrych yn ôl ar ei fywyd a chofio yn glir, neu lle nad oeddent efallai'n gwybod yr holl ffeithiau.<br>• Datblygu ymagwedd sy'n gymorth i berson fyfyrio, gan alluogi staff i fyfyrio ar y gwaith a wnaed a chynllunio unrhyw ymyrraeth yn y dyfodol<br>• Cynhyrchu gwybodaeth fusnes fanwl-gywir at ddibenion rheoli perfformiad a sicrwydd ansawdd. |
| • **Argymhelliad 11:**<br>• **Dylid gwella ansawdd a chysondeb cofnodion; dylai pob aelod o staff a rheolwr sicrhau bod eu cofnodion o safon dda, eu bod yn gyfredol a'u bod yn cael eu storio'n systemataidd.** | **CGG 3.5** | **11.0 Cryfderau**<br><br>a. Rydym wedi parhau i herio'n adeiladol a chefnogi gweithwyr unigol i wella eu hymarfer mewn perthynas â chofnodi ac asesiadau amserol.<br><br>b. Mae Arweinwyr Ymarfer wedi bod yn canolbwyntio ar reoli llwyth achosion staff gyda'r nos o gamu achosion i fyny ac i lawr a chau achosion pan ystyrir bod hynny'n briodol. Bydd hyn yn arwain at gynnydd mewn capasiti staff i sicrhau bod eu cofnodion yn gyfredol ac o ansawdd da. |
| • **Argymhelliad 11:** | **CGG 3.5** | **11.0 Meysydd y mae angen parhau i'w gwella** |

| | | |
|---|---|---|
| • **Dylid gwella ansawdd a chysondeb cofnodion; dylai pob aelod o staff a rheolwr sicrhau bod eu cofnodion o safon dda, eu bod yn gyfredol a'u bod yn cael eu storio'n systemataidd.**<br>• | | a. Mae'r dadansoddiad o ymarfer ar gyfer Chwarter 2 wedi amlygu'r meysydd canlynol fel blaenoriaeth:<br>• Darparu model gweithredol ar gyfer staff sy'n cwmpasu Ymyrraeth Gynnar trwodd i Ymyrraeth Ddwys, sy'n darparu'r templedi cofnodi isafswm o fewn llif gwaith cyson.<br>• Sicrhau bod datblygiad y WCCIS o fewn y Gwasanaethau Plant yn cefnogi ymarfer.<br>• Cofnodi – manwl-gywir, iaith glir, cofnodion clir o'r cyfarfod, rhesymau clir am fod ynghlwm â'r achos, enwau llawn a theitlau, tabiau crynodeb, crynodebau trosglwyddo, rheolaeth fersiynau dda.<br>• Dylai rhieni/gofalwyr wastad gael gwybod pan gaiff achos ei gau a dylid cofnodi'r dystiolaeth o hyn yn glir ar y ffeil. |
| • **Argymhelliad 12:**<br>• **Dylai'r awdurdod lleol a'i bartneriaid gydweithio i ddatblygu dull cydlynol ar gyfer casglu a dadansoddi gwybodaeth am anghenion cymunedau sy'n cynnwys lleisiau plant a theuluoedd. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i hysbysu'r broses o greu cynlluniau strategol er mwyn cyflawni aliniad effeithiol darpariaeth gwasanaethau** | **CGG 4.4** | **12.0 Llwyddiannau**<br><br>12.1 Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi canolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu ein trefniadau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i gwrdd â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.<br><br>12.2 Mae'r Asesiad Anghenion y Boblogaeth ar gyfer Gogledd Cymru wedi cael ei gyhoeddi ac mae'r Cynllun Gweithredu Lleol allan i ymgynghoriad ar hyn o bryd. Mae swyddogion o Ynys Môn wedi bod yn rhan o'r ddau brosiect ac wedi cyfrannu tuag at lunio'r Cynllun. Bydd y Cynllun Gweithredu Lleol yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2018.<br><br>11.3 Mae grŵp Strategaeth Ataliaeth Gorfforaethol yr Awdurdod Lleol, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cymdeithasol, yn cyfarfod yn rheolaidd. Fe wnaeth y Grŵp gyflwyno papur i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn amlinellu beth sy'n ofynnol i sicrhau bod strategaeth ataliaeth yn cael ei cyflwyno'n llwyddiannus, ac mae gwaith yn parhau i symud hyn yn ei flaen.<br><br>12.4 Mae'r Grŵp wedi sefydlu cysylltiadau gyda gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n edrych ar sut gall partneriaid weithio gyda'i gilydd yn well a bydd |

| | | |
|---|---|---|
| **rhwng gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth, y sector ataliol a'r gwasanaethau statudol.** | | y Grŵp yn derbyn canfyddiadau'r ymgynghoriad a gynhaliwyd dros yr haf gyda phartneriaid, y trydydd sector a grwpiau cymunedol. |
| • **Argymhelliad 12:**<br>• **Dylai'r awdurdod lleol a'i bartneriaid gydweithio i ddatblygu dull cydlynol ar gyfer casglu a dadansoddi gwybodaeth am anghenion cymunedau sy'n cynnwys lleisiau plant a theuluoedd. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i hysbysu'r broses o greu cynlluniau strategol er mwyn cyflawni aliniad effeithiol darpariaeth gwasanaethau rhwng gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth, y sector ataliol a'r** | **CGG 4.4** | **12.0 Cryfderau**<br><br>*a.* Mae'r Awdurdod Lleol wedi blaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu **Gwasanaethau Ataliol Corfforaethol** a chefnogaeth i deuluoedd fel rhan o'i Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2017 – 2022 sef **"***Darparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliaeth cadarn i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael eu cefnogi er mwyn lleihau i'r eithaf brofiadau andwyol yn ystod plentyndod."*<br><br>b. Ar y 3ydd o Dachwedd, fe wnaeth y Gwasanaethau Plant gynnal ei ail **Seremoni Gwobrau SÊR** (a gynhelir ddwywaith y flwyddyn) ar gyfer ein Plant sy'n Derbyn Gofal, yng Ngwesty Tre Ysgawen. Mae nifer o'r plant a'r bobl ifanc hyn wedi bod trwy amseroedd anodd, ond mae'r Gwobrau SÊR yn dathlu'r ffaith ei bod yn bosib cyflawni gyda dewrder, penderfyniad a chefnogaeth. Mae'r gwobrau hyn yn dangos balchder yr Awdurdod fel Rhiant Corfforaethol ac maent yn golygu bod Plant sy'n Derbyn Gofal a'u gofalwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn ogystal â rhoi hwb i hyder pobl ifanc a'u hannog i barhau i gyflawni a datblygu yn y dyfodol.<br><br>Roedd hi'n bleser croesawu'r Comisiynydd Plant i'r digwyddiad hwn.<br><br>Fe wnaeth chwech o bobl ifanc gydweithio gyda'r gweithwyr i gynllunio a threfnu'r digwyddiad hwn, a'r chwe pherson ifanc wnaeth y prif benderfyniadau ynglŷn â dewis lleoliad, bwyd ac adloniant. Rhannwyd y digwyddiad yn ddau ran, un ar gyfer y plant ieuangach o oedran ysgol gynradd – roedd yn cynnwys te parti ar y thema Disney/*super-heroes*, tra bod y plant hŷn o oedran ysgol uwchradd wedi cael digwyddiad tebyg i'r Oscars. Roedd hwn yn ddigwyddiad |

| | | |
|---|---|---|
| **gwasanaethau statudol.**<br>• | | hynod o lwyddiannus lle buom yn dathlu llwyddiannau ein pobl ifanc a'u gwobrwyo am eu gwaith caled:<br><br>*"Hoffwn eich llongyfarch yn bersonol, a phawb arall fu ynghlwm â threfnu dathliadau'r Gwobrau Sêr nos Wener.*<br><br>*Roedd y digwyddiad wedi'i drefnu'n dda iawn, yn llwyddiant ysgubol ac rwy'n siŵr y bydd yn aros yng nghof y plant am flynyddoedd lawer. Credaf ei bod yn syniad gwych cynnwys y plant yn y gwaith trefnu, a hefyd cydnabod eu rhan yn y gwaith trefnu ar y noson. Da iawn i bawb."*<br><br>c. Fel rhan o'n hymateb i **adroddiad Uchelgeisiau Cudd y Comisiynydd Plant** rydym wedi siarad yn uniongyrchol efo'r bobl ifanc sy'n Derbyn Gofal ac wedi creu'r clip animeiddio 'Powtoon' canlynol [https://www.powtoon.com/m/cGN6QoOF4vb/1/m](https://www.powtoon.com/m/cGN6QoOF4vb/1/m)<br>Nod y clip rhyngweithiol hwn yw egluro'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt trwy'r cam cynllunio llwybr hyd at yr adeg pan fydd pobl ifanc yn gadael gofal. Fe wnaethom ymgynghori gyda 8 o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed ac maent wedi rhoi eu barn am y clip animeiddio. Roedd y sylwadau a gawsom yn bositif iawn ac roeddent yn cynnwys:<br>• Ei fod yn berthnasol i'w hystod oedran<br>• Fe wnaeth ddal eu llygad ac mae'n cynnwys popeth – gyda'r wybodaeth gywir<br>• Cymysgedd dda o animeiddio a gwybodaeth, byr a bachog<br>• Roedd y tros lais a'r gerddoriaeth wedi tynnu eu sylw at pa wybodaeth oedd yn cael ei rhannu efo nhw<br>• Mae gwybodaeth am, ac enghreifftiau o gefnogaeth sydd ar gael yn ddefnyddiol<br><br>Dywedodd un person ifanc "Pe bawn i wedi gweld y clip hwn y llynedd, byddai wedi bod o gymorth mawr i mi" ac roeddent oll yn meddwl y byddai'n syniad da dangos y clip mewn ysgolion. |

Bydd y clip animeiddio nawr ar gael ar wefan y Cyngor, a thudalennau Youtube a Facebook a chaiff ei ddangos ar sgrin yn y dderbynfa ym mhrif swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni.

Bydd hefyd yn cael ei chwarae yn ystod yr Adolygiadau Plant sy’n Derbyn Gofal pan fydd y bobl ifanc yn nesáu at eu penblwydd yn 16 oed, a bydd yn rhoi arweiniad defnyddiol iddynt ar y gefnogaeth sydd ar gael iddynt wrth iddynt dyfu’n oedolion.

d. Mae **Fforwm Gofal Maeth Ynys Môn** yn parhau i gwrdd bob chwarter, fe lansiwyd y fforwm hwn ym mis Chwefror 2014, ac fe’i sefydlwyd i wella a datblygu’r gwasanaeth maethu ar Ynys Môn gyda Gweithwyr Cymdeithasol, Gofalwyr Maeth ac Uwch Reolwyr oll yn gweithio gyda’i gilydd. Mae gwahoddiad i fynychu i’r holl Ofalwyr Maeth cyffredin a charennydd ar Ynys Môn sydd eisoes wedi’u cymeradwyo. Y weledigaeth yw**:**

*“Gwella a datblygu’r gwasanaeth maethu ar Ynys Môn trwy weithio gyda’n gilydd fel tîm, er mwyn gwella ansawdd bywyd Plant sy’n Derbyn Gofal ar Ynys Môn.”*

Mae’r Tîm Lleoli yn parhau i gynhyrchu newyddlenni chwarterol ar gyfer Gofalwyr Maeth sy’n cynnwys cyfraniad gan y Gofalwyr Maeth at y cynnwys.

Mae grwpiau cymorth Coffi a Chacen yn rhoi cyfle i ofalwyr maeth gyfarfod, rhwydweithio a rhannu profiadau gyda’u cyfoedion a staff mewn awyrgylch cefnogol, anffurfiol. Maent hefyd yn gyfle i ddysgu a hefyd yn darparu rhaglen dreigl o hyfforddiant ffurfiol – rydym wedi cael amrywiol siaradwyr gwadd ac maent wedi ymdrin â phynciau megis eiriolaeth, diogelwch y rhyngrwyd, hunanofal a rheoli straen ar gyfer gofalwyr maeth, caethwasiaeth fodern, rhiantu a Chamfanteisio’n Rhywiol ar Blant. Mae grŵp newydd wedi’i sefydlu yn arbennig ar gyfer Gofalwyr Maeth sy’n deulu/ffrindiau.

Bydd llawlyfr i Ofalwyr Maeth Môn yn cael ei rannu’n fuan. Cynhaliwyd dau gwrs ‘Blynyddoedd Rhyfeddol’ eleni ar gyfer ein Gofalwyr Maeth. Byddant

hefyd yn cael cynnig lle ar y cwrs 12 wythnos *‘Fostering Changes’* o fis Ionawr 2018 fel rhan o’r prosiect cenedlaethol: Hyder mewn Gofal yng Nghymru.

Mae Ynys Môn yn un o bedwar Awdurdod lleol yng Nghymru sy’n cymryd rhan ym mhrosiect y Rhwydwaith Maethu Cenedlaethol, ‘prosiect Recriwtio a Chadw yng Nghymru 2017/18 i ddeall anghenion maethu lleol a rhoi canfyddiadau ar waith o’r ymchwil.

e. **Grŵp Cefnogaeth i Ofalwyr Carennydd ar Ynys Môn**

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Grŵp Cefnogaeth i Ofalwyr Carennydd ar Ynys Môn ym mis Ebrill eleni fel cyfle i ofalwyr gymysgu mewn awyrgylch anffurfiol a chael y cyfle i gynnig cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i’w gilydd a helpu i leddfu peth o’r unigedd maent o bosib yn ei deimlo. Mae’r prif rôl sefydliadol ar gyfer y grŵp hwn wedi’i gomisiynu o ganolfan addysg ‘Y Bont’. Mae Gweithwyr Cymdeithasol o’r Tîm Lleoli Plant yn mynychu’r grŵp mewn rôl gefnogol, er mwyn darparu cyngor pan fo’n bosib, cael golwg ar y materion mae’r gofalwyr carennydd yn eu codi ac i helpu i roi gwybodaeth yn ôl i reolwyr pan ganfyddir meysydd i’w datblygu ymhellach.

Mae presenoldeb yn y grŵp wedi bod yn gyson ac mae adborth llafar wedi dwyn sylw at y ffaith fod y gofalwyr yn gwerthfawrogi’r cyfle am sgwrs neu “rywbeth iddyn nhw eu hunain”. Fe wnaeth dau ofalwr nad oeddeny yn adnabod ei gilydd cyn mynd i’r grŵp ddatblygu cyfeillgarwch mor dda nes iddynt fethu’r troad am Langefni ar y ffordd i’r cyfarfod diwethaf am eu bod mor brysur yn sgwrsio! Un o’r materion y mae aelodau’r grŵp wedi tynnu sylw ato yw, wrth edrych yn ôl, y byddent yn hoffi petaent wedi cael rhagor o wybodaeth ar ddechrau’r broses o ddod yn ofalwyr carennydd.
Mae cynlluniau at y dyfodol yn cynnwys edrych ar aelodau’r grŵp yn cyfrannu at daflen wybodaeth ar gyfer gofalwyr carennydd newydd a chael cynllun “cyfeillio” ar gyfer gofalwyr sydd newydd eu cymeradwyo.

f. ***Forest School* 2017**

Mae *Forest School* yn gyfle i blant a phobl ifanc brofi bywyd a phrofiadau dysgu yn yr awyr agored. O fis Mai i fis Gorffennaf, roedd y grŵp eleni o 16 o Blant sy'n Derbyn Gofal yn gallu mynd tu allan a threulio deg dydd Sadwrn yn y goedwig yn Ngerddi Botanegol Treborth, yn dysgu am yr amgylchedd lleol a'i gynefinoedd. Gan wneud y mwyaf o'r amgylchedd naturiol, roeddem yn ddigon lwcus i ddarganfod y safle ac archwilio'r ardal a'r goedwig o'i chwmpas trwy wneud ffeuau, dringo coed, creu cynefinoedd i fywyd gwyllt, cynnal arolygon chwilod a choginio ar dân agored. Trwy gydol hyn oll cawsant ddysgu am fywyd ysbrydoledig a difyr John Muir, y gŵr o dras Albanaidd-Americanaidd sy'n cael ei weld fel tad cadwraeth fodern. Roedd nifer o'r grŵp yn gweithio tuag at y Wobr John Muir ar lefel Darganfod, sy'n ymgorffori pedair elfen – *Darganfod, Fforio, Cadwraeth, Rhannu.*

Eleni fe wnaethom fynd ati mewn ffordd wahanol, gyda grŵp bychan o bobl ifanc sydd wedi ennill y wobr John Muir o'r blaen yn dychwelyd fel 'mentoriaid' i'r plant iau, ac roedd yr arweinyddiaeth a'r cyfrifoldeb ychwanegol yn gymorth iddynt weithio tuag at y lefel nesaf, sef y wobr Fforiwr. Yn gyffrous iawn eleni, roedd y grŵp hefyd yn gallu recordio a golygu eu ffilm fer eu hunain o'r profiad, gyda chymorth a chefnogaeth gan TAPE Community Music & Film (tapemusicandfilm.co.uk).

g. Trefnwyd **Diwrnod Hwyl** ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal ar 9 Medi yn Nhyddyn Môn (tyddyn bach a sefydlwyd gan rieni oedolion gydag anableddau dysgu oedd eisiau galwedigaeth mwy adeiladol sy'n rhoi boddhad i'w meibion a'u merched). Maent yn darparu gofal dydd, hyfforddiant a chefnogaeth. Ond yn anffodus, oherwydd tywydd gwael, bu rhaid gohirio'r diwrnod hwyl tan y flwyddyn newydd. Y bwriad oedd mynd ar daith o amgylch y fferm a bwydo'r anifeiliaid, mynd i'r caeau chwarae a'r ardal chwarae meddal. Wedyn byddent yn cael barbeciw cyn gwneud y mwyaf o weddill y cyfleusterau; llwybrau trwy'r goedwig, reid y *Dragon Trailer*, castell neidio, gemau a chelf a chrefft o dan do.

| | | |
|---|---|---|
| • **Argymhelliad 12:**<br>• **Dylai'r awdurdod lleol a'i bartneriaid gydweithio i ddatblygu dull cydlynol ar gyfer casglu a dadansoddi gwybodaeth am anghenion cymunedau sy'n cynnwys lleisiau plant a theuluoedd. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i hysbysu'r broses o greu cynlluniau strategol er mwyn cyflawni aliniad effeithiol darpariaeth gwasanaethau rhwng gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth, y sector ataliol a'r gwasanaethau statudol.**<br>• | **CGG 4.4** | **Meysydd y mae angen parhau i'w gwella**<br>a. Rydym yn bwriadu datblygu ffyrdd gwell o wrando ar farn gyffredinol ein Plant sy'n Derbyn Gofal a'r rhai sy'n gadael gofal a fyddai'n gymorth pellach i ni ddatblygu'r Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd. |
| • **Argymhelliad 13:** | **CGG 3.2** | **13.0 Llwyddiannau** |

| | | |
|---|---|---|
| • **Mae angen ymgorfforí trefniadau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd, yn cynnwys craffu ar y galw am wasanaethau ac archwilio ansawdd arfer yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod gan reolwyr ar bob lefel wybodaeth amserol, berthnasol a chywir am berfformiad a sicrhau ansawdd i'w galluogi i wneud eu swyddi yn effeithiol ac i gyflawni gwelliannau.** | | 13.1 Mae'r Gwasanaethau Plant wedi cymeradwyo eu Fframwaith Sicrwydd Ansawdd diwygiedig sy'n gosod allan y dull y bydd y Gwasanaeth yn ei ddefnyddio i sicrhau ei fod yn:<br>• Darparu ymarfer proffesiynol diogel<br>• Cefnogi'r plant/oedolion iawn, yn y ffordd iawn, ar yr amser iawn<br>• Gwerthuso a yw'n gwneud gwahaniaeth i wella ymarfer ai peidio<br>• Darparu cyd-destun proffesiynol sy'n cefnogi dysgu, myfyrio, bod yn agored a herio mewn modd cefnogol<br>• Mynd â'r agenda wella tu hwnt i gydymffurfio â gweithdrefnau, sy'n golygu ymroddiad i wella ansawdd yr ymarfer gwaith cymdeithasol a roddir i blant, eu teuluoedd a gofalwyr.<br><br>13.2 Mae'n darparu cyfres o brosesau sicrwydd systemataidd, cynlluniedig y gellir eu defnyddio i siapio dysgu a gwelliant. Yn ei hanfod mae'n symud ar hyd o sbectrwm o reoli ansawdd i wella ansawdd yn seiliedig ar drefn o werthuso, dysgu a gwella.<br><br>13.3 Bydd y gwasanaeth yn defnyddio amrywiaeth eang o ffynonellau tystiolaeth i danategu'r Adroddiad Gwerthuso Ymarfer chwarterol, megis:<br>• Archwiliadau misol ar Ffeiliau Achos<br>• Archwiliad misol ar Ffeiliau Achos – Uned Ddiogelu a Gwella Ansawdd<br>• Arsylwi Ymarfer<br>• Archwiliadau Goruchwylio<br>• Dysgu oddi wrth ac efo ein partneriaid<br>• Dysgu oddi wrth bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau<br>• Trosolwg a Her<br>• Dysgu gan ein staff<br>• Swyddog Adolygu Annibynnol a Chydlynydd Amddiffyn Plant yn parhau<br><br>Mae nifer o elfennau unigol y fframwaith mewn lle. |

13.4 Mae'r gwasanaeth yn y broses o osod safonau ar gyfer meysydd ymarfer: a bydd yn gwerthuso ymarfer ar sail y safonau hynny. Caiff y safonau hyn eu gosod gan gydweithio gydag ymarferwyr – fel eu bod yn eiddo iddynt. Mae'r broses o gynnal archwiliadau ar ffeiliau achos ac Archwiliadau Amlasiantaeth yn dechrau gwreiddio yn y gwasanaeth. Er nad yw'r holl reolwyr/arweinwyr ymarfer yn cydymffurfio â'r gofynion yn gyson, mae peth dadansoddiad rhagorol i'w weld ganddynt fel rhan o'r broses archwilio.

13.5 Mae ystod eang o werthusiadau cynlluniedig a systemig wedi'u cynnal hyd yma. Mae risg ein bod yn canolbwyntio ar werthuso ar draul gwneud gwelliant. I liniaru'r risg hon mae'n rhaid i ni benodi i swyddi gwag o fewn yr Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd, a siapio rôl yr Arweinwyr Ymarfer o ran symud ymlaen gyda'r camau gweithredu i wella.

13.6 Mae'r gwasanaeth yn cynnal cyfarfod Ansawdd a Pherfformiad yn fisol. Ffocws y cyfarfod hwn yw deall y data a'r dystiolaeth a gafwyd o werthusiadau o ymarfer, rhoi cyfle i ddadansoddi ac adnabod datrysiadau er mwyn gwella perfformiad ac ansawdd yr ymarfer. Mae gan y cyfarfod hwn rôl o ran sicrhau trosolwg clir o ansawdd yr ymarfer o fewn y gwasanaeth, ac o ran datblygu cynlluniau gweithredu clir i fynd i'r afael â'r gofynion gwella. Mae gan y cyfarfod rôl glir hefyd o ran adnabod beth sy'n gweithio'n dda o fewn y Gwasanaeth, ac i sicrhau bod y ddysg yn cael ei rhannu ar draws y system gyfan. Bydd y cyfarfod hefyd yn gwerthuso effaith y dysgu a'r gwelliant.

13.7 Mae archwiliadau ar ffeiliau achos ym mis Medi wedi dangos tuedd bositif ar y cyfan o welliant mewn ymarfer dros y tri mis diwethaf. Rhoddwyd y dasg i saith o Reolwyr Tîm / Arweinwyr Ymarfer gynnal archwiliadau ffeiliau achos ar ystod o achosion. Gan fod hwn yn gyfnod o drosiant ac ailstrwythuro i'r gwasanaeth, hwn oedd y tro cyntaf i nifer o'r Arweinwyr Ymarfer gynnal yr archwiliadau hyn. Yn gyffredinol roedd yr archwiliad hwn yn cynnwys

| | | |
|---|---|---|
| | | Arweinwyr Ymarfer yn archwilio achosion a reolwyr o dan y strwythur blaenorol. Defnyddiwyd yr un teclyn archwilio ag ar gyfer yr archwiliadau tebyg a wnaed yn gynharach yn 2017. Roedd 5 allan o'r 7 Rheolwr wedi cwblhau a dychwelyd teclynnau archwilio – dychwelwyd naw achos allan o gyfanswm o 16 oedd wedi cael eu dyrannu. Roedd y sampl felly'n cynnwys amrywiaeth o achosion ar wahanol gyfnodau, lle roedd eu cymhlethdod yn amrywio hefyd. Dylid nodi bod rhai Arweinwyr Ymarfer yn newydd i'r Gwasanaeth, tra roedd gan rai dal gyfrifoldebau dydd i ddydd fel Rheolwyr Tîm neu Weithwyr Cymdeithasol yn ystod mis Medi. |
| • **Argymhelliad 13:**<br>• **Mae angen ymgorffori trefniadau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd, yn cynnwys craffu ar y galw am wasanaethau ac archwilio ansawdd arfer yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod gan reolwyr ar bob lefel wybodaeth amserol, berthnasol a chywir am berfformiad a sicrhau ansawdd i'w galluogi i wneud eu swyddi yn effeithiol ac i** | **CGG 3.2** | **13.0 Cryfderau**<br><br>a. Rydym wedi datblygu Fframwaith Sicrwydd Ansawdd manwl sy'n cael ei weithredu ar draws y Gwasanaethau Plant i dynnu sylw at arfer dda a meysydd sydd angen eu gwella.<br><br>b. Mae'r broses o gynnal archwiliadau ffeiliau achos, archwiliadau thematig ac Archwiliadau Amlasiantaeth yn dechrau gwreiddio yn y gwasanaeth. Mae'r Archwiliadau Amlasiantaeth wedi cynnwys gweithio'n agos gydag Asiantaethau Partner megis Addysg, Iechyd a'r Heddlu i edrych ar feysydd megis ansawdd y cyfeiriadau gyda'r Heddlu.<br><br>c. Mae archwiliadau a wnaed ar ffeiliau achos ym mis Medi wedi dangos tuedd bositif ar y cyfan o welliant dros y tri mis diwethaf. |

| | | |
|---|---|---|
| **gyflawni gwelliannau.**<br>• | | |
| • **Argymhelliad 13:**<br>• **Mae angen ymgorffori trefniadau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd, yn cynnwys craffu ar y galw am wasanaethau ac archwilio ansawdd arfer yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod gan reolwyr ar bob lefel wybodaeth amserol, berthnasol a chywir am berfformiad a sicrhau ansawdd i'w galluogi i wneud eu swyddi yn effeithiol ac i gyflawni gwelliannau.** | **CGG 3.2** | **13.0 Meysydd y mae angen parhau i'w gwella**<br><br>a. Dyma'r prif feysydd ar gyfer gwella ymarfer yn ôl dadansoddiad o archwiliad diweddar ar Ffeiliau Achos:<br>• Trosolwg a goruchwyliaeth gan reolwyr (a sut caiff hyn ei dystiolaethu ar ffeil);<br>• Ansawdd y gwaith asesu a dadansoddi;<br>• Cynllunio, ac yn arbennig yr angen am gyfnodau clir, pwrpasol o ymyrraeth yn ystod yr adeg pan fo plentyn ar y gofrestr AP, a gwreiddio'r Cynllun Gofal a Chefnogaeth fel dogfen weithio ar gyfer y Gwasanaeth.<br><br>b. Yr holl Reolwyr/Arweinwyr Ymarfer i barhau i gynnal archwiliadau ar ffeiliau achos er mwyn gwerthuso ansawdd yr ymarfer trwy'r Gwasanaeth cyfan.<br><br>c. Penodi i'r swyddi gwag yn yr Uned Ddiogelu a Sicrwydd Ansawdd, a siapio rôl yr Arweinwyr Ymarfer o ran symud ymlaen gyda'r camau gweithredu i wella.<br><br>d. Rydym dal yn ysgrifennu'r sgriptiau i gael mynediad i adroddiadau gan WCCIS – mae hon yn broblem i'r mwyafrif o'r awdurdodau lleol sydd wedi mynd yn fyw ar y system newydd, ac rydym yn gweithio gyda Chyngor Ceredigion yn benodol i'n galluogi i wneud hyn.<br><br>e. Rydym wedi edrych yn fanwl ar un o'r dangosyddion lleol, % y Plant sy'n Derbyn Gofal a welwyd o fewn yr amserlenni statudol. Roeddem yn amau efallai nad oedd ein gwaith casglu a dadansoddi data wedi bod yn gywir, a arweiniodd at berfformiad oedd yn ymddangos yn salach nag ydoedd mewn gwirionedd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i roi sylw i'r materion hyn. |

| | | |
|---|---|---|
| | | f. Ymddengys bod yna fater cenedlaethol o ran cysondeb y dehongliad a threfniadau adrodd ar gyfer yr holl Awdurdodau Lleol yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Derbyniwyd llythyr dyddiedig 25 Hydref oddi wrth Glyn Jones, Prif Ystadegydd, Llywodraeth Cymru. Roedd y llythyr hwn yn tynnu sylw at y ffaith fod cyhoeddiadau Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u hatal rhag cyfrannu at yr Ystadegau Gwladol am gyfnod dros dro, oherwydd pryderon ynglŷn ag ansawdd y data sy'n cael ei adrodd yn dilyn cyflwyno'r system newydd, sef System Wybodaeth Gofal Cymunedol yng Nghymru (WCCIS). |
| **Argymhelliad 14:**<br>**Dylid monitro baich achosion ac adroddiadau ar ansawdd perfformiad gweithwyr yn barhaus er mwyn sicrhau bod capasiti digonol i alluogi'r gweithwyr i ymgysylltu'n effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd.** | **CGG 3.2** | 14.0 **Llwyddiannau**<br><br>14.1 Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y plant sy'n destun Cynllun Amddiffyn Plant rhwng 1 Mawrth 2017 a 30 Awst 2017. Yn ystod y cyfnod hwn, tynnwyd enwau 60 o blant oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Fe wnaed astudiaeth o'r Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y cyfnod hwn a chanfuwyd nifer o faterion y dylid bwrw ymlaen â hwy ar sail amlasiantaeth mewn perthynas â deall y broses Cynhadledd Achos, a'r ymarfer o fewn y broses Cynhadledd Achos.<br><br>Mewn sawl achos casglwyd bod diffyg tystiolaeth i gadarnhau eu bod yn cyrraedd y trothwyon ar gyfer niwed sylweddol a chofrestru: diffyg cynlluniau amddiffyn plant a diffyg eu gweithredu. Ymddengys bod trefn o fonitro ac aros mewn nifer o achosion. Mewn ambell achos, roedd y trothwyon wedi cael eu symud, felly ar ôl cyrraedd rhyw bwynt ac wedi rhoi sylw i'r rhag-amodau ar gyfer dadgofrestru, nodwyd meysydd eraill gwahanol o bryder nad ydynt o reidrwydd yn bryderon amddiffyn plant. Mae astudiaeth bellach i edrych ar y rhesymau tu ôl i'r gostyngiad yn nifer y plant sy'n destun cynllun amddiffyn plant yn dangos, mewn 35% o achosion (21 o blant) roedd hyn o ganlyniad i gefnogi'r teulu i wneud gwelliannau, ac mewn 22% o achosion (13 o blant) roedd hyn o ganlyniad i gamu'r achos i fyny a'r plant yn dod i ofal.<br><br>14.2 Ystyriwyd bod y canlynol wedi bod yn rhai o'r ymyraethau llwyddiannus: cefnogaeth gan y Swyddog Rhiantu, cefnogaeth y teulu ehangach, ymyrraeth |

Chwarae sy'n cael ei Gyfeirio gan y Plentyn, partïon brwdfrydig, cefnogaeth gan y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd, helpu rhieni i ganfod datrysiadau, cynadleddau grŵp teulu, a chefnogaeth gan y Gwasanaethau Oedolion i'r rhiant. Byddai hyn yn awgrymu bod y gwasanaeth ar y trywydd iawn o ran cyflawni ymagwedd wahanol tuag at ymarfer gwaith cymdeithasol. Mae gan waith y Tîm Teuluoedd Gwydn a Teulu Môn lawer o botensial i effeithio'n bositif ar y maes hwn.

14.3 Daeth y system gofnodi electronig newydd ar gyfer gofal cymdeithasol, WCCIS, i rym yn y Gwasanaethau Plant ym mis Awst. Rydym wedi parhau i weithio gyda'n cydweithwyr TG ar ein gofynion ar gyfer yr adroddiad Monitro Perfformiad o'r system newydd. Mae angen gwneud gwaith pellach i gael darlun cywir o'r perfformiad cyfredol ar draws y Gwasanaeth. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn mynd rhagddo ac mae gan y Gwasanaeth gynllun gweithredu i wella'r sefyllfa a darparu data manwl-gywir a diweddar. Mae Ynys Môn mewn sefyllfa debyg i'r mwyafrif o'r Awdurdodau Lleol sydd wedi mynd yn fyw gyda'r system WCCIS yn 2017.

14.4 Mae'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd a gymeradwywyd o fewn y Gwasanaeth yn anelu at sicrhau bod staff yn darparu ymarfer proffesiynol diogel. Rydym yn defnyddio nifer o ffynonellau tystiolaeth i werthuso perfformiad Gweithwyr Cymdeithasol, er enghraifft Archwiliad ar Ffeil Achos, a byddwn yn cynnal cyfarfodydd Ansawdd a Pherfformiad misol i ganolbwyntio ar ddeall y data a'r dystiolaeth o werthusiadau ymarfer, er mwyn rhoi cyfle i ddadansoddi ac adnabod datrysiadau i wella perfformiad ac ansawdd yr ymarfer. Mae rôl i'r cyfarfod hwn o ran sicrhau trosolwg clir o ansawdd yr ymarfer yn y Gwasanaeth, ac i ddatblygu cynlluniau gweithredu clir i roi sylw i'r gofynion gwella.

14.5 Mae trefniadau Goruchwylio amserol ac o ansawdd ar gyfer staff hefyd yn rhoi cyfle i Arweinwyr Ymarfer gefnogi a herio ymarfer a pherfformiad y

| | | |
|---|---|---|
| | | gweithiwr unigol, ac i gytuno ar gynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â materion o bryder.<br><br>14.6 Mae strwythur newydd y Gwasanaeth nawr yn galluogi Arweinwyr Ymarfer i ganolbwyntio ar wella ymarfer o fewn eu Grwpiau Ymarfer llai. Bydd ganddynt drosolwg o lwythi achosion eu staff i sicrhau bod ganddynt y capasiti i sefydlu perthnasau positif gyda theuluoedd er mwyn ymgysylltu'n effeithiol â hwy. |
| **Argymhelliad 14:**<br>**Dylid monitro baich achosion ac adroddiadau ar ansawdd perfformiad gweithwyr yn barhaus er mwyn sicrhau bod capasiti digonol i alluogi'r gweithwyr i ymgysylltu'n effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd.** | | **14.0 Cryfderau**<br><br>a. Mae staff wedi parhau i sicrhau mynediad at gyfleoedd hyfforddiant a datblygu, gan gymryd cyfrifoldeb am eu datblygiad eu hunain.<br><br>b. Mae'r holl Reolwyr/Arweinwyr Ymarfer yn cael eu hatgoffa o'u cyfrifoldeb i gefnogi a herio ymarfer a pherfformiad gweithwyr unigol ac i gytuno ar gynlluniau gweithredu er mwyn rhoi sylw i faterion o bryder. |
| **Argymhelliad 14:**<br>**Dylid monitro baich achosion ac adroddiadau ar ansawdd perfformiad gweithwyr yn barhaus er mwyn sicrhau bod capasiti digonol i alluogi'r gweithwyr i ymgysylltu'n effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd.** | **CGG 3.2** | **14.0 Meysydd y mae angen parhau i'w gwella**<br><br>a. Parhau i ddatblygu adroddiadau Rheoli Perfformiad yn y system WCCIS sy'n canolbwyntio ar lwyth achosion staff a dangosyddion perfformiad lleol a chenedlaethol.<br><br>b. Yr holl Reolwyr/Arweinwyr Ymarfer i barhau i gwblhau archwiliadau ar Ffeiliau Achos er mwyn gwerthuso ansawdd yr ymarfer ar draws y Gwasanaeth.<br><br>c. Penodi i'r swydd Swyddog Sicrwydd Ansawdd o fewn yr Uned Ddiogelu a Sicrwydd Ansawdd. |

**Atodiad 4**

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Caroline Turner
Council Offices
Llangefni
Anglesey
LL77 7TW

Dyddiad/Date: 11/01/18

Annwyl Caroline

**Parthed: Adolygu'r cynnydd o ran rhoi'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant ar waith**

Diolch am gwrdd â ni ar 18 Rhagfyr i adolygu'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran rhoi cynllun gwella gwasanaethau plant Cyngor Sir Ynys Môn ar waith.

Diolch hefyd am yr adolygiad ysgrifenedig manwl y gwnaethoch ei gyflwyno i ni.

Rydym wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd â chi ers yr arolygiad ym mis Tachwedd 2016 er mwyn monitro'r camau y mae'r awdurdod lleol wedi bod yn eu cymryd i wella'r canlyniadau i blant a theuluoedd sy'n agored i niwed ar Ynys Môn. Fel yr eglurwyd gennych, mae'r awdurdod lleol yn parhau i fod ar daith, ond mae sylfeini da ganddo bellach. Mae cyflymder y newid wedi bod yn araf, ond rydym yn cydnabod bod gwelliant cadarnhaol wedi'i wneud fesul tipyn.

Rydym yn falch o nodi bod cynnydd sylweddol wedi'i gyflawni bellach o ran rhoi strwythur newydd ar waith ar gyfer gwasanaethau plant. Diben hwn yw sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael help a chefnogaeth pan fydd ei angen arnynt ac i ddarparu cefnogaeth a

goruchwyliaeth well ar gyfer ymarferwyr rheng flaen. Wedi recriwtio pobl i nifer o swyddi allweddol, mae gweithredu'r strwythur newydd bellach ar gyfnod critigol cynnar.

Mae'r strwythur newydd wedi'i danategu gan ddatblygiad polisïau a chanllawiau ymarfer er mwyn darparu fframwaith clir ar gyfer staff. Rhaid parhau i roi blaenoriaeth i wella'r ymarfer

yn barhaus. Gan fod y rhain newydd gael eu cyflwyno, mae'n rhy gynnar i ni farnu a ydynt yn gwella'r ymarfer ac, yn eu tro, y canlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd.
Rydym yn edrych ymlaen at ddarllen canlyniadau'r adolygiad yr ydych wedi'i gomisiynu er mwyn darparu asesiad annibynnol o ymarfer gwaith cymdeithasol.

Rydym hefyd yn nodi'r pwyslais ar weithio gyda phartneriaid o fewn yr awdurdod lleol ac yn allanol. Mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod partneriaid yn ymgysylltu mewn modd ystyrlon i gyflawni gwell canlyniadau i blant a'u teuluoedd.

Rydym yn cydnabod yr ymrwymiad corfforaethol parhaus i sicrhau bod gwasanaethau plant yn gwella a'r parodrwydd i ddod i gyd-ddealltwriaeth ynghylch yr heriau a wynebir. Yn yr un modd, mae'r cynnydd mewn gwaith craffu a herio gan aelodau etholedig wedi bod yn ddatblygiad cadarnhaol.

Gan ystyried y pryderon arwyddocaol a nodwyd yn ystod yr arolygiad, mae angen i'r awdurdod lleol wneud llawer o waith o hyd i roi'r cynllun gwella ar waith yn llawn ac i sicrhau bod y gwelliannau'n cael eu cynnal. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd yn ystod y misoedd i ddod ac yn cynnal adolygiad mwy ffurfiol trwy ail-arolygiad yn ddiweddarach yn ystod 2018.

Yr eiddoch yn gywir

Vicky Poole
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **9 Ionawr 2018** |
| **Pwnc:** | **Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol Diwygiedig** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Richard Dew** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dylan J Williams**<br>Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | R K Rowlands<br>**2822**<br>**rkrpp@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | |

| **A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau** |
|---|
| Bod yr Awdurdod yn mabwysiadu’r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol diwygiedig. Mae’r diwygiadau yn y polisi yn adlewyrchu’r newidiadau yn System Reoli Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod a’r newidiadau i Uwch Dîm Arweinyddiaeth yr Awdurdod.<br><br><u>Crynodeb Gweithredol</u><br><br>Mae dyletswydd gyfreithiol ar Gyngor Sir Ynys Môn, dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974, i sicrhau iechyd, diogelwch a lles ei weithwyr.<br><br>Yn y polisi hwn, nodir y trefniadau a’r gweithdrefnau sefydliadol sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod iechyd a diogelwch gweithwyr yn cael yr amlygrwydd dyledus ar draws y Cyngor. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Gwneud dim – diystyriwyd yr opsiwn hwn oherwydd byddai’n gadael yr awdurdod gydag hen Bolisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol nad oedd yn adlewyrchu’r systemau rheoli ac arwain cyfredol yn y sefydliad. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Bydd mabwysiadu’r polisi diweddaredig hwn yn dylanwadu ar y modd y mae’r awdurdod yn gofalu am iechyd, diogelwch a lles ei weithwyr. |

| **CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Y Prif Weithredwr sydd wedi bod yn arwain ar ddiwygio'r polisi |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Cafwyd atborth ar y newidiadau sydd wedi eu cynnwys yn y fersiwn ddiwygiedig |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | Camau gweithredu yn erbyn yr awdurdod gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Copi o Bolisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn (Fersiwn 6, 13/11/17) |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

**Ynghylch y polisi hwn**

Mae'r polisi hwn yn datgan nodau cyffredinol Cyngor Sir Ynys Môn mewn perthynas â iechyd a diogelwch gweithwyr. Mae hefyd yn cynnwys ein trefniant a'n trefniadau ar gyfer gweithredu'r polisi fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a'r Rheoliadau dilynol.

Caiff y polisi ei gefnogi gan adnoddau ar wefan y Cyngor.

**Hanes adolygu**

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 6.0 | 12.08.2016 | - Cafodd y polisi ei ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau o fewn System Reolaeth Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod a newidiadau i Dîm Uwch Arweinyddiaeth yr Awdurdod. |

| Dyddiad yr adolygiad nesaf | |
|---|---|
| Caiff y polisi ei adolygu ymhen: | 12 mis |
| Caiff yr adolygiad ei wneud gan: | Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol |

**Manylion Cyswllt:**

**Healthandsafety@anglesey.gov.uk**

Rydym yn fodlon darparu'r polisi hwn mewn fformat amgen ar gais. Defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

## 1.0 Datganiad o Fwriad

Fel Prif Weithredwr ac Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn, rydym yn gwerthfawrogi iechyd, diogelwch a lles ei weithwyr ac yn cydnabod bod iechyd, diogelwch a lles da yn greiddiol i berfformiad y sefydliad a'r busnes trwy leihau anafiadau a gwaeledd, gwarchod yr amgylchedd a lleihau achosion o golledion a iawndal diangen.

Rydym yn cydnabod y bydd gweithredu'r polisi hwn yn effeithiol yn gwella perfformiad ein busnes yn gyffredinol.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ymdrechu i fod yn gyngor proffesiynol sy'n cael ei redeg yn dda, sy'n arloesol ac yn flaengar yn ein dulliau gweithio, yn ymroddedig i ddatblygu ein pobl a phartneriaethau er mwyn cyflwyno gwasanaethau effeithiol ac effeithlon o ansawdd da, ac y mae gan ein dinasyddion feddwl uchel ohonynt.

Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i ni drawsnewid ein gwasanaethau a'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio. Bydd trawsnewid ein Cyngor yn golygu bod rhaid i ni wrando ar yr hyn a ddywed ein staff, dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a busnesau, a gadael i'w safbwyntiau ddylanwadau'r hyn a wnawn a sut y medrwn feithrin a datblygu'r Cyngor. Wrth wneud hyn byddwn yn mabwysiadu ac yn hyrwyddo arferion gweithio diogel a safonau iechyd a diogelwch uchel.

Cyhyd ag sy'n rhesymol ymarferol, byddwn yn darparu amgylchedd diogel ac iach i bob un o'n staff a phawb sy'n cael eu heffeithio gan ein gwaith. Bydd hyn yn seiliedig ar ddarparu amgylcheddau diogel ar gyfer dysgu, hamdden a gwaith gofal, lleoedd gwaith diogel, systemau gwaith diogel, offer a deunyddiau diogel i'w defnyddio yn y gwaith ac unigolion cymwys. Byddwn yn sicrhau hefyd bod adnoddau ariannol ac anariannol yn cael eu darparu i gefnogi'r polisi hwn.

Mae gennym gynnig llesiant cynhwysfawr sy'n cynnig iechyd galwedigaethol, cymorth i weithwyr, mentrau iechyd ac ymrwymiad i atal trais, ymosodiadau a bygythiadau yn y gweithle.

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb dydd i ddydd am iechyd a diogelwch, gan gynnwys cynghori ar berfformiad a gwelliant. Bydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Penaethiaid Gwasanaeth, Rheolwyr Gweithredol, Prif Athrawon a Goruchwylwyr yn gwneud yn siŵr bod materion iechyd a diogelwch yn rhan greiddiol o bob gweithgaredd, a bod iechyd a diogelwch yn derbyn ystyriaeth ddyledus gydag ymrwymiadau gwasanaeth eraill.

Rydym yn cydnabod a byddwn yn ymdrechu i gwrdd â dyletswyddau mewn cyfraith gyffredin a dyletswyddau iechyd a diogelwch statudol. Caiff unigolion cymwys eu penodi i gynorthwyo i gwrdd â'r dyletswyddau statudol hynny'n llawn.

Byddwn yn cynnal system reolaeth iechyd a diogelwch briodol a strwythur sefydliadol i sicrhau iechyd a diogelwch digonol i'r holl bobl sy'n cael eu heffeithio gan ein gwaith. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu, fel y model ar gyfer ei system reolaeth iechyd a diogelwch, model "Rheoli Iechyd a Diogelwch (HSG65)" AGID a bydd yn mesur ei system reolaeth iechyd a diogelwch yn erbyn y model hwn (Cynllunio, Gwneud, Gweithredu, Gwirio). Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ymroddedig i fonitro perfformiad iechyd a diogelwch yn effeithiol trwy archwilio, arolygu ac adolygu ystadegol a bydd yn monitro ac yn adolygu pa mor effeithiol yw'r system hon o dro i dro, mewn ymateb i newid sylweddol, neu os yw gwaith monitro ac adrodd yn dangos nad yw safonau derbyniol yn cael eu cyflawni.

Y ffordd fwyaf effeithiol o atal salwch, anafiadau a cholledion galwedigaethol yw trwy ddull systematig o adnabod a rheoli risg. Byddwn yn parhau i ymdrechu i wella ein perfformiad wrth leihau a rheoli'r risgiau a wynebwn wrth ddarparu gwasanaethu i'r gymuned. Bydd manylion

am ein perfformiad iechyd a diogelwch yn cael eu cynnwys yn ein hadroddiad blynyddol a byddant yn cyfrannu at ein proses cynllunio gwelliannau i iechyd a diogelwch.

Un adnodd allweddol yn ein sefydliad yw ein gweithlu ac er mwyn cyflawni diwylliant diogelwch llwyddiannus mae angen i bob un gweithiwr gymryd rhan lawn yn hyn. Rydym yn annog gweithwyr i adnabod peryglon, codi pryderon ynglŷn â materion iechyd a diogelwch, rhoi eu barn ar ddatrysiadau addas i broblemau iechyd a diogelwch a chyfrannu at weithdrefnau asesu risg a rheoli risg.

Bydd pob gweithiwr yn cael y wybodaeth, cyfarwyddyd, goruchwyliaeth a'r hyfforddiant i'w galluogi i berfformio eu rôl yn ddiogel a disgwylir iddynt gymryd rhan yn llawn.

Rydym yn cydnabod bod damweiniau, digwyddiadau a salwch galwedigaethol yn deillio o amrywiaeth o amgylchiadau ac nad yw'r rhain o reidrwydd yn fai ar y gweithwyr unigol neu'r cyflogwr.

Byddwn yn ymdrechu i ymgynghori ar faterion iechyd a diogelwch o bwys gyda'r gweithlu mewn da bryd, er mwyn i staff allu mynegi eu barn ar faterion iechyd a diogelwch, ac ystyriwn fod pwyllgorau diogelwch yn fforwm hanfodol ar gyfer ymgynghori, cydweithio ac ymgysylltu â gweithwyr.


Mae'n rhaid i'r holl staff gefnogi ymdrechion y Cyngor yn frwd trwy weithio gan roi ystyriaeth ddyledus i'w diogelwch eu hunain a diogelwch eraill, trwy ddarllen a dilyn y Polisi Iechyd a Diogelwch hwn, gan gynnwys yr adrannau penodol ar drefniant a threfniadau. Rydym yn disgwyl ac yn annog cefnogaeth debyg gan hyfforddeion a gwirfoddolwyr, a chydweithrediad contractwyr, cleientiaid, rhieni ac ymwelwyr eraill sy'n defnyddio ein cyfleusterau neu'n ymweld ag adeiladau Cyngor Sir Ynys Môn. Bydd esgeuluso cyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn cael ei ystyried yr un mor ddifrifol ag ymddygiad sy'n arwain at niwed y mae modd ei osgoi i gyfarpar neu offer, ymddygiad esgeulus neu unrhyw fater disgyblaethol arall.

Os oes gennych bryderon am y polisi neu am eich rôl wrth helpu i gyflawni safonau uchel o iechyd a diogelwch, dylech godi'r materion hyn gyda'ch Rheolwr Gweithredol / Prifathro/Prifathrawes neu Bennaeth Adran.

Bydd y datganiad polisi hwn yn cael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn a chaiff ei addasu fel bo'r angen yn wyneb newidiadau deddfwriaethol neu sefydliadol.

| | |
|---|---|
| Dr Gwynne Jones<br>Prif Weithredwr<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Dyddiedig: XXXX | Llinos M Huws<br>Arweinydd y Cyngor<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Dyddiedig: XXXX |

## 2.0 Siart Sefydliadol Iechyd a Diogelwch




## 2.1 Trefnu Pobl a Chyfrifoldebau

Mae'r prif gyfrifoldebau am iechyd a diogelwch yng Nghyngor Sir Ynys Môn i'w gweld isod.

Bydd **Arweinydd y Cyngor, y Pwyllgor Gwaith ac Aelodau Etholedig** yn:

- Cymryd diddordeb uniongyrchol yn, ac yn cefnogi'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth Ehangach i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau o fewn trefniadau cyffredinol y Cyngor ar gyfer iechyd, diogelwch a lles
- Datblygu gwerthfawrogiad rhesymol o bolisïau iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i'r gwasanaethau a'r gweithgareddau y mae ganddynt gyfrifoldebau portffolio drostynt
- Cefnogi camau gweithredu gan Benaethiaid Gwasanaeth, Rheolwyr a Phrif Athrawon wrth iddynt weithredu a chynnal rhaglenni ar gyfer gwella iechyd, diogelwch a lles
- Mynd i unrhyw gyfarfod ffurfiol iechyd a diogelwch lle mae mater sy'n berthnasol i'w portffolio wedi cael ei ddwyn i'w sylw iddynt weithredu/rhoi cymorth yn ei gylch
- Hyrwyddo diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol o fewn Cyngor Sir Ynys Môn
- Bod yn gyfrifol am graffu'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol o dro i dro
- Cymryd gofal o'u hiechyd a'u diogelwch eu hunain, a diogelwch y rheini sy'n cael eu heffeithio gan yr hyn y maent yn ei wneud neu ddim yn ei wneud, a byddant bob tro'n gosod esiampl dda

Bydd y **Prif Weithredwr** yn:

- Cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am iechyd a diogelwch ar draws Cyngor Sir Ynys Môn ac yn arwain wrth osod polisi a chyfarwyddyd corfforaethol
- Sicrhau bod gan aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) gyfrifoldeb am arweinyddiaeth strategol iechyd a diogelwch; adrodd ar berfformiad ac am welliant parhaus
- Cymeradwyo'r Datganiad Polisi Cyffredinol sy'n ffurfio rhan o ddogfen bolisi iechyd a diogelwch Cyngor Sir Ynys Môn, ac yn sicrhau y caiff ei adolygu'n flynyddol
- Cefnogi'r gwaith o roi trosolwg, monitro ac adolygu perfformiad iechyd a diogelwch a chynhyrchu adroddiad blynyddol iechyd a diogelwch ar berfformiad y Cyngor
- Cytuno ar gynlluniau gwella, adolygu cynnydd cynlluniau gwella, a chymryd cyfrifoldeb am gydlynu trefniadau iechyd a diogelwch i sicrhau **Dull Un Cyngor**
- Darparu adnoddau digonol o ran amser, cyllid a chyfleusterau i sicrhau, cyhyd ag sy'n rhesymol ymarferol, iechyd a diogelwch gweithwyr y Cyngor ac eraill a allai gael eu heffeithio gan ei ymdrechion
- Bydd yn gyfrifol am sicrhau bod pob un Pennaeth Gwasanaeth yn cydymffurfio â'r polisi iechyd a diogelwch
- Sicrhau bod pob un Pennaeth Gwasanaeth yn sefydlu unrhyw bolisïau a gweithdrefnau lleol ychwanegol sydd eu hangen i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n ddiogel
- Sicrhau bod systemau effeithiol ar waith i adnabod a rheoli peryglon yn y gweithle, trwy weithredu trefn asesu risg drylwyr
- Sicrhau bod trefniadau ar waith i gynnwys cynrychiolwyr diogelwch yn y gweithle ac undebau llafur cydnabyddedig mewn pwyllgorau iechyd a diogelwch
- Sicrhau y cynhelir cyswllt effeithiol gyda sefydliadau allanol megis yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac ati.
- Gosod esiampl dda bob tro.

Bydd yr **Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** yn:

- Cynorthwyo'r Prif Weithredwr gyda'i gyfrifoldebau fel y nodir uchod ac yn dirprwyo fel bo'r angen
- Rhoi cyngor a chymorth i'r Prif Weithredwr ar y cyd ag Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch cymwys.
- Rhoi gwybod i'r Prif Weithredwr am unrhyw fethiannau o bwys yn y maes iechyd a diogelwch, ac am ganlyniadau'r ymchwiliadau i'r hyn a achosodd y methiannau
- Sicrhau bod systemau rheoli risg iechyd a diogelwch ar waith a'u bod yn parhau'n effeithiol
- Gosod eitemau iechyd a diogelwch perthnasol ar yr agenda mewn cyfarfodydd UDA
- Gosod esiampl dda bob tro

Bydd y **Pennaeth Gwasanaeth sydd â Chyfrifoldeb IaD Penodol** yn:

- Cynorthwyo'r Prif Weithredwr gyda'i gyfrifoldebau fel y nodir uchod ac yn dirprwyo fel bo'r angen
- Yn ogystal â'r dyletswyddau cyffredinol a amlinellir isod a chyfrifoldebau iechyd a diogelwch penodol i wasanaethau unigol, mae'r Pennaeth Gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb am iechyd a diogelwch yn gyfrifol am
    a) Sicrhau y darperir adnoddau digonol er mwyn sicrhau bod pobl gymwys yn cael eu penodi fel Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch, i gynghori'r Cyngor ar faterion iechyd a diogelwch. Mae'r gofyn hwn yn cael ei ateb gan y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.
    b) Gadw i fyny â newidiadau mewn deddfwriaeth, safonau ac arfer dda iechyd a

diogelwch sy'n berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn

Bydd y **Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd a'r Rheolwr Gweithrediadau Iechyd yr Amgylchedd (Masnachol)** yn:

- Cynnal Polisi Iechyd a Diogelwch Cyngor Sir Ynys Môn ac yn sicrhau bod y Polisi a'r diwygiadau ar gael i'r holl staff
- Paratoi ac yn cyhoeddi polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau iechyd a diogelwch Cyngor Sir Ynys Môn mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch penodol sydd â goblygiadau i'r Cyngor cyfan
- Cynghori ar gynllunio ar gyfer iechyd a diogelwch gan gynnwys gosod amcanion a phenderfynu ar flaenoriaethau
- Sicrhau bod ymgynghori ystyrlon ar faterion iechyd a diogelwch strategol yn digwydd gyda Chydlynwyr Iechyd a Diogelwch undebau llafur / gweithwyr.
- Sicrhau bod darpariaeth ddigonol o systemau cofnodi ar gyfer arferion rheoli diogelwch a chofnodi damweiniau
- Sicrhau y caiff personau cymwys eu penodi fel Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch, i gynghori'r Cyngor ar faterion iechyd a diogelwch
- Sicrhau y caiff adnoddau digonol eu neilltuo ar gyfer y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol
- Cymryd gofal o'u hiechyd a'u diogelwch eu hunain, a diogelwch y rheini sy'n cael eu heffeithio gan yr hyn y maent yn ei wneud neu ddim yn ei wneud, a byddant bob tro'n gosod esiampl dda

Bydd yr **Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch** yn:

- Cefnogi ac yn herio'r Prif Weithredwr a swyddogion eraill ar bob agwedd ar iechyd a diogelwch ac yn gweithredu fel "Person Cymwys" y Cyngor
- Rhoi cyngor ar gynnwys Polisi Iechyd a Diogelwch Cyngor Sir Ynys Môn
- Cynghori'r Prif Weithredwr ar y goblygiadau iechyd a diogelwch posib i benderfyniadau gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth
- Rhoi cyngor ar systemau rheoli iechyd a diogelwch effeithiol, gan gynnwys polisïau, gweithdrefnau a nodiadau canllaw. Yn arbennig mewn ymateb i ddeddfwriaeth newydd, newidiadau mewn arfer orau a chyflwyniad dulliau a systemau newydd.
- Sicrhau bod y Prif Weithredwr yn parhau i dderbyn gwybodaeth am unrhyw fethiannau iechyd a diogelwch o bwys, a chanlyniad yr ymchwiliadau i'r hyn a achosodd y methiannau
- Atal gweithgareddau neu wasanaeth pan fo risg dybryd o anaf difrifol neu salwch i staff neu eraill. (Ni chaiff y gweithgareddau/gwasanaethau hynny gychwyn heb ganiatâd ysgrifenedig yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch).
- Cynnal y gweithdrefnau ar gyfer cofnodi, adrodd, ymchwilio a dadansoddi damweiniau, digwyddiadau ac achosion o salwch
- Gweithio mewn partneriaeth â'r tîm datblygu i ddatblygu, hyrwyddo a monitro sut caiff hyfforddiant iechyd a diogelwch ei ddarparu a chefnogi'r rhaglen hyfforddiant gorfforaethol, ac yn rhoi cyngor ar ddarpariaeth ddigonol ar gyfer datblygu hyfforddiant a sgiliau iechyd a diogelwch
- Cynghori ar drefniadau digonol ar gyfer ymgynghori gyda staff gan gynnwys cynrychiolwyr ac undebau
- Ymgysylltu â chydlynwyr Iechyd a Diogelwch enwebedig o blith Gwasanaethau a Phrif Athrawon
- Cynrychioli'r Prif Weithredwr ynghylch arolygon ac ymchwiliadau iechyd a diogelwch gan asiantaethau gorfodaeth megis AGID
- Ymgysylltu ag asiantaethau gorfodaeth a chyrff arweiniol eraill i alluogi arfer orau yn y maes rheoli iechyd a diogelwch

- Gosod esiampl dda bob tro

Bydd y **Technegydd Iechyd a Diogelwch** yn:

- Cynorthwyo'r Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch gyda'i gyfrifoldebau fel y nodir uchod ac yn dirprwyo fel bo'r angen

Bydd y **Cydlynydd Iechyd a Diogelwch** yn :

- Cefnogi ac yn herio Rheolwyr Gwasanaeth a swyddogion eraill ar ran y Pennaeth Gwasanaeth, ar bob agwedd o iechyd a diogelwch, ac yn gweithredu fel y Swyddog Arweiniol Iechyd a Diogelwch ar gyfer y Gwasanaeth
- Ymgysylltu â rheolwyr ac Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch ar bob agwedd o iechyd a diogelwch
- Cydlynu'r gwaith o weithredu polisïau, safonau a gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch corfforaethol a rhai gwasanaeth fel maent yn berthnasol yn eu maes cyfrifoldeb
- Sicrhau cyfathrebu effeithiol ar draws y gwasanaeth ar faterion iechyd a diogelwch
- Cydlynu'r gwaith o ddatblygu polisi a gweithdrefnau ar lefel gwasanaeth fel sy'n berthnasol
- Hyrwyddo diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol i sicrhau y caiff y polisi ei weithredu'n effeithiol
- Cydlynu cynlluniau a monitro mesurau rheoli gan ddefnyddio technegau actif ac ymatebol
- Sicrhau ei fod yn rhoi adborth o dro i dro i'r uwch reolwyr ar berfformiad gan gynnwys llwyddiannau a methiannau
- Sicrhau bod peryglon sy'n gysylltiedig â'r gwaith yn cael eu canfod gan reolwyr a bod asesiadau risg addas a digonol yn cael eu gwneud
- Monitro digwyddiadau i hyrwyddo mesurau atal
- Darparu ffordd o uwch-gyfeirio o dimau gweithredol i arbenigwyr perthnasol a'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol pan fo angen cymorth pellach
- Cyfeirio achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth/anwybyddu iechyd a diogelwch gan weithwyr neu reolwyr (pan fo tystiolaeth o hynny) i'r Pennaeth Gwasanaeth a/neu'r Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch er mwyn iddynt weithredu ar hynny.

Bydd y **Pennaeth Gwasanaeth** yn:

- Gweithredu polisi iechyd a diogelwch Cyngor Sir Ynys Môn trwy ei feysydd gwasanaeth i gyd
- Penodi staff cymwys i arwain ar faterion iechyd a diogelwch o fewn ei feysydd gwasanaeth ac ysgolion
- Sicrhau bod Rheolwyr a Phrif Athrawon yn darparu copïau o'r polisi iechyd a diogelwch corfforaethol i weithwyr a rhai eraill sy'n gweithredu ar ran ei faes gwasanaeth ac yn sicrhau bod y staff yn deall ei gynnwys
- Sicrhau bod unigolyn cymwys yn cynnal Asesiad Risg/adolygiad Iechyd a Diogelwch blynyddol i'r Gwasanaeth ac yn cynhyrchu Cynllun Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch blynyddol i sicrhau bod safonau iechyd a diogelwch yn gwella'n barhaus.
- Mynd i'r afael â goblygiadau iechyd a diogelwch y penderfyniadau gan yr Uwch Dîm Rheoli
- Sicrhau bod iechyd a diogelwch yn eitem barhaol ar agenda y Tîm Rheoli ac y caiff ei drafod yn ystyrlon
- Sicrhau bod ymgynghori ystyrlon ar faterion iechyd a diogelwch yn digwydd gyda Chydlynwyr Diogelwch a gweithwyr o fewn Cyfarfodydd Iechyd a Diogelwch ar Lefel Gwasanaeth ac yn gyffredinol.

- Sicrhau bod amcanion iechyd a diogelwch yn rhan greiddiol o Gynllun Darparu Gwasanaeth Cyngor Sir Ynys Môn ac yn sicrhau bod gweithwyr yn cymryd rhan yn y broses gynllunio
- Sefydlu trefniadau rheoli, systemau rheoli risg a rhagofalon yn y gweithle ynghyd â gweithdrefnau cysylltiedig
- Cymryd gofal o'i iechyd a'i ddiogelwch ei hun, a diogelwch y rheini sy'n cael eu heffeithio gan yr hyn a wna neu nad yw'n ei wneud, a bydd bob tro'n gosod esiampl dda

Bydd **Prif Athrawon, Rheolwyr a Goruchwylwyr** yn:

Gweithredu polisïau, safonau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch corfforaethol a lefel gwasanaeth fel maent yn berthnasol i'w maes cyfrifoldeb

- Sicrhau y rhoddir adborth cyfnodol i'r Cydlynydd Iechyd a Diogelwch lleol, uwch reolwyr neu'r corff llywodraethu ar berfformiad gan gynnwys llwyddiannau a methiannau
- Sicrhau bod pob gweithwyr newydd sy'n cychwyn wedi bod drwy hyfforddiant cynefino iechyd a diogelwch priodol a hyfforddiant gweithdrefnau argyfwng
- Atebol am drefnu bod eu staff yn derbyn y wybodaeth, y cyfarwyddyd a'r hyfforddiant y mae arnynt ei angen i wneud eu gwaith yn ddiogel a'r goruchwylio i sicrhau eu bod yn gweithredu arno
- Sicrhau bod yr holl beryglon sy'n gysylltiedig â'r gwaith yn cael eu canfod ac y cynhelir asesiadau risg addas a digonol, ac y caiff mesurau rheoli eu gweithredu'n effeithiol a'u hadolygu'n rheolaidd
- Sicrhau adborth amserol i'r Cydlynydd Iechyd a Diogelwch lleol, uwch reolwyr neu'r corff llywodraethu ar ddiffygion mewn cynllunio, safonau, gweithdrefnau a systemau
- Sicrhau y cynhelir arolygon yn y gweithle er mwyn pennu a yw safonau iechyd a diogelwch priodol yn cael eu cyrraedd
- Sicrhau y caiff offer a pheiriannau gwaith eu cadw mewn cyflwr da ac mewn cyflwr gweithio diogel
- Sicrhau bod offer gwarchod personol priodol (PPE) yn cael ei roi i staff fel bo'r gofyn ac y caiff ei wisgo a'i ddefnyddio'n gywir. Mae'n rhaid trefnu man storio digonol ar gyfer offer PPE pob gweithiwr
- Sicrhau y cedwir safonau cadw tŷ da yn y gweithle, ac y caiff ei gadw'n lân ac yn daclus
- Sicrhau bod pob nam yn y gweithle yn cael ei adrodd yn brydlon, a chyhyd ag sy'n rhesymol ymarferol, y cânt eu trwsio neu eu hamnewid.
- Sicrhau bod damweiniau, digwyddiadau, digwyddiadau peryglus ac achosion 'trwch blewyn' yn derbyn ymchwiliad, ac yn cael eu cofnodi ac y rhoddir gwybod amdanynt i'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Sicrhau y gweithredir ar argymhellion priodol ar gyfer camau adferol mewn modd amserol
- Sicrhau bod meysydd lle mae'r Cydlynydd/Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch wedi tynnu sylw at ddiffygion/diffyg cydymffurfiaeth yn derbyn sylw priodol
- Cymryd gofal o'u hiechyd a'u diogelwch eu hunain, a diogelwch y rheini sy'n cael eu heffeithio gan yr hyn y maent yn ei wneud neu ddim yn ei wneud, a byddant bob tro'n gosod esiampl dda

Bydd **Gweithwyr** yn:

- Cymryd gofal rhesymol o'u hiechyd a'u diogelwch eu hunain, a diogelwch rhai eraill a allai gael eu heffeithio gan yr hyn a wnânt neu nad ydynt yn ei wneud
- Cydweithio gyda'u cyflogwr neu unrhyw berson arall, i'w galluogi i berfformio a chydymffurfio gydag unrhyw ddyletswyddau neu ofynion a roddir arnynt

- Cywiro unrhyw sefyllfa nad yw'n ddiogel os ydynt yn gymwys i wneud hynny, neu adrodd am sefyllfa o'r fath i'w Rheolwr neu Oruchwyliwr ar unwaith, a fydd yn sicrhau y cymerir camau priodol
- Cydymffurfio â'r holl gyfarwyddiadau iechyd a diogelwch a mynychu hyfforddiant iechyd a diogelwch fel y nodir gan eu rheolwr
- Rhoi gwybod i'w rheolwr am unrhyw wendidau mewn mesurau gwarchodol, offer / cyfleusterau sydd wedi difrodi ac am bryderon iechyd a diogelwch i'r rheolwr gwasanaeth neu'r goruchwyliwr ar unwaith
- Peidio â chamddefnyddio neu ymyrryd ag unrhyw beth a ddarperir ar gyfer iechyd a diogelwch
- Defnyddio peiriannau, offer, sylweddau ac unrhyw ddyfais ddiogelwch yn unol â'u hyfforddiant neu gyfarwyddyd a chan gydymffurfio â'r gyfraith
- Gwisgo a defnyddio offer gwarchod personol priodol (PPE) yn y ffordd a gytunwyd, pan ofynnir neu cyfarwyddir iddynt wneud hynny
- Adrodd am bob damwain, digwyddiad, digwyddiad peryglus ac achos 'trwch blewyn' i'r Rheolwr Gwasanaeth heb oedi
- Cefnogi'r rheolwr gwasanaeth i reoli iechyd a diogelwch

## 3.0 <u>Trefniadau ar gyfer Iechyd a Diogelwch</u>

Mae'r adran hon o'r Polisi Iechyd a Diogelwch yn cyfeirio at drefniadau rheoli iechyd a diogelwch trwy'r Cyngor i gyd. Nid yw'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y trefniadau rheoli iechyd a diogelwch penodol ym mhob maes gwasanaeth.

Bydd Polisïau Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, Ysgol a Gwasanaeth yn cynnwys trefniadau rheoli a gweithdrefnau ychwanegol, a manylion cyswllt y bobl sy'n gyfrifol am reoli iechyd a diogelwch.

## 3.1 <u>Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch</u>

Mae'n hanfodol darparu hyfforddiant iechyd a diogelwch o ansawdd uchel i'r holl grwpiau galwedigaethol er mwyn sicrhau bod gweithwyr yn gallu aros yn ddiogel ac yn rhydd o salwch sy'n gysylltiedig â'r gwaith ac anafiadau tra maent yn y gwaith.

Mae'n rhaid i reolwyr gwasanaeth a Phrif Athrawon adnabod anghenion hyfforddiant iechyd a diogelwch y gweithwyr, er mwyn iddynt allu gwneud eu gwaith mewn modd diogel. Mae gwybodaeth o asesiadau risg, archwiliadau iechyd a diogelwch, arolygon a chanllawiau iechyd a diogelwch oll yn ddefnyddiol wrth alluogi rheolwyr i adnabod yr hyfforddiant sy'n addas ac yn ddigonol ar gyfer y gweithle a'r gwasanaeth arbennig.

Dylid darparu'r hyfforddiant yn ystod cyfnod cynefino gweithwyr newydd a phan gaiff deddfwriaeth, systemau, offer, sylweddau neu brosesau newydd eu cyflwyno.

Mae'n rhaid i'r hyfforddiant gael ei ddarparu gan bobl sy'n gymwys yn y ddisgyblaeth berthnasol ac mewn modd sy'n ddealladwy i'r rheini sy'n derbyn yr hyfforddiant.

Mae'n rhaid i benaethiaid gwasanaeth a Phrif Athrawon gadw cofnodion manwl-gywir o'r hyfforddiant mae gweithwyr yn ei dderbyn, a rhaid iddynt sicrhau bod sesiynau gloywi yn cael eu darparu mewn da bryd.

Mae'n rhaid i weithwyr fynychu hyfforddiant sydd wedi'i adnabod fel hyfforddiant angenrheidiol at ddibenion iechyd a diogelwch.

**3.2 Monitro ac Archwilio**

Dylai pob gwasanaeth ac ysgol fonitro perfformiad iechyd a diogelwch eu gwahanol swyddogaethau, i sicrhau bod systemau rheoli iechyd a diogelwch yn gweithio'n effeithiol.

I gynorthwyo gyda monitro perfformiad iechyd a diogelwch, dylai Penaethiaid Gwasanaeth, Prif Athrawon, Rheolwyr a Chydlynydd Iechyd a Diogelwch y Gwasanaeth ddefnyddio systemau rheoli priodol.

Mae'r rhain yn cynnwys:

a) **Arolygon Iechyd a Diogelwch** – Rheolwyr, Prif Athrawon, Llywodraethwyr a goruchwylwyr yn cynnal arolygon iechyd a diogelwch cyfleuster/gwasanaeth fel bo'n briodol
b) **Arolygon ac Archwiliadau Iechyd a Diogelwch** – Y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn arolygon ac archwiliadau rheoli iechyd a diogelwch mewn meysydd gwasanaeth ar raglen dreigl
c) **Monitro Adroddiadau ac Ystadegau am Ddamweiniau** – Bydd adroddiadau am ddamweiniau yn cael eu monitro i ganfod patrymau ac arferion anniogel er mwyn gallu datblygu gweithdrefnau gwell a diwygiedig. Dylai Penaethiaid Gwasanaeth a Phrif Athrawon adolygu'r adroddiadau hyn o leiaf bob chwarter. Bydd yr adolygiad ystadegol hwn yn cael ei wneud gan y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Bydd y Prif Weithredwr yn adolygu ystadegau damweiniau ar gyfer y Cyngor cyfan yn flynyddol.
d) **Uwch-gyfeirio Achosion o Ddiffyg Cydymffurfio neu Anwybyddu Polisïau a Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch** – os bydd enghreifftiau o anwybyddu Polisïau, Gweithdrefnau a Chanllawiau Iechyd a Diogelwch neu ddiffyg cydymffurfiaeth llwyr â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch, bydd Cydlynydd Iechyd a Diogelwch y Gwasanaeth neu'r Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, yn y lle cyntaf, yn eu cyfeirio'n uwch er mwyn i Reolwyr roi sylw i'r achosion a gweithredu arnynt. Os yw'r achos yn parhau, caiff ei ddwyn i sylw'r Pennaeth Gwasanaeth neu'r Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol am sylw a chamau gweithredu. Petai'r achos dal yn parhau wedi hynny, gallai'r Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch ddod ag enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfiaeth/'anwybyddu' i sylw'r Prif Weithredwr a/neu Arweinydd y Cyngor.

**3.4 Adrodd ac Ymchwilio i Ddamweiniau, Digwyddiadau ac Achosion 'Trwch Blewyn'**

Mae'n rhaid adrodd am unwaith am bob damwain, digwyddiad treisgar, digwyddiad peryglus neu ddigwyddiad 'trwch blewyn' sy'n ymwneud ag eiddo neu weithwyr Cyngor Sir Ynys Môn neu bobl eraill sy'n cael eu heffeithio gan weithrediadau'r Cyngor.

Dylai Rheolwyr Gwasanaeth a Phrif Athrawon lenwi ffurflen adrodd am ddamwain (ADIR1) Cyngor Sir Ynys Môn sydd ar gael ar Monitor, neu trwy gysylltu â'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, a'i chyflwyno i'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol trwy gyfeiriad e-bost canolog y tîm – healthandsafety@anglesey.gov.uk

Pan fo modd adrodd am ddamweiniau o dan y Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR), bydd y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn sicrhau bod yr adroddiad angenrheidiol yn cael ei wneud i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Mae'n rhaid i Reolwyr Gwasanaeth a Phrif Athrawon ymchwilio i'r amgylchiadau sy'n gysylltiedig â phob damwain, digwyddiad treisgar, digwyddiad peryglus neu ddigwyddiad

‘trwch blewyn’. Pan fo angen, gall Rheolwyr a Phrif Athrawon ddibynnu ar gymorth gan y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol .

Pan fo’n bosib, dylid pennu beth oedd achos y ddamwain neu’r digwyddiad a dylid gwneud argymhellion ynghylch dulliau o atal yr un peth rhag digwydd eto.

**3.5 Gweithdrefnau Tân ac Argyfwng**

Bydd gan bob man gwaith ac ysgol yng Nghyngor Sir Ynys Môn weithdrefn ac asesiad risg ysgrifenedig ar gyfer delio â damweiniau, tân, bygythiadau bom ac argyfyngau eraill. Mae’n rhaid i bob gweithiwr fod yn ymwybodol o’r gweithdrefnau hyn ac o’u rôl hwy wrth eu gweithredu.

Mae’n rhaid i’r holl Swyddogion sy’n gyfrifol am fannau gwaith e.e. Prif Athro mewn ysgol neu Reolwr Cartref Gofal, sicrhau bod trefniadau digonol mewn lle i sicrhau bod y gweithdrefnau gwagio mewn argyfwng yn gweithio’n effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys adnabod a hyfforddi digon o Farsialyddion Gwagio, a chadw Cynlluniau Personol Gwagio mewn Argyfwng ar gyfer gweithwyr, defnyddwyr gwasanaeth preswyl neu ddisgyblion sy’n cael anhawster gadael yr adeilad.

Mae’n rhaid i’r holl weithwyr fod yn ymwybodol o’r gweithdrefnau tân a gwagio ar gyfer eu man gwaith ac mae’n rhaid iddynt gymryd rhan mewn o leiaf un ymarfer gwagio mewn tân bob blwyddyn.

Bydd Llyfr Log Rhagofalon Tân yn cael ei gadw ym mhob adeilad man gwaith ac ysgol. Bydd yn cynnwys cofnodion o arolygon, profion, canlyniadau ymarferion tân a chamau adferol. Os caiff unrhyw ddiffoddydd tân ei ddefnyddio, mae’n rhaid adrodd am hynny ar unwaith wrth y rheolwr gwasanaeth perthnasol, goruchwyliwr neu Brif Athro. Dylai’r rheolwr gwasanaeth sicrhau bod y diffoddydd tân yn cael ei ail-lenwi neu ei amnewid cyn gynted â phosib.

Bydd trefniadau tân ac argyfwng manwl yn cael eu harddangos mewn safle amlwg ym mhob man gwaith ac ysgol.

**3.6 Iechyd a Diogelwch Adeiladau**

Mae gan yr holl fannau gwaith ac ysgolion dan Gyngor Sir Ynys Môn asesiadau risg, cynlluniau rheoli a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer delio gyda pheryglon asbestos, legionella a diogelwch tân. Mae’n rhaid i’r holl weithwyr fod yn ymwybodol o’r gweithdrefnau hyn ac o’u rôl wrth eu gweithredu.

Mae’n rhaid i bob gweithiwr fod yn ymwybodol o bolisi Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer rheoli asbestos a legionella. Mae’r polisïau hyn i’w gweld ar Monitor, Four Policy ac Addysg Môn.

Mae’r holl Swyddogion sy’n gyfrifol am fannau gwaith yn gyfrifol am ddiogelwch eu hadeilad dynodedig gan gynnwys rheoli peryglon yn ddiogel megis asbestos, legionella a diogelwch tân ac ati.

**3.7 Cyfathrebu ac Ymgynghori gyda Gweithwyr a Chydlynwyr Iechyd a Diogelwch Gweithwyr / Undebau Llafur**

Ystyrir bod cyfathrebu ac ymgynghori effeithiol rhwng rheolwyr a staff yn ffactor allweddol wrth sicrhau iechyd, diogelwch a lles yr holl weithwyr.

I sicrhau bod ymgynghori ystyrlon yn digwydd ar faterion iechyd a diogelwch mae'n rhaid i bob Pennaeth Gwasanaeth sefydlu a chynnal 'Grŵp Cynllunio Argyfwng Iechyd a Diogelwch' Lefel Gwasanaeth. Dylai'r grŵp gynnwys rheolwyr, cynrychiolwyr diogelwch cydnabyddedig o'r undebau llafur a/neu Gydlynwyr Iechyd a Diogelwch Gweithwyr etholedig, a chynrychiolydd o'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ac aelod o Dîm Cynllunio Argyfwng Gogledd Cymru. Dylai'r Grŵp Iechyd a Diogelwch gael ei gadeirio gan y Pennaeth Gwasanaeth a dylai'r cyfarfodydd gael eu cynnal bob chwarter. Disgwylir y bydd is-grwpiau'n cael eu ffurfio efallai ac y bydd angen i'r rhain gyfarfod yn amlach er mwyn cwblhau tasgau penodol.

Yn ogystal, bydd Grŵp Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cael ei sefydlu. Pwrpas y Grŵp Iechyd a Diogelwch corfforaethol (GIDC) yw cefnogi a hysbysu Gwasanaethau ar ddatblygu, monitro a gwella safonau iechyd a diogelwch a chynorthwyo i gydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Gwneir hyn drwy:

- Fonitro cynnydd mewn perthynas â'r Strategaeth Iechyd a Diogelwch a Chynlluniau Gweithredu
- Ystyried canlyniadau gwaith monitro ac archwiliadau Iechyd a Diogelwch
- Ystyried ystadegau a thueddiadau o ran damweiniau a heintiau y mae'n rhaid adrodd arnynt
- Adolygu adroddiadau/gwybodaeth a gafwyd o ffynonellau mewnol ac allanol
- Adolygu effeithiolrwydd hyfforddiant Iechyd a Diogelwch
- Sicrhau bod materion Iechyd a Diogelwch yn cael eu cyfathrebu i weithwyr/contractwyr

Bydd aelodaeth y grŵp yn cynnwys yr aelodau craidd isod:

- Prif Weithredwr (Cadeirydd), Prif Weithredwyr Cynorthwyol i ddirprwyo yn ôl yr angen
- Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch yn y Gwasanaethau
- Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol
- Rheolwr Risg ac Yswiriant
- Cynrychiolaeth o AD
- Cynrychiolydd Undeb